





ISBN digidol 978 1 80038 056 1
© Hawlfraint y Goron Ionawr 2020
WG39993

Cynnwys

Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru	4
Gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm pob ysgol	5
Fframwaith Cwricwlwm i Gymru	5
Dull integredig o ddysgu ac addysgu	6
Cynllunio cwricwlwm ysgol	6
Cynnydd ac asesu wrth galon y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm	8
Canllawiau Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig	10
Cyflwyniad	10
Diben	10
I bwy y mae'r Fframwaith hwn yn berthnasol?	11
Gofynion deddfwriaethol arfaethedig – gofynion cwricwlwm	11
Gofynion ehangach	18
Cynllunio eich cwricwlwm	21
Cyflwyniad	21
Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm	23
Datblygu cynllun eich cwricwlwm	34
Datblygu methodoleg ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm	38
Datblygu methodoleg ar gyfer cynllunio cwricwlwm: Ystyriaethau gweithredu ac ymarferol	47
Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol	53
Cyflwyniad	53
Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig	55
Egwyddorion cynnydd	57
Disgrifiadau dysgu	59
Cynllunio eich cwricwlwm	64
Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles	73
Cyflwyniad	73
Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig	74
Egwyddorion cynnydd	76
Disgrifiadau dysgu	78
Cynllunio eich cwricwlwm	87
Maes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau	100
Cyflwyniad	100
Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig	102
Egwyddorion cynnydd	105
Disgrifiadau dysgu	107

Cynllunio eich cwricwlwm	121
Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	131
Cyflwyniad	131
Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig	132
Egwyddorion cynnydd	134
Disgrifiadau dysgu	137
Cynllunio eich cwricwlwm	161
Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd	170
Cyflwyniad	170
Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig	172
Egwyddorion cynnydd	174
Disgrifiadau dysgu	176
Cynllunio eich cwricwlwm	189
Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg	197
Cyflwyniad	197
Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig	198
Egwyddorion cynnydd	200
Disgrifiadau dysgu	201
Cynllunio eich cwricwlwm	215
Cefnogi cynnydd dysgwyr: Canllawiau asesu	226
Cyflwyniad	226
Ein hegwyddorion allweddol	228
Diben asesu	229
Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses asesu?	231
Trefniadau gwerthuso a gwella ac asesu	234
Cynllunio ar gyfer asesu o fewn cwricwlwm ysgol	235
Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn ac ar draws ysgolion	238
Cefnogi taith dysgwyr ar hyd y continwmm 3 i 16	241
Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr	242
Geirfa	244

Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru

Nod canllawiau Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol i ddablygu ei chwricwlwm ei hun, gan alluogi ei dysgwyr i ddatblygu tuag at [pedwar diben](#) y cwricwlwm – y man cychwyn a'r dehead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Bydd y canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir, unedau cyfeirio disgyblion (UCD) a'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol (DAHY), gan eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn amlinellu:

- [gofynion cwricwlwm](#) arfaethedig a nodir mewn deddfwriaeth ar gyfer pob dysgwr 3 i 16, er mwyn sicrhau bod yr un dysgu craidd yn digwydd ym mhob [ysgol](#), a sicrhau dull cyson ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru
- canllawiau i ysgolion eu defnyddio wrth ddatblygu eu cwricwla
- disgwyliadau o ran trefniadau asesu i gefnogi cynnydd y dysgwyr.

Mae'n cynnwys y canlynol.

- Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru.
- [Canllaw ar gyfer deddfwriaeth – amlinelliad o'r ddeddfwriaeth arfaethedig.](#)
- Cynllunio eich cwricwlwm – canllaw cyffredinol ar ddatblygu cwricwlwm ar draws pob maes dysgu a phrofiad [Maes/Meysydd].
- Cyflwyniad i bob maes dysgu a phrofiad.
- Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – y 'syniadau mawrion' ac egwyddorion allweddol ymhob Maes.
- Egwyddorion cynnydd – sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd ar hyd eu dysgu ar draws y cwricwlwm.
- Disgrifiadau dysgu – sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig.
- Cynllunio eich cwricwlwm – egwyddorion ar gyfer pob Maes – mwy o arweiniad Maes-benodol ar ddatblygu cwricwlwm.
- [Cefnogi cynnydd dysgwyr – canllawiau asesu.](#)

Bydd Bil Cwricwlwm ac Asesu yn cael ei argymhell ar gyfer cael ei gyflwyno yn y Senedd yn 2020. Er mwyn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm, byddwn yn cyhoeddi canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ddogfen hon yn fersiwn gynnar o'r canllaw hwnnw, a'r diben yw rhoi cymorth i ysgolion ddechrau meddwl am gynllunio eu cwricwlwm a'r trefniadau asesu sy'n ei gefnogi

Gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm pob ysgol

Gwella addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol. Does dim yn fwy hanfodol na bod pob plentyn a pherson ifanc yn caffael addysg ac yn cael mynediad cyflawn at y **profiadau**, yr **wybodaeth** a'r **sgiliau** y mae eu hangen arnyn nhw ym myd gwaith, ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn datgan yn glir beth sy'n bwysig wrth ddarparu addysg eang a chytbwys. Gweledigaeth ar y cyd yw'r **pedwar diben**, a dyma'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Wrth wireddu'r rhain, rydym yn gosod disgwyliadau uchel i bawb, yn hyrwyddo lles personol a chenedlaethol, yn herio anwybodaeth a ffug-wybodaeth, ac yn annog dysgwyr i chwarae eu rhan fel dinasyddion effro a beirniadol.

Cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam ydyn ni'n ei addysgu.

Dylai datblygu cwricwlwm fod wrth wraidd ymdrechion athrawon, ysgolion a'r cenedl i godi safonau i bawb, mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

Bydd y datblygu hwn hefyd yn cyfrannu tuag at ein nodau fel cenedl, sy'n cael eu hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn fodd pwysig o sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhan ganolog o brofiadau dysgu ein plant a'n pobl ifanc, ac o sicrhau eu bod yn deall eu hawliau.

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru

Mae canllawiau Gwricwlwm i Gymru yn rhan o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru (Fframwaith). Mae'r Fframwaith hwn yn sy'n cael ei bennu'n genedlaethol ac mae'n cynnwys gofynion i gwricwlwm, a fydd yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth, ynghyd ag ystod o ganllawiau ategol.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru, a'r canllawiau arall a gyhoeddir law yn llaw ag ef, yn ffrwyth cyd-awduro. Mae wedi cael ei ddatblygu yng Nghymru gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr, gan ddwyn ynghyd arbenigedd addysgol ac ymchwil a thystiolaeth ehangach.

Mae wedi cael ei gyhoeddi'n bennaf i fod o gymorth i ysgolion ddechrau cynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gofynion cyfreithiol arfaethedig, canllaw ar sut i ddatblygu cwricwlwm ysgol, ac esboniad o ddibenion ac egwyddorion asesu. Dylai asesu fod yn greiddiol i gynllunio cwricwlwm. Ni fydd gofyn i'r lleoliadau nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion (UCD) a'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol (DAHY) hyn gynllunio cwricwlwm yn yr un ffordd ag ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig a gynhelir, a bydd canllaw pellach a manylach yn cael ei gyhoeddi yn 2021 ar gyfer y lleoliadau hyn er mwyn eu cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Fframwaith.

Canllaw cychwynnol yw canllawiau Cwricwlwm i Gymru, ac os derbynir y Bil gan y Senedd bydd yn cael ei adolygu i adlewyrchu unrhyw newid.

Beth sy'n wahanol?

Dull integredig o ddysgu ac addysgu

Dyluniwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru i fod o gymorth i athrawon ddatblygu dull mwy integredig o ddysgu. Mae'r chwe Maes yn dwyn disgyblaethau cyfarwydd ynghyd, ac yn annog cysylltiadau ystyrlon a chryf ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Bydd y disgyblaethau unigol hynny'n parhau i chwarae rhan bwysig, yn arbennig wrth i ddysgwyr ddangos cynnydd a dechrau arbenigo. Yn ogystal â chydweithio mae'r canllaw yn annog dysgu ac addysgu traws-disgyblaethol, a hynny o fewn ac ar draws y Meysydd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i fagu cysylltiadau ar draws eu dysgu ac i gyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau.

Mae'r Fframwaith hwn yn cynnwys 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r rhain yn sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, gan fod yn rhaid i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r holl ddatganiadau. Bydd y broses o archwilio ac ailymweld â'r datganiadau hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth gynyddol ddyfnach ar hyd y continwrm dysgu ac i ddangos cynnydd ar y daith tuag at ddealltwriaeth fwy soffistigedig o'r wybodaeth, syniadau a'r egwyddorion allweddol ym mhob Maes.

Bydd y ddealltwriaeth fwy soffistigedig hon yn galluogi dysgwyr i werthfawrogi sut mae eu dysgu'n cyfrannu tuag at y syniadau hyn a pham mae hyn yn bwysig, yn hytrach nag adalw ffeithiau digyswllt heb ddeall y cyd-destun. Dylid cefnogi'r cynnydd hwn gydag amrywiaeth o ddulliau asesu sy'n galluogi'r dysgwyr ac athrawon i ddeall ble mae'r dysgwyr wedi cyrraedd, a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud nesaf.

Nid yw Fframwaith yn gofyn bod lleoliadau ac ysgolion yn datblygu amserlen sydd wedi'i strwythuro'n benodol yn ôl y Meysydd, na chwaith drefnu'r lleoliad/ysgol na'r staffio ar sail hyn.

Cynllunio cwricwlwm ysgol

Nodwedd arbennig o Fframwaith yw ei fod yn gofyn bod ysgolion yn cynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain. Ar ei ben ei hun, nid yw'n rhaglen 'oddi ar y silff' ar gyfer cyflawni. Mae ein dull newydd yn cydnabod:

- rôl arweinwyr wrth alluogi dysgu ac addysgu o safon uchel. Mae sefydlu system addysg sy'n perfformio'n dda trwy ddysgu ac addysgu o safon uchel yn dibynnu ar ddatblygu'i chapasiti proffesiynol, datblygu arweinyddiaeth leol, cyfrifoldeb lleol a'r gallu i wneud penderfyniadau yn lleol

- o fewn fframwaith cenedlaethol, mai ysgolion ac ymarferwyr yw'r rhai sydd yn y safle gorau i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion eu dysgwyr penodol nhw eu hunain, gan gynnwys pa destunau a gweithgareddau fyddai orau i gefnogi eu dysgu
- pwysigrwydd dysgu ystyrlon: Nid yw cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar gynnwys yn gwarantu dysgu ystyrlon, dim ond bod rhai testunau yn cael eu dysgu i amrywiol raddau. Yn lle hyn, mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn anelu at fynegi pa gysyniadau a hanfodion dysgu ddylai fod yn sail i ystod o wahanol destunau, gweithgareddau dysgu a chaffael gwybodaeh
- yr angen am arloesedd a chreadigrwydd: Ymarferwyr sy'n dewis cynnwys, gan eu galluogi i ddefnyddio'u sgiliau proffesiynol i sicrhau gwell dysgu a gwell deilliannau ar gyfer eu dysgwyr
- cyfleoedd i athrawon wneud cysylltiadau cryfach rhwng Meysydd a disgyblaethau: Bydd gan ymarferwyr y rhyddid i ddefnyddio testunau a gweithgareddau i gyfuno dysgu ystyrlon o wahanol Feysydd, disgyblaethau a chysyniadau.

Am y rhesymau hyn, nid yw'r Fframwaith yn ceisio rhagnodi rhestr lawn o destunau na gweithgareddau penodol. Nid yw hyn gyfystyr â dweud nad yw'r testunau a gweithgareddau penodol yn bwysig. Yn lle hyn, mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn gosod yr hanfodion dysgu a ddylai fod yn sail i'r testunau a'r gweithgareddau hyn. Yr ysgolion a'r ymarferwyr, gan dynnu ar ganllawiau ac adnoddau, fydd yn dewis pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol fydd yn cefnogi eu dysgwyr penodol i wireddu'r [pedwar diben](#). Mae hynny wedi'i osod o fewn y cysondeb a ddarperir gan y fframwaith cenedlaethol. Mae'r adran [Cynllunio eich cwricwlwm](#) yn rhoi arweiniad a chefnogaeth wrth ddatblygu cwricwlwm, gan gynnig egwyddorion allweddol sy'n rhoi'r un man cychwyn i bob ysgol.

Gall lleoliadau eraill ddefnyddio hwn fel man cychwyn os dymunir, serch hynny bydd gofyn i Weinidogion Cymru:

- ddarparu cwricwlwm fydd yn gallu cael ei fabwysiadu gan leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Pe bai lleoliad eisiau creu ei gwricwlwm ei hun, byddai angen i'r cwricwlwm hwnnw gwrdd â'r gofynion a amlinellir yn y ddeddfwriaeth, a gellid bod yn defnyddio canllawiau Cwricwlwm i Gymru er mwyn llywio'r dull o greu
- gyhoeddi canllaw ar gyfer UCD, a'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu DAHY er mwyn eu cefnogi wrth ddarparu dysgu ac addysgu sy'n cydfynd â'r Fframwaith a chyflawni eu cyfrifoldebau penodol yn y ddeddfwriaeth.

Cynnydd ac asesu wrth galon y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm

Nodwedd arbennig arall o'r fframwaith yw'r pwyslais a roddir ar gynnydd dysgwyr. Cafodd canllawiau Cwricwlwm i Gymru ei lywio gan dystiolaeth ryngwladol ynghylch yr hyn a olygir gan gynnydd wrth ddysgu.

[Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig](#) yw'r sail i gynnydd y dysgwyr. Trwy archwilio'r syniadau a'r egwyddorion allweddol sy'n cael eu cynnwys yn y datganiadau hyn y byddan nhw'n datblygu eu dysgu. Bydd angen i ymarferwyr gynllunio dysgu sy'n cefnogi deall a chymhwyso'r datganiadau mewn ffordd gynyddol soffistigedig. Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cynnig lled a dyfnder yn y cwricwlwm ynghyd â lefel o gysondeb o ran cynllunio cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion. Dyma pam y byddan nhw'n cael eu cyfuno mewn datganiad gorfodol o'r hyn sy'n bwysig mewn dysgu cyn gynted ag y bydd y Bil Cwricwlwm ac Asesu yn dod yn ddeddf.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn disgrifio [egwyddorion cynnydd](#) ar gyfer y cwricwlwm fel cyfanwaith ac ar gyfer pob Maes unigol. Mae'r rhain yn mynegi'r ffyrdd y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu dysgu a chyfrannu at y [pedwar diben](#). Caiff rhain eu hymgorffori mewn cod statudol gyn gynted ag y daw'r Bil Cwricwlwm ac Asesu yn ddeddf. Golyga hyn fod yn rhaid i gynnydd fod yn rhan greiddiol o ddysgu ac addysgu, a dylai fod yn sail i feddylfryd ysgolion wrth gynllunio cwricwlwm yr ysgol.

Caiff cynnydd ei gefnogi ymhellach gan y [disgrifiadau dysgu](#) sy'n cynnig arweiniad ar sut y dylai dysgwyr ddangos cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig wrth iddyn nhw deithio drwy'r continwwm dysgu. Maen nhw wedi'u trefnu yn bum cam cynnydd sy'n cynnwys cyfeirbwyntiau ar gyfer cyflymder y cynnydd. Caiff y disgwyliadau hyn eu cyfleu o safbwynt y dysgwyr, ac maen nhw wedi'u gosod o fewn ffram eang fel eu bod yn gallu cynnal dysgu dros gyfres o flynyddoedd. Dydyn nhw ddim wedi cael eu cynllunio fel tasgau, gweithgareddau na meini prawf asesu i'w cymryd ar wahân. Er bod y continwwm dysgu yr un peth ar gyfer pob dysgwr, gall cyflymder y cynnydd amrywio. O ganlyniad, dim ond yn fras y mae'r camau cynnydd yn cyfateb i oedran. Yn fras maen nhw'n cyfateb i ddisgwyliadau ar gyfer oedrannau 5, 8, 11, 14 ac 16.

Gyda'i gilydd, bwriedir i'r egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau dysgu arwain y broses o ddatblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu cynnydd priodol. Gellir wedyn nodi cynnydd dysgwyr trwy asesu, gan alluogi athrawon i gynllunio dysgu ac addysgu.

Dylai cynnydd gael ei gefnogi drwy ddysgu 'dwfn'. Mae pob disgrifiad dysgu wedi'i gynllunio i gefnogi dyfnder a soffistigeiddrwydd cynyddol yn y dysgu dros gyfnod o amser. Bydd hyn yn rhoi lle i amrywiaeth o ran gwyro, ailadrodd a myfyrio wrth i feddwl y dysgwyr ddatblygu dros amser i lefel newydd o soffistigeiddrwydd. Maen nhw hefyd wedi cael eu cynllunio i gael eu hystyried trwy ystod o gyd-destunau.

Trwy brofiadau, dylai dysgu gyfuno ystod lydan o wybodaeth a sgiliau gan alluogi'r dysgwyr i'w defnyddio a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd a heriol. Asesu yw'r allwedd i gefnogi dysgu 'dwfn', a dylai gael ei ddefnyddio i nodi a oes angen i ddysgwyr atgyfnerthu eu dysgu, a oes angen cymorth pellach a beth yw'r camau nesaf ar gyfer cynnydd dysgwyr.

Mae asesu'n greiddiol i gynllunio cwricwlwm. Ei bwrpas cyffredinol yw cefnogi'r holl ddysgwyr i wneud cynnydd. Dylai asesu ganolbwyntio o hyd ar wthio'r dysgu yn ei flaen trwy ddeall y dysgu sydd eisoes wedi digwydd, gan ddefnyddio hyn i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu herio a'u cefogi'n briodol yn ôl eu hanghenion dysgu unigol. Mae'n gofyn am bartneriaeth rhwng pob un sy'n gyfrifol, gan gynnwys y dysgwr. Dylai adnabod anghenion dysgu unigol a chefnidir yr holl ddysgwyr, ac annog ystyriaeth holistaidd o'u datblygiad. Felly dylai'r ymarferwyr a'r dysgwyr ddod i ddeall sut mae'r dysgwyr yn dysgu, beth yw eu hagwedd at ddysgu a'u dull o ddysgu er mwyn eu cefnogi i barhau i wneud cynnydd ac i feithrin eu hymrwymiad tuag at eu dysgu eu hunain.

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig

Cyflwyniad

Cynigir i Fil Cwricwlwm ac Asesu (Bil) gael ei gyflwyno yn y Senedd yn 2020. Er mwyn helpu i weithredu'r Bil hwnnw, cynigiwn gyhoeddi cyfres o ganllawiau i gefnogi ymarferwyr. Bydd hyn yn cynnwys crynodeb o'r ddeddfwriaeth a fydd yn sail i'r cwricwlwm y bydd ysgolion yn ei ddatblygu.

Felly, dyma fersiwn gynnar o'r crynodeb hwnnw. Nid yw'n hollgynhwysfawr ac ar hyn o bryd mae'n amlygu'r cynigion allweddol yn unig.

Os caiff y Bil ei basio gan y Senedd, bydd y crynodeb hwn a gweddill y canllawiau yn cael eu hadolygu i adlewyrchu unrhyw newidiadau.

Diben

Yr elfennau sy'n rhan o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru (Fframwaith) yw gofynion cwricwlwm, a nodir mewn deddfwriaeth, a'r canllawiau ategol yr ydym yn eu cyhoeddi.

Ar hyn o bryd, diben y crynodeb hwn a gweddill y canllawiau yw helpu ysgolion i ddechrau meddwl am gynllunio eu cwricwlwm a'r trefniadau asesu i'w gefnogi. Mae hefyd yn ceisio cynorthwyo lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a phersonau sy'n comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) mewn lleoliadau eraill i ddeall mwy am y Fframwaith.

Mae'r canllawiau a'r crynodeb hwn yn crynhoi'r dyletswyddau y cynigiwn y bydd y Bil yn eu gosod ar benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion.

Bydd nifer o elfennau o'r fframwaith cwricwlwm newydd yn ymwneud â chwricwlwm yn orfodol a bydd yn rhaid cydymffurfio â nhw. Gelwir yr elfennau hyn yn [ofynion cwricwlwm](#). Mae'r crynodeb hwn yn esbonio beth yw'r rhain, a sut y bydd angen eu defnyddio wrth gynllunio cwricwlwm.

Y tu hwnt i ofynion cwricwlwm, bydd gan ysgolion ddisgresiwn o ran sut y maen nhw'n cynllunio eu cwricwlwm. Nod y crynodeb hwn, a'r canllawiau ehangach, yw cynorthwyo ysgolion i baratoi ar gyfer arfer y disgresiwn hwnnw.

Mae'r crynodeb hwn hefyd yn crynhoi'r gofynion a roddir ar ddarparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir, ac ar unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol fel comisiynwyr darpariaeth EOTAS. Ni fydd arnyn nhw yr un gofynion ag sydd ar ysgolion i gynllunio cwricwlwm. Caiff canllawiau penodol, ar wahân, eu darparu ar gyfer y lleoliadau hyn yn 2021.

Mae'r crynodeb hwn hefyd yn tynnu sylw at y gofynion allweddol sydd i gael eu rhoi ar awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru.

Os caiff y Bil ei basio, bydd y crynodeb hwn yn cael ei ddiweddarau a'i ehangu i helpu i gynorthwyo'r broses o gynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm ysgol neu gwricwlwm perthnasol arall. Caiff canllawiau ychwanegol hefyd eu cyhoeddi ynghylch sut y gall ysgolion, darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a phersonau sy'n trefnu darpariaeth EOTAS, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru arfer eu dyletswyddau a'u pwerau mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu.

I bwy y mae'r Fframwaith hwn yn berthnasol?

Bydd y Bil yn creu gofynion cwricwlwm newydd ar gyfer pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed mewn addysg feithrin a gynhelir neu a ariennir nas cynhelir. Bydd yn disodli'r cwricwlwm cenedlaethol cyfredol a'r cwricwlwm sylfaenol.

Bydd y ddeddfwriaeth yn gosod dyletswyddau ar, ac yn rhoi pwerau i, benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, darparwyr addysg a ariennir nas cynhelir, pobl sy'n trefnu EOTAS, y person sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. Rhaid cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. O ran y pwerau, maen nhw'n rhoi disgresiwn o ran a ddylid eu defnyddio, ac os felly, sut y dylid eu defnyddio.

Gofynion deddfwriaethol arfaethedig – gofynion cwricwlwm

Cynigiwn nodi cysyniadau craidd a fydd yn gymwys mewn perthynas â phob cwricwlwm ac unrhyw ddysgu y mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar ei gyfer.

Y pedwar diben

Pwrpas cwricwlwm yw galluogi dysgwyr i ddatblygu fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Y bwriad yw y bydd galluogi dysgwyr i wneud cynnydd mewn perthynas â'r dibenion hyn yn llywio'r holl benderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio a gweithredu cwricwlwm a threfniadau asesu ysgol. Hyn hefyd fydd y sail ar gyfer llywio'r holl benderfyniadau ar dysgu ac addysgu ar gyfer dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion a'r trefniadau a wneir ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn EOTAS mewn lleoliadau eraill.

Gofynion cyffredinol

Rhaid i bob ysgol a gynhelir a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir fabwysiadu cwricwlwm. Rhaid i gwricwlwm a fabwysiedir fodloni'r gofynion cyffredinol canlynol.

- Galluogi dysgwyr i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben.
- Bod yn eang a chytbwys.
- Bod yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau.
- Darparu ar gyfer dilyniant priodol i ddysgwyr a chynnwys ystod o ddarpariaeth i sicrhau hyn (yn gysylltiedig ag oedrannau, galluoedd a doniau).

Y meysydd dysgu a phrofiad

Rhaid i'r chwe maes dysgu a phrofiad canlynol (Maes/Meysydd) gael eu hadlewyrchu mewn cwricwlwm a fabwysiedir.

- Y Celfyddydau Mynegiannol.
- Iechyd a Lles.
- Y Dyniaethau.
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Mathemateg a Rhifedd.
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i ychwanegu a dileu Meysydd.

Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion ac EOTAS sicrhau dysgu ac addysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ac yn y Meysydd eraill i'r graddau y mae hynny'n briodol i'r dysgwr unigol.

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod yn nodi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae'n rhaid i gwricwlwm pob ysgol a phob lleoliad a ariennir nas cynhelir gynnwys yr holl elfennau a nodir yng nghod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Elfennau gorfodol cwricwlwm

Bydd y canlynol yn elfennau gorfodol o gwricwlwm.

- Crefydd, gwerthoedd a moeseg.
- Addysg cydberthynas a rhywioldeb.
- Cymraeg.
- Saesneg.

Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i ychwanegu a dileu elfennau gorfodol cwricwlwm.

O ran Saesneg, bydd gan benaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir hawl i ddewis a ydyn nhw'n cyflwyno Saesneg i ddysgwyr hyd at 7 oed, ac i ba raddau y maen nhw'n gwneud hynny. Mae hyn er mwyn cynorthwyo dysgwyr i fod yn rhugl yn y Gymraeg.

Sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol

Bydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a rhaid eu hymgorffori mewn unrhyw gwricwlwm a fabwysiedir.

Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i ychwanegu a dileu sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol.

Bydd gofyn i unedau cyfeirio disgyblion sicrhau dysgu ac addysgu yn y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol. Bydd yn ofynnol i'r personau sy'n gyfrifol am ddarparu EOTAS sicrhau dysgu mewn perthynas â'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol i'r graddau y mae hynny'n briodol i'r dysgwr unigol.

Cod cynnydd

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod cynnydd yn nodi'r ffordd y mae'n rhaid i ddilyniant gael ei adlewyrchu mewn cwricwlwm a fabwysiedir. Bydd yn rhaid i gwricwlwm ysgol adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd a nodir yn y cod. Bydd y cod yn cynnwys yr egwyddorion cynnydd a ddatblygwyd gan brosiect [CAMAU](#) drwy ymgysylltu ag ymarferwyr ac, am nawr, gellir dod o hyd i'r cod hwn yn adrannau maes dysgu a phrofiad a 'Cynllunio eich cwricwlwm' yn y canllawiau hyn.

Bydd cyhoeddi cod cynnydd gydag elfennau gorfodol yn sicrhau cysondeb o ran yr ymagwedd tuag at cynnydd yng nghwricwla ysgolion.

Bydd hefyd yn cynorthwyo unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr EOTAS i ystyried y cwricwlwm priodol ar gyfer pob un o'u dysgwyr.

Gofynion deddfwriaethol allweddol arfaethedig ar gyfer ysgolion

Rhaid i ysgolion gynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm fel ei fod yn:

- galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffordd a ddisgrifir yn y [pedwar diben](#)
- eang a chytbwys
- addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oeddrannau, galluoedd a doniau
- darparu ar gyfer dilyniant priodol i ddysgwyr ac yn cynnwys ystod o ddarpariaeth i sicrhau hyn.

Rhaid i gwricwlwm ysgol:

- gynnwys y chwe maes dysgu a phrofiad
- cwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (fel y nodwyd yng nghod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig)
- adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd a nodir yn y cod cynnydd
- cynnwys elfennau gorfodol cwricwlwm
- cwmpasu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol.

Yn ogystal â'r uchod, rydym yn cynnig y gofynion penodol i oedran isod.

Ar gyfer dysgwyr hyd at 7 oed:

- bydd gan y pennaeth ddisgresiwn i benderfynu nad yw Saesneg yn rhan o gwricwlwm yr ysgol er mwyn galluogi dysgwyr i ddod yn rhugl yn y Gymraeg
- rhaid i bob ysgol nodi yn eu crynodeb cyhoeddedig o'u cwricwlwm eu dull o addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg hyd at 7 oed.

Ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed, rhaid i ysgol gynllunio cwricwlwm fel ei fod yn darparu, yn ogystal ag elfennau gorfodol cwricwlwm a sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol:

- ddewis i ddysgwyr yn y dysgu arall y byddan nhw'n ei wneud, ond mewn ffordd sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn dal i ymgymryd â pheth dysgu ym mhob Maes
- elfennau eraill y mae'r ysgol yn gofyn i bob dysgwr (neu rai grwpiau o ddysgwyr) eu cyflawni.

Yn ogystal:

- caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu gofynion ychwanegol y mae'n rhaid i gwricwlwm eu darparu ar gyfer yr ystod oedran 14 i 16 mewn perthynas â:
 - chysiau astudio a/neu ddysgu arall
 - isafswm y chysiau astudio y mae gan ddysgwr yr hawl i ymgymryd â nhw.

Gofynion ychwanegol

Rhaid i ysgolion gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm a fabwysiedir ganddyn nhw ac adolygu'r cwricwlwm hwnnw'n barhaus.

Rhaid i'r pennaeth weithredu'r cwricwlwm a fabwysiedir gan yr ysgol mewn ffordd sy'n:

- galluogi dysgwyr i wneud cynnydd yn y ffordd a ddisgrifir yn y [pedwar diben](#)
- addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oeddrannau, galluoedd a doniau
- cynnig cynnydd priodol i'r dysgwyr hynny.

Rhaid i'r corff llywodraethu arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei weithredu yn y ffordd hon.

Rhaid i ysgolion sicrhau bod eu cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan drefniadau asesu sy'n asesu y:

- cynnydd a wneir gan ddysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol
- camau nesaf yn nilyniant dysgwyr a'r dysgu a'r addysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.

Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r prosesau allweddol canlynol sydd eu hangen ar gyfer dilyniant effeithiol i ddysgwyr.

- Sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofawyr.
- Symud ar hyd y continwmm 3 i 16.

Os caiff y Bil ei basio, bydd yn ofynnol i ysgolion roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddir fel rhan o Fframwaith newydd wrth gynllunio, mabwysiadu a gweithredu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu.

Gofynion deddfwriaethol allweddol arfaethedig ar gyfer addysg feithrin a ariennir nas cynhelir

Bydd angen i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir fabwysiadu cwricwlwm ar gyfer eu dysgwyr.

Bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynllunio cwricwlwm ar gyfer y lleoliadau hyn. Bydd Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod y cwricwlwm hwn ar gael yn 2021 ac yn cynnwys y sector yn y broses o'i ddatblygu. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru barhau i adolygu'r cwricwlwm hwn a gwneud unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol. Gall lleoliadau fabwysiadu cwricwlwm a gynlluniwyd gan Weinidogion Cymru, gallan nhw gynllunio un eu hunain, neu gallan nhw weithio gydag eraill i gynllunio cwricwlwm.

Rhaid i unrhyw gwricwlwm a fabwysiedir ar gyfer lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir, gan gynnwys yr un a gynhyrchir gan Weinidogion Cymru, fodloni'r gofynion canlynol.

Rhaid iddo:

- alluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffordd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- bod yn eang a chytbwys
- bod yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau
- darparu ar gyfer cynnydd priodol i ddysgwyr a chynnwys ystod o ddarpariaeth i sicrhau hyn (yn gysylltiedig ag oedrannau, galluoedd a doniau).

Rhaid i'r cwricwlwm a fabwysiedir hefyd:

- gynnwys y chwe maes dysgu a phrofiad
- gwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (fel y nodwyd yng nghod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig)
- adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd a nodir yn y cod cynnydd
- cynnwys elfennau gorfodol cwricwlwm
- cwmparu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol.

Bydd gan ddarparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir ddisgresiwn i benderfynu nad yw Saesneg yn rhan o'r cwricwlwm er mwyn galluogi dysgwyr i ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Rhaid i'r crynodeb o'u cwricwlwm a gyhoeddir nodi eu hymagwedd tuag at addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg.

Rhaid i ddarparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm a fabwysiedir ganddyn nhw ac adolygu eu cwricwlwm yn barhaus.

Rhaid i ddarparwyr lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir weithredu'r cwricwlwm a fabwysiedir ganddyn nhw fel ei fod yn:

- galluogi dysgwyr i wneud cynnydd yn y ffordd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol ddysgwyr ac fel ei fod yn cynnig cynnydd priodol ar gyfer dysgwyr.

Rhaid i ddarparwyr addysg feithrin a ariennir sicrhau bod eu cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan drefniadau asesu sy'n asesu y:

- cynnydd a wneir gan ddysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol
- camau nesaf yn cynnydd dysgwyr a'r dysgu ac addysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.

Os caiff y Bil ei basio, bydd yn ofynnol i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddir fel rhan o'r Fframwaith newydd wrth gynllunio (lle bo'n berthnasol), mabwysiadu, a gweithredu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu.

Gofynion deddfwriaethol arfaethedig: unedau cyfeirio disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)

Ein bwriad yw rhoi fframwaith deddfwriaethol ar waith sy'n gofyn am y canlynol.

Bydd yn ofynnol i unedau cyfeirio disgyblion:

- ddarparu dysgu sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd mewn perthynas â'r [pedwar diben](#), sy'n addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a doniau'r dysgwyr, sy'n eang a chytbwys, ac sy'n cynnig cynnydd priodol. Rhaid iddyn nhw hefyd gynnwys dysgu mewn perthynas â'r [sgiliau trawsgwricwlaidd](#), [addysg cydberthynas a rhywioldeb](#) a'r [Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles](#)
- rhoi sylw i elfennau eraill Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys y meysydd dysgu a phrofiad eraill ac [elfennau gorfodol cwricwlwm](#) a sicrhau darpariaeth mewn perthynas â'r rheiny, i'r graddau y byddai hynny'n briodol ar gyfer y dysgwr unigol.

Lle mae awdurdodau lleol yn trefnu EOTAS i ddysgwyr, rhaid iddyn nhw sicrhau bod y trefniadau:

- yn sicrhau darpariaeth sy'n hybu cynnydd y dysgwr o ran y [pedwar diben](#), sy'n addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a doniau'r dysgwyr, ac sy'n eang ac yn gytbwys ac yn cynnig cynnydd priodol
- yn sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n briodol i'r dysgwr unigol, dysgu mewn perthynas â'r [sgiliau trawsgwricwlaidd](#), [addysg cydberthynas a rhywioldeb](#) a [Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles](#)
- rhoi sylw i elfennau eraill y cwricwlwm, sy'n cynnwys y meysydd dysgu a phrofiad ac [elfennau gorfodol cwricwlwm](#) a sicrhau darpariaeth mewn perthynas â'r rheiny, i'r graddau y byddai hynny'n briodol ar gyfer y dysgwr unigol.

Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr EOTAS sicrhau eu bod yn rhoi trefniadau asesu ar waith sy'n asesu y:

- cynnydd a wneir gan ddysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dysgwr hwnnw
- camau nesaf yn cynnydd y dysgwyr a'r dysgu ac addysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.

Gofynion deddfwriaethol arfaethedig: datgymhwyso cwricwlwm

Rydym yn cynnig y dylai ysgolion a lleoliadau ddatgymhwyso cwricwlwm o dan rai amgylchiadau, a chaniatáu eithriadau dros dro ar gyfer dysgwyr unigol. Bydd y rhain yn cyd-fynd yn fras â dull y cwricwlwm presennol. Os caiff y Bil ei basio, rhoddir rhagor o fanylion fel rhan o'r dasg o ddiweddarau'r canllawiau yn 2021.

Gofynion deddfwriaethol arfaethedig ar gyfer Gweinidogion Cymru a chynlluniau ar gyfer canllawiau

Bydd gan Weinidogion Cymru swyddogaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chodau gorfodol yn y prif feysydd canlynol (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr).

- Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (y nodir ei gynnwys arfaethedig yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig).
- Y cod cynnydd (y nodir ei gynnwys arfaethedig yn yr egwyddorion cynnydd).
- Rheoliadau sy'n pennu gofynion ychwanegol mewn perthynas â'r cwricwlwm ar gyfer plant 14 i 16 oed.
- Rheoliadau sy'n pennu sut y caiff cwricwlwm ei fabwysiadu, ac erbyn pryd.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i helpu ysgolion a lleoliadau eraill i fodloni gofynion cwricwlwm ac i wneud paratodau o flaen llaw tra bo'r Bil yn cael ei ystyried gan y Senedd. Bydd hyn yn cynnwys:

- canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm (ysgolion cynradd)
- canllawiau asesu
- fframwaith crefydd, gwerthoedd a moeseg
- canllawiau addysg cydberthynas a rhywioldeb
- cwricwlwm Gweinidogion Cymru ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- canllawiau i gynorthwyo unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr EOTAS i alluogi eu dysgwyr i wneud cynnydd tuag at y [pedwar diben](#) a bodloni'r gofynion newydd a osodir arnyn nhw yn y ddeddfwriaeth.

Unwaith y bydd y Bil wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol, caiff y rhain eu cyhoeddi fel canllawiau statudol i gefnogi cynllunio a gweithredu cwricwla.

Gofynion ehangach

Mae amrywiaeth o ofynion deddfwriaethol y gallai fod angen i ysgolion a lleoliadau eu hystyried neu roi sylw iddyn nhw wrth reoli eu sefydliadau. Nid bwriad yr adran hon yw manylu ar y rhain, ond, yn hytrach, dynnu sylw at y rhai sydd â goblygiadau o ran cwricwlwm ac asesu.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nid yw [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn gosod dyletswyddau penodol ar ysgolion. Fodd bynnag, mae'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol (ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill) weithredu datblygu cynaladwy. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw weithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, ymhlith eraill, osod amcanion i wneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni pob un o'r saith nod lles a chymryd pob cam rhesymol wrth arfer eu swyddogaethau i gyflawni'r nodau hynny.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw weithredu'r [egwyddorion datblygu cynladwy](#) sy'n cynnwys mabwysiadu [ffyrdd o weithio](#) a fydd o gymorth i ddatblygu cynladwy pellach.

Un o amcanion lles Gweinidogion Cymru yw: 'helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial'. Mae ein dull o ddiwygio'r cwricwlwm yn cyfrannu at gyflawni'r amcan hwnnw a, thrwy hynny, wneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau lles. Mae hefyd yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynladwy a'r ffyrdd o weithio.

Anogwn ysgolion, lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr EOTAS i ystyried sut y gallan nhw sefydlu'r ffyrdd o weithio a chyfrannu tuag at y nodau lles yn y ffordd y maen nhw'n mynd ati i gynllunio, mabwysiadu a gweithredu eu cwricwlwm a chynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr, eu cymunedau ehangach, busnesau a phartneriaid, yn y broses honno.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Hawliau dynol yw'r rhyddid y mae gan bawb hawl iddo, a'r hyn sy'n gwarchod hynny. Mae gan ddysgwyr hawliau dynol penodol a warentir gan [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#).

Wrth gynllunio, mabwysiadu neu weithredu cwricwlwm, rydym yn annog ysgolion, lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr EOTAS i ymgorffori cyfleoedd i ddysgwyr i:

- ddysgu am hawliau dynol: caffael gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â hawliau dynol, a ffynonellau'r hawliau hynny
- dysgu drwy hawliau dynol: datblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol
- dysgu ar gyfer hawliau dynol: cymhelliant gweithredu cymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol i hybu parch tuag at hawliau pawb.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn creu fframwaith deddfwriaethol i wella'r broses o gynllunio a chyflawni darpariaeth ddysgu ychwanegol, drwy ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ganfod anghenion yn gynnar, rhoi cymorth a monitro effeithiol ar waith, ac addasu ymyriadau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau a ddymunir.

Bydd y fframwaith cyfreithiol a sefydlir gan y Ddeddf hon yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi'r cwricwlwm i ddarparu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles.

Mae'r Fframwaith yn ceisio rhoi cyfle i ehangu dysgu, gan sicrhau bod pob dysgwr sydd ag [anghenion dysgu ychwanegol \(ADY\)](#) yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni ei botensial llawn.

Mae'r system ADY a'r Fframwaith wedi'u cynllunio i ddarparu system addysg gynhwysol a theg yng Nghymru. Mae darpariaethau'r Ddeddf yn gwireddu'r egwyddor hon drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, lle bo hynny'n ymarferol, fod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg brif ffrwd.

Cynllunio eich cwricwlwm

Cyflwyniad

Mae Fframwaith Cwricwlwm i Gymru (Fframwaith) yn ddatganiad clir o'r hyn sydd, yn ein barn ni, yn bwysig mewn addysg eang a chytbwys. Wrth ei wraidd y mae ein dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, fel y'i diffinnir gan [bedwar diben](#) y cwricwlwm. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'n rhaid i [ysgolion](#) gynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm sy'n bodloni [gofynion cwricwlwm](#) a nodir mewn deddfwriaeth, a darparu'r dysgu y mae'n ei ddiffinio. Er mwyn cefnogi ysgolion i wneud hyn, mae'r canllawiau yma'n nodi dull gweithredu clir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau am y cwricwlwm.

Mae'r Fframwaith yn rhoi cyfle i bob ysgol yng Nghymru gynllunio ei chwricwlwm ei hun o fewn dull cenedlaethol sy'n sicrhau lefel o gysondeb. Mae'n annog ysgolion i ddatblygu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu dysgwyr o fewn cyd-destun y pedwar diben a'r dysgu a ddiffinnir ar lefel genedlaethol. Mae'n rhoi lle i ymarferwyr fod yn greadigol a datblygu dysgu ystyrlon drwy ystod o brofiadau a chyd-destunau sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr.

Wrth gynllunio a gweithredu eich cwricwlwm, dylech ystyried y cwestiynau allweddol canlynol. Sut y bydd eich cwricwlwm yn:

- galluogi eich dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben ac yn eu paratoi ar gyfer dysgu parhaus, gwaith a bywyd?
- meithrin disgwyliadau uchel ac yn galluogi pob dysgwr i gyflawni ei lawn botensial?
- cynnig addysg eang a chytbwys, sy'n galluogi eich dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad (Meysydd), a chymhwyso'u dysgu mewn sefyllfaoedd newydd ac mewn perthynas â materion mwy cymhleth?
- cefnogi cynnydd ar hyd continwmm dysgu, a sut rydych yn gweithio gydag eraill i sicrhau cysondeb yn y cyfnodau pontio ar hyd continwmm 3 i 16?
- cefnogi iechyd a lles eich dysgwyr, gan gynnwys eu hiechyd meddwl a'u lles?
- cefnogi datblygiad gwybodaeth eich dysgwyr sy'n sylfaen i fod yn ddinesydd gwybodus?
- cydnabod hunaniaeth eich dysgwyr, eu hiaith/ieithoedd, eu gallu a'u cefndir, a'r cymorth gwahanol y gall fod ei angen arnyn nhw o ystyried eu hamgylchiadau penodol?
- adlewyrchu amrywiaeth safbwyntiau, gwerthoedd a hunaniaethau sy'n llunio eich ardal leol a Chymru, a meithrin dealltwriaeth o'r byd ehangach?
- ymgorffori cyd-awduro gyda dysgwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach?
- galluogi eich dysgwyr i wneud synnwyr o'r profiad o dyfu'n hŷn yn y Gymru gyfoes ac o faterion a fydd yn bwysig yn y dyfodol, gan gynnwys lles, datblygu cynaladwy a dinasyddiaeth?
- cefnogi eich dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol ag ystod o wybodaeth ac asesu ei gwerth a pha mor ddilys ydyw?
- galluogi eich dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o'u hawliau a hawliau eraill?

Lluniwyd 'Cynllunio eich cwricwlwm' gyda'r nod o'ch helpu i ymdrin â'r cwestiynau hyn yn eich ysgol. Mae'n trafod yr egwyddorion a'r ystyriaethau pwysig a ddylai lywio'r broses honno ac yn rhoi canllawiau ar:

- ddatblygu gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm mewn ysgol
- datblygu cwricwlwm sy'n gwireddu'r weledigaeth honno.

Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ar sut i fynd ati i ddethol cynnwys cwricwlwm ac asesu dysgwyr er mwyn cefnogi eu cynnydd. Fel gweddill y canllawiau hyn, fe'u lluniwyd ar gyfer ysgolion yn bennaf, ond byddan nhw hefyd yn ddefnyddiol i leoliadau addysgol eraill.

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, yr egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau dysgu yn cyfleu hanfod yr hyn a ddylai fod yn sail i dysgu, ac maen nhw'n darparu'r un disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr.

Bydd gan ddysgwyr ystod o anghenion a chefnidiroedd, ac felly mae'r Fframwaith yn rhoi rhyddid i ysgolion ac ymarferwyr ddewis y [profiadau](#), yr [wybodaeth](#) a'r [sgiliau](#) penodol, yn ogystal â'r testunau, y gweithgareddau a'r cyd-destunau penodol, a fydd yn cefnogi dysgu orau o fewn y Fframwaith. Mae'r hyblygrwydd hwn hefyd yn galluogi ysgolion i ddarparu gwahanol gymorth i gwahanol ddysgwyr er mwyn bodloni'r disgwyliadau hynny a mynd i'r afael â bylchau o ran cyrhaeddiad. Dylai'r rhyddid hwn i ddewis gael ei ategu gan broses gadarn ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, ar sail tystiolaeth, sydd bob amser yn canolbwyntio ar helpu dysgwyr i gyflawni'r [pedwar diben](#).

Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm

Wrth fyfyrio ar y [cwestiynau a nodwyd yn y cyflwyniad](#), dylai ysgolion ac ymarferwyr ddatblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ysgolion ac ymarferwyr ystyried y canlynol.

- Beth y dylem ei ddysgu a pham?
- Sut y dylem ei ddysgu?
- Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni'r [pedwar diben](#)?

Dylai hyn fod yn sgwrs barhaus ar gyfer yr ysgol gyfan a thu hwnt, gan ymgysylltu â'r rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau, academia a gwasanaethau cyhoeddus. Dylai hyn gael ei lywio gan werthoedd ac ethos yr ysgol, yn ogystal â'i lleoliad a'i hamgylchedd. Fodd bynnag, dylai ddefnyddio dull sy'n gyson â'r dysgu a nodir yn y canllawiau cenedlaethol.

Dylai hefyd ystyried, fel rhan annatod o'r broses o gynllunio cwricwlwm, sut y bydd asesu yn cefnogi'r weledigaeth hon ar gyfer eu cwricwlwm a'r dysgu y bydd yn ei gefnogi. Dylai ddarparu'r rhesymeg y bydd yr ysgol yn cyfeirio ati wrth geisio deall pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau fydd yn helpu'r dysgwyr i ddatblygu, a pham.

Dylai fod gan ysgolion ac ymarferwyr weledigaeth i ddatblygu cwricwlwm sy'n:

- cyfrannu at allu dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben ac i feithrin y sgiliau cyfannol sy'n sail i'r dibenion
- helpu i ddatblygu ymdeimlad eu dysgwyr o hunaniaeth yng Nghymru
- eang ac yn gytbwys
- briodol ar gyfer eu dysgwyr, o ran eu hoedran, eu galluoedd a'u doniau
- galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd priodol ar hyd y continwrm dysgu
- ymgorffori cyfleoedd i gymhwyso sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol
- ymgorffori asesu er mwyn i ddysgwyr wneud cynnydd
- gwrando ar lais y dysgwr ac yn ymateb i anghenion, profiadau a mewnbwn dysgwyr
- bodloni [gofynion cwricwlwm](#).

Cynllunio cwricwlwm a'r pedwar diben

Dylai'r [pedwar diben](#) fod yn ddyhead ac yn nod terfynol ar gyfer y cwricwlwm a gynllunir gan ysgolion. Yn y pen draw, nod cwricwlwm ysgol yw cefnogi ei dysgwyr i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu yn:
ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:

- gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau
- datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau
- ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
- gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdany'n nhw
- gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
- deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol
- defnyddio technolegau digidol yn greadigol i rhannu gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i dadansoddi
- ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

ac sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau

gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:

- cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch
- meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arny'n nhw
- mentro'n bwylllog
- arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol
- mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau
- rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa

ac sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:

- canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynladwyedd y blaned

ac sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd

yn unigolion iach, hyderus sydd:

- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd
- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
- yn gwneud penderfyniadau pwylllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
- â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
- yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- yn wynebu heriau ac yn eu goresgyn
- â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallan nhw

ac sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Wrth ddatblygu eu gweledigaeth i'w cwricwlwm, dylai ysgolion ac ymarferwyr ystyried yr hyn y mae'r pedwar diben yn ei olygu ar gyfer eu dysgwyr a sut y bydd eu cwricwlwm yn cefnogi eu dysgwyr i'w gwireddu. Yna, dylai eu gweledigaeth – a'r pedwar diben yn ehangach – lywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ac asesu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu eu dull o wneud penderfyniadau am gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer yr ysgol gyfan.

Wrth i ysgolion ddatblygu eu gweledigaeth i gefnogi eu dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben, dylai llais y dysgwr fod yn ganolog i'r gwaith hwn. Dylai mewnbwn dysgwyr fod yn ystyriaeth bwysig gydol y broses gynllunio.

Sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben

Mae sgiliau cyfannol yn sail i'r [pedwar diben](#) a dylid eu datblygu o fewn ystod eang o ddysgu ac addysgu. Wrth wraidd y sgiliau hyn y mae pwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn cydnabod, yn defnyddio ac yn creu gwerth o wahanol fathau. Yn y cyd-destun hwn, mae gwerth yn golygu pwysigrwydd mewn ystod o gyd-destunau, gan gynnwys gwerth ariannol, diwylliannol, cymdeithasol ac o ran dysgu.

Nodir y sgiliau hyn isod.

Creadigrwydd ac arloesi

Dylid rhoi lle i ddysgwyr fod yn chwilfrydig ac yn ymholgar, ac i greu llawer o syniadau. Dylen nhw gael eu cefnogi i gysylltu gwahanol [brofiadau](#), [gwybodaeth](#) a [sgiliau](#), a gweld, archwilio a chyfiawnhau datrysiadau amgen. Dylen nhw allu adnabod cyfleoedd a chyfleu eu strategaethau. Dylai hyn gefnogi dysgwyr i greu gwerth o wahanol fathau.

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Dylai dysgwyr gael eu cefnogi i ofyn cwestiynau ystyrlon, ac i werthuso gwybodaeth, tystiolaeth a sefyllfaoedd. Dylen nhw allu dadansoddi a chyfiawnhau datrysiadau posibl, gan adnabod materion a phroblemau posibl. Dylai dysgwyr ddod yn wrthrychol wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau, gan adnabod a datblygu dadleuon. Dylen nhw allu cynnig datrysiadau sy'n creu gwerth o wahanol fathau.

Effeithiolrwydd personol

Dylai dysgwyr feithrin deallusrwydd ac ymwybyddiaeth emosiynol, gan ddod yn hyderus ac yn annibynnol. Dylen nhw gael cyfleoedd i arwain dadleuon a thrafodaethau, gan ddod yn ymwybodol o oblygiadau cymdeithasol, diwylliannol, egwyddorol a chyfreithiol eu dadleuon. Dylen nhw allu gwerthuso eu dysgu a'u camgymeriadau, gan adnabod meysydd i'w datblygu. Dylen nhw ddod yn gyfrifol ac yn ddibynadwy, gan allu adnabod a chydabod gwerth o wahanol fathau ac yna ddefnyddio'r gwerth hwnnw.

Cynllunio a threfnu

Lle y bo'n ddatblygiadol briodol, dylai dysgwyr allu gosod nodau, gwneud penderfyniadau a monitro canlyniadau interim. Dylen nhw allu myfyrio ac addasu, yn ogystal â rheoli amser, pobl ac adnoddau. Dylen nhw allu gwirio cywirdeb a chreu gwerth o wahanol fathau.

Drwy feithrin y sgiliau hyn, bydd dysgwyr yn gallu gweithio ar draws disgyblaethau, gan roi cyfleoedd iddyn nhw syntheseiddio a dadansoddi. Mae potensial penodol i arloesi wrth wneud a defnyddio cysylltiadau rhwng gwahanol ddisgyblaethau a Meysydd.

Wrth feithrin y sgiliau hyn, dylai dysgwyr:

- feithrin gwerthfawrogiad o ddatblygu cynladwy a'r heriau sy'n wynebu dynoliaeth
- meithrin ymwybyddiaeth o ddatblygiadau technolegol sy'n dod i'r amlwg
- cael eu cefnogi a'u herio er mwyn iddyn nhw fod yn barod i fodloni'r galwadau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn sefyllfaoedd ansicr yn hyderus, wrth i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang arwain at heriau newydd a chyfleoedd i lwyddo
- cael lle i ddatblygu syniadau creadigol a gwerthuso dewisiadau amgen mewn modd beirniadol. Mewn byd sy'n newid yn gyson, bydd hyblygrwydd a'r gallu i ddatblygu mwy o syniadau yn galluogi dysgwyr i ystyried ystod ehangach o datrysiadau amgen pan fydd pethau'n newid
- meithrin eu gwydnwch a datblygu strategaethau a fydd yn eu helpu i reoli eu lles. Dylen nhw fod yn cael profiadau lle y gallan nhw ymateb yn gadarnhaol yn wyneb heriau, ansicrwydd neu fethiant
- dysgu i weithio'n effeithiol gydag eraill, gan werthfawrogi'r gwahanol gyfraniadau y maen nhw eu hunain ac eraill yn eu gwneud. Dylen nhw hefyd ddechrau cydnabod cyfyngiadau eu gwaith eu hunain a chyfyngiadau pobl eraill wrth iddyn nhw feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae gwahanol bobl yn chwarae gwahanol rolau mewn tîm.

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Mae'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn hanfodol i'r holl ddysgu a'r gallu i ddatgloi gwybodaeth. Maen nhw'n galluogi dysgwyr i fanteisio ar ehangder cwricwlwm ysgol a'r cyfoeth o gyfleoedd a gynigir ganddo, gan roi iddyn nhw y sgiliau gydol oes i gyflawni'r [pedwar diben](#). Mae'r rhain yn sgiliau y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith, gan alluogi dysgwyr i addasu a ffynnu yn y byd sydd ohoni. Mae angen i ddysgwyr allu addasu, dysgu sgiliau newydd gydol eu hoes a bod yn barod i ymdopi â sefyllfaoedd bywyd newydd.

Mae'n rhaid i ysgolion gynllunio a chyflawni cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a, lle ceir cyfleoedd i wneud hynny, eu hystyriaeth a'u cymhwyso ym mhob Maes. Felly, mae datblygu'r sgiliau hyn yn ystyriaeth i bob ymarferydd.

Rhaid rhoi cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddysgwyr:

- ddatblygu sgiliau gwranddo, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- bod yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.

Yn hytrach na chynllunio ar gyfer y sgiliau hyn ar wahân, dylai'r ysgol gyfan ymroi i ymwneud ag ymgorffori'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm. Felly bydd datblygu ac atgyfnerthu'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm yn gyfrifoldeb ar bob ymarferydd ym mhob Maes, nid dim ond ymarferwyr sy'n arbenigo mewn mathemateg, iaith a chyfrifiadureg.

Y fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd

Mae fersiynau wedi'u mireinio o'r [Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd](#) a'r [Fframwaith Cymhwysedd Digidol](#) yn cyd-fynd â'r canllawiau hyn ac yn gyson â nhw. Maen nhw'n darparu canllawiau ategol i bob ymarferydd, ym mhob Maes, er mwyn sicrhau y cynigir cyfleoedd i feithrin y sgiliau gorfodol hyn. Maen nhw'n cyflwyno dull gweithredu cyffredin, gan gefnogi ysgolion ac ymarferwyr i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd aml i ddatblygu, ymestyn a chymhwyso'r sgiliau trawsgwricwlaidd hyn.

Cynnydd

Mae cynnydd wrth ddysgu yn broses o gynyddu soffistigeiddrwydd, yn hytrach nag ymdrin â chorff mwy o gynnwys. Mae hyn yn unigryw i bob dysgwr. Mae hyn yn gofyn am gyfleoedd ar gyfergwyr, atgyfnerthu a myfyrio wrth i wybyddiaeth y dysgwr ddatblygu dros amser gan gyrraedd lefelau newydd.

Er y gall fod cysyniadau trothwy penodol sy'n cynrychioli newid sylweddol yn nealltwriaeth dysgwr, nid yw'r rhain yn gysylltiedig ag oedrannau penodol, ac ni fyddan nhw ychwaith yn digwydd ar yr un pryd mewn gwahanol feysydd i ddysgwyr unigol.

Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd ar raddfa a fydd yn unigryw i'r dysgwr, ac mae'n bosibl na fydd hyn yn cyd-fynd â'r cam cynnydd sydd i fod tua dwy i dair blynedd. Dylai cyflymder y cynnydd gael ei werthuso gan y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY.

Mae cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd yn un o ysgogwyr sylfaenol y Fframwaith. Adlewyrchir hyn yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, y disgrifiadau dysgu ar gyfer pob un o'r datganiadau hyn, a hyn hefyd yw prif ddiben asesu. Mae deall sut y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn hanfodol i ddysgu ac addysgu a dylai lywio'r broses o gynllunio cwricwlwm, llunio yn y dosbarth ac asesu.

Mae'r egwyddorion cynnydd isod yn cyfleu'r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer y cynnydd a wneir gan ddysgwyr ar hyd y continwmm dysgu. Caiff yr egwyddorion hyn eu datblygu ymhellach i roi cymorth i ymarferwyr a byddan nhw'n rhan o'r cod cynnydd a fydd yn rhan statudol o'r Fframwaith.

Mae'r egwyddorion cynnydd hyn yn rhoi dealltwriaeth lefel uwch i ymarferwyr o gynnydd.

Maen nhw'n:

- esbonio'r hyn y mae'n ei olygu i ddysgwyr wneud cynnydd, natur y cynnydd hwnnw a'r egwyddorion sy'n sail iddo
- disgrifio beth mae cynnydd yn ei olygu a sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd drwy'r continwmm dysgu yn hytrach na'i weld fel symudiad rhwng datganiadau wedi'u hatomeiddio.
- gymwys ar draws y continwmm dysgu ac felly nid ydyn nhw'n cyfeirio at gamau cynnydd penodol.

Yn ogystal â'r wybodaeth gyffredinol isod, caiff yr egwyddorion hyn eu disgrifio yng nghyd-destun pob maes dysgu a phrofiad [Maes/Meysydd] hefyd. Maen nhw'n disgrifio'r ffordd y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd ym mhob Maes drwy gydol eu taith ddysgu. Mae'r rhain yn wahanol i **ddisgrifiadau dysgu** sy'n darparu pwyntiau cyfeirio mwy penodol o'r hyn yw cynnydd wrth i ddysgwyr weithio tuag at y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Gyda'i gilydd, gall ymarferwyr ddefnyddio'r ddwy elfen hyn i ddeall beth mae'n ei olygu i ddysgwyr wneud cynnydd a defnyddio hyn i lywio dysgu, addysgu ac asesu.

Mae nifer o fodelau cysyniadol o gynnydd yn bodoli. Ni ddefnyddiwyd un model penodol wrth lunio'r disgrifiadau dysgu. Yn hytrach, dylai ymarferwyr ystyried yr amrywiaeth o ffyrdd y gall dysgwyr wneud cynnydd ar gamau gwahanol ar y daith ddysgu, a thros gyfnodau gwahanol o amser, wrth iddyn nhw gynllunio eu cwricwlwm.

Egwyddorion cynnydd

Mae pum egwyddor cynnydd yn ategu cynnydd ar draws yr holl Feysydd. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn.

- **Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol**

Mae angen i ddysgwyr gaffael ehangder a dyfnder gwybodaeth. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddan nhw'n meithrin dealltwriaeth gynyddol soffistigedig o'r cysyniadau sy'n sail i ddatganiadau amrywiol o'r hyn sy'n bwysig. Maen nhw'n gallu gweld y perthnasau rhyngddyn nhw a'u defnyddio i lywio'r wybodaeth hon ymhellach a gwneud synnwyr ohoni, ac i greu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm cyfan. Mae hyn yn cyfnerthu eu dealltwriaeth o gysyniadau.

- **Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd**

Mae dulliau holistaidd yn arbennig o bwysig i ddysgu yn y cyfnodau cynnar wrth i ddysgwyr ymgysylltu â'r byd o'u cwrpas. Dylai dysgwyr ddod yn gynyddol ymwybodol o ffyrdd o grwpio a threfnu syniadau a dulliau mewn modd cydlynol. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, mae angen iddyn nhw gael profiad o ddysgu disgyblaethol ym mhob un o'r Meysydd a'i deall, a'i weld yng nghyd-destun y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r pedwar diben.

- **Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau**

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu ystod o sgiliau gan gynnwys sgiliau corfforol, sgiliau cyfathrebu, sgiliau gwybyddol a sgiliau sy'n benodol i Faes arbennig. Yn ystod y cyfnodau cynnar, mae'r ystod hon o sgiliau yn cynnwys ffocws ar ddatblygu sgiliau echddygol bras a manwl, yn ogystal â sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu. Mae'r dysgwyr hefyd yn datblygu sgiliau deallusol wrth gymhwyso'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd maen nhw'n cymhwyso sgiliau presennol mewn ffyrdd mwy caboledig, a byddan nhw'n cael cyfleoedd i feithrin sgiliau newydd, mwy penodol a mwy soffistigedig.

Dros amser, mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i drefnu nifer fwy o syniadau cynyddol soffistigedig yn effeithiol, i gymhwyso'r hyn y maen nhw'n ei wybod mewn cyd-destunau amrywiol ac i gyfleu eu syniadau'n effeithiol, gan ddefnyddio ystod o ddulliau, adnoddau neu offer sy'n briodol i'w diben a'u cynulleidfia.

- **Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd**

Dylai dysgwyr greu gysylltiadau yn fwy mwy annibynnol; ar draws dysgu mewn Maes, rhwng Meysydd, ac o fewn eu profiadau y tu allan i'r ysgol. Dros amser, bydd y cysylltiadau hyn yn gynyddol soffistigedig ac yn cael eu hesbonio a'u

cyfiawnhau gan ddysgwyr. Dylen nhw hefyd allu cymhwyso'u dysgu mewn cyd-destunau mwy anghyfarwydd a heriol.

- **Cynyddu effeithiolrwydd**

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, dylen nhw ddod yn gynyddol effeithiol. Mae hyn yn cynnwys dulliau cynyddol lwyddiannus o hunanwerthuso, adnabod eu camau dysgu nesaf, a dulliau mwy effeithiol o hunanreoleiddio. Mae eu gallu i fynd ati i geisio cymorth priodol ac adnabod ffynonellau ar gyfer y cymorth hynny yn cynyddu. Maen nhw'n gofyn cwestiynau cynyddol soffistigedig ac yn dod o hyd i atebion o ystod o ffynonellau a'u gwerthuso. Maen nhw'n dod yn gynyddol effeithiol wrth ddysgu mewn cyd-destun cymdeithasol a chyd-destun sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

Cynllunio cwricwlwm yng Nghymru, i Gymru

Mae'r Fframwaith yn adlewyrchu Cymru, ei threftadaeth ddiwylliannol a'i hamrywiaeth, ei hieithoedd a'i gwerthoedd, hanes a thraddodiadau ei chymunedau a'i holl bobl.

Mae annog dysgwyr i feithrin ymdeimlad o angerdd a balchder yn eu hunain, eu cymunedau a'u gwlad yn ganolog i'r [pedwar diben](#). Dylai dysgwyr gael eu trwytho yn nealltwriaeth o'r hunaniaethau, y tirluniau a'r gwahanol hanes sy'n dod at ei gilydd i ffurfio'u 'cynefin'. Bydd hyn nid yn unig yn eu galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth a'u lles eu hunain, ond hefyd yn eu galluogi i feithrin dealltwriaeth o hunaniaeth pobl eraill a chreu cysylltiadau â phobl, lleoedd a hanes mewn mannau eraill yng Nghymru a ledled y byd.

Mae'n bwysig bod hyn yn gynhwysol ac yn tynnu ar brofiadau, safbwyntiau a threftadaeth ddiwylliannol y Gymru gyfoes. Mae bod â hyder yn eu hunaniaeth yn helpu dysgwyr i werthfawrogi'r cyfraniad y gallan nhw ac eraill ei wneud yn eu cymunedau ac i ddatblygu ac archwilio eu hymatebion i faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae hefyd yn eu helpu i archwilio, creu cysylltiadau a meithrin dealltwriaeth o fewn cymdeithas amrywiol. Mae hyn hefyd yn cydnabod nad yw Cymru, fel unrhyw gymdeithas arall, yn unffurf, ond ei bod yn hytrach yn gyfuniad o werthoedd, safbwyntiau, diwylliannau a hanes sy'n cynnwys pawb sy'n byw yng Nghymru. Nid yw'r cynefin hwn yn un lleol yn unig; mae'n gosod sail ar gyfer dinasyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol. Ceir rhagor o ganllawiau ar ddatblygu'r cyd-destun Cymreig mewn dysgu yn yr adran ar [gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol](#).

Mae'r Fframwaith hefyd yn adlewyrchu ein cenedl ddwyieithog. Dylai fod llwybrau ar gael i bob dysgwr ddysgu Cymraeg a Saesneg er mwyn eu galluogi i fagu'r hyder i ddefnyddio'r ddwy iaith mewn bywyd bob dydd. Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt (gan gynnwys ar blatfformau digidol) yn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus a gwerthfawrogi pa mor ddefnyddiol ydyw er mwyn cyfathrebu mewn Cymru ddwyieithog. Mae bod yn ddwyieithog (o leiaf) yn fwy na sgil cyfathrebu. Gall mynediad at y ddwy iaith helpu i agor y drws i lenyddiaeth, daearyddiaeth, democratiaeth, hanes a diwylliant cyfoethog ac unigryw Cymru. Mae

meddu ar wybodaeth, profiad a dealltwriaeth o'r rhain yn cefnogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion gweithredol a llwyddiannus yn y Gymru gyfoes.

Mae datblygu rhwyddineb a gallu dysgwyr i weithio mewn dwy iaith hefyd yn cynnig sail gadarn i ddysgwyr ymgysylltu â'r gwahanol ieithoedd y byddan nhw'n dod i gysylltiad â nhw, gan ddatblygu dysgu mewn ieithoedd eraill wrth iddyn nhw wneud cynnydd. Dylai ysgolion ddarparu amgylcheddau iaith cyfoethog i ddysgwyr, a dylai tasgau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm fod yn ddatblygiadol briodol.

Mae'r [Siarter Iaith](#) yn fframwaith cenedlaethol i bob lleoliad ac ysgol sy'n darparu sail holistaidd ar gyfer cynllunio profiadau ar draws y cwricwlwm er mwyn cynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg a magu eu hyder yn yr iaith o oedran ifanc.

Asesu

Mae asesu yn rhan annatod o'r broses ddysgu, gydag ymarferwyr yn gweithio gyda dysgwyr er mwyn helpu i adnabod eu cryfderau, meysydd iddyn nhw eu datblygu a'u camau dysgu nesaf. Wrth ddylunio trefniadau asesu fel rhan o gwricwlwm ysgol, dylid dilyn yr egwyddorion arweiniol canlynol.

- Diben asesu yw cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol mewn perthynas â'r continwwm 3 i 16.
- Mae dysgwyr wrth wraidd y broses asesu a dylen nhw gael eu cefnogi i gymryd rhan weithredol yn y broses ddysgu.
- Mae asesu yn broses barhaus sy'n rhan naturiol o ddysgu ac addysgu.
- Mae dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, wedi'i meithrin drwy ddeialog proffesiynol, yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio cwricwlwm a gwella dysgu ac addysgu.
- Dylai dysgu ar draws ehangder y cwricwlwm fanteisio ar ystod eang o ddulliau asesu, gan greu darlun holistaidd o ddatblygiad dysgwr.
- Mae ymgysylltiad rhwng y dysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a'r ymarferwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd a lles.

Diben cyffredinol asesu yw cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Wrth gynllunio, a darparu profiadau dysgu, dylai ysgolion ac ymarferwyr fod yn glir ynghylch rôl benodol pob asesiad a gynhelir ac at ba ddiben y defnyddir y ddealltwriaeth a geir yn sgil yr asesiad, a pham. Yn hyn o beth, mae asesu yn chwarae tair prif rôl wrth gefnogi cynnydd dysgwyr.

- **Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd**
Dylai'r broses asesu ganolbwyntio ar adnabod cryfderau pob dysgwr unigol, ei gyflawniadau, ei meysydd i'w datblygu a, lle y bo'n briodol, dylai ystyried unrhyw rwystrau i ddysgu. Dylai ymarferwyr ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon, mewn trafodaeth â'r dysgwr, i benderfynu ar y camau nesaf sydd eu hangen er mwyn datblygu'r dysgu, gan gynnwys unrhyw heriau ychwanegol neu unrhyw gymorth sydd ei angen. Dylid cyflawni hyn drwy ymgorffori asesu fel rhan o'i ymarfer mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb y dysgwr ac sy'n golygu ei fod yn rhan naturiol o ddysgu ac addysgu. Mae hyn yn galluogi'r ymarferydd i

ymateb i anghenion unigol yr holl ddysgwyr yn ei ystafell ddosbarth yn barhaus.

- **Adnabod, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser**

Dylai'r broses asesu helpu ymarferwyr i adnabod y cynnydd a wneir gan ddysgwyr unigol, gan gofnodi hyn lle y bo'n briodol, er mwyn deall ei daith dros wahanol gyfnodau o amser ac mewn amrywiaeth o ffyrdd, er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae hyn yn cynnwys meithrin dealltwriaeth o 'sut' y mae dysgwr wedi dysgu, yn ogystal â'r 'hyn' y mae wedi'i ddysgu ac yn gallu ei ddangos. Dylai myfyrio ar gynnydd dysgwr dros amser alluogi ymarferwyr i roi adborth a helpu i gynllunio ei ddysgu yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw ymyriadau, unrhyw gymorth ychwanegol neu her y gall fod eu hangen. Dylai hyn gynnwys y camau nesaf uniongyrchol a'r amcanion a'r nodau tymor-hwy y dylai'r dysgwr weithio tuag atyn nhw er mwyn ei helpu i barhau i symud ymlaen o ran ei ddysgu. Gellir defnyddio hyn hefyd fel sail ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr.

- **Deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar ddull addysgu**

Dylai'r broses asesu hefyd alluogi ymarferwyr ac arweinwyr yn yr ysgol i ddeall a yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylid. Dylid defnyddio hyn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yng nghwricwlwm yr ysgol a'r dull addysgu dyddiol, gan gynnwys ystyried sut y mae anghenion dysgwyr fel unigolion wedi cael eu diwallu.

I gael rhagor o fanylion, gweler [Cefnogi cynnydd dysgwyr: Canllawiau asesu.](#)

Cwricwlwm sy'n hygyrch i bawb

Dylai cwricwlwm ysgol godi dyheadau pob dysgwr. Dylai ystyried sut y caiff pob dysgwr ei gefnogi i gyflawni'r [pedwar diben](#) ac i wneud cynnydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i bob dysgwr chwarae rhan weithredol yn ei gymuned a'r gymdeithas ehangach, a ffynnu mewn byd cynyddol gymhleth.

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o anghenion ac amgylchiadau eu holl ddysgwyr wrth gynllunio eu cwricwlwm eu hunain, gan ystyried cyfle teg wrth roi cymorth ac ymyriadau ar waith neu wneud addasiadau rhesymol.

Datblygwyd y canllawiau hyn i gynnwys pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bwriedir iddyn nhw hefyd gefnogi ysgolion i ddylunio cwricwla ysgol cynhwysol. Bydd dysgwr yn gwneud cynnydd ar hyd yr un continwrm dysgu o fewn pob Maes, o 3 i 16 oed. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddan nhw'n symud ar hyd y continwrm ar wahanol gyflymder – gan ganiatáu ar gyfer gwro, ailadrodd a myfyrio wrth i ddealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau pob dysgwr ddatblygu dros amser. Gall ysgolion ac ymarferwyr arfer eu disgresiwn wrth gynllunio ar gyfer cynnydd, gan roi sylw dyledus i bob dysgwr yn eu lleoliad neu ysgol.

Mae rhoi ystyriaeth i ddysgwyr ag ADY yn hollbwysig yn hyn o beth a datblygwyd y canllawiau hyn gydag ymarferwyr ADY a gweithwyr proffesiynol arbenigol. Felly, dylen nhw gefnogi'r broses o gynllunio ar gyfer cynnydd i ddysgwyr ag ADY. Lle mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at ferfau penodol fel 'siarad', 'symud' neu 'greu', dylid eu dehongli yn unol ag anghenion y dysgwyr.

Dylai ysgolion gydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol i staff sy'n gyfrifol am ddysgwyr ag ADY ac sy'n gweithio gyda nhw. Dylid sicrhau bod cyfleoedd i ysgolion gydweithredu ag asiantaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol ehangach wrth gynllunio cwricwlwm yr ysgol.

Dylai cwricwlwm ysgol hefyd ymestyn a herio dysgwyr mwy abl a thalentog a'u galluogi i symud ar hyd y continwwm dysgu ar gyflymder sy'n briodol iddyn nhw.

Rhan hanfodol o godi dyheadau i bob dysgwr a mynd i'r afael â bylchau o ran cyrhaeddiad yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyflawni'r [pedwar diben](#) drwy gwricwlwm eang a chytbwys gyda'r fframwaith cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys bylchau y mae cefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol yn dylanwadu arnyn nhw, ond gallan nhw hefyd fod yn ehangach o lawer. Dylai hyn gael ei gefnogi gan ddarpariaeth sy'n ymateb i anghenion ac amgylchiadau penodol dysgwyr. Yn benodol, dylai hyn ystyried pa [brofiadau](#), [gwybodaeth](#) a [sgiliau](#) y gall fod eu hangen ar ddysgwyr na fydden nhw fel arall yn cael cyfle i elwa arnyn nhw. Mae deall cynnydd grŵp hefyd yn ffocws pwysig ar gyfer ysgolion er mwyn sicrhau bod eu cwricwlwm yn codi safonau ac yn helpu i wella cyflawniad i bawb. Nid yw'n ymwneud ag adroddiadau allanol, ond yn hytrach, mae'n ymwneud â sicrhau bod ysgolion ac ymarferwyr yn deall yr hyn y mae angen iddyn nhw ei wybod am eu dysgwyr, a pha asiantaethau eraill y mae angen iddyn nhw weithio gyda nhw, er mwyn iddyn nhw oll wireddu eu llawn botensial, a nodi her a chymorth penodol y gall fod eu hangen ar grwpiau penodol.

Datblygu cynllun eich cwricwlwm

Egwyddorion cynllunio cwricwlwm

Dylai'r weledigaeth a ddatblygwyd gan ysgolion lywio'r gwaith o gynllunio cwricwlwm.

Yn seiliedig ar ofynion y cwricwlwm a nodir mewn deddfwriaeth, mae'n rhaid i'w cwricwlwm:

- alluogi dysgwyr i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r **pedwar diben**
- bod yn eang ac yn gytbwys
- bod yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau
- darparu ar gyfer cynnydd priodol dysgwyr
- cynnwys pob un o'r chwe Maes
- cwmpasu pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig
- cynnwys yr elfennau gorfodol o'r cwricwlwm, sef crefydd, gwerthoedd a moeseg, addysg cydberthynas a rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg
- ymgorffori'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol
- cynnwys ystod o ddulliau asesu sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr
- rhoi dewis i ddysgwyr o ran yr hyn y maen nhw'n ei astudio pan fyddan nhw rhwng 14 ac 16 oed, ond parhau i sicrhau bod pob dysgwr yn dysgu ym mhob Maes.

Mae'r canllawiau hyn yn pennu y dylai'r cwricwlwm hefyd:

- ddarparu dysgu eang, gan dynnu ystod o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau ynghyd ar draws ystod o gyd-destunau, testunau a gweithgareddau, gan greu cysylltiadau ar draws Meysydd
- dros amser, darparu ar gyfer dysgu cynyddol ddwfn a soffistigedig
- bod yn ddatblygiadol briodol ac ysgogi cynnydd dysgwyr
- cynnwys cyfleoedd ar gyfer dysgu ac ystyried elfennau trawsbynciol, sy'n:
 - galluogi dysgwyr i ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
 - meithrin dealltwriaeth o yrfaeod a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith
 - meithrin dealltwriaeth o addysg hawliau dynol ac amrywiaeth.

Defnyddio'r canllawiau i ddewis cynnwys cwricwlwm

Mae pob elfen o'r canllawiau hyn o fewn y Meysydd wedi'i datblygu i gefnogi'r broses o ddewis cynnwys cwricwlwm, sef:

- datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- disgrifiadau dysgu
- egwyddorion cynnydd.

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae'n rhaid i gwricwlwm ysgol gwmpasu'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig o 3 i 16, gan ymgysylltu â'u cysyniadau allweddol mewn modd datblygiadol briodol. Felly, mae'r datganiadau hyn yn rhan hanfodol o gynllun cwricwlwm ysgol. Mae'n rhaid i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i lywio'r broses o ddatblygu cynnwys cwricwlwm, gan eu defnyddio i:

- ddewis profiadau, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn crynhoi 'syniadau mawrion' neu egwyddorion allweddol pob Maes, a dylai'r cynnwys a ddewisir alluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- deall sut y dylai'r dysgu gefnogi cynnydd dysgwyr. Dylai'r dysgu gyfrannu at ddealltwriaeth a defnydd cynyddol soffistigedig o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- galluogi dysgwyr i archwilio testunau a gweithgareddau drwy safbwyntiau gwahanol. Mae modd i'r un testunau gael eu hystyried gan ddysgwyr drwy wahanol ddatganiadau, a dylai hyn ddigwydd, er mwyn i ddysgwyr gael profiad holistaidd o destun. Mae hyn yn eu helpu i greu cysylltiadau cryfach rhwng cynnwys, disgyblaethau a Meysydd
- helpu dysgwyr i wneud synnwyr o ystod o [brofiadau](#), [gwybodaeth](#) a [sgiliau](#), gan ganolbwyntio ar hanfodion pob Maes. Mae defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig fel sail i'r dysgu yn helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth resymegol o ystod o wybodaeth, gan greu cysylltiadau rhwng gwahanol ddysgu, yn hytrach na chronni ffeithiau a gweithgareddau annibynnol.

Mae'n rhaid i gynnwys cwricwlwm gysylltu'n ôl â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae hyn yn helpu dysgwyr i wneud synnwyr o bopeth y maen nhw yn ei ddysgu drwy gydol y continwmm dysgu. Dylai ymarferwyr ddefnyddio ystod o gyd-destunau, safbwyntiau a phynciau i gyfrannu at y dysgu o fewn datganiad. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu fframwaith cydlynol o ddysgu ac i ddeall a defnyddio'r syniadau neu'r egwyddorion hynny mewn modd cynyddol soffistigedig wrth iddyn nhw wneud cynnydd.

Disgrifiadau dysgu

Mae'r [disgrifiadau dysgu](#) yn rhoi canllawiau ar sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar eu taith ar hyd y continwmm dysgu. Caiff y rhain eu trefnu mewn pum cam cynnydd sy'n rhoi pwyntiau cyfeirio ar gyfer cyflymder y cynnydd hwnnw. Caiff y disgwyliadau hyn eu mynegi o safbwynt y dysgwr ac maen nhw'n eu fframio'n eang fel bod modd iddyn nhw gynnal y dysgu dros gyfres o flynyddoedd. Nid ydyn nhw wedi'u dylunio i fod yn dasgau, yn weithgareddau nac yn feini prawf asesu annibynnol. Er mai'r un yw'r continwmm dysgu i bob dysgwr, mae'n bosibl y byddan nhw'n gwneud cynnydd ar gyflymder gwahanol. O ganlyniad, dim ond cysylltiad bras sydd rhwng y camau cynnydd ac oedran. Yn fras, maen nhw'n cyfateb i ddisgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

Mae'r disgrifiadau dysgu wedi'u llunio i gynnal y dysgu dros gyfnod o flynyddoedd ac mae hyn yn rhoi cwmplas i ymarferwyr eu defnyddio i ddewis cynnwys sy'n darparu dysgu eang a dwfn.

- **Ehangder**

Dylai ymarferwyr ddefnyddio'r disgrifiadau dysgu i ddod ag ystod eang o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau ynghyd. Dylid eu harchwilio drwy amrywiaeth o gyd-destunau, testunau a gweithgareddau a ddewisir yn ystod y broses o gynllunio cwricwlwm. Dylai hyn hefyd olygu creu cysylltiadau rhwng Meysydd fel sy'n briodol.

- **Dyfnlder**

Dylai ymarferwyr gefnogi dysgwyr i ymgysylltu â disgrifiadau dysgu mewn modd cynyddol ddwfn a soffistigedig dros gyfnod o amser. Dylai hyn helpu dysgwyr i gymhwyso'r disgrifiadau dysgu mewn cyd-destunau cynyddol heriol a chaniatáu ar gyfer gwyro, atgyfnerthu a myfyrio wrth i ddealltwriaeth a defnydd dysgwyr o'r dysgu allweddol ddatblygu a dod yn fwy soffistigedig dros amser, gan ysgogi meddwl, trafodaeth ac ymholi manwl.

Lle mae'r dysgu yn gorgyffwrdd, mae'r disgrifiadau dysgu wedi'u llunio i gael eu hystyried drwy ystod o wahanol safbwyntiau disgyblaethol gwahanol, a dylai ymarferwyr geisio cynnwys y safbwyntiau disgyblaethol hyn yn y dysgu. Wrth i'r dysgwyr wneud cynnydd, dylen nhw gael mwy o gyfleoedd i arbenigo a dylai cyd-destunau disgyblaethol y disgrifiadau dysgu ddod yn gynyddol amlwg yng nghynllun y cwricwlwm. Mewn rhai Meysydd, daw disgyblaethau'n fwy amlwg yn y disgrifiadau dysgu eu hunain tuag at ddiwedd y continwum, wrth i hanfod y dysgu mewn Maes ddod yn fwy arbenigol.

Egwyddorion cynnydd

Dylai cynnydd mewn dysgu bob amser fod wrth wraidd y broses o gynllunio'r cwricwlwm yn hytrach na dechrau gyda thema ac addasu'r dysgu i gydweddu â hi. Wrth ddewis cynnwys cwricwlwm, mae'n rhaid i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r **egwyddorion cynnydd** i lywio eu dull gweithredu o ran cynnydd. Tra bod disgrifiadau dysgu yn mynegi ffordd y dylai dysgwyr wneud cynnydd mewn dysgu o ran datganiadau penodol o'r hyn sy'n bwysig, mae'r egwyddorion cynnydd yn mynegi'r egwyddorion ehangach o ran yr hyn y mae cynnydd yn ei olygu yn y Maes yn ei gyfanrwydd. Fel y cyfryw, mae'n rhaid i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r egwyddorion hyn i lywio'r holl ddysgu i gefnogi cynnydd. Wrth ystyried disgrifiadau dysgu neu gyd-destun, testun neu brofiad penodol, mae'r egwyddorion cynnydd yn helpu ymarferwyr i ddeall sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd mewn modd mwy soffistigedig neu ddwfn. Dylai ymarferwyr hefyd gydnabod y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd ar wahanol gyflymderau.

Rôl disgyblaethau mewn dysgu

Mae'r canllawiau hyn wedi'u datblygu i gefnogi dulliau sy'n tynnu gwahanol ddisgyblaethau ynghyd wrth gynllunio cwricwlwm. Mae hyn yn rhoi profiad dysgu mwy cydlynol i ddysgwyr, wrth iddyn nhw geisio creu cysylltiadau ystyrlon rhwng y gwahanol bethau y maen nhw'n eu dysgu. Yn hyn o beth, gall cyfuno ystod o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn gwahanol Feysydd ganiatáu i ddysgwyr ystyried cynnwys cwricwlwm o ystod o safbwyntiau a disgyblaethau. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig eu hunain a, lle y bo'n briodol, y disgrifiadau dysgu, wedi'u dylunio i hwyluso dull gweithredu o'r fath. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i gysylltu ac atgyfnerthu eu dysgu ar draws y gwahanol ddisgyblaethau.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, dylen nhw gael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â gwahanol ddisgyblaethau ac arbenigo ynddyn nhw, yn enwedig pan fyddan nhw'n cyrraedd y camau cynnydd diweddarach. Fodd bynnag, dylai hyn fod yn broses esblygol, gyda dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i arbenigo yn raddol. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, dylai'r broses hon gael ei chefnogi gan addysgu sy'n arbenigol o ran disgyblaeth, a ddylai, ynghyd â'r dull amlddisgyblaethol o gynllunio cwricwlwm, baratoi dysgwyr sy'n bwriadu arbenigo ymhellach mewn addysg ôl-16. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen arbenigwyr i addysgu ac arbenigwyr i gynllunio.

Er y dylid cynnig cyfleoedd i ddysgwyr arbenigo, mae'n rhaid i'r cwricwlwm barhau'n eang ac yn gytbwys a dylai pob dysgwr barhau i fanteisio ar ddysgu o bob Maes drwy gydol ei amser mewn addysg orfodol. Disgwylir i ysgolion alluogi pob dysgwr i ddilyn ystod o gyrsiau astudio ac ennill cymwysterau addas ar ddiwedd addysg orfodol.

Datblygu methodoleg ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm

Themâu trawsbynciol ar gyfer gynllunio eich cwricwlwm

Dylai fod gan ysgolion ac ymarferwyr fethodoleg ar gyfer gynllunio cwricwlwm sy'n ymgorffori cyfleoedd ar gyfer dysgu ac ystyriaeth o elfennau trawsbynciol, lle y bo'n briodol.

Dylai'r rhain ganiatáu i ddysgwyr:

- ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- meithrin dealltwriaeth o addysg cydberthynas a rhywioldeb, addysg hawliau dynol ac amrywiaeth, a gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith.

Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn chwarae rôl allweddol wrth wella lles a diogelwch dysgwyr a bydd yn bwnc orfodol. Mae plant yn dechrau dysgu am gydberthnasau ymhell cyn iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol. Cyn gynted ag y byddan nhw'n dod yn rhan o'r byd cymdeithasol, byddan nhw'n clywed ac yn rhyngweithio â negeseuon cymhleth a chroes yn aml ynghylch rhywedd, cydberthnasau a rhywioldeb a fydd yn llywio eu bywydau o ddydd i ddydd a'r dyfodol y byddan nhw'n ei ddychmygu. Daw'r negeseuon hyn o hysbysebion, llyfrau, cerddoriaeth, y cyfryngau cymdeithasol a'r teledu ac aelodau o'r teulu, cyfoedion a chymunedau. Gall yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddysgu gynnwys camdybiaethau ac weithiau byddan nhw'n herio tybiaethau neu ddisgwyliadau oedolion. Drwy addysg cydberthynas a rhywioldeb, dylai dysgwyr gael eu cefnogi i ystyried a thrafod gwybodaeth a gwerthoedd ynghylch cydberthnasau a rhywioldeb y maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw eisoes ac y maen nhw'n aml yn ei chael hi'n anodd ymdrin â nhw eu hunain.

Mae gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae o ran atal ac amddiffyn, trafod ac ymateb i gwestiynau ac anghenion dysgwyr. Mae ganddyn nhw y potensial i greu amgylcheddau diogel sy'n grymuso dysgwyr, sy'n adeiladu ar ddysgu a phrofiadau ffurfiol ac anffurfiol dysgwyr, a hynny all-lein ac ar-lein. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i adlewyrchu eu safbwyntiau a'u teimladau am ystod o faterion sy'n ymwneud ag addysg cydberthnasau a rhywioldeb, a'u mynegi. Wrth wraidd hyn, y mae cydnabod, trafod ac ymgysylltu ag ystod amrywiol o safbwyntiau: yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Nod addysg cydberthynas a rhywioldeb yw grymuso dysgwyr yn raddol i feithrin yr wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd egwyddorol sydd eu hangen er mwyn deall y ffordd y mae cydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Mae'n ceisio cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau cyfartal, diogel, iach sy'n gwireddu eu dyheadau drwy gydol eu hoes. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gydnabod, deall a chodi'u llais yn erbyn gwahaniaethu a thrais, ac i wybod sut a ble i geisio cymorth, cyngor a gwybodaeth ffeithiol ynghylch ystod o faterion sy'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Cynigir y bydd dyletswydd ar ysgolion i ddarparu addysg cydberthynas a rhywioldeb. Caiff canllawiau pellach eu cyhoeddi cyn 2022 i gefnogi hyn. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar destunau a dysgu sy'n cefnogi addysg cydberthynas a rhywioldeb a'r ffordd y gall pob Maes gyfrannu atyn nhw.

Dylai addysg cydberthynas a rhywioldeb gynnwys dysgu datblygiadol briodol yn ymwneud â'r meysydd thematig canlynol.

- **Hawliau a chydraddoldeb**

Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae hawliau sy'n ymwneud â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau yn cyfrannu at ryddid, tegwch, urddas, lles a diogelwch pawb. Dylai dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth arfer eu hawliau ledled y byd fod wrth wraidd y dysgu hwn.

- **Cydberthnasau**

Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o sut i ffurfio a chynnal gwahanol fathau o gydberthnasau diogel, cydsyniol ac iach sy'n gwireddu eu dyheadau. Dylai cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o natur amrywiol cydberthnasau ledled y byd a chydol oes fod wrth wraidd y dysgu hwn.

- **Rhyw, rhywedd a rhywioldeb**

Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o ryw, rhywedd a rhywioldeb. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae bioleg, cymdeithas a diwylliant yn llywio ein hymdeimlad o'n hunan a'n perthnasau ag eraill. Wrth wraidd y dysgu hwn dylid bod cydnabyddiaeth o natur amrywiol hunaniaeth rhywedd a hunaniaeth rywiol, mynegiant, ymddygiad a chynrychioliad rhywiol, gan gynnwys amrywiaeth LGBTQ+, a'r ffordd y mae'r ddealltwriaeth gymdeithasol a diwylliannol o ryw, rhywedd a rhywioldeb wedi newid dros amser ac yn parhau i esblygu.

- **Cyrff a delwedd gorfforol**

Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r corff dynol a'r ffordd y mae'n newid dros amser, gan gynnwys y ffordd y mae pobl yn teimlo am eu cyrff, a'u galluedd a'u swyddogaethau rhywiol ac atgenhedlol. Mae cydnabod amrywiaeth y corff dynol, a'r ffordd y mae'r ddealltwriaeth o gyrff dynol wedi'i llywio gan gymdeithas, y gyfraith, gwyddoniaeth a thechnoleg, wrth wraidd y dysgu hwn.

- **Iechyd a lles rhywiol**

Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o rôl gadarnhaol rhywioldeb ym mywyd dynol a meithrin ymwybyddiaeth raddol o iechyd a lles rhywiol personol. Mae gwerthfawrogi'r ffyrdd gwahanol y mae pobl yn mynegi rhywioldeb mewn gwahanol ddiwylliannau a chyd-destunau, gan gynnwys mythau am iechyd a lles rhywiol, wrth wraidd y dysgu hwn.

- **Trais, diogelwch a chymorth**

Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o natur gymdeithasol, emosiynol, corfforol a chyfreithiol trais sy'n seiliedig ar rywedd a thrais rhywiol a'i effaith, gan gynnwys trais ar-lein. Dylai cefnogi dysgwyr i ddeall a rheoli newid, gwrthdaro, risg a phwysau o wahanol fathau, fod wrth wraidd y dysgu hwn. Mae magu hyder dysgwyr i godi'u llais a gwybod sut i geisio cyngor a chymorth yn hanfodol i addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Egwyddorion i ymwreiddio addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm

Dylai'r dysgu gael ei ategu gan ddull gweithredu cyfunol ysgol gyfan er mwyn i'r egwyddorion canlynol gael eu cefnogi, eu hatgyfnerthu a'u hymwreiddio ar draws yr ysgol a'r gymuned ehangach. Dylai'r dysgu fod:

- yn seiliedig ar hawliau a chydraddoldeb rhwng y rhywiau er mwyn i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae hawliau sy'n gysylltiedig â rhyw, rhywedd, cydberthnasau a rhywioldeb yn cyfrannu at ryddid, tegwch, urddas, lles a diogelwch pawb
- yn rhywbeth sy'n grymuso pobl er mwyn galluogi ymarferwyr i greu cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb cadarnhaol a thrawsnewidiol sy'n cyfoethogi llais ac annibyniaeth y dysgwr. Gellir cyflawni hyn drwy wahodd dysgwyr i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ar gyfer cydraddoldeb a lles rhyw, rhywiol a chydberthynas
- yn berthnasol ac yn ddatblygiadol briodol er mwyn sicrhau bod yr holl ddarpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cydnabod ac yn ymateb i alluoedd ac anghenion y dysgwyr eu hunain. Ni fydd yn gwneud tybiaethau, ond yn hytrach bydd yn cydweddu â gwybodaeth a phrofiadau esblygol dysgwyr ac adeiladu arny'n nhw
- wedi'i gyd-awduro er mwyn rhoi'r cyfle i ddysgwyr, rhieni a gofalmwyr i drafod ac ymgysylltu â phenderfyniadau am ddysgu ac addysgu mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylai'r ddarpariaeth hefyd fanteisio ar arbenigedd a gwasanaethau arbenigol, ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Dylai fod yn ystyriol o'r gwahanol safbwyntiau a chefnidiroedd a geir mewn cymuned leol
- yn greadigol, er mwyn i addysg cydberthynas a rhywioldeb elwa ar botensial dulliau gweithredu creadigol i greu lleoedd egwyddorol, diogel ac ymgysylltiol i ddysgwyr feddwl, teimlo, cwestiynu, ymgorffori a rhannu eu syniadau ar destunau sensitif
- yn holistaidd ac wedi'i ddarparu ym mhob rhan o'r cwricwlwm am fod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn faes eang, rhyngddisgyblaethol a chymhleth sy'n cynnwys dimensiynau biolegol, cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, egwyddorol a diwylliannol sy'n esblygu dros oes
- yn gynhwysol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gweld ei hun ac eraill wedi'u hadlewyrchu yn yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb. Wrth wraidd y dysgu hwn fydd cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth a gwahaniaeth mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau, a sicrhau bod darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cynnwys bywydau LGBTQ+

- yn amddiffynol ac ataliol er mwyn i ddysgwyr gael eu cefnogi i ddeall ac ymdopi â newid, gwrthdaro a phwysau, ac i feddu ar y wybodaeth i adnabod gwahaniaethu a thrais, a'r hyder i geisio cyngor a chymorth o ran cydraddoldeb a thegwch, iechyd a thrais mewn cysylltiad â chydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb. Bydd gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol a phobl ag arbenigedd yn hanfodol yn hyn o beth.

Addysg hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Hawliau dynol yw'r rhyddid y mae gan bawb hawl iddo, a'r hyn sy'n gwarchod hynny Sefydlwyd [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol \(CCUHP\)](#) (y Confensiwn) i amlinellu a diogelu hawliau sylfaenol pob bod dynol, ni waeth beth fo'i genedligrwydd, man preswyllo, rhyw, tarddbwynt cenedlaethol neu ethnig, lliw, crefydd, iaith, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw statws arall. At hynny, mae gan bawb hawl gyfartal i'n hawliau dynol heb wahaniaethu. Mae'r hawliau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd, yn dibynnu ar ei gilydd ac yn anwahanadwy wrth ei gilydd.

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau dynol penodol, wedi'u gwarantu gan CCUHP. Mae Gweinidogion Cymru wedi mabwysiadu'r Confensiwn fel sail i'r polisiau y maen nhw'n eu llunio mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc. Cafodd [pedwar diben](#) y cwricwlwm eu llywio gan egwyddorion CCUHP. Mae cefnogi dysgwyr i wybod eu hawliau a pharchu hawliau pobl eraill drwy addysg hawliau dynol yn ei gwneud yn bosibl cael cwricwlwm sydd wedi'i ysgogi gan y dibenion hyn.

Dylai addysg hawliau dynol annog dysgwyr i ymholi, dadansoddi, ffurfio dadleuon, gwneud penderfyniadau, cydweithredu, gwerthuso a datblygu ymddygiadau a gaiff eu llywio gan werthoedd. Mae addysg hawliau dynol yn cwmpasu:

- dysgu am hawliau dynol: deall hawliau dynol, a ffynonellau'r hawliau hynny, gan gynnwys CCUHP
- dysgu drwy hawliau dynol: datblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol
- dysgu ar gyfer hawliau dynol: cymell gweithredu cymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol i hyrwyddo parch at hawliau pawb.

Dysgu am hawliau dynol

Mae addysg hawliau dynol yn cefnogi dysgwyr i allu cymhwyso cysyniadau, egwyddorion ac iaith hawliau dynol er mwyn deall eu hanghenion a'u cydberthnasau eu hunain. Gall dysgwyr hefyd gymhwyso'r ddealltwriaeth hon at hawliau pobl eraill, yn eu cymunedau a thu hwnt, ac i wybod pan fydd eu hawliau nhw eu hunain neu hawliau pobl eraill dan fygythiad neu'n cael eu gwrthod.

Dysgu drwy hawliau dynol

Mae ymwreiddio [dull o ddarparu addysg sy'n seiliedig ar hawliau plant](#) yn golygu y dylai dysgwyr gael eu cefnogi i brofi eu hawliau'n cael eu cymhwyso'n ymarferol, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ddealltwriaeth hanfodol o'r sail. Un o egwyddorion allweddol y dull hwn yw hawl plant a phobl ifanc i gyfrannu'n ystyrlon at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Dylai cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau am ddysgu fod wrth wraidd y broses o gynllunio cwricwlwm.

Dysgu ar gyfer hawliau dynol

Mae addysg hawliau dynol yn annog dysgwyr i ystyried eu hagweddau a'u hymddygiadau'n feirniadol ac yn galluogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus, a all fod yn eiriolwyr dros eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill. Dylai dysgwyr gael eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus ac egwyddorol er mwyn amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill.

Amrywiaeth

Yma, mae amrywiaeth yn cyfeirio at adnabod a dathlu natur amrywiol grwpiau cymdeithasol a chymunedau a sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu'r amrywiaeth honno a'i fod yn gallu ymateb i brofiadau'r grwpiau a'r cymunedau hynny. Yn ei hanfod, mae'n golygu bod yn ymwybodol o nodweddion pobl eraill a'u trin â thrugaredd, empathi, dealltwriaeth a thegwch, er gwaethaf y nodweddion hynny. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, dylen nhw ddod yn gynyddol ymwybodol o'r ystod o nodweddion penodol a all ddiffinio ein hunaniaeth, gan gynnwys rhyw, rhywedd, hil, crefydd, oedran, anabledd a rhywioldeb.

Mae bodau dynol yn fodau cymdeithasol wrth eu natur. Mae ganddyn nhw werthoedd, hunaniaethau, ymddygiadau a nodweddion corfforol gwahanol. Mae cydlyniant unrhyw gymdeithas ddynol yn dibynnu ar y ffordd y mae'n rheoli'r amrywiaeth honno. Mae gwerthfawrogi gwahanol gyfraniadau a phrofiadau'r rhai hynny sy'n rhan o'n grwpiau cymdeithasol yn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhyngom ac yn cefnogi lles holl aelodau'r grwpiau hynny. Mae rhannu profiadau pobl y tu allan i'n grwpiau cymdeithasol yn ehangu ein gorwelion, yn ychwanegu at ein safbwyntiau ac yn cyfrannu at ein hymdeimlad unol o ddynoliaeth. Drwy deimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi, cawn ein grymuso i wneud cyfraniadau ystyrlon at ein cymdeithas.

Bydd cymuned ysgolion yn adlewyrchu'r ystod amrywiol o gefndiroedd a safbwyntiau a geir mewn cymdeithas. Wrth i ddysgwyr dyfu, mae eu rhyngweithio cymdeithasol yn debygol o ehangu mewn byd sy'n gynyddol gydgyssylltiedig. Mae creu cwricwlwm sy'n cydnabod diwylliant amrywiol eu cymdeithas yn galluogi dysgwyr i ddathlu natur amrywiol pob cymdeithas. Mae hyn yn hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant, cydlyniant cymdeithasol ac ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi.

Wrth gynllunio cwricwlwm, dylai ymarferwyr geisio cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr:

- datblygu empathi a thrugaredd at eraill
- dathlu gefndiroedd, gwerthoedd a nodweddion amrywiol
- datblygu eu gwerthoedd eu hunain ac ymdeimlad o'u hunaniaeth
- meithrin dealltwriaeth o bobl â gwahanol gredoau a safbwyntiau
- herio stereoteipiau.

Dylai ymarferwyr hefyd rannu hanesion gwahanol grwpiau a gwrando arnyn nhw, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol, a galluogi pob dysgwr i weld ei hun a'i brofiadau wedi'u cynrychioli yn y testunau, y profiadau a'r wybodaeth a ddatblygir drwy'r cwricwlwm.

Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith

Mae gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith yn hanfodol i feithrin sgiliau ar gyfer gwaith a bywyd. Maen nhw'n helpu dysgwyr i ddeall y berthynas rhwng eu dysgu a'r byd gwaith. Dylai profiadau anelu at agor llygaid dysgwyr i'r posibilïadau sydd o'u blaenau a dylent roi cyngor o ansawdd uchel ar sgiliau a llwybrau gyrfa, gan godi dyheadau dysgwyr sydd efallai ddim yn sylweddoli bod rhai cyfleoedd wir ar gael iddyn nhw.

Dylai cwricwla ysgolion alluogi dysgwyr i gael profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a gyrfa, gan feithrin gwybodaeth o ehangder y cyfleoedd a fydd ar gael iddyn nhw gydol eu hoes. Bydd y dysgu hwn yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am lwybrau eu gyrfa. Mae'r [pedwar diben](#) a'r sgiliau cyfannol sy'n eu hategu yn ganolog i'r gwaith o baratoi dysgwyr ar gyfer gyrfa a gwaith. Mae'r rhain yn cefnogi dysgwyr i fod yn wydn, yn greadigol ac yn uchelgeisiol, gan ei wneud yn ofynnol iddyn nhw ddatrys problemau, ymdrin â gwahanol wybodaeth a gweithio'n annibynnol. Bydd hyn yn helpu i'w paratoi i ymateb i gyfleoedd a heriau realiti economaidd sy'n newid.

Dylai dysgu am yrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith gael ei archwilio drwy bob Maes. Mae'r sgiliau hyn yn drosglwyddadwy ac mae galw mawr amdanyh nhw ymhlith cyflogwyr sydd hefyd yn rhoi gwerth mawr arnyh nhw.

Dylai dysgu am yrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith gynnwys:

- gwybodaeth am wahanol lwybrau gyrfa a gweithleoedd – dylai hyn gynnwys dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n arwain llywio a dylanwadu ar ragolygon gyrfa a datblygiad gyrfa, a'r sgiliau sydd eu hangen i gynyddu cynlluniau gyrfa dysgwyr a'u datblygiad
- dysgu am y sgiliau sydd eu hangen er mwyn gweithio tuag at lwybrau gyrfa a gwaith, a meithrin y sgiliau hynny. Dylai hyn gynnwys ymwybyddiaeth o sgiliau, rhinweddau a diddordebau unigol, a'u heffaith ar ddewisiadau gyrfa, ynghyd â dealltwriaeth o ganlyniadau'r dewisiadau hynny
- gwybodaeth am gyfleoedd a menter, y gellir ei defnyddio wrth chwilio am gyflogaeth neu hunangyflogaeth, gwneud ceisiadau am gyflogaeth neu hunangyflogaeth ac wrth gynnal cyflogaeth neu hunangyflogaeth
- gwybodaeth a gwerthfawrogiad o dueddiadau'r farchnad lafur leol, genedlaethol a rhyngwladol
- profiadau i ysgogi diddordeb mewn gwahanol yrfaoedd a gwaith ac i gymhwyso'u dysgu mewn ffyrdd ymarferol, e.e. mae gweithgarwch entrepreneuriaidd yn gofyn am sgiliau myfyrio datblygedig ac yn ymwneud â gweithgareddau ymarferol, fel dechrau busnes newydd, a rhaglenni creu menter
- cyfleoedd i elwa ar gysylltiadau â busnesau a/neu gyflogwyr.

Dylai ysgolion ac ymarferwyr sicrhau bod gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith:

- yn cael eu hystyried o Gam cynnydd 1 ymlaen
- yn gynhwysol, gan roi pwyslais ar gyfleoedd i bawb, herio stereoteipiau a mynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn gwahanol yrfaoedd
- wedi'u hymwreiddio'n ddilys ar draws y dysgu
- yn cynnwys ystod o gyfleoedd gwaith mewn meysydd traddodiadol a meysydd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys dechrau busnes newydd ac entrepreneuriaeth
- yn cynnwys meithrin y sgiliau cyfannol
- yn darparu profiadau ystyrlon a chyfleoedd i ymgysylltu â chyflogwyr a gwahanol weithleoedd.

Mae cydweithredu ag unigolion a chyflogwyr yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am waith, cyflogaeth a'r sgiliau a gaiff eu gwerthfawrogi yn y gweithle. Gall dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau a feithrinir drwy gymryd rhan mewn profiadau cysylltiedig â byd gwaith i ddatblygu gweithgareddau menter llwyddiannus. Gall y rhain gynnig profiad dysgu dilys sy'n eu helpu i ddatblygu i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, gan greu cysylltiadau â byd gwaith, a chodi eu dyheadau.

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw ôl-16, a'u bod wedi'u paratoi'n dda i wneud cynnydd tuag at ddysgu pellach. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ystyried gwahanol opsiynau a gwybodaeth i ehangu eu gorwelion, cyffroi eu dyheadau a chefnogi eu penderfyniadau am eu dysgu a'u llwybrau gyrfa ôl-16.

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Mae'r cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn darparu safbwyntiau allweddol i ddysgwyr ac maen nhw o bwys penodol o ran cefnogi dysgwyr i gyflawni'r [pedwar diben](#). Maen nhw'n helpu dysgwyr i wneud synnwyr o'r sgiliau a'r wybodaeth y maen nhw'n eu meithrin drwy greu cysylltiadau ag amgylcheddau, profiadau a digwyddiadau a all fod yn fwy cyfarwydd iddyn nhw. Maen nhw hefyd yn cyflwyno dysgwyr i gyd-destunau llai cyfarwydd, gan ehangu eu gorwelion a chan ymgysylltu â safbwyntiau sy'n wahanol i'w rhai nhw a gwerthfawrogi heriau a materion ehangach. Mae'r cyd-destunau hyn hefyd yn eu helpu i wneud synnwyr o'u perthynas â'u cymunedau, eu hunaniaeth genedlaethol a'r byd ehangach. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu dinasyddiaeth amlochrog, gan fyfyrion ar eu rolau a'u cyfrifoldebau ym mhob cyd-destun a chydabod amrywiaeth pob un ohonyn nhw. Bydd cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn gwneud eu cyfraniadau arbennig eu hunain at ddysgu, ond mae hefyd cysylltiadau cryf rhyngddyn nhw. Gall cynnwys cwricwlwm yn aml gael ei ystyried drwy bob cyd-destun, a dylai ymarferwyr geisio manteisio ar bob un o'r cyd-destunau hyn a chefnogi dysgwyr i ddeall y cysylltiadau clir, annatod rhyngddyn nhw.

Mae'r cyd-destunau hyn yn rhoi cyfle pwysig i ddysgwyr ddeall ac ymateb i wahanol faterion a heriau, gan gynnwys cwestiynau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth weithio tuag at ddyfodol cynaliadwy a theg. Mae'r amgylchedd yn rhan bwysig o bob un o'r cyd-destunau hyn, gydag effaith ddynol yn croesi ffiniau daearyddol a gwleidyddol. Mae hyn yn cynnwys y berthynas rhwng gweithgareddau dynol a'r amgylchedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ymateb i'r materion a'r heriau sy'n codi o'r cydberthnasau hyn, gan ystyried y ffordd y maen nhw wedi llywio ein gorffennol a'r presennol, a'r ffordd y gallan nhw lywio ein dyfodol.

Er mwyn deall Cymru, dylai dysgwyr hefyd feithrin dealltwriaeth o'i chydberthynas â'r Deyrnas Unedig a'i lle ynddi sy'n newid, ac o hanesion a phobl yr ynysoedd hyn, heddiw ac yn y gorffennol. Dylai dealltwriaeth dysgwyr o Gymru hefyd gydnabod y ffordd y mae safbwyntiau, gwerthoedd a hunaniaethau yn siapio Cymru, yn hytrach na chyflwyno darlun nodweddiadol o hunaniaeth Gymreig unffurf.

Bydd dealltwriaeth ymarferwyr eu hunain o ardal leol yr ysgol, a'u hymwybyddiaeth o'r materion a'r heriau newidiol ym mhob cyd-destun, yn eu helpu i fod yn greadigol wrth ymwreiddio'r cyd-destunau hyn mewn dysgu ac addysgu.

Wrth ymwreiddio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, dylai ymarferwyr chwilio am gyfleoedd i gefnogi dysgwyr i:

- ddatblygu dysgu drwy ystod o leoedd a digwyddiadau arwyddocaol
- creu cysylltiadau â chymunedau a sefydliadau lleol
- dysgu am gyfraniad a phrofiadau gwahanol unigolion sy'n llywio pob cyd-destun
- dysgu am amrywiaeth ddiwylliannol, gwerthoedd, hanes a thraddodiadau sy'n llywio pob cyd-destun
- deall y gwahanol hunaniaethau, hanes, diwylliannau, safbwyntiau a gwerthoedd sy'n llywio cymunedau a chymdeithasau
- cydnabod ac ymgysylltu â ffactorau, dylanwadau ac effeithiau (gan gynnwys effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- datblygu ymdeimlad dilys o [gynefin](#), gan ddatblygu gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a hanes, a'u galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut y mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi'u llywio ganddyn nhw
- manteisio ar hanesion a gwahanolrwydd ardal leol ysgol
- deall eu rôl fel dinasyddion a strwythurau'r llywodraeth sy'n effeithio arnyn nhw ym mhob cyd-destun
- archwilio, dadansoddi'n feirniadol ac ymateb i faterion cyfoes a heriau sy'n effeithio ar eu bywydau a bywydau pobl eraill drwy bob cyd-destun
- deall datblygu cynaliadwy, yr heriau a wynebwr gan yr amgylchedd a chymdeithas a sut y gallan nhw ymgysylltu â'r materion hyn a gwneud gwahaniaeth gan gefnogi dinasyddiaeth gynaliadwy
- deall y Gymru gyfoes gan roi cyfleoedd i fyfyrwyr, deall a dadansoddi cymdeithas gyfoes a'r ffordd y mae'r dysgwyr yn ymgysylltu â hi

- adnabod etifeddiaeth ieithyddol a diwylliannol amrywiol Cymru a'i chysylltiadau y tu hwnt i Gymru
- adnabod sut y mae ein hieithoedd yn datgloi gwybodaeth am ein llenyddiaeth, ein daearyddiaeth a'n hanes a'u cysylltiadau y tu hwnt i Gymru
- adnabod y cysylltiadau rhwng cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddeall y ffordd y maen nhw'n dylanwadu ar ei gilydd yn barhaus
- defnyddio sgiliau dadansoddi beirniadol ym mhob cyd-destun, gan gydnabod agweddau cadarnhaol a heriol ar bob un ohonyn nhw.

Datblygu methodoleg ar gyfer cynllunio cwricwlwm: Ystyriaethau gweithredu ac ymarferol

Wrth iddo gael ei weithredu, dylai cwricwlwm ysgol:

- fanteisio ar ystod o dystiolaeth gadarn, gan gynnwys arbenigedd sy'n benodol i ddisgyblaethau lle bo'n briodol, dysgu o ymholiad proffesiynol, gwybodaeth o ymchwil a gwybodaeth leol a chenedlaethol
- cael ei gyd-awduro, annog dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol i ddeall a chyfrannu at y broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Dylai hefyd fanteisio ar ystod ehangach o arbenigwyr a rhanddeiliaid a all gyfrannu at y dysgu
- bod yn destun myfyrio a chael ei ddiwygio, yn seiliedig ar ddealltwriaeth a feithrinwyd drwy bob agwedd ar y dysgu ac addysgu, a chael ei gefnogi gan ymholiad proffesiynol
- cael ei ategu gan addysgeg effeithiol.

Defnyddio tystiolaeth ac arbenigedd

Dylai'r dysgu ac addysgu gael eu llywio gan dystiolaeth ac arbenigedd cadarn. Dylai hyn gynnwys:

- arbenigedd sy'n benodol i ddisgyblaeth, a ddaw'n gynyddol berthnasol wrth ddatblygu cwricwlwm wrth i ddysgwyr wneud cynnydd. Mae'r canllawiau hyn yn hyrwyddo dulliau rhyngddisgyblaethol ond hefyd yn cydnabod pwysigrwydd arbenigedd sy'n benodol i ddisgyblaeth yn hynny o beth
- dealltwriaeth o ymchwil a thystiolaeth addysgol o ansawdd uchel
- gwybodaeth berthnasol am ddysgwyr a'u cymunedau
- dysgu o ymholiad proffesiynol
- tystiolaeth ac arbenigedd a rennir drwy rwydweithiau lleol, clwstwr, rhanbarthol a chenedlaethol
- partneriaeth ag addysg bellach ac addysg uwch
- dysgu proffesiynol.

Cyd-awduro

Gweithio gyda lleoliadau, ysgolion a sefydliadau addysg bellach eraill

Mae gweithio gydag **lleoliadau**, **ysgolion**, a sefydliadau addysg bellach yn cynnig cyfleoedd pwysig i rannu dysgu a datblygu profiadau cydgyssylltiedig i ddysgwyr ar hyd eu taith ddysgu. Yn benodol, mae cydweithredu rhwng lleoliadau, ysgolion, a sefydliadau addysg bellach yn cefnogi'r canlynol.

- **Creu dealltwriaeth a rennir o'r broses cynllunio cwricwlwm (gan gynnwys asesu) a chynnydd**

Er mwyn sicrhau tegwch i ddysgwyr o fewn ardal leol a ledled Cymru, mae'n bwysig sicrhau dealltwriaeth a rennir o hanfodion y broses cynllunio cwricwlwm, ynghyd â dealltwriaeth a rennir o gynnydd dysgwyr, gan gynnwys disgwyliadau o beth yw cynnydd ac ar ba gyflymder y gallai dysgwyr wneud cynnydd. Dylai'r ddealltwriaeth a rennir hon gael ei datblygu drwy ddysgu proffesiynol a fel proses parhaus o fewn ac ar draws ysgolion y mae trafodaeth broffesiynol barhaus yn rhan hanfodol ohoni. Drwy weithio drwy glystyrau a rhwydweithiau, gall ysgolion ac ymarferwyr rannu a phrofi eu dealltwriaeth ei gilydd o gynnydd, gan gydweithredu i ddatblygu dulliau a rennir o ran cynllunio cwricwlwm.

- **Pontio**

Dylai ysgolion ystyried sut y gall cydweithredu gefnogi'r broses o gynllunio continwmm ar draws gwahanol gyfnodau pontio, yn arbennig ar gyfer y dysgwyr mwyaf agored i niwed. Dylai'r dysgwr fod wrth wraidd y broses bontio. Mae proses bontio effeithiol yn ymwneud â helpu pob dysgwr i symud yn esmwyth ar hyd y continwmm dysgu wrth iddo symud rhwng gwahanol grwpiau, gwahanol ddosbarthiadau, gwahanol flynyddoedd a gwahanol leoliadau. Dylai sicrhau lles pob dysgwr fod yn rhan bwysig ac annatod o'r broses, gan gydnabod anghenion unigolion ac, ar yr un pryd, eu cefnogi i barhau i ddysgu a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

- **Rhannu arferion gorau**

Dylai ysgolion ac ymarferwyr gydweithredu i feithrin dealltwriaeth o'r hyn sy'n sail i ddulliau ac arferion llwyddiannus.

Mae Gweinidogion Cymru, gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill, yn datblygu rhwydweithiau i gefnogi a rhannu dysgu ar gyfer ymarferwyr er mwyn cefnogi dealltwriaeth o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Caiff rhagor o wybodaeth am y rhain ei darparu yn 2020 a 2021.

Mewnbwn dysgwyr

Dylai'r cynnwys a ddewisir ar gyfer y cwricwlwm ystyried mewnbwn dysgwyr a dylai gynnig cyfleoedd cynyddol i ddysgwyr er mwyn helpu i gyfeirio'u dysgu wrth iddyn nhw wneud cynnydd. Dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i farn dysgwyr am eu profiadau ac am beth, sut a ble y dylen nhw ddysgu wrth gynllunio cwricwlwm. Mae cyfranogiad yn un o egwyddorion allweddol CCUHP a bydd galluogi cyfranogiad yn creu cwricwlwm diddorol a fydd yn ymateb i ddiddordebau, anghenion a blaenoriaethau'r dysgwyr. Proses yw cyfranogiad, sy'n cefnogi deialog rhwng dysgwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae angen iddi fod yn broses ddiogel, galluogol a chynhwysol ac mae ynddi'i hun yn brofiad dysgu gwerthfawr, sy'n cefnogi ymholi a meddwl yn feirniadol.

Dylai dysgwyr gael gwybod am y broses y mae'r ysgol yn ei dilyn i gynllunio'r cwricwlwm a dylen nhw gael cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylid dangos i ddysgwyr yn glir sut y maen nhw wedi dylanwadu ar benderfyniadau, gan roi adborth am y penderfyniadau a wnaed a pham.

Mae'n bwysig cydnabod bod gwahanol lefelau o gyfranogiad, a bod modd galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn y broses o gynllunio cwricwlwm mewn gwahanol ffyrdd. Gall dysgwyr gael gwybod am benderfyniadau, gellir ymgynghori â nhw am benderfyniadau, gallan nhw rannu'r broses o wneud penderfyniadau ag oedolion, neu gallan nhw berchenogi'r broses o wneud penderfyniadau a phennu eu meysydd a'u cwestiynau eu hunain i'w hystyried gan gymuned ehangach yr ysgol. Bydd gwahanol ffurfiau yn briodol ar wahanol bwyntiau yn y broses o gynllunio cwricwlwm.

Dylai'r broses o gynllunio cwricwlwm hefyd ddefnyddio strwythur sy'n sicrhau bod pob grŵp o blant yn gallu cymryd rhan, gan gynnwys y rheini a all gael eu hymyleiddio.

Gall cynnwys dysgwyr yn uniongyrchol yn y broses o gynllunio'u cwricwlwm gynnwys y camau canlynol.

- Galluogi dysgwyr i wneud dewisiadau am beth a sut y maen nhw'n dysgu.
- Casglu adborth ansoddol ar ôl profiadau dysgu, sy'n llywio'r broses barhaus o gynllunio cwricwlwm.
- Ystyried safbwyntiau dysgwyr o ddydd i ddydd yn yr ystafell ddosbarth drwy addysgeg gyfranogol.
- Cynnwys dysgwyr yn y broses o bennu blaenoriaethau ar gyfer y cwricwlwm ac ar gyfer cynnwys dysgu.
- Sicrhau bod adnoddau i gefnogi cyfranogiad.
- Sicrhau bod ymgynghori, dadansoddiad o safbwyntiau dysgwyr ac adborth wedi'u cynnwys fel camau yn y broses o gynllunio a gwerthuso cwricwlwm.
- Sicrhau bod adborth yn cael ei roi i ddysgwyr a staff ar ganlyniadau cyfraniadau llais y dysgwr, a bod hyn yn cael ei ystyried yn yr amser a ddyrennir ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm.
- Sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybod am broses yr ysgol o ddylunio'r cwricwlwm mewn iaith a fformat hygyrch, er mwyn iddyn nhw wybod pa gyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw gymryd rhan yn y broses.

Gweithio gyda rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid

Wrth ddatblygu eu cwricwlwm, dylai ysgolion gynnwys dysgwyr, rhieni, gofalwyr, asiantaethau partner a'r gymuned leol. Mae hon yn ffordd bwysig o sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion y dysgwyr a'i fod yn ddilys i'w cyd-destun o fewn y fframwaith cenedlaethol. Mae ysgolion ac ymarferwyr hefyd yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod dysgwyr, rhieni, gofalwyr a chymunedau yn deall y weledigaeth a'r ethos sy'n sail i'r cwricwlwm.

Dylai dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol gael cyfle i gyfrannu at y broses o gynllunio'r cwricwlwm. Mae cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr yn barhaus yn ffordd bwysig o feithrin cydberthnasau cadarnhaol er mwyn ymgysylltu â nhw mewn ffordd bwrpasol ac ystyrlon. Os caiff hyn ei wneud yn dda, gall hyrwyddo cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut y gallan nhw gefnogi dysgu yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Dylai cwricwla ysgolion hefyd gydnabod ac adlewyrchu anghenion a chyd-destunau'r cymunedau yn yr ysgol a thu hwnt. Dylai ymarferwyr hefyd geisio cydweithredu a manteisio ar ystod o arbenigwyr a rhanddeiliaid a all gyfrannu at ddysgu, gan ddarparu profiadau unigryw a chyfoethogol i ddysgwyr.

Adolygu cwricwlwm

Bydd yn ofynnol i ysgolion barhau i adolygu eu cwricwlwm er mwyn iddyn nhw allu ymateb i allbynnau ymholiad proffesiynol, anghenion newidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi crynodeb o'u cwricwlwm ac adolygu'r crynodeb os byddan nhw'n gwneud newidiadau i'r cwricwlwm.

Addysgeg

Mae addysgeg wrth wraidd cwricwlwm. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion ystyried y dulliau addysgegol y bydd angen iddyn nhw eu defnyddio i gefnogi dysgwyr i wireddu'r [pedwar diben](#). Dylai ysgolion geisio datblygu gweledigaeth gref o ddysgu ac addysgu sy'n ystyried 'pam' a 'sut' yn ogystal â 'beth'. Bydd y weledigaeth hon yn cydnabod rôl hanfodol yr amgylchedd dysgu wrth gefnogi dysgu effeithiol.

Dylai ysgolion sicrhau bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth ddofn a manwl o'r egwyddorion addysgegol a'r ymchwil sy'n sail iddyn nhw. Mae addysgeg effeithiol yn dibynnu ar ddealltwriaeth fanwl o ddatblygiad plant a phobl ifanc. Mae'n cynnwys archwilio a myfyrio ar y strategaethau addysgu a fydd yn cefnogi'r dysgu orau mewn cyd-destun penodol, ac ymchwilio i effaith hyn ar ddysgwyr.

Dylai'r broses o gynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgwyr o bob oed a gallu fod yn seiliedig ar egwyddorion addysgegol. Mae'r rhain yn adlewyrchu tystiolaeth hysbys am addysgeg effeithiol.

Yr egwyddorion addysgegol

Caiff y broses o gynllunio cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr ei hategu gan deuddeg egwyddor addysgegol, sy'n datgan bod dysgu ac addysgu da yn:

1. canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
2. rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel, ond o fewn eu cyrraedd
3. defnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol
4. defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
5. golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
6. creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu
7. dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
8. ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd
9. atgyfnerthu yn rheolaidd y sgiliau trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i'w hymarfer
10. annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain
11. hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol
12. hybu cydweithio.

Er mwyn cefnogi'r cwricwlwm, dylai addysgeg helpu dysgwyr i ddatblygu:

- ymagwedd gadarn i ddysgu
- sgiliau **metawybyddol** cadarn
- sgiliau datrys problemau beirniadol a chreadigol
- sgiliau cyfathrebu effeithiol iawn.

Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogwr allweddol ar gyfer y cwricwlwm. Dylai:

- annog dysgwyr i fod yn annibynnol, i fynegi eu barn am eu dysgu eu hunain, ac i gymryd mwy o gyfrifoldeb amdano
- cynnwys pob dysgwr
- rhoi cyfleoedd dysgu dilys i ddysgwyr o bob oed, a hynny dan do ac yn yr awyr agored
- galluogi dysgwyr i gymhwyso, defnyddio, cyfnerthu ac ymestyn sgiliau
- bod yn gyson ac yn ddiogel.

Er mwyn cefnogi hyn, dylai ymarferwyr:

- feithrin cydberthnasau cadarnhaol a llawn parch â dysgwyr a chefnogi cydberthnasau da rhwng cyfoedion
- ymateb i bob dysgwr
- cynllunio cyfleoedd dysgu datblygiadol briodol, wedi'u llywio gan waith arsylwi rheolaidd ac asesiadau parhaus o ddysgu a chyfnod datblygu'r dysgwr
- annog dysgwyr i feddwl am eu dysgu a myfyrio arno er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a chreu cysylltiadau
- herio dysgwyr a phennu disgwyliadau uchel ohonyn nhw
- ymgysylltu'n weithredol â rhieni, gofawyr a'r gymuned ehangach fel partneriaid dysgu
- bod yn fyfyrionol a cheisio achub ar gyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus.

Camau cynnydd cynnar

Mae deuddeg egwyddor addysgegol yn disgrifio addysgeg dda ar gyfer holl gyfnodau cynnar datblygiad dysgwyr. Er ei bod yn berthnasol i bob dysgwr, dylai addysgeg ar gyfer y camau cynnydd flaenoriaethu:

- datblygiad holistaidd sgiliau gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol
- dysgu drwy gyfnodau estynedig o chwarae neu amser hamdden ac archwilio di-ben-draw, a hynny dan do ac yn yr awyr agored
- dysgwyr yn ysgogi, yn dewis ac yn cyfeirio eu dysgu eu hunain, ynghyd â rhyngweithio sensitif gan oedolion sy'n ennyn dysgu drwy chwarae ac amser hamdden ac archwilio a arweinir gan ddysgwyr
- cynllunio amgylchedd a all gefnogi dysgu profiadol a sgematig
- cyfleoedd ar gyfer symud corfforol sy'n sail i ddysgu ym mhob un o'r Meysydd
- ymarferwyr sy'n ceisio cyflwyno ac ysgogi cyfleoedd newydd ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth, gan barchu diddordebau'r dysgwyr

- pwyslais cryf ar gaffael iaith cynnar
- dysgu drwy brofiadau uniongyrchol, ymarferol a dilys
- amgylchedd dysgu o ansawdd uchel sy'n rhoi cyfleoedd i symud yn rhydd rhwng **gweithgareddau parhaus**, **gweithgareddau wedi'u cyfoethogi** a **gweithgareddau â ffocws**, wedi'u lleoli dan do ac awyr agored.

Cwestiynau allweddol i ysgolion a lleoliadau eu hystyried

1. Sut y byddwn yn creu diwylliant sy'n annog ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth ddofn o addysgeg a'r sgil i ddewis y dull gweithredu addysgegol mwyaf priodol?
2. Sut y byddwn yn sicrhau bod addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael ei datblygu a'i hymestyn?
3. Sut y bydd ein gweledigaeth ar gyfer dysgu yn adlewyrchu'r deuddeg egwyddor addysgeg?
4. Pa amgylchedd dysgu y mae angen i ni ei greu i gefnogi ein gweledigaeth ddysgu'n llawn?

Paratoi ar gyfer 2022

Cynigir y bydd yn ofynnol i ysgolion roi eu cwricwlwm ar waith o fis Medi 2022 ar gyfer dysgwyr hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 7. Yna, bydd disgwyl i ysgolion uwchradd gyflwyno eu cwricwla fesul blwyddyn, gan wneud hynny ar gyfer Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023 ac ar gyfer Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026.

Cyn mis Medi 2022, bydd yn ofynnol i bob ysgol gynllunio'i chwricwlwm, gan gynnwys y trefniadau asesu ategol, yn barod ar gyfer ei fabwysiadu. I baratoi ar gyfer hyn, dylent ddatblygu'r weledigaeth a'r fethodoleg a ddisgrifir yn y canllawiau 'Cynllunio eich cwricwlwm' hyn.

Bydd yn ofynnol i ysgolion uwchradd gynllunio cwricwlwm ar gyfer pob grŵp blwyddyn erbyn 2022, ond bydd angen parhau i fireinio'r dyluniad hwn yn unol â'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm y tu hwnt i 2022 er mwyn ystyried manylion cymwysterau pan fyddan nhw wedi'u cadarnhau. Bydd yn ofynnol iddyn nhw hefyd weithio gyda'u clystyrau ac ysgolion uwchradd eraill.

Wrth i'w cwricwlwm gael ei gyflwyno, dylai ysgolion ystyried sut y dylai eu cwricwlwm gael ei adolygu mewn ymateb i'r ddysgu.

Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol

Cyflwyniad

Gall natur ddeinamig y **celfyddydau mynegiannol** ysgogi ac ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell i ddatblygu i'r eithaf eu sgiliau creadigol ac artistig ynghyd â'u sgiliau perfformio.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol (Maes) yn cwmpasu pum disgyblaeth, sef **celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol**. Er bod gan bob un o'r disgyblaethau hyn **gorff o wybodaeth** a **sgiliau** sy'n perthyn yn benodol i'r ddisgyblaeth honno, cydnabyddir eu bod, gyda'i gilydd, yn rhannu'r **brose greadigol**.

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi'i fynegi mewn tri datganiad, sy'n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae dysgu a phrofiad yn y Maes hwn yn annog datblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd fydd o gymorth i ddysgwyr ddal ar bob cyfle fydd yn codi yn eu bywydau, gan wynebu'r heriau.

Boed fel rhai sy'n creu neu fel rhan o gynulleidfa, trwy ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol gall dysgwyr ddod i ddeall a gwerthfawrogi diwylliannau a chymdeithasau yng Nghymru a'r byd. Trwy hyn gall dysgwyr feithrin sgiliau i archwilio amrywiaeth ddiwylliannol mewn lleoedd a chyfnodau gwahanol.

Mae'n bwysig fod y Maes yn anelu at sicrhau bod y celfyddydau mynegiannol yn agored i bob dysgwr, a thrwy'r dull cynhwysol hwn, ehangu gorwelion pob un ohonyn nhw.

Gall profi'r celfyddydau mynegiannol gynnu diddordeb dysgwyr yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol. O ganlyniad bydd eu lles, eu hunan-barch a'u gwydnwch yn cael eu meithrin. Bydd hyn o gymorth iddyn nhw ddod yn **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

Gall profiadau yn y celfyddydau mynegiannol hefyd annog dysgwyr i ddatblygu eu gallu i werthfawrogi **gwaith creadigol** pobl eraill yn ogystal â'u talentau creadigol a'u sgiliau artistig a pherfformio eu hunain. Y nod yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio, mireinio a chyfathrebu syniadau gan feddwl yn greadigol a defnyddio'r dychymyg a'r synhwyrau.

Mae ymwneud â'r Maes hwn yn gofyn am ymroddiad personol, dyfalbarhad a sylw manwl i fanylion, rhinweddau sy'n cyfrannu at wneud dysgwyr yn ddysgwyr **uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes**.

Gall profiadau yn y Maes hwn ysbrydoli a chymell dysgwyr gan eu bod yn rhoi cyfle iddyn nhw ddod i gyswllt â **phrosesau creadigol**. Golyga hyn gynnig cyfleoedd i

ddysgwyr gael profiadau megis ymweld â theatrau ac orielau, ac i ddod ag arbenigedd ymarferwyr allanol i mewn i'r ystafell ddosbarth.

Gall ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol wella cyflogadwyedd dysgwyr gan eu bod yn cael eu hannog i reoli eu hamser a'u hadnoddau i greu gwaith pwrpasol a chwrdd â therfynau amser. Gall hybu ymchwilio beirniadol, sy'n gallu arwain at newidiadau. Gyda'i gilydd, gall y sgiliau hyn gefnogi dysgwyr i ddod yn **gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.**

At hyn, mae'r gwerthuso sy'n rhan o'r broses creadigol yn galluogi'r dysgwyr i archwilio materion cymhleth. Mae'n eu galluogi i herio rhagdybiaethau ac i ddod o hyd i atebion a all arwain at well dealltwriaeth o'u hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain ynghyd â hunaniaeth ddiwylliannol pobl, lleoedd a chyfnodau eraill. Drwy'r profiad hwn, caiff y dysgwyr gefnogaeth i ddod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.**

Yn olaf, wrth iddyn nhw gael mwynhad a boddhad personol drwy fynegiant creadigol, gall dysgwyr ddod yn fwy hyderus, a gall hyn gyfrannu'n uniongyrchol at gyfoethogi eu bywydau.

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwifrydig a chreadigol.

Wrth archwilio'r Maes hwn trwy eu **gwaith creadigol** eu hunain a gwaith eraill, mae dysgwyr yn mynd i'r afael â **genres**, **technegau**, offer, deunyddiau a dulliau. Mae hyn yn eu galluogi i ddod yn unigolion chwifrydig a chreadigol.

Drwy archwilio ffurfiau a disgyblaethau yn y celfyddydau mynegiannol, boed drwy arbrofi, chwarae neu ymchwilio ac ymholi mwy ffurfiol, gall dysgwyr ddod i ddeall y ffordd y mae'r **celfyddydau mynegiannol** yn cyfathrebu drwy ddulliau gweledol, corfforol, geiriol, cerddorol a thechnolegol. Mae'r archwilio hwn hefyd yn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r celfyddydau mynegiannol yn ffurfio syniadau a theimladau. Gall hyn eu hannog i feithrin eu dychymyg a thynnu ar eu profiadau, eu sgiliau a'u doniau er mwyn iddyn nhw ddod yn artistiaid creadigol eu hunain.

Mae'r celfyddydau mynegiannol hefyd yn gyfrwng grymus y gall dysgwyr ei ddefnyddio i archwilio Cymru, ei thraddodiadau unigryw a'i diwylliannau amrywiol. Gallan nhw gynnig cyfle i ddysgwyr archwilio eu hetifeddiaeth ddiwylliannol eu hunain yn ogystal â rhai pobl, llefydd a chyfnodau eraill. Trwy hyn gallan nhw ddarganfod sut y gellir defnyddio'r celfyddydau mynegiannol i ffurfio a mynegi hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol. Gall dysgwyr hefyd archwilio sut y gall y celfyddydau mynegiannol gael eu defnyddio i gwestiynu a herio safbwyntiau, a sut y maen nhw'n gallu ysgogi newid personol a chymdeithasol.

Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Mae ymateb o fewn y **celfyddydau mynegiannol** yn ysgogi ein hemosiynau a'n deall. Gall yr ymateb fod yn adwaith syml y synhwyrau i ysgogiad artistig, neu'n ddadansoddiad beirniadol o waith creadigol. Bydd y gallu i fyfrio yn dyfnhau wrth i ddysgwyr gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut a pham y caiff **gwaith creadigol** ei ddatblygu a'i greu.

Gall mabwysiadu'r sgiliau a'r eirfa feirniadol o fewn y Maes hwn alluogi dysgwyr i ystyried gwaith creadigol mewn amrywiaeth o gyfryngau, **ffurfiau**, **genres** ac **arddulliau**.

Gall dysgu sgiliau dadansoddi pwysig o fireinio a dadansoddi gyfrannu at eu datblygiad creadigol.

Yn ogystal, gellir datblygu gwydnwch dysgwyr wrth iddyn nhw gael eu hannog i adnabod sut y gallan nhw wella eu gwaith, ac ymateb i adborth gan eraill.

Mae ymwneud â'r Maes hwn yn annog ymateb, ac mae hyn yn ysgogi dysgwyr i fyfrio ar effeithiolrwydd eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, gan gynnwys gwaith **artistiaid** o Gymru a thu hwnt.

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyr, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Trwy ymwneud â'r Maes hwn, bydd cyfleoedd yn cael eu rhoi i ddysgwyr fod yn arloesol a beiddgar, i greu gwaith unigol ac i ddatblygu eu hunaniaeth eu hunain fel **artistiaid** yng Nghymru. Gall y dysgu a'r profiad hwn feithrin gwydnwch a hyblygrwydd i oresgyn heriau.

Mae creu yn y **celfyddydau mynegiannol** yn cwmpasu ystod o weithgareddau gan gynnwys cynllunio, drafftio, dylunio, gwneud, coreograffu, siapio, cyfansoddi a golygu. Mae creu yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a dangos rheolaeth ar ystod o sgiliau, a'r gallu i gymhwyso gwybodaeth.

Yn ystod y **broses greadigol** mae dysgwyr yn cyfathrebu drwy amrywiaeth o ffurfiau a disgyblaethau celfyddydol. Mae cyfathrebu yn cynnwys perfformio, cyflwyno, rhannu, arddangos a chynhyrchu, gan ystyried y gynulleidfa.

Yn y Maes hwn, wrth ymwneud â'r broses greadigol, gall dysgwyr adnabod cyfleoedd i drawsnewid eu syniadau, yn ddiogel ac egwyddorol, mewn i waith sydd â gwerth diwylliannol a masnachol, yn ogystal â defnyddio eu sgiliau creadigol i wireddu uchelgais.

Egwyddorion cynnydd

Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Mae dysgwyr yn dangos cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol (Maes) drwy archwilio, profi a chreu ystyr cynyddol gymhleth. Mae cysylltu dysgu newydd â gwybodaeth bresennol yn datblygu soffistigeiddrwydd cynyddol o ran dealltwriaeth gysyniadol. At hynny, mae dysgwyr yn dysgu ac yn mireinio gwahanol fathau o wybodaeth a sgiliau, gan gynnwys y technegau, y prosesau a'r sgiliau sydd eu hangen i greu a dehongli ym mhob maes o'r celfyddydau. Yn ogystal, mae'r sgiliau cyfannol o greadigrwydd; synthesis; meddwl beirniadol; a dealltwriaeth o gyd-destunau diwylliannol yn hanfodol i'r Maes hwn.

Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd

Caiff cynnydd ei ddangos drwy barhau i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i werthfawrogi, creu, archwilio, ymateb a myfyrio mewn disgyblaethau penodol ac mewn cyfuniadau o ddisgyblaethau. Yn ystod y camau cynnar, caiff dysgu ei nodweddu gan chwilfrydedd cynyddol i fod yn greadigol ac yn arloesol drwy ddefnyddio ystod o adnoddau a deunyddiau i archwilio mewn meysydd amrywiol. Mae cyfuno disgyblaethau'n digwydd yn bwrpasol ond hefyd yn organig. Wrth i'r dysgu fynd rhagddo, mae dysgwyr yn dod yn gynyddol ymwybodol o ddisgyblaethau'r celfyddydau mynegiannol a'u nodweddion allweddol, gan gynnwys (ond heb eu cyfyngu i'r canlynol) celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol. Mae dysgwyr yn nodi cysylltiadau yn y **broses greadigol** ar draws y disgyblaethau er mwyn archwilio, creu, dehongli ac ymateb.

Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau

Bydd lefelau rheolaeth, cywirdeb a rhuglder wrth ddefnyddio ystod o sgiliau'r celfyddydau yn cynyddu wrth i ddysgwyr ddatblygu. Er enghraifft, o ran dysgu yn y cyfnod cynnar, gallai hyn gael ei nodweddu gan ddefnyddio symudiadau corff syml i greu dawn a bod yn ymwybodol o agweddau sylfaenol megis cyflymder, cyfeiriad a lefelau wrth werthuso eich gwaith eich hun a gwaith eraill. Yn ystod cam mwy ymestynnol o gynnydd, gallai dysgwyr greu a gwerthuso llwyddiant rhyngweithio ymysg gwahanol agweddau ar symud mewn dawn gymhleth wedi'i choreograffu. Wrth iddyn nhw wneud cynnydd, mae dysgwyr yn datblygu'n barhaus o ran dyfnder ac yn defnyddio soffistigeiddrwydd cynyddol i fireinio'r sgiliau celfyddydol hyn mewn gwahanol ddisgyblaethau a/neu weithgarwch rhyngddisgyblaethol.

Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd

Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi fwyfwy y posibilrwydd o gyfuno disgyblaethau yn y Maes er mwyn gwerthfawrogi a chyflawni deilliannau creadigol. Caiff cynnydd ei nodweddu hefyd gan ddefnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol mewn disgyblaethau unigol a'r gallu cynyddol i drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau presennol i gyd-destunau newydd yn y Maes hwn ac ar draws Meysydd eraill.

Effeithiolrwydd cynyddol

Caiff cynnydd ei ddangos drwy symud o gael cymorth yr athro i wneud rhywbeth, tuag at ymreolaeth a soffistigeiddrwydd. Mae cynnydd yn debygol o ddeillio o ddefnyddio ac ailddefnyddio sgiliau hysbys yn raddol, ond gallai, o bryd i'w gilydd, fod yn naid ansoddol fawr.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, maen nhw'n gwneud mwy a mwy o waith gwerthuso ac yn creu gwaith creadigol mwyfwy soffistigedig yn annibynnol a thrwy gydweithio mwy ag eraill. Maen nhw'n magu mwy o hyder drwy gael cyfleoedd i archwilio, profi a dehongli eu meddyliau, drwy ddisgyblaethau'r celfyddydau mynegiannol mewn amgylchedd diogel yn ogystal â thrwy gael cyfleoedd i ymateb iddyn nhw a'u gwerthuso mewn amgylchedd o'r fath. Mae'r ffordd y maen nhw'n gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill yn adlewyrchu dealltwriaeth gynyddol o broses yn ogystal â chynnyrch, ynghyd â gwydnwch cynyddol wrth gael adborth, a dyfalbarhad cynyddol wrth weithredu arno.

Disgrifiadau dysgu

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau , deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol.	Rwy'n gallu archwilio, arbrofi gyda, ac yna ddewis technegau, dulliau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol priodol.	Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi'n annibynnol, a dangos rheolaeth dechnegol gydag ystod o ddeunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol gan ddangos arloesedd a gwydnwch. Rwy'n gallu archwilio'r effeithiau mae ystod o dechnegau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol yn eu cael ar fy ngwaith creadigol fy hun ac eraill.	Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi gyda fy syniadau creadigol fy hun a syniadau creadigol pobl eraill, gan ddangos rheolaeth dechnegol sy'n gynyddol gymhleth, arloesedd, meddwl annibynnol a gwreiddioldeb er mwyn datblygu fy ngwaith gyda hyder. Rwy'n gallu gwneud hyn gan esbonio fy rhesymau dros wneud penderfyniadau, a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar fy ngwaith creadigol.	Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi gyda fy syniadau creadigol fy hun a syniadau creadigol pobl eraill, gan ddangos rheolaeth dechnegol, arloesedd, meddwl annibynnol a gwreiddioldeb, gan ddangos hyder i gymryd risgiau a datblygu gwydnwch er mwyn goresgyn heriau creadigol.

Rwy'n gallu gofyn cwestiynau i ganfod sut y caiff gwaith creadigol ei wneud.	Rwy'n gallu archwilio pam a sut y caiff gwaith creadigol ei wneud trwy ofyn cwestiynau a datblygu fy atebion fy hun.	Rwy'n gallu archwilio sut y gall gwaith creadigol gynrychioli , cofnodi, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol.	Rwy'n gallu archwilio gwaith creadigol gan ddeall y cyd-destun personol, cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol, gan gynnwys confensiynau'r cyfnod y cafodd y gwaith ei greu ynddo.	Rwy'n gallu ymchwilio a dadansoddi sut mae gwaith creadigol yn cael ei ddefnyddio i gynrychioli a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol.
Rwy'n dechrau archwilio syniadau, teimladau a gwahanol naws mewn amrywiaeth o waith creadigol.	Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu gwahanol naws, teimladau a syniadau.	Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu gwahanol naws a syniadau, a'r effaith maen nhw'n ei chael ar gynulleidfa.	Rwy'n gallu ymchwilio a deall sut mae ystyr yn cael ei gyfleu trwy syniadau artistiaid a pherfformwyr eraill.	Rwy'n gallu ymchwilio yn annibynnol i ddiben ac ystyr ystod eang o waith creadigol ac ystyried pa effaith y gallan nhw ei chael ar wahanol gynulleidfaoedd.

Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu gwrandao ar eraill yn mynegi barn ar fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill ac ymateb iddyn nhw.	Rwy'n gallu rhoi a derbyn adborth fel artist ac fel cynulleidfa.	Rwy'n gallu rhoi ac ystyried adborth adeiladol am fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, gan fyfyrto arno a'i wella yn ôl y gofyn.	Rwy'n gallu gwerthuso fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill yn effeithiol gan ddangos hyder cynyddol i adnabod a chyfleu cryfderau, ac i ddangos gwydnwch a phenderfyniad i wella.	Rwy'n gallu dadansoddi ac ymateb yn feirniadol ac yn feddylgar i farn a dylanwadau creadigol pobl eraill er mwyn llywio a datblygu fy ngwaith creadigol yn annibynnol.

Rwy'n dechrau cymharu fy ngwaith creadigol gyda gwaith creadigol pobl eraill.	Rwy'n gallu cymharu fy ngwaith creadigol fy hun gyda gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.	Rwy'n gallu cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun, a gwneud cysylltiadau rhwng fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.	Rwy'n gallu cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun wrth werthuso fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.	Rwy'n gallu cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun yn bwrpasol wrth werthuso fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.
Rwy'n dechrau siarad am fy hwyliau a'm hemosiynau, a defnyddio'r rhain i ddylanwadu ar fy ngwaith creadigol.	Gydag arweiniad, rwy'n gallu ystyried y ffordd y caiff hwyliau, emosiynau a syniadau eu cyfleu yn fy ngwaith creadigol fy hun ac yng ngwaith creadigol pobl eraill.	Rwy'n gallu myfyrio ar y ffordd y mae artistiaid wedi llwyddo i greu effeithiau neu gyfleu hwyliau, emosiynau a syniadau yn eu gwaith.	Rwy'n gallu gwerthuso effeithiolrwydd ystod eang o dechnegau artistig wrth gynhyrchu ystyr.	Rwy'n gallu gwerthuso'n feirniadol y ffordd y mae artistiaid yn defnyddio sgiliau sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol i greu a mynegi syniadau.

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrâu, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu mynegi fy syniadau, teimladau ac atgofion yn fy ngwaith creadigol.	Rwy'n gallu cyfleu syniadau, teimladau ac atgofion ar gyfer cynulleidfya ac ar gyfer dibenion a chanlyniadau yn fy ngwaith creadigol.	Rwy'n gallu cyfuno fy ngwybodaeth, profiad a dealltwriaeth i gynllunio a chyfleu fy ngwaith creadigol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd, dibenion a chanlyniadau.	Rwy'n gallu defnyddio fy sgiliau arbrofi ac ymchwilio i drin gwaith creadigol gyda phwrpas a bwriad wrth fynegi fy syniadau.	Rwy'n gallu dwyn ynghyd a chymhwysu profiad, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn ffordd soffistigedig a chyda bwriad wrth fynegi fy syniadau.

Rwy'n gallu efelychu technegau artistig cydnabyddedig wrth greu fy ngwaith fy hun.	Rwy'n dechrau cymhwyso technegau yn fy ngwaith creadigol gydag arweiniad a chyfarwyddyd.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o dechnegau penodol i'r ddisgyblaeth sy'n gyfarwydd i mi, yn fy ngwaith creadigol.	Rwy'n gallu cymhwyso sgiliau technegol arbenigol yn fy ngwaith creadigol.	Rwy'n gallu defnyddio technegau proffesiynol cydnabyddedig, sy'n benodol i'r ddisgyblaeth, yn hyderus a chydag arddeliad yn fy ngwaith creadigol, gan weithio tuag at safon diwydiant.
Rwy'n dechrau dylunio fy ngwaith creadigol fy hun.	Rwy'n gallu creu fy nyluniadau fy hun, ac rwy'n gallu gweithio ar y cyd gydag eraill i ddatblygu syniadau creadigol.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth ddylunio a gwneud cysylltiadau gydag annibyniaeth gynyddol er mwyn addasu a datblygu fy nyluniadau creadigol.	Rwy'n gallu defnyddio fy sgiliau dylunio yn bwrpasol a chymhwyso ystod o ddatrysiadau i egluro a mireinio syniadau creadigol terfynol.	Rwy'n gallu dylunio deilliannau creadigol gyda soffistigeiddrwydd i safon broffesiynol a safon diwydiant, a hynny gyda phwrrpas a bwriad clir.
Rwy'n gallu rhannu fy ngwaith creadigol.	Rwy'n gallu perfformio, cynhyrchu, dylunio, arddangos a rhannu fy ngwaith creadigol mewn amrywiaeth o ffyrdd ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, a hyn wedi'i ysbrydoli gan ystod o sbardunau a phrofiadau.	Rwy'n gallu perfformio, cynhyrchu, dylunio, arddangos a rhannu fy ngwaith creadigol mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan ystyried effaith fy ngwaith creadigol ar y gynulleidfa.	Rwy'n gallu perfformio, cynhyrchu, dylunio, arddangos a rhannu fy ngwaith creadigol gan ddangos ymwybyddiaeth o fwriad artistig a chynulleidfa.	Rwy'n gallu ystyried diben artistig, pwrpas a chynulleidfa mewn ffordd wybodus wrth berfformio, cyflwyno a marchnata fy ngwaith creadigol.

	Rwy'n dechrau dangos gwydnwch a hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â heriau creadigol.	Rwy'n gallu adnabod ac ymateb yn greadigol i heriau, a gwneud hyn gyda gwydnwch a hyblygrwydd.	Rwy'n gallu goresgyn heriau creadigol gyda dychymyg a gwydnwch drwy ddefnyddio fy mhrofiadau a'm gwybodaeth, a hyn er mwyn llywio a datblygu strategaethau.	Rwy'n gallu defnyddio strategaethau effeithiol i gymryd risg gyda fy ngwaith creadigol fy hun, ac rwy'n gallu dangos gwydnwch i oresgyn heriau creadigol.
Rwy'n dechrau defnyddio deunyddiau creadigol yn ddiogel gydag arweiniad a chyfarwyddyd.	Rwy'n gallu defnyddio deunyddiau creadigol yn ddiogel gyda pheth rheolaeth o dan oruchwyliaeth.	Rwy'n gallu dewis a defnyddio'r offer a'r deunyddiau creadigol cywir yn ddiogel gyda pheth ystyriaeth tuag at eraill.	Rwy'n gallu, yn hyderus, ystyried fy hun, pobl eraill, y gynulleidfa, cyfranogwyr a materion eiddo deallusol wrth greu gwaith.	Rwy'n gallu gwerthuso a barnu priodoldeb fy ngwaith creadigol fy hun mewn perthynas ag ystyriaethau moesegol a chyfreithiol , a'i effaith ar gyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

Cynllunio eich cwricwlwm

Mae hyn yn rhoi arweiniad penodol i'w ddefnyddio wrth ymgorffori dysgu o fewn y celfyddydau mynegiannol yn eich cwricwlwm. Dylai gael ei ddarllen ynghyd ag adran gyffredinol [Cynllunio eich cwricwlwm](#) sy'n berthnasol i ddysgu ac addysgu trwy bob maes dysgu a phrofiad.

Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol

Rhaid i gwricwlwm ymwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm. Mae'r canlynol yn rhai egwyddorion allweddol y dylai lleoliadau/ysgolion eu hystyried wrth gynllunio dysgu ac addysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad y [Celfyddydau Mynegiannol](#) (Maes).

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Llythrennedd

O ymwybyddiaeth o'r Maes hwn ac ymwneud ag ef, mae dysgwyr yn datblygu sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer dadansoddiad beirniadol a defnydd derbyngar a mynegiannol o iaith. Mae dysgu a phrofiad yn y maes hwn yn cynnig ystod o gyd-destunau cyfoethog a phwrpasol lle gellir atgyfnerthu, datblygu, cymhwyso ac ymestyn sgiliau llythrennedd dysgwyr. Gall archwilio ac ymwybyddiaeth o amrywiaeth o waith creadigol fod yn bwerus yn natblygiad strategaethau darllen a sgiliau darllen uwch, megis casglu a dehongli. Mae'n llwyfan hyblyg i ddysgwyr gaffael y sgiliau a'r wybodaeth i addasu eu hiaith at ddiben ac i gynulleidfa ac mae'n cynnig cyfleoedd pwrpasol i adeiladu hyder fel y gall dysgwyr fynegi eu hunain fel unigolion ac mewn rôl.

Rhifedd

Mae'r Maes hwn yn cynnig cyfleoedd creadigol i ddatblygu sgiliau rhifedd mewn ystod o gyd-destunau diddorol. Mae dysgwyr yn cyfathrebu gyda symbolau ac yn defnyddio ystod o iaith fathemategol. Maen nhw'n archwilio cysyniadau sy'n perthyn i fyd geometreg a mesuriadau megis maint, siâp, cymesuredd, graddfa, hyd, dimensiwn, pellter, safle, safbwynt ac amser. Maen nhw hefyd yn archwilio cysyniadau sy'n perthyn i rif megis strwythur, patrwm a rhythm, cyfrif, ailadrodd, brawddeg a llythrennedd ariannol.

Cymhwysedd digidol

Mae'r Maes hwn yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i ddatblygu cymhwysedd digidol mewn meysydd megis cydweithredu digidol, technoleg cynhyrchu, eiddo deallusol, deallusrwydd artiffisial, hawliau digidol, trwyddedu a pherchnogaeth, delwedd y corff a golygu lluniau, yn ogystal ag arbed, rhannu a dosbarthu gwaith digidol.

Sgiliau cyfannol

Creadigrwydd ac arloesedd

Y **broses greadigol** yw hanfod y Maes hwn. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, a sgiliau creadigol ac arloesol. Disgwylir i ddysgwyr ystyried dylanwadau a llywio eu creadigrwydd eu hunain. Mae dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau creadigol a'u dychymyg, yn darganfod posibiliadau a mireinio syniadau er mwyn cynhyrchu eu gwaith creadigol unigryw eu hunain. Mae meddylfryd creadigol sy'n datblygu trwy archwilio o fewn a thrwy'r Maes hwn yn galluogi dysgwyr i archwilio'r anwybod a gwneud cysylltiadau. Mae dysgwyr yn cymryd risgiau creadigol i fynd y tu hwnt i wybodaeth sy'n bodoli eisoes ac yn derbyn methiant fel profiad dysgu.

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Anogir mireinio trwy un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn, gyda'r nod o adeiladu sgiliau hunanwerthuso ac adfyfrio. Mae'r gwerthuso sy'n rhan o'r broses greadigol yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau adfyfrio, cwestiynu a datrys problemau, yn ogystal â herio canfyddiadau a nodi datrysiadau. Gall dysgwyr arddangos gwydnwch wrth roi gwerthusiad beirniadol o'u gwaith, a gellir disgwyl iddyn nhw ymateb yn gadarnhaol i adborth beirniadol. Gall dysgwyr ddatblygu sgiliau datrys problemau trwy arbrofi gydag amrywiaeth o gelfyddydau a thechnegau celfyddydol.

Effeithiolrwydd personol

Trwy'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn, mae dysgwyr yn datblygu hunan hyder, hunan werth, annibyniaeth, sgiliau cyfathrebu ac ymwybyddiaeth gymdeithasol a diwylliannol. Mae dysgwyr yn dod yn fentrus, yn ddyfeisgar ac yn wydn trwy reoli eu hunain a'u hadnoddau. Yn ei dro, mae hyn yn cyfoethogi eu sgiliau byd gwaith. Maen nhw'n cael eu hannog i ddatblygu gwydnwch trwy dderbyn methiant a gwerthfawrogi ei le yn y broses greadigol.

Cynllunio a threfnu

Trwy'r Maes hwn, anogir dysgwyr i gynllunio, gosod eu nodau eu hunain a rheoli adnoddau. Gallan nhw gymhwyso prosesau adfyfyriol, beirniadol a chreadigol er mwyn gwneud synnwyr o syniadau a phrofiadau. Mae'r gallu i gynhyrchu syniadau, datblygu chwilfrydedd, archwilio a dod â syniadau'n fyw yn sylfaenol i'r Maes hwn.

Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn yn cynrychioli'r **broses greadigol**. Trwy'r broses greadigol, mae dysgwyr yn archwilio, yn ymateb i ysgogiadau ac yn creu a myfyrio ar eu gwaith eu hunain wrth ymwneud â **phrofiadau dilys**, cyfoethog.

Mae'r Maes hwn yn cwmpasu pum disgyblaeth: celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu'r broses greadigol, a phob un yn cyfrannu sgiliau trosglwyddadwy a gwybodaeth tuag at brofiad dysgwr. Yn ychwanegol, mae gan bob un o'r disgyblaethau **gorff o wybodaeth** a **sgiliau** sy'n perthyn yn benodol iddyn nhw. Mae'r dysgu hwn yn cefnogi cynnydd ac yn cynnig mwy o ddyfnder i'r dysgu.

Mae'r Maes wedi'i gynllunio i gefnogi datblygu dull mwy cyfannol o ddysgu. Mae hyblygrwydd i ddewis sut i strwythuro cwricwlwm – megis trwy ddull cyfannol, amlddisgyblaethol, rhyngddisgyblaethol neu ddisgyblaethol. Ar draws taith y dysgwyr ar y continwmm 3 i 16, mae'n bwysig cynnig cyfleoedd eang a chytbwys ar gyfer celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol.

Dylid addasu'r dysgu a'i wneud yn amlochrog, a dylai newid gan ddibynnu ar y dysgwyr a'u cyd-destun. Waeth beth yw'r dull a ddewisir, mae'n bwysig nodi fod y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn gysylltiedig â'i gilydd ac na ddylen nhw gael eu dysgu ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n galluogi'r dysgwyr i ymwneud yn llawn â'r **broses greadigol** y mae gan bob un o'r disgyblaethau yn y celfyddydau mynegiannol yn gyffredin.

Ystyriaethau wrth gynllunio eich cwricwlwm

- cyfleoedd teg i gynnwys y pum disgyblaeth: celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol
- cynnydd ar hyd y continwmm – cymhlethdod, rheolaeth, dyfnder ac annibyniaeth
- profiad, gwybodaeth a sgiliau sy'n gynhenid i bob disgyblaeth, yn ogystal ag ar draws pob un
- cyfleoedd i weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol
- ystod o ysgogiadau, technegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau
- **arddulliau**, **genres** a **thestunau creadigol** ar draws yr holl ddisgyblaethau a chan gwmpasu pobl, lleoedd, diwylliannau a chyfnodau
- sgiliau a **geirfa benodol i'r ddisgyblaeth**
- profiad o leoliadau go iawn a rhithwir a digwyddiadau a gwyliu celfyddydol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- gwerthfawrogiad ac ymateb beirniadol
- mewnbwn gan bobl broffesiynol a phrofiad diwydiant
- mynediad at gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- mynediad at archwiliad ymarferol a damcaniaethol
- cyfleoedd i ddysgwyr gymryd ystod o rolau a chyfrifoldebau o fewn y **broses greadigol**.

Enghreifftio ehangder

Darperir y canlynol fel enghreifftiau o sut y gallech archwilio dysgu testunol gwahanol yn y Maes hwn. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

Gallai'r maes hwn gynnwys archwilio nid yn unig dechnegau artistig ac effaith gwaith creadigol gan Bob Dylan, Joseph Parry a The Joy Formidable, ond profi hefyd ddylanwadau cymdeithasol, cyd-destun a naratif y gweithiau hynny i ysbrydoli gwaith y dysgwyr eu hunain. Mae gan gelf Ceri Richards, Martin Parr a Mary Lloyd Jones ei berthynas arbennig ei hun â Chymru – gallai hyn fod yn ysbrydoliaeth i ddysgwyr wrth ddatblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau creadigol eu hunain. Mae'r ffilmiau Tiger Bay, House of America, a Solomon a Gaenor i gyd yn portreadu profiadau a chymunedau Cymreig gwahanol, gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r rhain i adnabod a dadansoddi cymeriad, hunaniaeth a lle, wrth iddyn nhw herio a datblygu eu hunaniaethau eu hunain a'u dychymyg drwy'r celfyddydau.

Ystyriaethau sy'n benodol i ddisgyblaethau

Mae profiad, gwybodaeth a sgiliau sy'n gynhenid i bob disgyblaeth yn gynnwysedig yng nghamau cynnydd 1 i 5 gyda chymhlethdod cynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu, i'r canlynol:

Celf

Mae celf yn cynnwys arbrofi gyda a datblygu ystod ddiddiwedd bron o adnoddau, deunyddiau, technegau a phrosesau ar draws pob math o gelf, crefft a dylunio i gynhyrchu ystod o ganlyniadau ac i arddangos ymateb creadigol a phersonol.

Dylech ystyried:

- llinell, siâp, gwead, lliw, dyluniad, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, tôn, graddliwio, gofod, cyferbyniad, cyfrannedd, cyfansoddiad, graddfa, persbectif
- dylunio pensaernïol, hysbysebu, animeiddio, tecstilau gwneud (gwau/gwehyddu/addurno), cerameg, crefft, dylunio, lluniadu, celfyddyd amgylcheddol/tirwedd, ffasiwn, celfyddyd gain, graffeg cyfathrebu, gemwaith ac addurniadau'r corff, darluniad, dylunio rhyngweithiol (gan gynnwys y we, ap a gemau), dylunio mewnol, gosodiad, celf byw, gwneud, cyfryngau cymysg, delwedd symudol, amlgyfryngau, dylunio pecyn, paentio, ffotograffiaeth, gwneud print (cerfwedd/intaglio/prosesau sgrin/lithograffeg), cynllunio arwyddion, cerflunio, celf sain, patrwm arwyneb, tecstilau, argraffwaith, fideo.

Cerddoriaeth

Mae cerddoriaeth yn cynnwys perfformio, byrfyfyrion a chyfansoddi, gwrando a gwerthuso.

Dylech ystyried:

- traw, alaw, dynameg, gwedd, tempo, ansawdd, rhythm, mydr, **ffurf** a strwythur, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. ailadrodd, ostinato, dilyniant), harmoni, tonyddiaeth
- dwyran, teiran, rondo, tŷn gron, miniwét a thrio, stroffig, thema ac amrywiadau, cyfansoddi di-dor, sonata
- perfformio (gan gynnwys lleisiol, offerynnol, technoleg e.e. DJ-io), byrfyfyrion a chyfansoddi (gan gynnwys lleisiol, offerynnol, acwstig, trydanol a digidol, golygu/cynhyrchu), gwrando (gan gynnwys dadansoddi, gwerthuso a gwerthfawrogi ystod o ffurfiau ac **arddulliau** cerddorol ar draws **genres** a chyfnodau o amser).

Dawns

Mae dawnys yn cynnwys perfformio, coreograffi a gwerthfawrogiad ar draws ystod o **arddulliau**.

Dylech ystyried:

- fframwaith symudiad (symudiadau corff, gofod, dynameg, cydberthnasau), amser (rhythm a rhanddawns), creu byrfyfyr, cymeriad, motifau/rhanddawns
- dyfeisiadau coreograffidd (cyfun a chanon, ailadrodd, amrywiad a datblygiad, cyflenwol a chyferbyniol, anterth, uchafbwyntiau)
- strwythurau cyfansoddiadol (dechrau, canol a diwedd, dwyran, teiran, rondo, thema ac amrywiad, naratif, undod, dilyniant rhesymegol, trawsnewidiadau)
- cyfansoddiadau dawnys (pur, haniaethol, telynegol, dramatig, comig, dawnys-drama)
- perfformiad/mireinio gan gynnwys elfennau corfforol (symudiadau, ymddaliad, aliniad, cydbwysedd, cydsymud, rheolaeth, ystwythder, symudedd, cryfder, dyfalbarhad, estyn, arwahaniad)
- mynegiant (tafliad, ymwybyddiaeth ofodol, perseinedd, rhanddawns, mynegiant wyneb, dehongliad, cyfathrebu)
- ystyriaethau technegol (amseru, ail-greu symudiad mewn modd sy'n gywir o ran arddull).

Drama

Mae drama yn cynnwys actio, cyfarwyddo, dylunio, theatr dechnegol a gweinyddu'r celfyddydau.

Dylech ystyried:

- plot, cymeriad, syniad, perthynas ag eraill (sy'n cwmpasu rhyngweithio), tensiwn, ffocws, lleoliad, amser, iaith, llais (sy'n cwmpasu acen, ynganiad, traw, amseru, seibio), symudiad (sy'n cwmpasu osgo, mynegiannau wyneb), cynefin, awyrgylch, naws, symbolau, dylunio sy'n cwmpasu goleuo llwyfan, sain, set, gwallt, colur, gwisg, sgriptio, cynhyrchu a rheoli llwyfan
- comedi, trasiedi, trasicomedi, ffars, theatr gerdd, melodrama, meim, theatr gorfforol.

Ffilm a'r cyfryngau digidol

Mae ffilm a'r cyfryngau digidol yn cynnwys teledu, ffilm, radio, dylunio gemau, ffotograffiaeth, digwyddiadau byw a sgiliau cynhyrchu theatrig, cyfryngau print, cyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu sain ac awdio.

Dylech ystyried:

- golygu, ôl gynhyrchu, gofod 3D, gofod 2D, sain, goleuo, camera, naratif, **arddull, genre**, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithiol a **sonig**), **ffurf** (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), realiti rhithiol
- sain, fideo/ffilm (animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, fideo cerddorol), cyfryngau print, radio/podlediad, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithiol, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, cyfryngau rhyngweithiol, cyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu a dylunio sain, dylunio golau, dylunio llwyfan, cyfryngau cymdeithasol, dylunio gêm, dylunio digwyddiad, dylunio cynhyrchiad.

Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill

Wrth gynllunio eich cwricwlwm, dylech ystyried sut mae dysgu yn cysylltu ar draws Meysydd. Mae'r **broses greadigol**, fel sy'n cael ei henghreiffio yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn, yn gallu cael ei defnyddio ar draws pob Maes arall i gyfoethogi, ysgogi a chefnogi dysgu. Yn ogystal, gellir datblygu sgiliau a gwybodaeth y celfyddydau mynegiannol trwy Feysydd eraill. Mae rhai o'r cysylltiadau allweddol i ddysgu yn y Maes hwn yn cael eu hamlinellu isod.

Iechyd a Lles

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynnig cyfleoedd ar gyfer symud a dawns creadigol fel gweithgaredd corfforol ac yn ffordd o alluogi dysgwyr i ddatblygu **symudiadau echddygol bras** a **symudiadau echddygol manwl** er mwyn cefnogi cyfranogiad mewn gwahanol ddisgyblaethau celfyddydol. Gall cyfranogiad yn y celfyddydau mynegiannol alluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o'r hunan, adeiladu hyder, ac archwilio gwahanol ffurfiau o gyfathrebu a chydberthnasau a all gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol.

Dyniaethau

Mae celf, cerddoriaeth, dawns, theatr, ffurfiau cyfryngol a llenyddol yn ddarnau gwerthfawr o dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau yn y Dyniaethau ac yn gyfryngau ar gyfer mynegi dehongliadau a safbwyntiau pobl. Mae'r byd naturiol, y gorffennol a'r presennol oll yn ysgogi ac yn cynnig cyd-destunau ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Trwy'r gorffennol a'r presennol mae'r celfyddydau mynegiannol wedi bod yn bwysig wrth lywio diwylliant a chymdeithasau. Mae archwilio'r celfyddydau o wahanol gyfnodau, diwylliannau a chymdeithasau gan gynnwys o Gymru (e.e. Eisteddfod), yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau pobl eraill yn ogystal â'u diwylliant eu hunain. Gall archwilio cysyniadau cymdeithasol a moesol, cynladwyedd a busnes ysgogi **gwaith creadigol**.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Gall disgyblaethau o fewn y Celfyddydau Mynegiannol gael eu defnyddio fel ffordd i ddysgwyr ddatblygu ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu gan gynnwys trwy lythrennedd gweledol, meddwl creadigol ac ysgrifennu creadigol, deall cynulleidfa a diben ac addasu iaith ar gyfer cynulleidfa, cyflwyno barddoniaeth, drama, ffilm, amlgyfryngau, chwarae rôl a chanu. Mae profiadau o **lenyddiaeth** yn ei holl ffurfiau ar draws y ddau Faes yma yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sensitifrwydd ac empathi diwylliannol.

Mathemateg a Rhifedd

Mae'r defnydd o rifedd a chysyniadau o'r Maes hwn wedi ymwreiddio ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, gan gefnogi pob disgyblaeth. Dylid rhoi ystyriaeth i gyfrif, dilyniannu ac amser, ac archwilio sut y gellir defnyddio gofod, patrymau, cymesuredd, siâp a safle ar draws y celfyddydau. Gellir hefyd archwilio cymarebau, graddfa, cyfraneddau a ffracsiynau yn y Celfyddydau Mynegiannol, er enghraifft mewn cerddoriaeth. Gall defnyddio caneuon a rhigymau gynorthwyo gydag ymwreiddio rhifedd yn ystod y camau cynnydd cynnar.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gan y Meysydd hyn gysylltiadau agos, gyda'r ddau yn dibynnu ar ddulliau tebyg sy'n cynnwys proses o ddarganfod a meddwl dargyfeiriol a chynhyrchu syniadau a all arwain at ganlyniadau creadigol ac arloesedd. Mae **meddylfryd dylunio** a phrosesau dylunio mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn mynd law yn llaw â dull dylunio ac archwiliad yn y celfyddydau mynegiannol, a hefyd yn cynnwys archwilio gwahanol gyfryngau y gellir eu defnyddio i gyfathrebu dylunio a chreadigrwydd i eraill. Yn y ddau Faes defnyddir dulliau creadigol i archwilio cysyniadau a defnyddiau, yn ogystal â datblygu medrusrwydd â dwylo, cywirdeb, manylrwydd, a chreffftwaith sy'n cefnogi cynhyrchu. Mae gwybodaeth am natur a datblygiad defnyddiau yn bwysig wrth eu dewis ar gyfer dylunio a chynhyrchu a gall hyd yn oed ddealltwriaeth o wyddoniaeth tonnau gefnogi datblygiad a gwerthfawrogiad o gerddoriaeth.

Themâu trawsgwricwlaidd

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y Maes hwn

Dylai ymwreiddio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y Maes hwn fod yn cynnwys:

- canolbwyntio ar ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig i danio dysgu pellach trwy brofiad o **artistiaid**, crefftwyr, **gwaith creadigol**, dylunwyr, cerddorion, perfformwyr, perfformiadau a lleoliadau, o safbwynt cyfoes a thraddodiadol
- archwilio gwaith creadigol o ardal leol y dysgwyr, o Gymru yn ogystal ag o'r byd ehangach er mwyn dylanwadu ar eu gwaith eu hunain ac i werthfawrogi ac ymateb i amrywiaeth ddiwylliannol
- dysgu am effaith sector y diwydiannau creadigol a diwylliannol ar bobl a lleoedd yng Nghymru, a'r cyfraniad mae ei thirlun amrywiol yn ei gael wrth lywio ac esblygu dyfodol creadigol a diwylliannol sy'n newid trwy'r amser.

Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith yn y Maes hwn

Mae'r Maes hwn yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i ddysgwyr ddilyn gyrfaoedd o fewn y **diwydiannau creadigol a diwylliannol**. Mae myrdd o yrfaoedd ar gael o fewn yr amgylcheddau creadigol hyn, gan gynnwys pensaernïaeth a dylunio, cefnogaeth dechnegol, crefft draddodiadol a newydd, perfformio a chynhyrchu, rheoli, marchnata cynnyrch creadigol, gwerthiant, archif a churadu, ymchwil a datblygiad ac ysgrifennu a chyfansoddi cerddoriaeth. Mae'r sgiliau trosglwyddadwy o fewn y Maes hwn yn cyfrannu at anghenion yr economi ehangach am arweinyddiaeth, creadigrwydd ac arloesedd, meddylfryd dylunio a gallu i gydweithio a gwaith tîm.

Gall cydweithio a mynediad at unigolion a chyflogwyr gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddod i wybod am waith, cyflogaeth a'r sgiliau a werthfawrogir yn y gweithle, e.e. ymarferwyr celfyddydol, pobl broffesiynol o fewn y diwydiant, cwmnïau cynhyrchu ffilm a drama, pobl broffesiynol yn y cyfryngau digidol a darlledu, cerddorion a dawnswyr. Yn y Maes hwn, gall yr wybodaeth a'r sgiliau a enillwyd drwy brofiadau sy'n ymwneud â gwaith gynnig dysgu dilys sy'n arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o'r cyfleoedd sy'n bodoli mewn byd gwaith.

Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth yn y Maes hwn

Hawliau dynol

Trwy'r Maes hwn mae dysgwyr yn ymwneud â **ffurfiau** celfyddydol o fewn eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill. Mae dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth trwy archwilio a chyfathrebu sut mae hunaniaethau, safbwyntiau a hawliau yn cael eu cyfleu. Mae ymwneud â'r Maes hwn yn annog dysgwyr i ddatblygu agweddau parchus, cadarnhaol.

Amrywiaeth

Yn y Maes hwn, mae dysgwyr yn archwilio a dathlu gwaith creadigol o amrywiol ddiwylliannau a chymdeithasau. Mae herio stereoteipiau a chanfyddiadau trwy archwilio a chynhyrchu gwaith creadigol yn galluogi dysgwyr i ddatblygu agweddau cadarnhaol a gwerthfawrogi amrywiaeth.

Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles

Cyflwyniad

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (Maes) yn darparu strwythur holistaidd ar gyfer deall iechyd a lles. Mae'n ymwneud â datblygu gallu dysgwyr i wynebu heriau a chyfleoedd bywyd. Elfennau sylfaenol y Maes hwn yw iechyd a datblygiad y corff, iechyd meddwl, a lles emosiynol a chymdeithasol. Bydd yn cefnogi dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi sut mae gwahanol elfennau iechyd a lles yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae hefyd yn cydnabod bod iechyd a lles yn bwysig i alluogi dysgu llwyddiannus.

Bydd ymwneud â'r Maes hwn yn gymorth i feithrin dull gweithredu ysgol gyfan sy'n galluogi i iechyd a lles dreiddio i bob agwedd o fywyd ysgol.

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi cael ei fynegi mewn pum datganiad. Mae'r rhain yn cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried ar wahân. Er mwyn gwireddu'r dull holistaidd hwn, dylai athrawon geisio tynnu ar y pum datganiad wrth gynllunio gweithgareddau. Gyda'i gilydd, maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae gwireddu'n effeithiol y weledigaeth a ddisgrifir yn y Maes hwn yn allweddol i ddatblygu **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

Wrth ddatblygu cymhelliant, **gwydnwch** ac **empathi'r** dysgwyr, ynghyd â'u gallu i wneud penderfyniadau, gellir eu cefnogi i ddod yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes**.

Gellir cefnogi dysgwyr hefyd i ddatblygu'n **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru** a'r byd drwy feithrin eu gallu i ddangos parch, gwerthfawrogi tegwch, gwrandao ar eraill a gwerthuso'r **dylanwadau cymdeithasol** sy'n effeithio arnyn nhw.

Drwy alluogi dysgwyr i reoli risg, mynegi syniadau ac emosiynau, datblygu a chynnal cydberthnasau iach, ac i chwarae gwahanol rolau ac ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau, gall y dysgu a'r profiad yn y Maes hwn gefnogi dysgwyr i ddod yn **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith**.

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.

Gall y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles y corff. Mae hyn yn cynnwys arferion sy'n hybu iechyd megis gweithgareddau corfforol gan gynnwys chwaraeon a gweithgareddau eraill; deiet cytbwys; gofal a hyllendid personol; cwsgr; ac amddiffyn rhag haint. Mae hefyd yn cynnwys dealltwriaeth o arferion sy'n niweidio iechyd.

Trwy ddeall hyn, gall dysgwyr ddatblygu arferion gwybodus, cadarnhaol sy'n eu hannog i warchod, yn ogystal â pharchu eu hunain ac eraill. Mae'r arferion hyn yn cefnogi ymdeimlad dysgwyr o hunan-werth, eu hwyliau'n gyffredinol a'u lefelau egni.

Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddatblygu'r hyder, cymhelliant, gallu corfforol, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd o gymorth iddyn nhw fyw bywyd iach a gweithredol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y corff cadarnhaol.

Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.

Gall y Maes hwn helpu dysgwyr i archwilio'r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol. Wrth gael cyfleoedd i archwilio cymhlethdodau'r cysylltiadau hyn, galluogir dysgwyr i ddeall nad yw teimladau ac emosiynau'n sefydlog nac yn gyson.

Bod yn ymwybodol o'n teimladau a'n hemosiynau ein hunain sy'n rhoi'r sylfaen i ni ddatblygu **empathi**. Gall hyn ein galluogi i ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol eraill. Wrth gefnogi dysgwyr i ddatblygu strategaethau sydd o gymorth iddyn nhw reoli eu hemosiynau, gall hyn yn ei dro gyfrannu tuag at iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol.

Wrth ddysgu sut i fynegi eu teimladau, bydd dysgwyr mewn sefyllfa well i greu diwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn weithred arferol.

Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.

Gall y Maes hwn helpu dysgwyr i ddeall sut mae penderfyniadau a gweithredoedd yn cael effaith ar y dysgwyr eu hunain, ar eraill, ac ar y gymdeithas ehangach, a hynny yn y presennol a'r dyfodol. Gall hefyd fod o gymorth i ddysgwyr ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau, gan eu rhoi mewn gwell safle i wneud penderfyniadau gwybodus ac ystyriol.

Gall dysgu a phrofiad yn y Maes hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau meddwl beirniadol angenrheidiol er mwyn gallu pwyso a mesur goblygiadau posibl eu penderfyniadau, gan gynnwys y risg, iddyn nhw ac i eraill. Gall hyn gynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn penderfyniadau ar y cyd, a deall pwysigrwydd eu cyfraniad i'r broses hon.

Un penderfyniad allweddol sy'n effeithio ar ddysgwyr am oes yw'r un sy'n ymwneud â'u llwybrau gyrfa.

Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

Gall y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr ddeall rôl bwysig dylanwadau cymdeithasol ar eu bywydau. Mae'r dylanwadau hyn yn cynnwys rheolau, normau cymdeithasol, agweddau a gwerthoedd sy'n cael eu creu a'u hatgyfnerthu gan wahanol grwpiau cymdeithasol. Trwy ymwneud â grwpiau cymdeithasol yr ydyn ni'n profi'r dylanwadau hyn. Maen nhw'n effeithio ar ein hunaniaeth, ein gwerthoedd, ein hymddygiad ac ar ein hiechyd a lles, yn aml heb i ni sylweddoli hynny.

Bydd angen i ddysgwyr ymwneud yn feirniadol â'r dylanwadau cymdeithasol hyn o fewn eu diwylliant eu hunain yn ogystal â diwylliannau eraill, a hyn er mwyn deall sut y mae normau a gwerthoedd yn datblygu. Gall hyn eu galluogi i ddeall sut mae eu hymddygiad, eu perthynas ag eraill a'u profiadau yn cael eu llywio.

Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.

Gall y Maes hwn helpu dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi sut mae'r ymdeimlad o berthyn a chyswllt a ddaw o berthnasau iach yn cael effaith bwerus ar iechyd a lles.

Mae angen i ddysgwyr sylweddoli pan nad yw'r cydberthnasau yn iach, a bod yn ymwybodol o sut i fod yn ddiogel, a cheisio cymorth iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddeall y byddan nhw'n cael profiad o amrywiaeth o gydberthnasau drwy gydol eu bywydau. Byddan nhw hefyd yn cael eu hannog i ddatblygu eu gallu i ffurfio, meithrin a chynnal cydberthnasau.

O ganlyniad, byddan nhw'n gweld sut mae cydberthnasau iach yn hanfodol er mwyn cynnal corff a meddwl iach, a fydd yn caniatáu i ni ffynnu.

Egwyddorion cynnydd

Mae cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (Maes) yn aflinol ac yn dilyn gwahanol lwybrau yn ystod y camau cynnydd a rhyngddyn nhw. Gall pryderon, diddordebau ac amgylchiadau personol effeithio ar lwybrau cynnydd dysgwr, yn enwedig yng nghyd-destun teimladau ac emosiynau; gellir dysgu ar wahanol gyflymder ar wahanol adegau.

Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Mae cynnydd yn y Maes yn gontinwrm o soffistigeiddrwydd cynyddol dros gyfnod o amser lle y caiff gwybodaeth bresennol ei hailystyried, ond ar lefel ddyfnach. Mae gwybodaeth yn symud o'r diriaethol i'r haniaethol ac o ddeall yn unig i ddeall effeithiau. Mae hyn yn cynnwys newidiadau cysyniadol o ran gwybodaeth a dealltwriaeth yn ogystal ag ymddygiad personol o fewn lles corfforol, emosiynol a meddyliol, ac mewn cydberthnasau a chyd-destunau cymdeithasol.

Dyfnhau'r dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd

Mae cynnydd ym mhob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wrth ddysgu yn gysylltiedig ac yn rhyngddibynnol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n canolbwyntio ar ddatblygu'n raddol werthfawrogiad a dealltwriaeth dysgwyr o arwyddocâd gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu hiechyd a'u lles corfforol, emosiynol a meddyliol. Felly, ceir dealltwriaeth gynyddol o'r ffordd y mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cydblethu i sicrhau llwybr clir ar gyfer ble mae'r dysgwr yn mynd a sut i gyrraedd yno.

Mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau

Caiff cynnydd ei ddangos yn y Maes drwy feithrin hyder, cymhelliant a chymhwysedd yn ogystal ag ystod ehangach o sgiliau, gyda chywirdeb a hyfedredd cynyddol. Mae'n cydnabod bod sgiliau corfforol, emosiynol, seicolegol a chymdeithasol yn y meysydd a rhyngddyn nhw yn dibynnu i raddau ar gerrig milltir datblygiadol ond heb eu cyfyngu ganddyn nhw. Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth i'r cam cynnydd cychwynnol ganolbwyntio ar gydnabod a bod yn ymwybodol o sgiliau corfforol, emosiynol a chymdeithasol corfforol, cyn symud fesul cam tuag at fwy o gywirdeb a meistrolaeth o'r sgiliau hyn.

Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd

Caiff y broses o drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth yn y Maes ei hystyried yn gynnydd o ran dod yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol. Wrth i ddysgwyr ddod yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol, maen nhw'n gwneud cynnydd o ystyried eu hunain yn bennaf i ystyried effaith eu gweithredoedd eu hunain ar eraill ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang. Bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd o deimlo'n ofalgar am eraill a'u parchu i allu eirioli ar ran eraill.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd drwy'r cwricwlwm, bydd eu dealltwriaeth o'r cysylltiadau ym mhob rhan o'r ysgol a'r tu hwnt â phob agwedd ar iechyd a lles yn dod yn fwy soffistigedig, a byddan nhw'n gallu adnabod a chydbwyso rhai o'r tensiynau a all fodoli mewn modd cynyddol effeithiol.

Effeithiolrwydd cynyddol

Caiff cynnydd ei ddangos mewn rhai agweddau ar y Maes fel taith o feithrin sgil neu gysyniad gyda chymorth gan eraill (cyfoedion neu oedolion) i ddod yn fwy cymwys ac annibynnol yn raddol, gan gynnwys ehangu'r gallu i adnabod a cheisio help a chymorth yn ôl yr angen. Mae profiadau sy'n canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ystyriol a gwybodus, a'u cyfiawnhau a'u gwerthuso, yn cefnogi twf **metaymwybyddiaeth** yn ogystal â dangos y modd y mae dysgwyr yn dod yn fwy annibynnol. Dros amser, mae dysgwyr yn gallu hunan-reoleiddio'n fwyfwy, gydag ymdeimlad cynyddol o effaith a chyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles cyffredinol.

Disgrifiadau dysgu

Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Mae'n gen i'r hyder a'r ysgogiad i symud mewn gwahanol ffyrdd, ac rwy'n dechrau datblygu rheolaeth ar symudiadau echddygol bras ac echddygol manwl mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan symud yn ddiogel mewn ymateb i gyfarwyddiadau.	Rwy'n gallu defnyddio a gwella sgiliau symud sylfaenol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd. Rwy'n gallu ymateb yn greadigol a dychmygus i anogaeth. Mae gen i'r hyder a'r ysgogiad i ddyfalbarhau wrth wynebu heriau corfforol.	Rwy'n gallu datblygu a chymhwyso ystod o sgiliau mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, anghyfarwydd a chyfnwidiol, gan archwilio gofod yn greadigol mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau. Rwy'n gallu ysgogi fy hun i ymwneud â gweithgareddau corfforol cyson a chwaraeon yn hyderus, ac rwy'n ymwybodol o'm cynnydd fy hun.	Rwy'n gallu trosglwyddo ystod o sgiliau symud o sefyllfaoedd ac amgylcheddau cyfarwydd i rai anghyfarwydd a chyfnwidiol, gan ddefnyddio gofod yn greadigol mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau. Rwy'n gallu ymwneud â gweithgareddau corfforol cyson a chwaraeon gyda hyder, ysgogiad ac ymroddiad.	Rwy'n gallu mynd ati'n annibynnol i addasu a chymhwyso sgiliau ar draws amrywiaeth o weithgareddau ac amgylcheddau, gan reoli gofod yn greadigol mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau. Rwy'n gallu gwerthfawrogi manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol cyson a chwaraeon, gan chwilio am gyfleoedd i ddatblygu fy arbenigedd.
Rwy'n dechrau gwneud cysylltiadau rhwng fy neiet a'm hiechyd a lles corfforol.	Rwyf wedi datblygu dealltwriaeth fy mod angen deiet cytbwys, ac rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus am y bwyd rwy'n ei fwyta a'i baratoi i gefnogi fy iechyd a lles corfforol.	Rwy'n gallu egluro pwysigrwydd deiet cytbwys a maeth, a'r effaith mae fy newisiadau yn eu cael ar fy iechyd a lles corfforol.	Rwy'n gallu cymhwyso fy ngwybodaeth a dealltwriaeth o ddeiet cytbwys a maeth i wneud dewisiadau a fydd yn fy ngalluogi i gynnal fy iechyd a lles corfforol.	Rwy'n gallu addasu fy neiet mewn ymateb i gyd-destunau gwahanol, a chymhwyso fy ngwybodaeth a dealltwriaeth o ddeiet cytbwys a maeth i gefnogi eraill.

		Rwy'n gallu cynllunio a pharatoi prydau maethlon, sylfaenol.	Rwy'n gallu cynllunio a pharatoi amrywiaeth o brydau maethlon.	Rwy'n gallu cymhwyso ystod o dechnegau i baratoi amrywiaeth o brydau maethlon.
Rwy'n dechrau adnabod y cysylltiad rhwng y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n gallu digwydd mewn gwahanol gyd-destunau.	Rwy'n gallu disgrifio sut mae newidiadau corfforol ac emosiynol yn cael eu cysylltu mewn gwahanol gyd-destunau.	Rwy'n gallu esbonio sut mae newidiadau corfforol ac emosiynol wedi eu cysylltu mewn gwahanol gyd-destunau, ac rwy'n gallu monitro, adolygu ac addasu fy ymddygiad i gefnogi fy iechyd corfforol ac emosiynol, gan osod targedau personol perthnasol.	Rwy'n gallu dadansoddi'r cysylltiad rhwng newidiadau corfforol ac emosiynol. Rwy'n gallu addasu fy ymddygiad er mwyn cefnogi fy iechyd corfforol ac emosiynol ac rwy'n gallu gweithio ar y cyd i gynllunio a mireinio cryfderau a meysydd i'w gwella.	Rwy'n gallu gwerthuso'r cysylltiad rhwng newidiadau corfforol ac emosiynol, gan fynd ati'n annibynnol i ddethol o ystod o strategaethau er mwyn gwella iechyd corfforol ac emosiynol fy hun ac eraill.
Rwy'n dechrau adnabod rhai mathau o ymddygiad, cyflyrau a sefyllfaoedd sy'n effeithio ar fy iechyd a lles corfforol, ac rwy'n dechrau gwybod sut i ymateb a chael cymorth.	Rwy'n gallu adnabod rhai mathau o ymddygiad, cyflyrau a sefyllfaoedd sy'n effeithio ar fy iechyd a lles corfforol, ac rwy'n gwybod sut i ymateb a chael cymorth mewn ffordd ddiogel.	Rwy'n gallu disgrifio'r gwahanol fathau o ymddygiad, cyflyrau a sefyllfaoedd sy'n effeithio ar fy iechyd a lles corfforol, ac rwy'n gwybod sut i ymateb i, a/neu reoli'r rhain er mwyn gweithredu i leihau'r risg o niwed i mi fy hun.	Rwy'n gallu esbonio'r gwahanol fathau o ymddygiad, cyflyrau a sefyllfaoedd sy'n effeithio ar fy iechyd a lles corfforol a, thrwy fy ngweithredoedd, rwy'n gallu ymateb i a/neu reoli'r rhain er mwyn gweithredu i leihau'r risg o niwed i mi fy hun ac eraill.	Rwy'n gallu cymhwyso fy ngwybodaeth o wahanol fathau o ymddygiad, cyflyrau a sefyllfaoedd sy'n effeithio ar fy iechyd a lles corfforol er mwyn cadw fy hun ac eraill yn ddiogel. Rwy'n gallu ymyrryd yn ddiogel, gan ddefnyddio technegau wedi'u dysgu, pan mae iechyd corfforol eraill mewn perygl.

Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Mae gen i ymwybyddiaeth o'r hyn rwy'n ei ganfod a'i feddwl. Rwy'n gallu canolbwyntio fy sylw ac yn ymwybodol fy mod yn gallu gwneud hyn. Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol fod meddyliau a theimladau yn newid, ac rwy'n dechrau sylwi pan mae newid yn digwydd.	Rwy'n gallu, gyda chefnogaeth, canolbwyntio ar yr hyn rwy'n ei ganfod a'i feddwl. Rwy'n gallu deall sut a pham mae fy meddyliau, fy nheimpladau a'm gweithredoedd yn newid mewn ymateb i wahanol brofiadau.	Rwy'n gallu adnabod manteision fy mod yn gallu canolbwyntio ar yr hyn rwy'n ei ganfod a'i feddwl ac rwy'n gwybod fy mod yn datblygu fy hunanymwybyddiaeth. Rwy'n gallu hunan-rheoli fy emosiynau mewn ffordd ddiogel gan ddefnyddio strategaethau rwyf wedi eu datblygu.	Rwy'n gallu canolbwyntio'n annibynnol ar yr hyn rwy'n ei ganfod a'i feddwl a'i theimlo er mwyn datblygu fy hunanymwybyddiaeth ymhellach. Rwy'n gallu adnabod gwahanol strategaethau i hunan-reoli fy emosiynau mewn ymateb i ystod o brofiadau.	Rwy'n gallu defnyddio fy hunanymwybyddiaeth i werthfawrogi cymhlethdod fy emosiynau, a chymhwyso strategaethau i hunan-reoli fy emosiynau mewn ffordd iach ac er mwyn cysylltu ag eraill.
Rwy'n gallu sylwi sut rwy'n teimlo, a chyfathrebu hyn. Rwy'n dechrau magu ymwybyddiaeth o sut mae teimladau'n cael eu mynegi trwy weithredoedd.	Rwy'n gallu sylwi ar fy nheimpladau, a'u cyfathrebu. Rwy'n dechrau sylwi pan mae angen cymorth arnaf i reoli fy nheimpladau.	Rwy'n gallu gweld manteision cyfathrebu am deimladau fel un o'r ystod o strategaethau sy'n gallu bod o gymorth i hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol a lles emosiynol.	Rwy'n gallu eirioli manteision cyfathrebu am deimladau fel un o'r ystod o strategaethau sy'n gallu bod o gymorth i hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol a lles emosiynol.	Rwy'n gallu cyfrannu tuag at ddiwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn weithred arferol sy'n cael ei hannog.

		Rwy'n gallu gofyn am gymorth gan bobl rwy'n ymddiried ynddyn nhw pan rwyf ei angen.	Rwy'n gallu adnabod pobl a grwpiau sy'n gallu bod o gymorth i mi gyda fy iechyd meddwl a lles emosiynol.	Rwy'n gallu adnabod pryd i chwilio am gymorth yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'm hiechyd meddwl a lles emosiynol.
	Rwy'n gallu myfyrio ar fy mhrofiadau.	Rwy'n gallu myfyrio ar y ffordd y mae digwyddiadau a phrofiadau yn y gorffennol wedi effeithio ar fy meddyliau, fy nheimpladau a'm gweithredoedd. Rwy'n gallu rhagweld sut y gallai digwyddiadau'r dyfodol wneud i mi ac i eraill deimlo.	Rwy'n gallu myfyrio a dysgu o'r gorffennol er mwyn rhagweld a pharatoi fy hun ac eraill ar gyfer profiadau yn y dyfodol.	Rwy'n gallu ymateb i brofiadau yn y gorffennol a'r presennol, myfyrio arnyn nhw a dysgu ganddyn nhw, a hyn er mwyn rhagweld a pharatoi fy hun ac eraill ar gyfer profiadau yn y dyfodol.
Mae gen i ymwybyddiaeth o deimpladau pobl eraill. Rwy'n ymwybodol o adegau pan mae eraill yn garedig wrthyf a phan rwyf i'n garedig wrth eraill.	Rwy'n gallu rhoi sylw i deimpladau pobl eraill ac rwy'n dysgu meddwl am y rhesymau pam eu bod o bosibl yn teimlo felly.	Rwy'n gallu dangos empathi tuag at eraill. Rwy'n gallu deall sut a pham mae profiadau yn effeithio arnaf i ac ar eraill.	Rwy'n gallu dangos empathi tuag at eraill a deall gwerth dangos hyn trwy weithredoedd tosturiol a charedig.	Rwy'n gallu dangos empathi tuag at eraill, ac mae hyn o gymorth i mi fod yn dosturiol a charedig tuag ataf i fy hun ac eraill.

Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar beth rwy'n ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi.	Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar yr hyn rwy'n ei wybod.	Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau ystyriol yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys profiadau'r gorffennol. Rwy'n gallu gosod nodau priodol.	Rwy'n gallu ymchwilio, archwilio a gwerthuso ystod o dystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniadau ystyriol a gwybodus. Rwy'n gallu gosod nodau addas a chreu cynllun gweithredu er mwyn eu gwireddu.	Rwy'n gallu gosod nodau priodol, creu cynllun gweithredu a goresgyn heriau er mwyn gwireddu'r nodau.
Rwyf wedi datblygu ymwybyddiaeth y gall fy mhenderfyniadau effeithio arnaf i ac ar eraill. Rwy'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp.	Rwy'n gallu adnabod y gall fy mhenderfyniadau effeithio arnaf i ac ar eraill, nawr ac yn y dyfodol. Rwy'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp a deall pam mae angen gwneud rhai penderfyniadau fel grŵp.	Rwy'n gallu adnabod y bydd rhai penderfyniadau rwy'n eu gwneud yn cael effaith hirdymor ar fy mywyd ac ar fywydau pobl eraill. Rwy'n gallu deall y gall penderfyniadau gael eu gwneud yn unigol ac ar y cyd, ac y gall ystod o ffactorau ddylanwadu arnyn nhw.	Rwy'n gallu ystyried ffactorau perthnasol a goblygiadau wrth wneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd.	Rwy'n gallu gwerthuso ffactorau a goblygiadau, gan gynnwys risg, mewn ffordd feirniadol wrth wneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd.

Mae gen i ddealltwriaeth y gall pethau fod yn ddiogel neu'n beryglus.	Rwy'n gallu adnabod ac asesu risg.	Rwy'n gallu adnabod ac asesu risg, a chymryd camau i'w leihau.	Rwy'n gallu rhagweld, asesu a rheoli risg.	Rwy'n gallu gwerthuso ffactorau a goblygiadau, gan gynnwys risg, mewn ffordd feirniadol wrth wneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd.
---	------------------------------------	--	--	--

Mae'r ffordd rydyn ni'n ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu adnabod a dilyn rheolau a normau yn y grwpiau a'r sefyllfaoedd rwy'n cymryd rhan ynddyn nhw. Rwy'n gallu dangos gofal a pharch tuag at eraill.	Rwy'n gallu adnabod a dilyn rheolau a normau gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd rwy'n cymryd rhan ynddyn nhw. Rwy'n gallu newid, gyda chefnogaeth, y ffordd rwy'n ymwneud ag eraill a'r ffordd rwy'n ymddwyn mewn gwahanol sefyllfaoedd. Rwy'n gallu adnabod bod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng gwerthoedd ac agweddau pobl.	Mae gen i ddealltwriaeth o reolau, normau ac ymddygiad gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd, ac rwy'n sylweddoli bod ganddyn nhw ddylanwad arnaf fi. Rwy'n gallu ymwneud mewn ffordd sydd o fewn dylanwadau cymdeithasol o fewn gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd.	Mae gen i ymwybyddiaeth gynyddol o sut mae rheolau, normau ac ymddygiad yn ymsefydlu o fewn grwpiau, ac weithiau yn mynd heb eu herio. Rwy'n gallu ymwneud mewn ffordd sydd o fewn dylanwadau cymdeithasol o fewn gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd, gan addasu fy ymddygiad yn ôl y gofyn.	Mae gen i ddealltwriaeth o gymhlethdod grwpiau a sefyllfaoedd, y rhyngweithio sy'n digwydd oddi mewn a rhyngddyn nhw, ac rwy'n deall effaith y cymhlethdod hwn ar bobl. Rwy'n gallu ymwneud mewn ffordd sydd o fewn dylanwadau cymdeithasol o fewn gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd, ac eirioli'n gadarnhaol o blaid unigolion a grwpiau eraill.

		Rwyf wedi datblygu dealltwriaeth bod fy ngwerthoedd, fy agweddau a'm hunaniaeth yn cael eu siapio gan wahanol grwpiau a dylanwadau.	Rwy'n gallu gwerthuso sut mae fy ngwerthoedd, fy agweddau a'm hunaniaeth yn cael eu siapio gan y grwpiau a'r dylanwadau cymdeithasol rwy'n ymwneud â nhw.	Rwy'n gallu adnabod a deall sut mae gwerthoedd, agweddau a hunaniaeth pobl yn cael eu siapio gan wahanol grwpiau a dylanwadau. Rwy'n gallu hyrwyddo agweddau a gwerthoedd cadarnhaol, a herio rhai niweidiol pan mae hyn yn addas.
--	--	--	---	--

Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu adnabod pwy sy'n gofalu amdanaf fi a phwy yw fy nheulu a'm ffrindiau.	Rwy'n gallu adnabod fod gwahanol fathau o gydberthnasau, y tu hwnt i'm teulu a'm ffrindiau.	Rwy'n gallu deall bod amrywiaethau o fewn gwahanol fathau o gydberthnasau, a'u bod yn newid dros amser.	Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth gynyddol o natur gymhleth cydberthnasau.	Rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o natur gymhleth cydberthnasau mewn ystod o gyd-destunau, a dealltwriaeth o sut y mae ystod o ffactorau yn dylanwadu arnyn nhw.
Rwy'n gallu mynegi fy anghenion a'm teimladau yn fy nghydberthnasau.	Rwy'n gallu mynegi fy anghenion a'm teimladau yn fy nghydberthnasau, ac rwy'n sylwi ar anghenion a theimladau pobl eraill.	Rwy'n gallu mynegi fy anghenion a'm teimladau, ac ymateb i anghenion a theimladau pobl eraill.	Rwy'n gallu mynegi fy anghenion a'm teimladau, a pharchu anghenion a theimladau pobl eraill.	Rwy'n gallu creu cysylltiadau ystyrlon ag eraill ac rwy'n gwerthfawrogi cydberthnasau diogel, iach a theg, a hynny mewn ystod o gyd-destunau.
Rwy'n gallu cyd-dynnu ag eraill gyda chymorth a heb gymorth.	Mae gen i'r gallu i wneud ffrindiau a cheisio datrys anghytundeb, gan ofyn am gymorth pan fydd angen.	Rwy'n gallu ffurfio a chynnal cydberthnasau sy'n bwysig i mi, gan adnabod gwrthdaro a chymryd camau i ddatrys achosion o wrthdaro.	Rwy'n gallu meithrin a chynnal cydberthnasau iach o fewn cylch ehangach o bobl. Rwy'n gallu parchu safbwyntiau pobl eraill a defnyddio hyn er mwyn helpu i ddatrys achosion o wrthdaro.	Rwy'n gallu creu cysylltiadau ystyrlon ag eraill ac rwy'n gwerthfawrogi cydberthnasau diogel, iach a theg, a hynny mewn ystod o gyd-destunau.

				Rwy'n gallu cymryd camau i osgoi achosion o wrthdaro, a thynnu fy hun o gydberthnasau peryglus. Rwy'n gallu pwyso ar systemau cymorth ar gyfer fy hun ac eraill yn ôl y gofyn.
Rwy'n dechrau adnabod ymddygiad diogel a pheryglus mewn cydberthnasau.	Rwy'n gallu adnabod pan rwy'n teimlo'n ddiogel mewn fy nghydberthnasau, ac yn gallu mynegi pan nad wyf yn teimlo'n ddiogel.	Rwy'n gallu myfyrio ar nodweddion cydberthnasau diogel, ac yn gallu gofyn am gymorth pan mae angen.	Rwy'n gallu ystyried rôl diogelwch mewn cydberthnasau, ac rwy'n gallu adnabod lle mae fy niogelwch i neu ddiogelwch rhywun arall o dan fygythiad, ac rwy'n gwybod sut i ymateb i hyn.	Rwy'n gallu cymryd camau i osgoi achosion o wrthdaro, a thynnu fy hun o gydberthnasau peryglus. Rwy'n gallu pwyso ar systemau cymorth ar gyfer fy hun ac eraill yn ôl y gofyn.
Rwy'n dechrau sylweddoli bod gen i'r hawl i gael fy nhrin mewn ffordd deg a pharchus.	Rwy'n gallu deall fod gan bawb hawliau, ac rwy'n gallu parchu'r hawliau hyn gyda chymorth.	Rwy'n gallu parchu hawliau pobl eraill a deall sut y maen nhw'n effeithio arnaf i ac ar eraill.	Rwy'n gallu arfer fy hawliau fy hun a pharchu hawliau pobl eraill, ac rwy'n sylweddoli y gall hawliau cael eu troseddu.	Rwy'n gallu eirioli dros hawliau fy hun a hawliau eraill.

Cynllunio eich cwricwlwm

Mae hyn yn rhoi arweiniad penodol i'w ddefnyddio wrth ymgorffori dysgu o fewn iechyd a lles yn eich cwricwlwm. Dylai gael ei ddarllen ynghyd ag adran gyffredinol [Cynllunio eich cwricwlwm](#) sy'n berthnasol i ddysgu ac addysgu trwy bob maes dysgu a phrofiad (Maes).

Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol

Rhaid i gwricwlwm ymwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm. Mae'r canlynol yn rhai egwyddorion allweddol y dylai lleoliadau ac ysgolion eu hystyried wrth gynllunio dysgu ac addysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (Maes).

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Llythrennedd

Mae llythrennedd yn sylfaenol i hwyluso lles. Mae gan ddysgu am lenyddiaeth a dysgu trwy lenyddiaeth botensial sylweddol i gynnig y modd i ddysgwyr gyfathrebu eu teimladau, datblygu cydberthnasau a chwilio am gymorth a chefnogaeth. Mae gan gyfathrebu rôl sylfaenol ym mynegi'r emosiynau. Mae gan lenyddiaeth botensial sylweddol i gefnogi **empathi**, iechyd meddwl a lles emosiynol y dysgwyr.

Mae llythrennedd yn cynnig cyfle i ddatblygu gwell sgiliau gwneud penderfyniad. Gall cyfleoedd i ymwneud yn feirniadol gydag ystod o destunau gefnogi gallu dysgwyr i wneud penderfyniadau a'u cefnogi i fynegi eu barn gyda hyder cynyddol gan ddatblygu eu gwerthoedd a'u hunaniaeth ymhellach. Gall hyn yn ei dro ddatblygu hyder ac uchelgais.

Mae datblygu sgiliau llythrennedd, gallu trefnu ysgrifennu ac addasu iaith yn hyderus, yn bwysig i alluogi dysgwyr i ymgeisio am lwybrau dysgu a gyrfa o'u dewis.

Rhifedd

Dylai dysgu yn y Maes hwn gynnig cyfle i ddatblygu sgiliau rhifedd yng nghyd-destun y byd go iawn. Mae rhifedd yn allweddol wrth hwyluso gwneud nifer o benderfyniadau gwybodus, yn arbennig rheoli arian a chefnogi gwneud penderfyniadau ariannol doeth ac ymwneud yn feirniadol gyda normau cymdeithasol ynghylch arian. Mae rhifedd hefyd yn chwarae rôl wrth brynu a pharatoi bwyd i gefnogi maeth.

Cymhwysedd digidol

Mae dysgu yn y Maes hwn yn sylfaenol i ddatblygu ymddygiad diogel mewn perthynas â'r cyfryngau digidol a'r byd ar-lein. Dylid annog dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddylanwad cynyddol technoleg ar eu bywydau dyddiol, a'r goblygiadau allai hyn ei gael er eu hiechyd a lles, yn arbennig yr effaith bosib ar iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol. Dylid ystyried gwneud penderfyniad, asesiad risg, sefyllfaoedd a rhyngweithio diogel a pheryglus, oll mewn cyd-destunau digidol. Mae hyn yn cynnwys perthynas ag eraill, diogelwch ar-lein, goblygiadau cyfreithiol a **dylanwadau cymdeithasol** ar-lein (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol).

Wrth i dechnoleg ddatblygu, mae angen i leoliadau ac ysgolion gynnal dealltwriaeth gyfredol o'r hyn sydd gan y dysgwyr fynediad ato neu yn ei ddefnyddio, a sut maen nhw'n cyflawni hyn. Dylai'r ddarpariaeth alluogi dysgwyr i archwilio'r cyfleoedd helaeth mae'r technolegau hyn yn eu cynnig, yn ogystal â datblygu'r ymwybyddiaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn ddinasyddion digidol gyfrifol. Dylai lleoliadau ac ysgolion hefyd ystyried sut maen nhw'n hybu ymwneud yn gadarnhaol â chyfryngau a'r byd ar-lein yn ogystal â sut maen nhw'n paratoi dysgwyr i ddelio â'r heriau y gall rhain eu cyflwyno.

Sgiliau cyfannol

Creadigrwydd ac arloesedd

Mae dysgu yn y Maes hwn yn cynnig y cyfle i ddysgwyr ddatblygu'r hyder a'r meddwl agored i archwilio syniadau, i ystyried barn pobl eraill, a'r dewrder i fynegi eu safbwyntiau eu hunain. Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu hunain a datblygu'n greadigol mewn gweithgaredd corfforol, yn cynnwys chwaraeon, ac i gynhyrchu syniadau i greu prydau maethlon ac iach. Anogir dysgwyr i archwilio a mynd ar drywydd meddylfryd arloesol mewn perthynas â llwybrau gyrfa.

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Mae dysgu ar draws y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau dadansoddi beirniadol, gwerthuso ac arfarnu. Mae gwneud penderfyniad yn dibynnu'n drwm ar brosesau beirniadol a rhesymegol megis dadansoddi manteision a risgiau unrhyw weithred. Gan ddefnyddio dysgu yn y Maes hwn, dylid annog dysgwyr i ddatblygu ymatebion a datrysiadau i brofiadau maen nhw'n dod ar eu traws a dadansoddi'n feirniadol y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniad, megis dylanwadau cymdeithasol, **gwerthoedd**, credoau a **rhagfarnau**.

Effeithiolrwydd personol

Dylai dysgu yn y Maes hwn gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o'r sgiliau i fynegi eu emosiynau, ynghyd â'r sgiliau i fynegi'r syniadau hyn a rheolaeth drostyn nhw. Dyma'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu deallusrwydd emosiynol. Trwy gynnig dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a lles emosiynol, gellir bod o gymorth i ddysgwyr reoli eu profiadau ac ymddwyn gydag empathi, trugaredd a charedigrwydd ar eu cyfer eu hunain yn ogystal ag eraill. Dylai dysgu alluogi a chefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau rhyngpersonol da trwy gynnig dealltwriaeth o normau ac agwedd pobl, a'r gallu i wrthod a herio'r rhain; a dealltwriaeth am y gwahaniaethau a sut dylai rhain cael eu parchu.

Dylai dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar wneud penderfyniad, gan fod o gymorth iddyn nhw wneud penderfyniadau ystyriol, gwybodus, rhai y maen nhw'n gallu eu cyfiawnhau a'u hesbonio tra hefyd yn deall risgiau a goblygiadau posib eu penderfyniadau iddyn nhw eu hunain ac eraill. Dylai'r dysgu hwn fod o gymorth i gynnig sgiliau i ddysgwyr allu gwerthuso dysgu a chamgymeriadau'n feirniadol a nodi meysydd ar gyfer datblygu ymhellach.

Dylai dysgu a phrofiadau o fewn y Maes hwn gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau ac agweddau sy'n galluogi dysgwyr i fod yn annibynnol, i gael cydberthnasau iach, gwybod eu hawliau a hawliau pobl eraill, gwybod sut i reoli gwrthdaro, adnabod unrhyw gydberthnasau sydd ddim yn iach, bod yn ddiogel, a deall pryd a sut i chwilio am gefnogaeth iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

Gall wybodaeth a dealltwriaeth o'r ddysgu yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig gefnogi dysgwyr i ddatblygu hyder ac annibyniaeth.

Cynllunio a threfnu

Mae dysgu yn y Maes hwn yn anelu'n benodol at gynnig cyfleoedd i ddysgwyr adeiladu ymwybyddiaeth o, a datblygu sgiliau mewn, gwneud penderfyniad a gosod targed. Mae defnyddio dysgu yn y Maes hwn yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddeall ac archwilio sut mae gwneud penderfyniad yn effeithio arnyn nhw ac eraill, deall a datblygu'r sgiliau i wneud penderfyniadau ar y cyd, ac i werthuso'n feirniadol ffactorau a goblygiadau gwneud penderfyniad. Dylai dysgu mewn iechedd a lles rhoi'r cyfleoedd i ddysgwyr gynllunio a gosod targedau tymor byr a hirdymor ac i gymryd camau i gyrraedd y rhain. Dylai dysgu hefyd gefnogi dysgwyr i gynllunio a gwireddu ymddygiadau cynaliadwy, cytbwys a chadarnhaol i gefnogi iechedd a lles corfforol. Dylid annog dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o emosiynau, ymddygiadau a dylanwadau cymdeithasol: sgiliau sy'n hanfodol i adeiladu perthynas gref ag eraill.

Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn

Dylid edrych ar y pum datganiad am yr hyn sy'n bwysig yn holistaidd. Wrth eu gweld gyda'i gilydd maen nhw'n crisialu'r elfennau sylfaenol y gellir eu defnyddio i fod yn sail i ddatblygu iechyd a lles. Trwy'r rhain gellir archwilio gwahanol bynciau a materion gan roi hyblygrwydd i athrawon nodi'r rhai sy'n berthnasol i anghenion eu dysgwyr, eu lleoliad neu eu hysgol a'u cymuned. Wrth gynllunio dysgu ac addysgu o fewn y Maes yn y cwricwlwm dylai ymarferwyr sicrhau eu bod yn cwmpasu'r holl ddatganiadau am yr hyn sy'n bwysig gymaint â phosib. Mae cyfleoedd eang i orgyffwrdd gyda'r Meysydd eraill ac mae'n bwysig fod cynllunio ar gyfer y Maes hwn yn digwydd mewn cydweithrediad â nhw.

Mae'r Maes hwn yn elfen gwbl newydd o'r cwricwlwm yng Nghymru. Yn ychwanegol at gynnig cyfleoedd newydd a chyffrous, bydd hefyd yn cynnig rhai heriau newydd i leoliadau ac ysgolion. Bwriad yr adran hon yw bod o gymorth i arwain lleoliadau ac ysgolion o'r adnabyddiaeth gychwynnol o flaenoriaethau tuag at eu gweithredu.

Dylai'r dull gweithredu ysgol gyfan fod yn sail i gynllunio, dysgu ac addysgu'r Maes yn llwyddiannus yn y cwricwlwm, yn ogystal â'u cefnogi, gan eu bod yn mynd law yn llaw. Dylai dull gweithredu ysgol gyfan tuag at iechyd a lles ymdreiddio i bob agwedd o fywyd ysgol a chael ei gefnogi gan arferion a pholisïau'r ysgol. Pe na byddai cydweithio rhwng y ddau, byddai'r dysgu yn y Maes hwn yn gwanhau. Er enghraifft, gall cynnig bwyd maethlon yn ffreutur yr ysgol gefnogi dysgwyr yn eu mwynhad a dealltwriaeth o bwysigrwydd cael deiet iach a chytbwys. Hefyd, byddai dysgu am fuddiannau gweithgaredd corfforol cyson yn cael ei gyfoethogi a'i ymwreiddio pe bai digon o gyfleoedd trwy'r diwrnod ysgol i fod yn actif.

Dyma'r ystyriaethau allweddol y dylai lleoliadau, ysgolion ac ymarferwyr eu hystyried wrth ddatblygu eu cwricwlwm.

1. Beth yw anghenion eich dysgwyr?

Nodi anghenion dysgwyr

Bydd gan bob lleoliad ac ysgol ystod o wybodaeth ar gael i fod o gymorth iddyn nhw gynnal dadansoddiad o'r hyn sydd ei angen. I ysgolion bydd hyn yn cynnwys data Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru a'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol. Mae'n bwysig fod y broses hon hefyd yn ystyried gwybodaeth ar lefel leol, clwstr, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae angen elfen ddigonol o hyblygrwydd ar agweddau o'r Maes hwn yn y cwricwlwm, ac mae'n bwysig fod hyblygrwydd yn rhan o'r cynllun a bod digon o amser yn cael ei glustnodi i wneud hyn. Bydd anghenion a blaenoriaethau yn newid, a bydd angen i ddysgu ac addysgu yn y Maes ymateb i'r newidiadau hyn. Efallai y byddai'n fanteisiol defnyddio cyrff allanol i gynnig cefnogaeth wrth gynllunio a gweithredu rhai pynciau a materion. Dylid nodi y dylai hyn gyfoethogi yn hytrach na chymryd lle addysgu. Gall cyrff allanol hefyd fod o gymorth i leoliadau ac ysgolion ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach a chefnogi ymwneud â rhieni.

Ystyried yr hyn sy'n dylanwadu ar iechyd a lles dysgwyr

Yn ogystal ag ystyried iechyd a lles dysgwyr, gallai'r broses hyn ystyried y canlynol.

- Beth sy'n gyrru a dylanwadu ar iechyd a lles y dysgwyr?
- Sut mae'r gyrru a'r dylanwadu hyn yn effeithio ar wahanol agweddau o iechyd a lles y dysgwyr?

Gallai'r cwestiynau mwy penodol isod fod o gymorth wrth ystyried yr uchod. Dydyn nhw ddim yn rhestr gyflawn, ond gallan nhw fod o gymorth i hyrwyddo trafodaethau gonest ac agored sy'n ffurfio rhan bwysig o'r broses gynllunio'r cwricwlwm.

- Pa gyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol y bydd eich dysgwyr yn eu mwynhau a'u gweld yn ystyrion? Beth sy'n eu hysgogi i ymwneud â gwahanol rolau, cyfrifoldebau ac amgylcheddau (e.e. dan do, y tu allan, mewn ac o amgylch dŵr)?
- Pa ffactorau, dylanwadau ac ymddygiadau sy'n llywio iechyd corfforol eich dysgwyr?
- Beth yw dealltwriaeth eich dysgwyr o'r rhyng-gysylltiadau rhwng eu deiet, cwsg, gweithgaredd corfforol a'u hiechyd a lles?
- Pa benderfyniadau mae eich dysgwyr yn eu gwneud sy'n dylanwadu ar eu hiechyd a lles eu hunain ac iechyd a lles eraill? Pa benderfyniadau maen nhw'n debygol o'u gwneud wrth iddyn nhw dyfu?
- Sut mae iechyd a lles eich dysgwyr yn cael eu dylanwadu gan eu cysylltiadau gyda a thrwy dechnoleg ddigidol? Pa gyfleoedd ddylai eich dysgwyr eu cael i ddatblygu defnydd iach, diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol a'r byd ar-lein?
- Pa brofiadau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a lles emosiynol eich dysgwyr?
- Pa sgiliau mae eich dysgwyr eu hangen i ofalu amdany'n nhw eu hunain ac eraill?
- Beth yw'r gwahanol grwpiau a **dylanwadau cymdeithasol** sy'n effeithio ar eich dysgwyr unigol, eich lleoliad/ysgol a'r gymuned ehangach?
- Pa cydberthnasau sydd gan eich dysgwyr sy'n dylanwadu ar eu hiechyd a lles?
- Pa sgiliau sydd eu hangen ar eich dysgwyr i ddatblygu cydberthnasau iach?
- Sut mae gwahanol anghenion a phrofiadau eich dysgwyr yn rhyng-gysylltiedig?

2. Pa bynciau, themâu a gweithgareddau sydd o gymorth i ymateb i anghenion dysgwyr?

Gellir ymateb i anghenion dysgwyr gydag ystod eang o ddysgu ac addysgu. Wrth ddewis rhain, dylai lleoliadau, ysgolion ac ymarferwyr ofyn y canlynol:

- Pa weithgareddau, pynciau a themâu sydd fwyaf perthnasol i ddysgwyr, eu hanghenion a chyd-destun?
- Pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau fydd yn cefnogi dysgwyr i adnabod sut y gall gwahanol ysgogyddion a dylanwadau effeithio ar eu hiechyd a lles?
- Pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau fydd yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymddygiadau cyson, cefnogol i iechyd ac sydd er lles y gymdeithas?

Dylai ystyriaethau mwy penodol gynnwys y canlynol:

Beth yw'r ystod o brofiadau a gweithgareddau all gefnogi dysgwyr i fwynhau gweithgaredd corfforol gydol oes ac i ofalu amdany'n nhw eu hunain ac eraill?

Gall profiadau dysgu cadarnhaol gefnogi dysgwyr i werthfawrogi gweithgaredd corfforol, gan gynnwys chwaraeon, a gall hyn yn ei dro eu symbylu i fyw bywydau corfforol actif. Gall addysgegau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr megis chwarae pwrpasol, dull aml-sgil, dull Dysgu Gemau er Mwyn Deall (*Teaching Games for Understanding (TGfU)*) a'r Model Addysg Chwaraeon (*Sport Education Model (SEM)*) i gyd gyfrannu tuag at ddiwylliant dysgu lle mae gweithgaredd corfforol yn cael ei fwynhau gan bawb. Dylai dysgwyr gael eu cefnogi hefyd i werthfawrogi manteision hyn, gan gynnwys agweddau cymdeithasol, hamdden a pherfformio, yn ogystal â sut mae'n cefnogi eu hiechyd a lles corfforol. Dylai'r gweithgareddau hyn hefyd gefnogi datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau trosglwyddadwy o fewn a thu hwnt i elfen iechedd corfforol y Maes hwn. Dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried sut mae cyfleoedd, profiadau ac addysgegau, gan gynnwys cyfranogiad mewn wahanol chwaraeon a gweithgareddau amrywiol, yn cefnogi datblygu a mireinio **symudiadau echddygol bras** a **symudiadau echddygol manwl**, sgiliau trosglwyddadwy a'r gallu i gysylltu cynnydd gyda dyfalbarhad a hyder. Mae gwireddu cynnydd mewn gallu corfforol yn cefnogi symbyliad dysgwyr i ddyfalbarhau ac yn cefnogi eu hyder i barhau gyda gweithgareddau corfforol weddill eu bywydau.

Dylid cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymddygiadau cadarnhaol yn eu hiechyd a lles ehangach. Gallai hyn berthyn i ystod o ffactorau, gan gynnwys deiet, sylweddau, glendid, haint, yr amgylchedd ffisegol, cwsg a gorffwys. Dylai lleoliadau, ysgolion ac ymarferwyr ystyried pa brofiadau fydd yn cefnogi dysgwyr i ddeall sut y gall y ffactorau hyn ddylanwadu ar eu hiechyd a lles, datblygu'r sgiliau i gefnogi ymddygiadau iach yn perthyn i'r ffactorau hyn a'r hyder ac ysgogiad i gefnogi'r ymddygiadau hyn gydol oes. Er enghraifft, dylai datblygu sgiliau i gefnogi deiet iach a chytbwys ystyried sut mae dysgwyr yn gallu datblygu sgiliau a mwynhad paratoi bwyd sy'n ffurfio rhan o ddeiet iach a chytbwys. Dylai ymarferwyr gefnogi dysgwyr i adnabod sut mae'r ffactorau hyn yn rhyng-gysylltiedig ac yn effeithio ar eu hiechyd a lles yn gyfan, nid yr agwedd gorfforol yn unig. Er enghraifft, bydd mwynhad o weithgareddau y tu allan yn dylanwadu ar iechedd meddwl a lles emosiynol dysgwyr.

Bydd tyfu yn cael effaith allweddol ar iechedd a lles dysgwyr a dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried sut y byddan nhw'n cefnogi dysgwyr i ddeall a rheoli'r newidiadau datblygiadol yn ogystal â sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar ddysgwyr mewn gwahanol ffyrdd. Dylid cynnig cyfleoedd i ddysgwyr asesu a rheoli risg fel y gallan nhw gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel. Dylai lleoliadau ac ysgolion hefyd ystyried pa strategaethau y gallai fod eu hangen ar ei dysgwyr i ymyrryd yn ddiogel i gefnogi eraill a allai fod mewn perygl. Gallai hyn gynnwys sgiliau achub bywyd a chymorth cyntaf.

Sut y gall lleoliadau/ysgolion greu a hybu diwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn cael ei annog? Pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau fydd yn cefnogi dysgwyr i ymateb i'w profiadau? Sut y gall dealltwriaeth o'r ymennydd gefnogi hyn?

Mae angen i ddysgwyr ddeall y cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a lles emosiynol, sut mae iechyd meddwl a lles emosiynol yn effeithio arnyn nhw a bod ein iechyd meddwl yn gallu newid dros gyfnod o amser. Dylai lleoliadau ac ysgolion sicrhau bod ethos a systemau cefnogi ysgol gyfan yn galluogi dysgwyr i siarad yn agored nid yn unig am eu hiechyd meddwl, teimladau, meddyliau ac emosiynau eu hunain ond am rai pobl eraill yn ogystal.

Dylai lleoliadau ac ysgolion sicrhau bod gan ddysgwyr werthfawrogiad dwfn o bwysigrwydd cydberthnasau cadarnhaol a manteision gofyn am gymorth. Dylai lleoliadau ac ysgolion gynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio'r ffactorau sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a lles. Gallai'r rhain gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, bwysigrwydd ymarfer cyson, effaith deiet cytbwys, sut i ymateb i bwysau ac effaith amgylcheddau, gan gynnwys y byd ar-lein.

Pa gyfleoedd ddylai dysgwyr eu cael i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau diliys? Sut y gall lleoliadau/ysgolion gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau gwneud penderfyniadau?

Dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried sut i gynnig ystod o gyfleoedd i ddysgwyr wneud penderfyniadau, yn unigol ac ar y cyd. Yn gynnar yn eu cynnydd gallai'r rhain gynnwys dewisiadau yn ymwneud â chyfeillgarwch, bwyd a gweithgareddau cyn symud ymlaen at benderfyniadau mwy cymhleth gyda goblygiadau ehangach. Yn ogystal, dylid rhoi cyfle i ddysgwyr wneud penderfyniadau mewn meysydd megis gyrfaeodd, rheolaeth ariannol, cydberthnasau a rhyngweithio gyda a thrwy dechnoleg ddigidol. Gallai'r broses o wneud penderfyniad gynnwys datrys problemau, nodi datrysiadau posib, asesu gwybodaeth yn feirniadol, gwerthuso dadleuon am haeddiant ac ymwneud â safbwyntiau gwahanol ac ymateb yn gadarnhaol iddyn nhw.

Anogir lleoliadau ac ysgolion i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr fyfyririo ar oblygiadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud. Dylai'r broses gydnabod nad oes gan ddysgwyr o angenrheidrwydd gyfrifoldeb dros lawer o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a bod y cyfrifoldeb hwn yn tyfu dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig myfyririo ar effaith penderfyniadau nid yn unig ar yr hunan ond ar bobl eraill a'r gymdeithas ehangach, yn arbennig mewn perthynas â phenderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud gan bobl eraill/grwpiau eraill. Bydd angen i ddysgwyr ddeall goblygiadau a phwysigrwydd datblygu'r gallu i wneud penderfyniadau cadarn mewn meysydd megis gyrfaeodd, cyllid a'r gyfraith. Yn arbennig, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol fod rhain yn benderfyniadau am fywyd gyda goblygiadau hir dymor.

Sut y gellir cefnogi dysgwyr i ymwneud ag ystod o ddylanwadau cymdeithasol sy'n effeithio ar eu bywydau?

Dylai lleoliadau ac ysgolion nodi cyfleoedd i ddysgwyr ymwneud â **dylanwadau cymdeithasol** cadarnhaol yn ogystal ag ystyried yn ofalus sut i leihau effaith dylanwadau cymdeithasol negyddol. Dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried y rôl y gall dylanwadau cymdeithasol ei chael ar ymddygiad dysgwyr, a'r dylanwadau all hyrwyddo ac annog ymddygiadau iach er lles y gymdeithas, yn ogystal â'r rhai sy'n arwain at faterion megis gwahaniaethu, hiliaeth neu ragfarn.

Anogir lleoliadau ac ysgolion i feddwl am sut i gynnig cefnogaeth i ddysgwyr pan mae dylanwadau cymdeithasol negyddol yn creu trafferthion i unigolion a grwpiau a dathlu'r dylanwadau cymdeithasol sy'n cyfrannu tuag at iechyd a lles. Gall y rhain fod yn ddylanwadau byd-eang sy'n effeithio ar nifer mawr o ddysgwyr, ond gall hefyd gynnwys elfennau sy'n effeithio ar grwpiau llai o ddysgwyr. Trwy ddull gweithredu ysgol gyfan tuag at iechyd a lles ynghyd â chynllunio'r cwricwlwm, anogir ymarferwyr i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio a gwerthuso'n feirniadol sut a pham maen nhw'n dewis ymwneud â dylanwadau cymdeithasol penodol, a sut mae'r rhain yn gallu effeithio ar ymddygiad.

Pa brofiadau gall lleoliadau/ysgolion eu cynnig er mwyn cynnig gwerthfawrogiad a dealltwriaeth i ddysgwyr o fanteision cydberthnasau iach? Sut y dylai lleoliadau/ysgolion hyrwyddo a modelu cydberthnasau iach ag eraill yn weithredol?

Dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried y cydberthnasau sy'n gyfarwydd i'r dysgwyr megis teulu a chyfeillion, anifeiliaid yn cynnwys rhai anwes, cyfoedion, pobl broffesiynol, rhithiol, rhamantus, rhywiol, crefyddol ac **ysbrydol**, ac unrhyw cydberthynas nad sydd eto'n gyfarwydd iddyn nhw ond eu bod yn debygol iawn o ddod ar eu traws yn ystod eu bywydau. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i ddatblygu cydberthynas â phobl sydd â chefnidiroedd, profiadau a nodweddion gwahanol iddyn nhw. Er mwyn ffurfio, cynnal a datblygu cydberthnasau iach gydol oes, bydd angen i ddysgwyr roi amser i'r cydberthnasau a chaffael ystod o sgiliau a rhinweddau.

Dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried sut maen nhw'n cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i adeiladu cydberthynas iach. Dylai'r rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, cyfathrebiad a trafodaeth agored, derbyniad, dathliad, **empathi**, ymddiriedaeth, rheoli technoleg symudol, rhoi a derbyn adborth, tosturi, datrys problemau, negyddu, parchu safbwyntiau pobl eraill, **gwerthoedd** a hawliau, myfyrio, ymateb yn adeiladol a phriodol i wrthdaro, dealltwriaeth y gall cydberthynas newid a datblygu dros gyfnod o amser. Tra dylai'r cysyniadau hyn fod yn rhan annatod o'r ethos ysgol gyfan, dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol y bydd angen dysgu llawer o'r rhain yn benodol trwy'r holl gwricwlwm. Dylen nhw fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hyn wrth iddyn nhw godi yn naturiol. Dylid rhoi amser i ddysgwyr fyfyrar ar eu profiadau, eu harchwilio a'u gwerthuso'n feirniadol er mwyn defnyddio'r wybodaeth i effeithio ar eu ymddygiad mewn sefyllfaoedd y gallan nhw ddod ar eu traws yn y dyfodol a defnyddio'r wybodaeth hon i **hunanreoleiddio**.

Sut y gall lleoliadau/ysgolion gefnogi dysgwyr i gydnabod nad yw cydberthynas neu agweddau o'r cydberthnasau o angenrheidrwydd yn ddiogel neu yn iach?

Mae'n bwysig fod dysgwyr yn deall beth yw ystyr cydberthynas nad yw'n iach neu gydberthynas dreisiol. Bydd angen iddyn nhw adnabod sylw digroeso a dysgu sut i ymateb yn briodol. Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd preifatrwydd a chydysynio. Dylen nhw gael cyfleoedd i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i chwlio cymorth iddyn nhw eu hunain ac i eraill, a phwy i fynd atyn nhw ar gyfer cymorth mewn ystod o sefyllfaoedd, o ffrindiau, teulu ac athrawon i asiantaethau a chyrrff allanol megis Childline, Cymorth i Fenywod, NSPCC, yr heddlu, gwasanaethau cwnsela ac elusennau, gweithwyr iechyd proffesiynol, Child Exploitation and Online Protection (CEOP), ac ati. Gall ymddygiadau diogel gynnwys cyffwrdd priodol, gwagle personol a chyfathrebu geiriol cadarnhaol, yn gynnwys cydsynio. Gall ymddygiadau sydd heb fod yn ddiogel gynnwys camdriniaeth corfforol, emosiynol, rhywiol ac ar-lein. Mae angen i ddysgwyr wybod bod ganddyn nhw hawliau, gan gynnwys hawliau dynol a'r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a bod yr hawliau hyn yn gallu eu diogelu rhag niwed. Dylen nhw ddeall pwysigrwydd tegwch a chydabod hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill wrth ddatblygu cydberthynas ddiogel.

3. Sut y gall pynciau, themâu a gweithgareddau gael eu hystyried yn holistaidd?

Dylid ystyried pynciau, themâu a gweithgareddau yn holistaidd gan ystyried gwahanol agweddau ar iechyd a lles dysgwyr. Cynlluniwyd y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i'w defnyddio fel ffordd o feddwl ac ystyried yr un cynnwys cwricwlaidd.

Dylai cynllunio ddechrau trwy feddwl am bynciau sy'n berthnasol i anghenion dysgwyr ac yna archwilio sut y gellir defnyddio'r pwnc neu'r thema i wireddu dysgu ymhob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Gall y disgrifiadau dysgu wedyn gefnogi datblygu dysgu ac addysgu.

Er enghraifft, pe bai sylweddau niweidiol yn cael eu nodi fel maes i ganolbwyntio arno, er mwyn cynllunio byddai angen archwilio sut mae'r disgrifiadau dysgu ar gyfer pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn gallu cynnig ffordd benodol o weithredu'r dysgu. Gall yr ystyriaethau dechreuol nodi'r cysylltiadau canlynol i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig: effaith sylweddau niweidiol a phatrymau cysgu, archwaeth, ysgogiad i ymarfer, lles emosiynol, gwneud penderfyniadau ar y pryd a chymryd risg, grwpiau cyfeillion, a'r gallu i wahaniaethu rhwng cydberthynas iach a niweidiol. Gellir defnyddio'r disgrifiadau dysgu wedyn i gynnig y fframwaith i adeiladu'r dysgu manwl arno.

Enghraifft arall o bosib yw bod yr angen i gydweithredu wedi cael ei nodi fel maes i ganolbwyntio arno, gellir datblygu'r dolenni canlynol: defnyddio gweithgaredd corfforol fel cyfrwng i adeiladu cydweithredu, archwilio manteision cefnogi pobl eraill mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles emosiynol, gwneud penderfyniadau ar y cyd a dysgu oddi wrth gamgymeriadau, archwilio sut y gall gwahanol grwpiau cymdeithasol o fewn lleoliad neu ysgol nodi elfennau sy'n debyg, rhannu targedau a chydweithredu i adeiladu gwahanol fathau o berthnasau gyda'r gymuned ehangach.

Dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried natur y profiadau dysgu a'r addysgeg gefnogol er mwyn sicrhau bod themâu a phynciau yn cyfrannu at gynnydd dysgwyr. Mae hefyd yn bwysig cofio nad yw dylanwadau bob amser yn gyfan gwbl gadarnhaol neu negyddol. Gall ymddygiadau a chydberthnasau fod ag agweddau iach yn ogystal â niweidiol. Dylid cynllunio dysgu ac addysgu i annog ymddygiadau cadarnhaol. Wrth nodi profiadau, mae dulliau gweithredu cadarnhaol yn bwysig. Dylai dull gweithredu'r dysgu sicrhau fod dysgwyr yn datblygu mwynhad a chanfyddiad cadarnhaol o ymddygiadau iach sydd er lles y gymdeithas. Ni ddylai'r dysgu gynnwys codi cywilydd ynghylch ymddygiadau penodol neu greu rhestr hir o dic a chroes. Dylai dysgu ac addysgu gydnabod tra bod deall effaith gwahanol ymddygiadau yn bwysig, mae hyn ar ei ben ei hun yn annhebygol o ddylanwadu ar ymddygiadau dysgwyr.

Enghreifftio ehangder

Gall dysgwyr gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon tîm a chwaraeon unigol i gefnogi eu dealltwriaeth o arferion iechyd positif a'u gweithredu. Mae hyn hefyd yn cefnogi datblygu gweithio mewn tîm, gwydnwch a hyder unigolion. Gall astudio chwaraeon hefyd ddatgloi agweddau ar hanes cymdeithasol, gwleidyddiaeth, daearyddiaeth a gwyddoniaeth Cymru ac ar draws y byd. Gallai dysgu am ymddygiadau, sefyllfaoedd a chyflyrau sy'n effeithio ar iechyd corfforol a lles gynnwys dysgu am gamddefnyddio sylweddau, datblygu sgiliau cymorth cyntaf a deall cyflyrau iechyd. Gellid gwella dealltwriaeth o ddeiet a maeth drwy ddysgu am y cyflenwad bwyd, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, a sut mae hyn wedi newid dros amser.

Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill

Dylid ystyried a thynnu ar gysylltiadau ar draws Meysydd er mwyn ymwreiddio dysgu holistaidd yn llawn. Dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried a oes gwahanol elfennau o ddysgu y gellid eu hystyried gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu mwy holistaidd. Mae llawer o gysylltiadau rhwng y Maes hwn a Meysydd eraill.

Celfyddydau mynegiannol

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynnig cyfleoedd ar gyfer symud a dawns creadigol fel gweithgaredd corfforol ac yn ffordd o alluogi dysgwyr i ddatblygu [symudiadau echddygol bras](#) a [symudiadau echddygol manwl](#) er mwyn cefnogi cyfranogiad mewn gwahanol ddisgyblaethau celfyddydol. Gall cyfranogiad yn y celfyddydau mynegiannol alluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o'r hunan, adeiladu hyder, ac archwilio gwahanol ffurfiau o gyfathrebu a chydberthnasau a all gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol

Dyniaethau

Mae'r ddau Faes yma yn cysylltu i ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o hunaniaeth, cymunedau, cymdeithasau, normau a [gwerthoedd](#) cymdeithasol, a [dylanwadau cymdeithasol](#). Maen nhw'n cefnogi dealltwriaeth o ddinasyddiaeth, hawliau, parch a chyfartaledd. Mae'r Maes hwn yn cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o sut y gall penderfyniadau gan unigolion a rhai ar y cyd gefnogi ymatebion moesegol a chynaliadwy i gyfleoedd a wynebwr gan ddynoliaeth yn gyffredinol ac yng Nghymru yn benodol.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r ddau Faes yma yn cyfuno i ddarparu sgiliau fydd yn galluogi dysgwyr i gyfathrebu'n effeithiol. Bydd hyn yn ei dro yn darparu sail ar gyfer datblygu cydberthnasau iach. Bydd datblygiad corfforol a gwybyddol yn effeithio ar gaffael lleferydd ac iaith a datblygu [symudiadau echddygol manwl](#) fel llawysgrifen. Mae sgiliau llythrennedd yn galluogi dysgwyr i archwilio testunau sy'n ymwneud ag iechyd a lles. Mae darllen ac ysgrifennu er mwyn pleser hefyd yn darparu cyfleoedd i wella ymdeimlad o les yn y dysgwr.

Mathemateg a Rhifedd

Un o'r cysylltiadau pwysicaf yw'r cysylltiad â Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ac mae'r enghreifftiau yn cynnwys ymdrin â llythrennedd ariannol a risg. Ymdrinnir â llythrennedd ariannol yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig sy'n ymdrin â'r system rif. Mae hyn yn cael ei gadarnhau yn iechyd a lles lle y gallai dysgu archwilio llythrennedd ariannol trwy risg a dyled bersonol, a'u canlyniadau. Oherwydd cysylltiadau mor agos anogir yn gryf ddysgu'r ddwy elfen arbennig yma yn gyfochrog.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles hefyd yn darparu i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys goblygiadau penderfyniadau ac ystyriaethau risg. Mae rhifedd yn cynnig cyd-destun pwysig ar gyfer archwilio a chefnogi gwneud penderfyniadau'n gadarnhaol, yn arbennig mewn perthynas â phenderfyniadau ariannol.

Ar ben hynny, mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynnig cyfle i archwilio rôl rhifedd wrth brynu a pharatoi bwyd i gefnogi maeth, a'i rôl wrth fesur pellter, pwysau ac amser.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae cysylltiad cynhenid rhwng y ddau Faes yma. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o fioleg, datblygiad corfforol, cydberthnasau biolegol a rhywiol a'r cyswllt rhwng iechyd corfforol ac emosiynol yn hanfodol i ddysgu yn y Maes hwn. Gall dysgu sut mae'r ymennydd yn gweithio fod o gymorth i ddysgwyr ddeall eu meddyliau, teimladau ac emosiynau. Gellir ystyried sut y gall dewisiadau ffordd o fyw effeithio ar y corff dynol (gan gynnwys deiet, defnyddio cyffuriau ac ymarfer), yn ogystal â'r wyddoniaeth y tu ôl i hormonau, atgenhedlu rhywiol a datblygiad dynol er mwyn cefnogi addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae technoleg yn bwysig i iechyd a lles dysgwyr. Mae dealltwriaeth sut mae'r cyfryngau digidol yn gweithio a sut i ddefnyddio'r byd ar-lein yn ddiogel a chyfrifol, archwilio perthnasau mewn cyd-destun ar-lein, a deall normau a dylanwadau cymdeithasol mewn perthynas â thechnoleg oll yn cyfrannu at wneud gwell penderfyniadau mewn perthynas â diogelwch ar-lein, bwllo ar-lein a hybu ymddygiad cadarnhaol ar-lein.

Themâu trawsgwricwlaidd

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y Maes hwn

Gall yr hyn sy'n gyrru a dylanwadu ar iechyd a lles y dysgwyr amrywio gan ddibynnu ar gyd-destun lleol a dylid ystyried rhain wrth gynllunio eich cwricwlwm. Dylai dysgu gael ei lywio gan dueddiadau lleol, cenedlaethol a byd-eang, materion a ffactorau sy'n effeithio ar wahanol agweddau o iechyd a lles dysgwyr.

Dylai'r sgiliau gwneud penderfyniad mae dysgwyr yn eu datblygu eu galluogi i ddeall a gwerthuso'n feirniadol effeithiau eu penderfyniadau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol mewn ystod o gyd-destunau.

Dylai dysgwyr ddatblygu gwahanol fathau o gydberthnasau sy'n eu galluogi i werthfawrogi tebygrwydd a gwahaniaethau o fewn eu cymunedau lleol, a chyda gwahanol unigolion a chymunedau, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Gall y dylanwadau cymdeithasol sy'n cynnig gwybodaeth i ddysgwyr fod yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Gallan nhw amrywio'n lleol yn ogystal. Bydd datblygu dealltwriaeth o normau, gwerthoedd a diwylliannau cymunedau lleol, cymunedau cenedlaethol a chymunedau rhyngwladol o gymorth i lywio hunaniaeth dysgwr. Trwy ddatblygu a modelu empathi, dylid cefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion gweithredol sy'n ymwneud â phob un o'r cyd-destunau hyn, a hynny mewn ffordd sydd er lles y gymdeithas.

Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn y Maes hwn

Penderfyniadau allweddol ar gyfer dysgwyr fydd y rhai hynny yn ymwneud â gyrfaoedd. Trwy ddatblygu sgiliau gwneud penderfyniad a datblygu ymwybyddiaeth o effaith penderfyniadau ar yr hunan ac ar eraill, gall dysgwyr ddechrau sylweddoli bod dysgu, datblygu sgiliau a diddordebau ynghylch dewisiadau'r dyfodol oll yn berthnasol. Wrth ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r broses gwneud penderfyniadau, gall dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r angen i ymchwilio a gwerthuso eu dewisiadau gyrfa yn feirniadol, datblygu dealltwriaeth o'r profiadau, gwybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i ddilyn gyrfa neu lwybr dysgu o'u dewis nhw. Dylid ystyried gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith trwy'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig sy'n cyfeirio at wneud penderfyniadau, yn ogystal â'r datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig trwy gydol cynnydd y dysgwr. Ar ddechrau'r continwmm dylai dysgwyr ymwneud â'u hoff a chas bethau, dewis gweithgareddau yn seiliedig ar eu diddordebau ac archwilio gwahanol rolau cysylltiedig â gwaith. Wrth iddyn nhw ddangos cynnydd, dylen nhw ddatblygu ymwybyddiaeth o ystod o wahanol gyfleoedd sy'n berthnasol i'w dysgu, sgiliau a diddordebau. Dylen nhw gael eu cefnogi i osod targedau a chwilio am wybodaeth am lwybrau posib i fod o gymorth iddyn nhw wireddu uchelgais. Gall gyrfaoedd hefyd gael eu hystyried o safbwynt datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, er enghraifft perthynas weithio broffesiynol. Dylai dysgu am yrfaoedd yn y Maes hwn gynnig sail ar gyfer dysgu am yrfaoedd trwy ac o fewn pob Maes arall.

Gan dynnu ar ddysgu yn y Maes hwn, dylid annog dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i addasu ymddygiadau yn ôl gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau. Gallai'r sgiliau hyn fod o gymorth i ddysgwyr wrth iddyn nhw ymgeisio am swyddi ac ymwneud â'r byd gwaith.

Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth yn y Maes hwn

Mae deall a gwerthfawrogi amrywiaeth yn greiddiol i wireddu dysgu yn y Maes hwn ac i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau.

Mae dysgu yn y Maes hwn yn edrych yn benodol ar gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau – hawliau'r unigolyn, hawliau pobl eraill, effeithiau hawliau ar y dysgwyr eu hunain ac ar bobl eraill, a'r angen i barchu hawliau pobl eraill. Mae hefyd yn argymhell rhoi cyfle i ddysgwyr brofi ymarfer eu hawliau eu hunain.

Mae dysgu ar draws y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn yn darparu cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o natur amrywiol pobl ac i ddatblygu'r sgil a'r ddealltwriaeth i ryngweithio'n addas gyda phobl o wahanol gefndiroedd a diwylliannau. Mae dysgu'n cynnig cyfleoedd i archwilio amrywiol **werthoedd**, hunaniaethau, ymddygiadau a nodweddion corfforol, a darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r nodweddion i ddeall a pharchu amrywiaeth. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddeall bod gwahanol grwpiau cymdeithasol, sefyllfaoedd a diwylliannau, a bod gan y rhain wahanol reolau, normau cymdeithasol ac **agweddau**, a chyfleoedd i ddysgwyr deall sut mae'r gwahaniaethau hyn yn dylanwadu ar werthoedd ac ymddygiadau.

Maes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau

Cyflwyniad

Gall Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Maes) gynnu ymdeimlad o ryfeddod, tanio dychymyg ac ysbrydoli dysgwyr i dyfu mewn gwybodaeth, dealltwriaeth a doethineb. Mae'r Maes hwn yn ysgogi dysgwyr i ymwneud â'r materion pwysicaf sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys cynladwyedd a newid cymdeithasol, ac yn gymorth i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli a disgrifio'r gorffennol a'r presennol.

Mae'r Maes hwn yn cwmpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, ond hefyd mae ganddyn nhw eu corff penodol eu hunain o wybodaeth a sgiliau. Yn ogystal, gall dysgwyr gael eu cyflwyno i ddisgyblaethau cysylltiedig eraill, megis y clasuron, economeg, y gyfraith, athroniaeth, gwleidyddiaeth, seicoleg a chymdeithaseg, os a lle bydd hynny'n briodol.

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi'i fynegi mewn pum datganiad sy'n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae'r Dyniaethau yn ganolog i ddysgwyr ddod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**. Mewn cyd-destunau cyfoes a hanesyddol, gall ymchwilio ac archwilio'r profiad dynol yn eu hardal eu hunain a gweddill Cymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach, fod o gymorth i ddysgwyr ddarganfod eu treftadaeth a datblygu ymdeimlad o le a **chynefin**. Gall hyn hefyd hyrwyddo dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl Cymru, ei chymunedau, ei hanes, ei diwylliant, ei thirwedd, ei hadnoddau a'i diwydiannau yn cydberthyn i weddill y byd. Yn ei dro bydd ystyried safbwyntiau gwahanol o gymorth i hyrwyddo dealltwriaeth o'r amrywiaeth ethnig a diwylliannol yng Nghymru. Gyda'i gilydd, bydd y profiadau hyn o gymorth i ddysgwyr werthfawrogi cymaint rhan ydyn nhw o gymuned ryngwladol ehangach, gan feithrin ymdeimlad o berthyn a allai eu hysgogi i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau.

Mae'n bwysig fod dysgwyr yn myfyrio ar effaith eu gweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill, a sut y dylanwadir ar y gweithredoedd hyn gan ddehongliadau o hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau, a safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Trwy gael eu hannog i ymwneud ag amrywiaeth o fydoligon, ynghyd â'u parchu a'u herio, hefyd trwy ddeall sut i ymarfer eu hawliau democrataidd, gall dysgwyr ddychmygu dyfodol posib a gweithredu'n gymdeithasol. Bydd y math hwn o ymwneud beirniadol â heriau a chyfleoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang, o'r gorffennol a'r presennol, o gymorth i ddysgwyr ddod yn **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith**.

Wrth iddyn nhw archwilio eu hardal leol a Chymru, yn ogystal â'r byd ehangach, gall dysgwyr ddatblygu sail gadarn o wybodaeth am gysyniadau daearyddol, hanesyddol, crefyddol, anghrefyddol, busnes, ac astudiaethau cymdeithasol, ynghyd â dealltwriaeth ohonyn nhw. Gall yr archwilio hwn ysgogi dysgwyr i gymryd rhan mewn gwahanol ddulliau ymholi, gwerthuso'r dystiolaeth y byddan nhw'n ei chanfod, a chymhwyso a mynegi eu canfyddiadau yn effeithiol. Bydd y profiadau hyn, oddi mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, o gymorth iddyn nhw ddod yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes**.

Mae'n bwysig fod gan ddysgwyr gyfleoedd i drafod ac archwilio eu safbwyntiau personol ar fydolygon crefyddol ac anghrefyddol, heriau moesol a materion cynhwysiant cymdeithasol. Yn ogystal, gall cyfleoedd i archwilio'r byd naturiol, yn lleol, ledled Cymru a thu hwnt, fod o gymorth iddyn nhw feithrin ymdeimlad o le ac o les. Bydd y profiadau hyn o gymorth i ddatblygu gwydnwch yn y dysgwyr, magu annibyniaeth a chynyddu hunan-hyder a hunan-werth. Gall hyn gefnogi datblygu **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

Bydd taith y dysgwyr trwy'r Maes hwn yn ysgogi ymholi a darganfod, wrth iddyn nhw gael eu herio i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, i feddwl yn feirniadol a myfyrio ar dystiolaeth. Mae meddwl ymholgar yn ysgogi ffordd greadigol a newydd o feddwl, a thrwy hyn gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Gall meddylfryd o'r fath fod o gymorth i ddysgwyr ddeall profiadau pobl a'r byd naturiol yn well.

Bydd dulliau gweithredu disgyblaethol addas, gan gynnwys **dyniaethau digidol**, yn gymorth i ddysgwyr gasglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth. Bydd dehongli a chyfuno gwybodaeth o gymorth i ddysgwyr adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes a llywio ymhellach eu dealltwriaeth o'r byd. Trwy feddwl yn feirniadol am eu canfyddiadau, gall dysgwyr wedyn ddod i gasgliadau gwybodus, ond hefyd ddod i ddeall mai dim ond casgliadau rhannol neu amhendiant a geir weithiau ac y gellir eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Bydd angen iddyn nhw fyfyrion ofalus er mwyn gwella eu methodoleg ac ehangu neu ddyfnhau eu hymholiad.

Mae ymholi yn fwy nag ymarferiad academaidd; mae'n galluogi myfyrio sydd o gymorth i ddysgwyr ddeall y cyflwr dynol. Yn ei dro, gall hyn ychwanegu ystyr at fywydau'r dysgwyr, a chyfrannu at eu hymdeimlad o le a bydolwg.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn ysgogi archwilio cysyniadau gan gynnwys cwestiynu, tystiolaeth, gwerthuso, moeseg a barn.

Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

Rydyn ni'n profi a gwneud synnwyr o'r byd trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a phrofiadau. Mae'r dyniaethau yn annog dysgwyr i adolygu'n feirniadol y ffyrdd mae'r digwyddiadau a'r profiadau hyn yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli. Wrth iddyn nhw ddatblygu eu safbwyntiau gwybodus eu hunain, ynghyd â chydabod barn eraill, gall dysgwyr hefyd ddatblygu hunan-ymwybyddiaeth.

Gall dysgu sut y gall gwahanol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a'u dehongliadau eu hunain, yn ogystal â rhai pobl eraill, annog dysgwyr i ddatblygu gwerthfawrogiad o sut mae cyd-destun yn dylanwadu ar greu naratif a ffyrdd o gyfleu. Trwy archwilio sut a pham y gall dehongliadau wahaniaethu, ac wrth ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o ystod o ddehongliadau a ffyrdd o gyfleu, elfennau a gasglwyd o amrywiaeth o dystiolaeth, bydd dysgwyr mewn sefyllfa well i werthuso pa mor ddilys yw'r rhain.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn ysgogi archwilio cysyniadau, gan gynnwys archwilio ystyr, dod i farn, cwestiynau athronyddol a **phwysig bywyd**, ffyrdd o gyfleu, safbwyntiau, dehongliadau, arwyddocâd a dilysrwydd.

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Gall profi rhyfeddod y byd naturiol gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol a lles y dysgwyr, a bod yn gymorth i ennyn ynddyn nhw ymdeimlad o le ac o berthyn, fel sy'n cael ei ymgorffori yn y gair **cynefin**.

Gall meithrin chwilfrydedd fod o gymorth i ddysgwyr ddeall a gwerthfawrogi sut a pham mae lleoedd, tirwedd ac amgylchedd yn newid, yn lleol, yng Nghymru yn ogystal ag yn fyd-eang. Yn ei dro, gall hyn alluogi dysgwyr i adnabod beth sy'n gwneud lleoedd a gofodau yn wahanol ac i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau sydd rhwng pobl a'u hamgylchedd, a hynny mewn cyd-destun cyfoes a hanesyddol. O ganlyniad, mae dysgwyr mewn sefyllfa well i wneud cyswllt rhwng y gorffennol a'r presennol ac i ddychmygu dyfodol posibl.

Bydd datblygu dealltwriaeth o sut y gall gweithredoedd dynol yn y gorffennol a'r presennol effeithio ar y berthynas rhwng y byd naturiol a phobl yn dwysáu ymwybyddiaeth dysgwyr o'r modd y mae'r gweithredoedd hyn yn dylanwadu ar gynladwyedd ein byd yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn annog dysgwyr, fel cynhyrchwyr a defnyddwyr, i ddeall eu heffaith hwy eu hunain ar y byd naturiol. Yn ogystal, gall archwilio amrywiaeth o gredoau, athroniaethau a bydolygon am y byd naturiol fod o gymorth i ddysgwyr sylweddoli sut mae'r rhain yn dylanwadu ar y modd y mae pobl yn rhyngweithio â'r byd.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn annog dysgwyr i archwilio cysyniadau gan gynnwys y berthynas rhwng pobl a'r byd naturiol, achos ac effaith, newid a pharhad, arwyddocâd, lle, gofod a phrosesau ffisegol.

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Gall gwerthfawrogi hunaniaeth, treftadaeth a **chynefin** ddylanwadu'n emosiynol ac yn ysbrydol ar ddysgwyr, a bod o gymorth i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn. Trwy ddeall eu hunain, mae dysgwyr yn meithrin eu hunaniaeth, ac ymwybyddiaeth o sut y gallan nhw, fel unigolion, siapiau'r cymunedau y maen nhw'n byw ynddyn nhw. O ganlyniad, daw dysgwyr i ddeall y gall y dewisiadau y mae pob un ohonon ni'n eu gwneud gael effaith sylweddol ar gymdeithas, boed yn ddewisiadau unigol neu ar y cyd.

Trwy ymwybyddiaeth gyson o'u stori leol a stori Cymru yn ogystal â'r stori fyd-eang, gall dysgwyr ddod i ddeall natur gymhleth, **luosog** ac amrywiol cymdeithasau, yn y gorffennol a'r presennol.

Dros amser, mae lleoedd, cymunedau a chymdeithasau yn esblygu, gan brofi parhad a newid sydd wedi effeithio ar fywydau'r dysgwyr eu hunain ac ar fywydau pobl eraill, ac mae'r effaith yn parhau. Wrth iddyn nhw archwilio hyn, gall dysgwyr ddod i werthfawrogi sut mae'r esblygiad hwn yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng ystod o ffactorau, gan gynnwys prosesau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol, ynghyd â gweithredoedd pobl, credoau crefyddol ac anghrefyddol a bydolygon. Gall hefyd fod o gymorth iddyn nhw ddatblygu dealltwriaeth o achosion, canlyniadau ac arwyddocâd y newidiadau a'r rhyng-berthnasau sydd wedi ffurfio cymdeithasau ar wahanol lefelau o ddatblygiad.

Gall profiadau yn y Maes hwn annog dealltwriaeth feirniadol o sut mae cymdeithasau wedi cael eu trefnu, eu strwythuro a'u harwain, yn lleol, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Caiff cymdeithasau eu nodweddu gan amrywiaeth o normau a gwerthoedd diwylliannol, ieithyddol, economaidd, cyfreithiol a gwleidyddol. Maen nhw hefyd yn ddeinamig, gan sbarduno ac ymateb i newidiadau, ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang. Gall dysgwyr archwilio'r cysylltiadau a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng y cymdeithasau hyn, yn y gorffennol a'r presennol, yng nghyd-destun globaleiddio byd-eang. Gall ymwneud pellach eu hannog hefyd i archwilio a meithrin dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau ac egwyddorion sydd wrth wraidd ac yn llywio cymdeithas ddynol.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn annog dysgwyr i archwilio cysyniadau gan gynnwys cronoleg, newid a pharhad, amrywiaeth, achos ac effaith, cydgysylltiad, cymuned, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a **llywodraethiant**.

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Gall profiadau yn y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach, ynghyd â phwysigrwydd creu dyfodol cyfiawn a chynladwy iddyn nhw eu hunain a'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae archwilio'r dyniaethau'n annog dysgwyr i fod yn ddinasyddion a defnyddwyr gweithredol, gwybodus a chyfrifol sy'n gallu uniaethu â'u cymunedau a chyfrannu atyn nhw, yn ogystal â gallu mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n wynebu'r dysgwyr, eu cymunedau, Cymru yn ogystal â'r byd ehangach.

Bydd y Maes hwn yn annog dysgwyr i ddeall natur ryng-gysylltiol cynladwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol; cyfiawnder ac awdurdod; a'r angen i fyw mewn cymdeithas decach a mwy cynhwysol, ynghyd â chyfrannu ati. Bydd profiadau yn y Maes hwn hefyd o gymorth i ddysgwyr feithrin ymwybyddiaeth o'u hawliau, anghenion, pryderon a'u teimladau hwy eu hunain a phobl eraill, a sut mae'r fath ymwybyddiaeth yn cyfrannu at greu byd cynladwy a rhyng-gysylltiedig.

Gall cwestiynu a gwerthuso ymatebion i heriau a chyfleoedd, ymatebion sydd eisoes yn bodoli, helpu dysgwyr i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol sy'n myfyrio'n feirniadol ar eu credoau, gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain ac eraill. Bydd profiadau yn y Maes hwn hefyd o gymorth i ddysgwyr ystyried effaith eu gweithredoedd wrth iddyn nhw wneud dewisiadau ac arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd. Bydd y profiadau hyn hefyd yn tanlinellu'r angen i'r dysgwyr allu cyfiawnhau eu penderfyniadau wrth weithredu mewn ffordd gymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac entrepreneuriaidd. Gall hyn alluogi dysgwyr i ymroi i weithredu cymdeithasol fel dinasyddion cyfranogol, gofalgar o'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang, gan ddangos ymrwymiad i gyfiawnder, amrywiaeth a diogelu'r amgylchedd, ynghyd â dealltwriaeth ohonyn nhw. Trwy ymateb i heriau, a manteisio ar gyfleoedd i weithredu'n gymdeithasol a chynladwy, gall dysgwyr greu ystyr a diben yn eu bywydau eu hunain.

Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn annog dysgwyr i archwilio cysyniadau gan gynnwys dinasyddiaeth, awdurdod a **llywodraethiant**, rhyng-gysylltu, cyfiawnder a chydaddoldeb, menter, hawliau, a **gweithredu** a chyfrifoldeb **cymdeithasol**.

Egwyddorion cynnydd

Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Caiff cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Maes) ei ddangos wrth i ddysgwyr ymgysylltu â gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol cynyddol eang a dwfn. Mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i drefnu a nodi cysylltiadau rhwng gwybodaeth osodiadol yn gynyddol, er mwyn nodi a datblygu cysyniadau ategol mwy pwerus, a gwneud penderfyniadau wedi'u hategu mewn cyd-destunau mwy cymhleth.

Mae dysgwyr yn cysylltu syniadau a gwybodaeth newydd â gwybodaeth sy'n deillio o ddysgu blaenorol yn yr ysgol a'r tu hwnt iddi, ac yn eu defnyddio i feithrin dealltwriaeth gynyddol glir a chydlynol o'r byd o'u cwmpas.

Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd

Caiff cynnydd yn y Maes hwn ei ddangos yn ystod y cyfnodau cynnar wrth i ddysgwyr brofi dulliau holistaidd o archwilio'r byd o'u cwmpas, a chael eu cefnogi i feithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd. Bydd dysgwyr yn symud ymlaen i ymwybyddiaeth sy'n canolbwyntio'n fwy ar fywydau pobl eraill, yn eu cyd-destun cymdeithasol eu hunain, mewn mannau eraill yn y byd ac mewn gwahanol oesoedd. Wrth iddyn nhw symud drwy'r continwum dysgu, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gynyddol o'r nodweddion sy'n diffinio'r disgyblaethau sylfaenol (gan gynnwys hanes; daearyddiaeth; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol) a'r ffordd y gellir dod â'r rhain at ei gilydd i ddarparu ffyrdd gwahanol o ystyried materion a mynd i'r afael â chwestiynau neu broblemau.

Mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso

Wrth i ddysgwyr brofi, deall a chymhwyso cysyniadau cynyddol gymhleth, maen nhw'n dangos cywirdeb a rhuglder cynyddol wrth ddefnyddio ystod o sgiliau a nodir yn y disgrifiadau dysgu a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Wrth iddyn nhw wneud cynnydd, bydd dysgwyr yn mireinio'r sgiliau disgyblaethol allweddol yn barhaus ac yn datblygu soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymholi, megis llunio cwestiynau a defnyddio tystiolaeth i lunio ac ategu ateb a'r rhai sy'n ymwneud â chynrychioli a dehongli. Caiff cynnydd yn y Maes hwn ei ddangos drwy'r gallu i weithio gyda nifer cynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig, a dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o ymdrin â hanesion anghyson.

Nodi cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd

Caiff cynnydd yn y Maes hwn ei nodweddu hefyd gan ddefnydd mwy soffistigedig o'r sgiliau perthnasol a'r gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau cynyddol anghyfarwydd. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddan nhw'n gallu nodi cysylltiadau mewn cyfnodau a lleoedd a rhyngddyn nhw, gan adnabod yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol, newidiadau a pharhad, a defnyddio'r ddealltwriaeth o gysyniadau i nodi cysylltiadau rhwng dysgu newydd a dysgu blaenorol. Gyda dealltwriaeth well o'r byd, o bobl eraill a'u gwerthoedd, mewn gwahanol gyfnodau, lleoedd ac amgylchiadau, ac o'u hamgylchedd a'r ffordd y cafodd ei lunio, bydd dysgwyr yn dangos mwy o allu i ddylanwadu ar ddigwyddiadau drwy fod yn ddinasyddion gwybodus a chyfrifol.

Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd yn y Maes hwn, byddan nhw'n gofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig. Byddan nhw'n dangos mwy o annibyniaeth wrth ddod o hyd i wybodaeth addas, gan wneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a gwneud penderfyniadau ynghylch dibynadwyedd a chyfleustod, ymysg pethau eraill.

Disgrifiadau dysgu

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu, trwy chwarae, archwilio, darganfod a dechrau gofyn cwestiynau syml a chynnig atebion posibl yn seiliedig ar brofiadau blaenorol. Rwyf wedi profi ystod o symbyliadau sydd wedi fy nghyffroi a'm hysbrydoli i ddychmygu a bod yn chwilfrydig am fy ardal leol, am Gymru yn ogystal ag am y byd.	Rwyf wedi bod yn chwilfrydig ac wedi gwneud awgrymiadau am ymholiadau posib, ac wedi gofyn ac ymateb i ystod o gwestiynau yn ystod ymholiad. Rwyf wedi profi ystod o symbyliadau ac wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymholiadau, ar y cyd yn ogystal â chydag annibyniaeth cynyddol.	Rwy'n gallu defnyddio fy mhrofiadau, gwybodaeth a chredoau i gynhyrchu syniadau a threfnu ymholiadau. Rwyf wedi ymwneud yn weithredol gydag ystod o symbyliadau, ac wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn ymchwiliadau, ar y cyd ac yn annibynnol.	Rwy'n gallu defnyddio fy mhrofiadau, gwybodaeth a chredoau i greu syniadau yn annibynnol a threfnu ymholiadau, gan ddefnyddio ystod o ddulliau ymchwil yn ôl y gofyn.	Rwy'n gallu cyflawni ymchwiliadau llawn a manwl yn annibynnol, gan ddewis y dulliau mwyaf effeithiol a chyfiawnhau fy methodoleg.
Rwy'n dechrau cyfleu fy arsylwadau mewn ffyrdd syml.	Rwy'n gallu casglu a chofnodi gwybodaeth a data o ffynonellau penodol. Rwyf wedyn yn gallu trefnu a grwpio fy nghanfyddiadau gan ddefnyddio gwahanol feini prawf.	Rwy'n gallu defnyddio dulliau priodol i gasglu gwybodaeth yn ymwneud â'm ymchwiliadau, ac rwy'n gallu dehongli'r wybodaeth a gasglwyd yng nghyd-destun cwestiwn yr ymchwiliad.	Rwy'n gallu dehongli, cyflwyno a myfyrio ar fy nghanfyddiadau, gan ddisgrifio patrymau ac esbonio cydberthnasau ar draws data a ffynonellau.	Rwy'n gallu gwerthuso fy nghanfyddiadau, a myfyrio arnyn nhw, cyfuno gwybodaeth, dadansoddi patrymau a thueddiadau, rhagfynegi deilliannau posib (lle bo'n briodol), a chyflwyno canlyniadau wedi'u cefnogi'n dda a'u cyfiawnhau.

	Rwy'n gallu adnabod y gwahaniaeth rhwng ffeithiau a chredoau.	Rwy'n gallu deall y gwahaniaeth rhwng ffeithiau, barn a chredoau, ac ystyried sut mae hyn yn effeithio ar bwysigrwydd a defnyddioldeb tystiolaeth. Rwy'n gallu myfyrio ar gryfderau a gwendidau'r dulliau rwyf wedi eu defnyddio yn fy ymchwiliadau.	Rwy'n gallu dadansoddi defnyddioldeb ac ystyried dibynadwyedd a dilysrwydd ystod o dystiolaeth sy'n ymwneud â'm hymchwil. Rwy'n gallu myfyrio ar y dulliau rwyf wedi eu defnyddio mewn ymchwiliadau ac adnabod cyfleoedd i wella ar gyfer ymchwiliadau'r dyfodol.	Rwy'n gallu gwerthuso defnyddioldeb, hygreddedd a dilysrwydd tystiolaeth ansoddol a meintiol yn feirniadol. Rwy'n gallu gwerthuso'n annibynnol lwyddiant ymchwiliadau, gan gynnig gwelliannau a mireinio dulliau ar gyfer ymchwiliadau'r dyfodol.
Rwy'n dechrau cyfleu fy nghanfyddiadau mewn ffyrdd syml.	Rwy'n gallu cyflwyno, mewn amrywiol ffyrdd, yr hyn rwyf wedi'i ddarganfod, a dod i gasgliadau syml.	Rwy'n gallu cyflwyno fy nghanfyddiadau mewn amrywiol ffyrdd, gan ddod i gasgliadau a barn yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddefnyddiwyd.	Rwy'n gallu dod i gasgliadau ystyriol a rhesymegol yn fy ymchwiliadau, tra'n deall y gall pobl eraill ddod i ganlyniadau gwahanol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.	Rwy'n gallu llunio ymatebion a barnau cydlynol a chytbwys, sy'n ystyried gwahanol safbwyntiau.

Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu ffurfio a mynegi barn syml am yr hyn rwyf yn ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi.	Rwy'n gallu llunio a mynegi barn am rywbeth sy'n bwysig i mi gan ystyried fy syniadau a'm teimladau fy hun yn ogystal â rhai pobl eraill. Rwy'n gallu cydnabod ac esbonio bod fy marn i, a barn pobl eraill, yn werthfawr. Rwy'n gallu cydnabod y gall safbwyntiau newid dros amser. Rwy'n dechrau cydnabod teimladau pobl eraill, a'u safbwyntiau am ddigwyddiadau neu brofiadau cyfarwydd.	Rwy'n gallu ffurfio, mynegi a thrafod fy marn fy hun ar ystod o faterion, ar ôl ystyried tystiolaeth a safbwyntiau pobl eraill. Rwy'n gallu cymharu a dod i gasgliad am farnau, safbwyntiau a dehongliadau pobl o ffynonellau a thystiolaeth.	Rwy'n gallu mynegi, trafod a chyfiawnhau fy marn bersonol, ac yn deall y gall dehongliadau newid dros amser, yn enwedig o ystyried tystiolaeth newydd neu o ystyried y dehongliadau o safbwynt gwahanol. Rwy'n gallu gwerthuso a dod i gasgliad am dybiaethau, safbwyntiau a dehongliadau o ystod o ffynonellau a thystiolaeth er mwyn datblygu fy marn wybodus fy hun.	Rwy'n gallu gwerthfawrogi ystod o safbwyntiau ar y byd, cydnabod cyfyngiadau fy safbwynt fy hun, ac rwyf wedi dechrau herio fy safbwyntiau a'm gwerthoedd fy hun. Rwy'n gallu dadansoddi, esbonio a gwerthuso dilysrwydd barn, safbwyntiau a dehongliadau gan ystyried sut y maen nhw'n cael eu ffurfio a'u dylanwadu gan wahanol ffactorau, a sut maen nhw'n gallu newid dros amser. Yn dilyn hyn, rwy'n gallu datblygu fy marn wybodus fy hun, a'i chyfiawnhau.

		Rwy'n gallu defnyddio tystiolaeth i esbonio sut mae agweddau o'r gorffennol wedi cael eu cynrychioli a'u dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Rwy'n gallu dechrau deall bod dehongliadau'n cael eu dylanwadu gan hunaniaeth, profiadau, safbwyntiau a chredoau.	Rwy'n gallu esbonio, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth, pam mae gan bobl ddehongliadau gwahanol, a bod dehongliadau yn cael eu dylanwadu gan argaeledd, dilystrwydd a hygyrdded tystiolaeth, yn ogystal â hunaniaeth, profiadau, safbwyntiau a chredoau.	Rwy'n gallu esbonio sut a pham mae ystod o wahanol ddehongliadau yn cael eu ffurfio, a sut y gallan nhw newid dros amser. Rwy'n gallu gwerthfawrogi bod ymatebion i gwestiynau am fywyd, profiadau a'r byd yn gymhleth, a bod yr ymatebion hyn yn aml yn rhannol neu heb lwyddo i argyhoeddi.
--	--	---	--	---

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n dechrau adnabod yr effeithiau rwy'n eu cael ar y byd naturiol. Rwy'n gallu adnabod pam mae lleoedd yn bwysig i mi.	Rwy'n gallu disgrifio sut y gall pobl a'r byd naturiol gael effaith ar ei gilydd. Rwy'n gallu disgrifio sut mae lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirweddau yn bwysig i wahanol bobl ac am wahanol resymau.	Rwy'n gallu disgrifio ac esbonio'n syml beth yw effaith gweithredoedd dynol ar y byd naturiol yn y gorffennol a'r presennol.	Rwy'n gallu deall ac esbonio sut mae gweithredoedd dynol yn effeithio ar y prosesau ffisegol sy'n siapia lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirffurfiau dros gyfnod o amser.	Rwy'n gallu esbonio a dadansoddi'r ystod eang o rhyngberthnasau a rhyng-ddibyniaethau rhwng y gweithredoedd dynol a'r prosesau ffisegol sy'n siapia lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirffurfiau dros gyfnod o amser.

		Rwy'n gallu disgrifio ac esbonio'n syml beth yw effaith prosesau ffisegol ar bobl, lleoedd a thirweddau yn y gorffennol a'r presennol. Rwy'n gallu disgrifio ac esbonio'n syml sut a pham mae rhai lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirweddau yn arbennig o bwysig i wahanol bobl ac am wahanol resymau.	Rwy'n gallu deall ac esbonio yr ystod o ffactorau sy'n effeithio'r rhyngberthnasau rhwng pobl a phrosesau ffisegol. Rwy'n gallu deall ac esbonio sut mae lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirffurfiau arwyddocaol yn y byd naturiol yn gysylltiedig â chredoau ac arferion economaidd, hanesyddol, gwleidyddol, crefyddol ac anghrefyddol.	Rwy'n gallu gwerthuso i ba raddau mae credoau, arferion a gweithredoedd economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol, diwylliannol, crefyddol ac anghrefyddol wedi arwain at newidiadau yn y byd naturiol.
Mae gen i brofiad uniongyrchol o'r byd naturiol, ac rwy'n dechrau adnabod lleoedd sy'n gyfarwydd i mi.	Rwy'n gallu disgrifio nodweddion ffisegol penodol lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yn fy ardal leol ac yng Nghymru yn ogystal ag yn y byd ehangach.	Rwy'n gallu lleoli a rhoi esboniadau syml am nodweddion arbennig lleoedd, gofodau a thirffurfiau yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach.	Rwy'n gallu disgrifio ac esbonio nodweddion arbennig lleoedd, gofodau a thirweddau i ystod o raddfeydd yn fy ardal leol ac yng Nghymru yn ogystal ag yn y byd ehangach, ynghyd â'r prosesau sydd ar waith ynddyn nhw.	Rwy'n gallu roi disgrifiadau ac esboniadau cynhwysfawr o nodweddion lleoedd, gofodau a thirweddau i ystod o raddfeydd yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ac yn y byd ehangach, ynghyd â'r prosesau sydd ar waith ynddyn nhw.

	Rwy'n gallu disgrifio sut a ble mae rhai lleoedd ac amgylcheddau'n debyg i'w gilydd, ac eraill yn wahanol.	Rwy'n gallu disgrifio patrymau dosbarthu lleoedd, amgylcheddau a thirffurfiau yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach.	Rwy'n gallu disgrifio ac esbonio pam y gall patrymau dosbarthu lleoedd, amgylcheddau a thirffurfiau newid dros gyfnod o amser yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach.	Rwy'n gallu rhoi esboniadau cynhwysfawr ar batrymau dosbarthu lleoedd, amgylcheddau a thirffurfiau i ystod o raddfeydd, a rhagfynegi sut y gall patrymau neu dueddiadau barhau neu newid yn y dyfodol yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach.
	Rwy'n gallu adnabod nodweddion arbennig lleoedd, amgylcheddau a thirffurfiau, a sut y gall rhain newid.	Rwy'n gallu rhoi disgrifiadau syml o sut mae lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirffurfiau wedi newid dros gyfnod o amser. Rwy'n gallu rhoi disgrifiadau syml o'r prosesau sy'n arwain at newid yn y byd naturiol.	Rwy'n gallu disgrifio ac esbonio sut mae lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirffurfiau wedi newid dros gyfnod o amser, ac amlinellu'r prosesau sy'n achosi'r newidiadau hyn yn y byd naturiol.	Rwy'n gallu rhoi esboniadau a dadansoddiad cyflawn o sut a pham mae lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirffurfiau wedi newid dros gyfnod o amser.

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n dechrau adnabod digwyddiadau pwysig sydd wedi digwydd i mi yn y gorffennol. Rwy'n dechrau deall fod rhai pethau wedi digwydd yn y gorffennol, rhai yn digwydd yn y presennol, ac y bydd mwy yn digwydd yn y dyfodol.	Rwy'n gallu rhoi digwyddiadau mewn trefn, ac yn dechrau deall y gellir rhannu'r gorffennol i gyfnodau o amser. Rwy'n gallu adnabod pethau tebyg a gwahanol ym mywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol. Rwy'n gallu adnabod agweddau o fywyd yn fy nghymuned sydd wedi newid dros gyfnod o amser.	Rwy'n deall y gellir rhannu'r gorffennol i gyfnodau o amser a bod gan y cyfnodau hyn nodweddion nodedig. Rwy'n deall hefyd bod y cyfnodau hyn yn wahanol i'w gilydd yn ogystal â bod yn wahanol i'r presennol. Rwy'n gallu disgrifio ac esbonio pethau tebyg a gwahanol ym mywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol. Rwy'n gallu disgrifio'r modd y mae rhai gwahanol nodweddion cymunedau a chymdeithasau wedi newid o fewn a thros gyfnod o amser, yn fy ardal i, yng Nghymru yn ogystal ag yn y byd ehangach.	Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau a dangos cymharu pwrpasol rhwng ystod eang o gyfnodau hanesyddol er mwyn datblygu map cronolegol o'r gorffennol. Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth i ddadansoddi ac esbonio'r modd y mae gwahanol gymunedau a chymdeithasau wedi newid dros gyfnod o amser yn fy ardal i, yng Nghymru yn ogystal ag yn y byd ehangach.	Rwy'n gallu rhoi esboniadau a dadansoddiad cynhwysfawr o nodweddion gwahanol gyfnodau o amser, gan adnabod deinamig cysondeb a newid dros gyfnodau o wahanol hyd er mwyn datblygu map cronolegol cynyddol fanwl o'r gorffennol. Rwy'n gallu ddefnyddio fy nealltwriaeth fanwl o natur a graddau newid a pharhad i esbonio a dadansoddi'r modd y mae cymunedau a chymdeithasau wedi addasu a newid, a hynny yn fy ardal i, yng Nghymru yn ogystal ag yn y byd ehangach. Rwyf hefyd yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried dyfodol posib.

Rwy'n dechrau deall bod gan fy ngweithredoedd i, a gweithredoedd pobl eraill, achosion ac effeithiau.	Rwyf wedi archwilio rhai achosion ac effeithiau digwyddiadau a newidiadau yn fy nghymuned dros gyfnod o amser.	Rwy'n gallu adnabod ac esbonio prif achosion ac effeithiau digwyddiadau mewn ystod o gyd-destunau, ac rwy'n gallu adnabod sut mae'r rhain yn effeithio ar gymunedau a chymdeithasau.	Rwy'n gallu esbonio a dadansoddi achosion ystod o ddigwyddiadau a newidiadau yn y gorffennol a'r presennol, ac yn gallu gwerthfawrogi sut y gall achosion fod yn aml yn rhyng-gysylltiedig, a gwahaniaethu o ran pwysigrwydd. Rwy'n gallu esbonio a dadansoddi effeithiau a chanlyniadau ystod o ddigwyddiadau a newidiadau yn y gorffennol a'r presennol, a deall eu bod yn gwahaniaethu o ran pwysigrwydd.	Rwy'n gallu gwerthuso'n feirniadol sut y mae amrywiaeth o ffactorau achosol yn rhyng-gysylltu dros ystod o gyfnodau o amser ac o fewn ystod o gyd-destunau. Rwyf wedyn yn gallu gwerthfawrogi pam a sut y gellir cwestiynu arwyddocâd y ffactorau hyn. Rwy'n gallu gwerthuso'n feirniadol ganlyniadau ac arwyddocâd digwyddiadau a newidiadau mewn ystod o gymdeithasau yn y gorffennol a'r presennol.
Rwy'n gallu ddangos ymwybyddiaeth o bwy ydwyf a'm bod i'n debyg ac yn wahanol i eraill.	Rwy'n gallu archwilio fy hunaniaeth, a'i chymharu â rhai pobl eraill, gan gydnabod bod nifer o wahanol grwpiau, credoau a safbwyntiau o fewn cymdeithas.	Rwy'n gallu archwilio ystod o ffyrdd mae hunaniaeth yn cael ei ffurfio, a rhai o'r dylanwadau sy'n effeithio ar amrywiaeth o fewn cymdeithas.	Rwy'n gallu dadansoddi ac esbonio sut mae hunaniaeth yn cael ei ffurfio. Rwy'n gallu esbonio'r cysylltiadau rhwng cymdeithasau amrywiol.	Rwy'n gallu gwerthuso natur amlochrog hunaniaeth, a gallu esbonio sut y gall hyn ddylanwadu ar ymwneud pobl â'i gilydd, ac effeithio o fewn ac ar draws cymdeithasau amrywiol yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach.

Rwy'n dechrau datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pobl.	Rwyf wedi archwilio amrywiaeth o fewn cymunedau, ac rwy'n ymwybodol o hyn.	Rwy'n gallu disgrifio ac esbonio'r ffyrdd mae fy mywyd i yn debyg ac yn wahanol i eraill, ac rwy'n deall nad yw pawb yn rhannu'r un profiadau, credoau a safbwyntiau.	Rwy'n gallu dadansoddi ac esbonio storïau, credoau a phrofiadau amrywiol pobl mewn cymunedau yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach.	Rwy'n gallu dadansoddi'n feirniadol ystod o debygrwydd, gwahaniaethau ac anghydraddoldeb cymhleth rhwng amrywiol gymdeithasau yn y gorffennol a'r presennol. Rwy'n gallu gwerthuso natur amlochrog cymdeithas a sut mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi.
		Rwy'n deall sut mae ffactorau yn y gorffennol a'r presennol wedi siapio fy nghymunedau.	Rwy'n gallu esbonio a chymharu sut mae cymunedau wedi cael eu siapio gan y gorffennol, ac rwy'n gallu esbonio sut mae ystod o ffactorau 'n cyfrannu at hyn.	Rwy'n gallu gwerthuso a chymharu sut mae cymunedau wedi cael eu siapio gan y gorffennol, ac rwy'n gallu dadansoddi ac esbonio sut mae ystod o ffactorau 'n cyfrannu at hyn.

	Rwy'n dechrau deall sut mae fy nghymuned yn cael ei llywodraethu, a pham mae yna reolau.	Rwy'n gallu deall a disgrifio sut mae fy nghymuned yn cael ei llywodraethu, a sut mae pobl yn cael eu cynrychioli. Rwy'n gallu disgrifio'r gwahanol ffyrdd mae gwledydd a chymdeithasau, gan gynnwys Cymru, wedi cael eu llywodraethu yn y gorffennol a'r presennol.	Mae gen i ddealltwriaeth o ystod o systemau llywodraethu, a sut mae pobl wedi cael, ac yn cael, eu cynrychioli ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang, gan gynnwys sut mae systemau Llywodraeth yng Nghymru yn gweithredu yn y presennol ac yn y gorffennol, ac rwy'n gallu cymharu ac esbonio gwahaniaethau rhwng y systemau hyn.	Rwy'n gallu cymharu a gwerthuso systemau llywodraethu lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys systemau Llywodraeth a democratiaeth yng Nghymru, gan ystyried eu heffaith ar gymdeithasau yn y gorffennol a'r presennol, a hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion yng Nghymru.
		Rwy'n gallu disgrifio rhai o'r cydberthnasau, dolenni a chysylltiadau rhwng ystod o gymdeithasau.	Rwy'n gallu dadansoddi pwysigrwydd y cydberthnasau, dolenni a chysylltiadau rhwng ystod eang o gymdeithasau, ac rwy'n gallu eu cymharu'n ystyrlon.	Rwy'n gallu gwerthuso arwyddocâd y cydberthnasau a'r cysylltiadau rhwng ystod eang o gymdeithasau, ynghyd â'u rhyng-ddibyniaethau.

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n dechrau deall fod angen i ni barchu pobl eraill.	Mae gen i ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n iawn a'r hyn sy'n anghywir, ac y dylai fy ngweithredoedd adlewyrchu hyn. Rwy'n gallu deall nad yw pawb yn cael eu trin yn deg. Rwy'n dechrau deall beth yw hawliau dynol a pham maen nhw'n bwysig. Rwy'n gallu deall bod angen i ni barchu hawliau rhai eraill.	Mae gen i ddealltwriaeth fod anghyfiawnder ac anghydraddoldeb yn bodoli o fewn cymdeithasau. Rwyf hefyd yn deall beth yw hawliau dynol, a pham maen nhw'n bwysig i mi a phobl eraill. Rwy'n gallu esbonio pwy sy'n gyfrifol am gynnal hawliau yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach. Rwyf hefyd yn deall bod eu hawliau yn cael eu gwrthod i rai pobl. Rwy'n gallu adnabod bod gwahaniaeth rhwng dymuniadau, anghenion a hawliau.	Rwy'n gallu esbonio a dadansoddi pam mae anghyfiawnder ac anghydraddoldeb yn bodoli, ac rwy'n gallu gwneud hynny mewn ystod o gyd-destunau. Rwy'n gallu esbonio pwysigrwydd y rhannau mae unigolion, cymdeithasau, mudiadau cymdeithasol a llywodraethau yn ei chwarae wrth amddiffyn hawliau dynol pobl. Rwy'n gallu esbonio'r gwahaniaeth rhwng dymuniadau, anghenion a hawliau, a pham mae eu hawliau yn cael eu gwrthod i rai pobl.	Rwy'n gallu gwerthuso achosion sylfaenol anghyfiawnder ac anghydraddoldeb mewn ystod eang o gyd-destunau yn y gorffennol a'r presennol, a sut maen nhw'n effeithio ar faterion hawliau dynol. Rwy'n gallu gwerthuso achosion ymyrraeth ar hawliau dynol a'r amrywiol ffactorau sy'n tanseilio neu'n cefnogi hawliau pobl. Rwy'n gallu esbonio a gwerthuso'r gwahaniaeth rhwng dymuniadau, anghenion a hawliau.

				Rwy'n gallu gwerthuso pwysigrwydd y rhannau mae unigolion, cymdeithasau, mudiadau cymdeithasol a llywodraethau yn eu chwarae wrth barchu ac amddiffyn hawliau dynol pobl.
	Rwy'n dechrau gwerthfawrogi a gofalu am bethau byw, a'm hamgylchedd fy hun. Rwy'n gallu cymryd gofal o adnoddau a pheidio â'u gwastraffu, ac rwy'n ymwybodol o bwysigrwydd greu dyfodol cynaladwy.	Rwy'n gallu deall bod ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad, gweithredoedd a phenderfyniadau pobl. Rwy'n gallu deall canlyniadau fy ngweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill, a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang	Rwy'n gallu esbonio'r cysylltiadau rhwng heriau a chyfleoedd sy'n cael eu wynebu gan bobl fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach, heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r rhai sy'n cael eu rhagweld. Mae gen i ddealltwriaeth o'm cyfrifoldebau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol fy hun wrth greu dyfodol cynaladwy.	Rwyf wedi meithrin dealltwriaeth fanwl o'r hyn yw bod yn ddinesydd egwyddorol a gwybodus, ac rwy'n gallu gwerthuso'r rôl hon yn feirniadol. Rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldebau i ac eraill tuag at gymdeithas, yr amgylchedd, ac at greu dyfodol cynaladwy.

Rwy'n dechrau deall bod gan fy ngweithredoedd i, a gweithredoedd pobl eraill, ganlyniadau.	Rwy'n gallu adnabod pwysigrwydd gwahanol reolau, rolau a chyfrifoldebau o fewn y gwahanol gymunedau rwy'n perthyn iddyn nhw.	Rwy'n gallu deall bod ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar fy ymddygiad, gweithredoedd a phenderfyniadau i a phobl eraill, a bod y rhain yn cynnwys barn a safbwyntiau moesol ac egwyddorol. Rwy'n gallu deall canlyniadau fy ngweithredoedd i a gweithredoedd pobl eraill, a sut mae'r rhain yn effeithio ar fy ardal leol a Chymru, yn ogystal â'r byd ehangach. Rwy'n gallu cymryd rhan mewn dod i benderfyniadau, ac rwy'n gallu rhannu barn a thystiolaeth gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chynrychiolwyr etholedig yn fy nghymuned.	Rwy'n gallu dadansoddi ac esbonio bod ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar fy ymddygiad, gweithredoedd a phenderfyniadau i a phobl eraill, a bod y rhain yn cynnwys barn a safbwyntiau moesol ac egwyddorol. Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau, adnabod cyfleoedd a chynllunio gweithredoedd priodol i wneud fy llais fy hun yn glywadwy. Rwy'n gallu trafod a herio safbwyntiau'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chynrychiolwyr etholedig yn fy nghymuned ac ar lefel genedlaethol.	Rwy'n gallu gwerthuso sut mae gwahanol gredoau, safbwyntiau a phrofiadau pobl yn effeithio ar weithredoedd moesol ac egwyddorol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r rhai a ragwelir. Rwy'n gallu archwilio'n feirniadol fy agweddau, tybiaethau ac ymddygiad, ynghyd â gweithredoedd pobl eraill. Rwyf hefyd yn gallu archwilio'n feirniadol sut mae'r rhain yn effeithio fy ardal leol a Chymru, yn ogystal â'r byd ehangach. Rwy'n gallu esbonio pwysigrwydd rôl grwpiau, llywodraethau, busnesau a sefydliadau anllywodraethol wrth greu dyfodol cynladwy, a sut maen nhw'n effeithio ar bobl, eu hawliau ac ar yr amgylchedd.
---	---	---	--	--

			Rwy'n gallu dadansoddi ac esbonio effaith penderfyniadau ar bobl, eu hawliau a'r amgylchedd, penderfyniadau a wneir gan unigolion a llywodraeth leol, cenedlaethol a bydeang a sefydliadau anllywodraethol.	
	Rwy'n gallu cyfrannu'n weithredol ac adeiladol tuag at fy nghymuned. Rwy'n gallu adnabod bod fy ngweithredoedd i ac eraill yn cael effaith ar gymunedau ac ar yr amgylchedd.	Rwyf wedi cynllunio ac wedi ymgymryd â rôl weithgar mewn ymateb i heriau a chyfleoedd yn fy nghymuned leol neu yng Nghymru neu yn y byd ehangach, ac wedi gwneud hynny'n unigol neu fel rhan o dîm.	Rwyf wedi adnabod, cynllunio, myfyrio ar ynghyd â gwerthuso effeithiau fy ngweithredoedd i, boed yn unigol neu ar y cyd, yn fy nghymuned leol neu yng Nghymru neu yn y byd ehangach.	Rwyf wedi adnabod, cynllunio, myfyrio ar ynghyd â gwerthuso effeithiau fy ngweithredoedd, boed yn unigol neu ar y cyd, yn fy nghymuned leol neu yng Nghymru neu yn y byd ehangach. Yn y cyddestun hwn, rwy'n archwilio'n feirniadol fy agweddau, tybiaethau ac ymddygiad.

Cynllunio eich cwricwlwm

Mae hyn yn rhoi arweiniad penodol i'w ddefnyddio wrth ymgorffori dysgu o fewn y dyniaethau yn eich cwricwlwm. Dylai gael ei ddarllen ynghyd ag adran gyffredinol [Cynllunio eich cwricwlwm](#) sy'n berthnasol i ddysgu ac addysgu trwy bob maes dysgu a phrofiad (Maes).

Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol

Rhaid i gwricwlwm ymwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm. Mae'r canlynol yn rhai egwyddorion allweddol y dylai lleoliadau ac ysgolion eu hystyried wrth gynllunio dysgu ac addysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Maes).

Gall dysgu yn y Maes hwn gynnig y cyfleoedd canlynol i ddysgwyr.

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Llythrennedd

- Datblygu llafaredd trwy drafodaeth, chwarae rôl, cwestiynu a chyflwyniadau, ac addasu sgiliau llafaredd ar gyfer cynulleidfa a diben tra'n gwrando ar, a dadlau, gwahanol safbwyntiau.
- Datblygu pob arddull ysgrifennu, e.e. disgrifio, esbonio, trafod, gwerthuso ac ysgrifennu creadigol, ynghyd â defnyddio terminoleg a geirfa sy'n benodol i'r ddisgyblaeth.
- Sicrhau mynediad ac archwilio ystod o destunau o amrywiol leoedd a chyfnodau er mwyn dadansoddi tystiolaeth, meddwl yn feiriadol, dod i gasgliad, a gwerthuso dehongliadau a safbwyntiau.

Rhifedd

- Datblygu sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau byd go iawn gan gynnwys casglu data rhifol, trwy ddulliau ymchwil cynradd ac eilaidd.
- Dadansoddi a chynrychioli data mewn amrywiol ffyrdd.
- Cefnogi datblygiad rhifedd drwy roi cyfarwyddiadau cyfeiriadol manwl gywir wrth ddarllen map neu ddatblygu eu mapiau a'u llwybrau eu hunain.
- Ymwneud â chysyniadau megis ymwybyddiaeth gronolegol a graddfa.

Cymhwysedd digidol

- Datblygu sgiliau digidol mewn meysydd megis defnyddio systemau gwybodaeth ddigidol (gan gynnwys systemau gwybodaeth ddaearyddol), defnydd o ffynonellau digidol, meddalwedd i ddadansoddi a chyflwyno data ansoddol a meintiol.
- Archwilio effaith technoleg ddigidol ar gymdeithasau a'r heriau a'r cyfleoedd a wynebwr yn yr oes ddigidol.

Sgiliau cyfannol

Creadigrwydd ac arloesedd

- Annog cyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau mewn ffyrdd creadigol ac arloesol, a dychmygu dyfodol posib yn seiliedig ar y dystiolaeth.
- Annog bod yn agored i wahanol syniadau a ffyrdd o feddwl, gan alluogi mynegi barn resymedig ynghylch y gwahaniaethau hyn.

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

- Datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol a deall y gorffennol a'r presennol yn ogystal â dychmygu dyfodol posib.
- Casglu, myfyrio a gwerthuso'n feirniadol y defnydd o ffynonellau a thystiolaeth.

Effeithiolrwydd personol

- Annog gwaith tîm a bod yn gyfrannwr dibynadwy trwy drefnu a gweithredu ymholiadau.
- Gwerthuso, cyfiawnhau a mynegi ymatebion ystyriol mewn amrywiol ffyrdd.

Cynllunio a threfnu

- Annog cynllunio a threfnu ymchwiliadau, gosod nodau, amcanion a meini prawf, casglu a defnyddio ystod o dystiolaeth, a myfyrio ar ddulliau.

Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn

Dylai cwricwla ysgolion hybu dealltwriaeth lawn o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a ddyluniwyd i gefnogi datblygu dull mwy cysylltiol o ddysgu. Maen nhw wedi cael eu strwythuro o amgylch dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gynyddol soffistigedig o gysyniadau allweddol sy'n eu galluogi i weld y tu hwnt i wybodaeth fel rhestr o ffeithiau digyswllt yn unig.

Dylid defnyddio'r datganiadau am yr hyn sy'n bwysig yn holistaidd er mwyn cynnig llwyfan eang a dwfn i gefnogi dysgwyr trwy eu taith addysgol yn y dyniaethau. Ni ddylai cwricwlwm drin y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar wahân, ac nid oes angen ymdrin â nhw mewn trefn neu gyfuniad arbennig. Mae'r datganiad cyntaf o'r hyn sy'n bwysig yn hybu ymchwil a darganfyddiad o fewn y Maes, tra bod yr ail yn annog dysgwyr i archwilio ac ystyried sut maen nhw ac eraill yn gweld, dehongli a chynrychioli profiadau dynol. Mae'r trydydd a'r pedwerydd datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn canolbwyntio ar agweddau allweddol o ddealltwriaeth yn y Maes hwn, sef perthynas pobl gyda'r byd naturiol a chyda'i gilydd. Mae'r datganiad terfynol o'r hyn sy'n bwysig yn rhoi pwyslais newydd ar rôl a gweithredoedd yr unigolyn mewn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth.

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cyfeirio at yr angen am ymwybyddiaeth gyson o stori leol y dysgwyr, stori Cymru yn ogystal â stori y byd ehangach, a galluogi dysgwyr ddod i ddeall natur gymhleth, **lluosog** ac amrywiol cymdeithasau, yn y gorffennol a'r presennol. Dylai dysgwyr fod wedi eu gwreiddio mewn dealltwriaeth o'r hunaniaethau, tirweddau a'r hanesion sy'n dod at ei gilydd i ffurfio eu **cynefin**. Bydd hyn nid yn unig yn eu galluogi i ddatblygu ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth a'u lles, ond bydd hefyd yn datblygu dealltwriaeth o hunaniaeth pobl eraill a gwneud cysylltiadau gyda phobl, lleoedd a hanes mewn lleoedd eraill yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn rhan greiddiol o'r Maes, ac yn ffurfio rhan o'r egwyddorion allweddol a ddisgrifir isod sy'n ymwneud â dewis y cynnwys.

Dull cynllunio

Mae hyblygrwydd i sut y gall ysgol ddewis strwythuro ei chwricwlwm, megis dull integredig, amlddisgyblaethol, rhyngddisgyblaethol neu ddisgyblaethol. Ar draws taith y dysgwyr o 3 i 16, dylai ysgolion gynnig cwricwlwm eang a chytbwys o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn gysylltiedig â hanes; daearyddiaeth; crefydd; gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae dealltwriaeth broffesiynol o ddiben y disgyblaethau a'u cydberthynas o fewn y Maes hwn yn agwedd hollbwysig.

Dylai cynllun cwricwlwm ysgolion ystyried yr egwyddorion allweddol canlynol wrth ddethol cynnwys:

- safbwyntiau lleol, cenedlaethol a'r byd ehangach
- ehangder/ystod
- cydlyniad
- trylwyrdd
- canolbwyntio
- sensitifrwydd.

Safbwyntiau lleol, cenedlaethol a'r byd ehangach

- Sicrhau mynediad cyson i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ystod gwahanol gyfnodau datblygiad – ni ddylai'r dysgwyr ieuengaf ganolbwyntio'n unig ar astudiaethau lleol a'r dysgwyr hŷn ganolbwyntio'n unig ar safbwyntiau rhyngwladol; pan mae'n briodol ac ystyrlon dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wreiddio eu dealltwriaeth o bwnc lleol ac yn ymwneud â'u **cynefin** eu hunain, a'i berthnasu i gyd-destunau Cymru gyfan a rhyngwladol.
- Archwilio busnesau, diwylliannau, hanes, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefyddau a chymdeithasau yng Nghymru.

Ehangder/ystod

- Dewis ystod o gyfnodau sydd wedi cael effaith sylweddol ar y ddynoliaeth a'r byd yn y gorffennol a'r presennol.
- Dewis ystod o ddigwyddiadau, syniadau, credoau, pobl a phrosesau sydd wedi cael effaith sylweddol ar y ddynoliaeth a'r byd y gorffennol a'r presennol.
- Canolbwyntio ar brofiadau pobl gyffredin gan gynnwys rhai sydd wedi arfer cael eu tangynrychioli.
- Dewis ystod o ddigwyddiadau a newidiadau cyfoes o arwyddocâd moesol, gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol, amgylcheddol neu ddiwylliannol – gellir mabwysiadu dull hyblyg o astudio cyfnodau hanesyddol, ac nid yw'n dilyn y dylai dysgwyr ar gamau cynnydd penodol astudio cyfnodau mewn trefn gronolegol.

Cydlyniad

- Sicrhau bod pynciau wedi cael eu trefnu i adlewyrchu rhesymeg y disgyblaethau academaidd, gan alluogi cynnydd o ddealltwriaeth gysyniadol. Dylid datblygu pynciau i sicrhau dealltwriaeth gysyniadol sy'n gynyddol dwfn a soffistigedig a galluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau. Dylai lleoliadau/ysgolion osgoi dull di-theori, cyfnodol o ddysgu sy'n neidio rhwng pynciau digyswllt.

Trylwyrdd

- Dewis pynciau heriol i alluogi meddwl dwfn a myfyrio.

Canolbwyntio

- Dewis nifer gyfyngedig o bynciau ymhob blwyddyn i sicrhau dyfnder ac ansawdd i'r dysgu, lle y gall pynciau orgyffwrdd er mwyn atgyfnerthu cysyniadau allweddol.

Sensitifrwydd

- Ymateb yn sensitif ac yn graff i fydolygon crefyddol ac anghrefyddol ynghylch cymdeithas, cymunedau a diwylliannau, a deall sut y gellir dehongli'r rhain mewn gwahanol amserau, diwylliannau a lleoedd.

Cysyniadau disgyblaethol a chyd-destunau

Mae'r pynciau o fewn y maes hwn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, ond hefyd â'u corff penodol eu hunain o wybodaeth a sgiliau. Mae'r cynnwys, y cysyniadau a'r sgiliau a amlinellir yn y Maes hwn yn rhyng-gysylltiedig. Mae'r disgyblaethau yn y Maes hwn yn cynnig golwg amrywiol ar y profiad dynol. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn annog dull holistaidd o ddysgu.

Hanes

Dylai cynllun cwricwlwm ysgol:

- ddatblygu dealltwriaeth o'r disgyblaeth a'i gwerth
- datblygu dealltwriaeth o, a pharch tuag at, y syniad o wirionedd a pharch tuag at bobl yn y gorffennol
- datblygu gwerthfawrogiad o'r gorffennol ar wahanol raddfeydd, sy'n galluogi dysgwyr i adnabod eu ffordd trwy amser
- datblygu dealltwriaeth o ddehongliad hanesyddol a sgiliau ymdrin â ffynhonnell
- datblygu cynnwys cyfoethog ar draws y cyfnodau amser, a thrwy hyn gall dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o gronoleg trwy archwilio achos ac effaith, newid a chysondeb, tebygrwydd a gwahaniaeth, dehongliadau, defnyddio tystiolaeth ac arwyddocâd hanesyddol
- datblygu cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau llywodraethiant, economi, grym, arweinyddiaeth, amrywiaeth; diwylliant, ethnigrwydd, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, cyfiawnder, hawliau, goresgyniad, ideolegau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, strwythurau a threfniadaeth gymdeithasol, masnach, amaethyddiaeth a diwydiant, pŵer a phrotest, heddwch, gwrthdaro a chydweithrediad, chwyldro, datganoli ac ymerodraeth
- cyflwyno dysgwyr o bob oed i ystod o gyfnodau hanesyddol ar raddfa leol, cenedlaethol a byd-eang, gan wneud y cysylltiadau sy'n cefnogi datblygiad 'map' cronolegol manwl o'r gorffennol.

Daearyddiaeth

Dylai cynllun cwricwlwm ysgol:

- ddatblygu dealltwriaeth o ddisgyblaeth daearyddiaeth a'i gwerth
- cynnig cynnwys cyfoethog ar gyfer archwilio tirweddau ffisegol a dynol, a chyd-destun ar gyfer achosion a chanlyniadau rhyngberthnasau a rhyngddibyniaethau ffisegol a dynol sy'n nodweddu ein byd modern
- cynnig cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio materion cynladwyedd, newid hinsawdd, dewisiadau egni, natur, peryglon a thrychinebau naturiol a risgiau peryglon, llygredd, prinder adnoddau naturiol, diogelwch bwyd, poblogaeth, hunaniaeth, ethnigrwydd, mudo, aneddiadau, globaleiddio, prynwriaeth a masnach, cynlluniau i drechu tlodi, anghyfartaledd ac annhegwch, gwahaniaethau rhwng gwledydd ar wahanol lefelau o ddatblygiad
- darparu sgiliau i'r dysgwyr gwestiynu, defnyddio a dadansoddi mapiau, delweddau a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol
- darparu sgiliau i'r dysgwyr ffurfio cwestiynau ymchwil, ac i gasglu, trin a chyflwyno data fel eu bod yn gallu gwerthuso a meddwl yn feirniadol am broblemau a materion.

Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Dylai cynllun cwricwlwm ysgol:

- ddatblygu dealltwriaeth o'r disgyblaeth a'i gwerth
- cynnig cyd-destunau cyfoethog i ddysgwyr fod yn chwilfrydig, i archwilio'r cwestiynau eithaf, ac i chwilio am ddealltwriaeth o'r cyflwr dynol, yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddysgwyr fyfyr, ac i brofi gwefr a rhyfeddod mewn ystod o gyd-destunau ystyrlon o fewn y byd go iawn.
- datblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ymchwil i gysyniadau crefydd, bydolwg, seciwlariaeth, ysbrydolrwydd, safiad bywyd, hunaniaeth a diwylliant i ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o fydolwg crefyddol ac anghrefyddol
- cynnig cyd-destunau cyfoethog i ymwneud â chysyniadau cred, ffydd, gwirionedd, diben, ystyr, gwybodaeth, ffynonellau awdurdod, hunan, tarddiad, bywyd, marwolaeth a Realiti Eithaf sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o fydolwg personol a sefydliadol am natur bywyd a'r byd o'u cwrpas
- datblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau hunaniaeth, perthyn, perthynas ag eraill, cymuned, **cynefin**, amrywiaeth, **plwraliaeth** a chydgyssylltiad sy'n galluogi dysgwyr i feithrin synnwyr o'r hunan a datblygu'n ysbrydol
- archwilio cysyniadau cydraddoldeb, cynaladwyedd, goddefgarwch, rhyddid, rhagfarn, gwahaniaethu, eithafiaeth, da a drwg sy'n galluogi i ddysgwyr gael golwg ar y sialensau a'r cyfleoedd sy'n wynebu cymdeithasau
- adlewyrchu cysyniadau a chyd-destunau crefyddoldeb, arfer, defod, traddodiad, moli, cysegredigrwydd, symboliaeth a dathliad er mwyn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o grefydd a chred fyw
- cynnig cyd-destunau cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau moeseg, moesoldeb, cyfiawnder, cyfrifoldebau, awdurdod, dynoliaeth, hawliau, gwerthoedd a gweithredu cymdeithasol
- datblygu dealltwriaeth o grefydd a chred fyw trwy archwilio'r cysyniadau allweddol.

Astudiaethau cymdeithasol

Dylai cynllun cwricwlwm ysgol:

- ddatblygu dealltwriaeth o'r disgyblaeth a'i gwerth
- hybu dealltwriaeth gysyniadol o'r byd trwy ddysgu am bobl a'u gwerthoedd, mewn cyfnodau, lleoedd a sefyllfaoedd gwahanol
- cynnig cyd-destunau cyfoethog i archwilio materion cymdeithasol, hunaniaeth, hawliau a chyfrifoldebau a chylfundrefn cymdeithasol
- hybu cyfranogiad gweithredol ac ymwneud â materion cymdeithasol trwy ymholi cymdeithasol, trafodaethau a gweithredu cymdeithasol
- ddatblygu dealltwriaeth o sut mae systemau llywodraeth yng Nghymru yn gweithio gan ystyried eu heffaith ar fywydau pobl, a sut maen nhw'n cymharu gyda systemau eraill
- archwilio cysyniadau llywodraethiant, hawliau, cyfartaledd, anghyfartaledd, ethnigrwydd, cenedl a thlodi.

Astudiaethau busnes

Dylai cynllun cwricwlwm ysgol:

- ddatblygu dealltwriaeth o'r disgyblaeth a'i gwerth
- cyflwyno dysgwyr i'r realiti economaidd sy'n llywio economi Cymru a'r economi byd-eang, gan eu galluogi i werthfawrogi bod y realiti hwn yn newid yn gyson, a gwerthfawrogi'r effaith mae hyn yn ei gael ar fywydau pobl ac ar yr amgylchedd
- archwilio'r cryfderau a meysydd i'w gwella, llwyddiannau a methiannau busnesau ac economïau, wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n llywio ffyniant cymunedau ac felly yn llywio disgwyliadau pobl ar gyfer y dyfodol
- archwilio economi cyfredol Cymru, gan gynnwys treuliant, cynhyrchiant, lles pobl yn eu gwaith, effaith arloesedd a thechnoleg ar fusnesau a'r amgylchedd, ac effeithiau newidiadau demograffig i'r gweithlu.

Ystyriaethau ar gyfer darparu profiadau dysgu

Mae'r Maes hwn yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddysgu y tu hwnt i furiau'r ysgol. Dylai cynllunio cwricwlwm ysgol ganiatáu i ddysgwyr o bob oed brofi ystod o ysgogiadau sy'n eu cyffroi a'u hysbrydoli i ddychmygu a bod yn chwilfrydig, ac i archwilio, darganfod a chwestiynu trwy'r canlynol.

Ystod o gyfleoedd i ddysgu y tu allan er mwyn:

- profi ynghyd â myfyrio ar ryfeddod y byd naturiol
- ymwneud ag amrywiaeth o dirweddau, nodweddion hanesyddol a daearyddol, amgylcheddau a lleoedd
- dysgu mewn ardaloedd naturiol lleol a safleoedd hanesyddol
- cynnal ymchwiliadau a gwaith maes yn annibynnol yn ogystal ag ar y cyd, mewn partneriaethau â sefydliadau, grwpiau ac unigolion lle mae'n briodol
- ymwneud â safleoedd hanesyddol, diwylliannol a chrefyddol, gan gynnwys lleoedd sy'n arwyddocaol i'r rhai y mae eu ffydd a'u cred yn bwysig iddyn nhw

Ystod o gyfleoedd i ymweld ac archwilio gan gynnwys:

- safleoedd diwylliannol a threftadaeth, e.e. henebion, safleoedd crefyddol a hanesyddol sydd â photensial arbennig i gynnig cyd-destunau sy'n symbylu dysgu
- llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd i gael eu defnyddio i gefnogi dysgu yn seiliedig ar ymholi
- lleoedd o arwyddocâd gwleidyddol, crefyddol neu ysbrydol
- busnesau a lleoedd gwaith
- lleoliadau rhithiol sydd â photensial arbennig i gynnig cyd-destunau sy'n symbylu dysgu.

Ystod o gyfleoedd i ymwneud ag:

- ymchwil strwythuredig a dysgu cydweithredol
- arteffactau a thestunau o arwyddocâd hanesyddol a chrefyddol
- technoleg a chyfryngau digidol a ffisegol
- straeon, celf, drama, dawn, cerddoriaeth a bwyd sydd â photensial arbennig i gynnig cyd-destunau sy'n symbylu dysgu
- unigolion, arbenigwyr, grwpiau a sefydliadau sydd â photensial arbennig i gynnig cyd-destunau sy'n symbylu dysgu
- gweithio gyda phobl broffesiynol o fewn y byd treftadaeth a datblygu cydnabyddiaeth o werth safleoedd treftadaeth/orielau/amgueddfeydd
- pobl sydd â phrofiad o grefydd a bydolygon byw
- arweinwyr gwleidyddol, busnes, cymunedol a/neu diwylliannol
- grwpiau neu fudiadau megis elusennau, carfanau pwysu a mudiadau dielw.

Ystod o gyfleoedd i arsylwi neu gymryd rhan mewn:

- dathliadau allweddol, traddodiadau a'r diwylliant amrywiol yng Nghymru
- dadleuon ffurfiol ac anffurfiol
- gweithgareddau menter ac entrepreneuraidd
- prosiectau gweithredu cymdeithasol
- dathliadau allweddol, traddodiadau a ffyrdd o fyw yn y byd ehangach.

Enghreifftio ehangder

Darperir y canlynol fel enghreifftiau o sut y gallech archwilio dysgu testunol gwahanol yn y Maes hwn. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

Gallai dysgwyr archwilio esblygiad meddwl democrataidd a strwythurau a arweiniodd at sefydlu'r Senedd, o'r Hen Roeg drwy Ddatganiad Annibyniaeth America a hynt cyfansoddiad y DU. Mae hanes lleol, Cymreig a'r byd wedi eu cysylltu, eu siapio ac yn cael eu gwerthfawrogi drwy ddigwyddiadau megis Gwrthryfel Glyndŵr, Rhyfel Cartref Sbaen a Rhyfeloedd Byd yr unfed ganrif ar hugain. Gellir gwerthfawrogi'r argyfwng hinsawdd yn well drwy archwilio'r chwyldro diwydiannol, daearyddiaeth a thopograffi unigryw Cymru, a chysylltiadau rhyngwladol. Fel dinasyddion gwybodus, bydd y dysgwyr yn archwilio sut mae llywodraeth a'r broses o wneud penderfyniadau yn gweithio yng Nghymru a thu hwnt, ac yn cael eu grymuso i gyfrannu, craffu a herio.

Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill

Dylai cynllunio cwricwlwm ysgol ganolbwyntio ar gysylltiadau dilys rhwng y Maes hwn a Meysydd eraill.

Celfyddydau Mynegiannol

Mae celf, cerddoriaeth, dawn, theatr, ffurfiau cyfryngol a llenyddol yn ddarnau gwerthfawr o dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau yn y dyniaethau ac yn gyfryngau ar gyfer mynegi dehongliadau a safbwyntiau pobl. Mae'r byd naturiol, y gorffennol a'r presennol oll yn ysgogi ac yn cynnig cyd-destunau ym Maes Dysgu y Celfyddydau Mynegiannol. Trwy'r gorffennol a'r presennol mae'r celfyddydau mynegiannol wedi bod yn bwysig wrth lywio diwylliant a chymdeithasau. Mae archwilio'r celfyddydau o wahanol gyfnodau, diwylliannau a chymdeithasau, gan gynnwys o Gymru (e.e. Eisteddfod), yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau pobl eraill yn ogystal â'u diwylliant eu hunain. Gall archwilio cysyniadau cymdeithasol a moesol, cynladwyedd a busnes ysgogi **gwaith creadigol**.

Iechyd a Lles

Mae'r ddau Faes yma yn cysylltu i ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o **hunaniaeth**, cymunedau, cymdeithasau, normau a **gwerthoedd** cymdeithasol, a **dylanwadau cymdeithasol**. Maen nhw'n cefnogi dealltwriaeth o ddinasyddiaeth, hawliau, parch a chyfartaledd. Mae'r Maes hwn yn cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o sut y gall penderfyniadau gan unigolion a rhai ar y cyd gefnogi ymatebion moesegol a chynladwy i gyfleoedd a wynebwr gan ddynoliaeth yn gyffredinol ac yng Nghymru yn benodol.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae ieithoedd a llenyddiaeth yn chwarae rhan allweddol mewn hunaniaeth ac yn gallu bod o gymorth i lywio a dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau a chymdeithasau. Mae llenyddiaeth yn darparu tystiolaeth werthfawr ar gyfer ymchwiliadau mewn dyniaethau, ac yn gallu bod yn destun yr ymchwiliadau hyn. Gall dysgwyr archwilio llenyddiaeth o ystod o ddiwylliannau a chymdeithasau, o'r gorffennol a'r presennol, o'r ardal leol, o Gymru ac o weddill y byd.

Mathemateg a Rhifedd

Mae Maes dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnig cyd-destunau dilys ar gyfer cymhwyso mathemateg a sgiliau rhifedd. Mae ymholiadau yn y dyniaethau yn defnyddio ystod o ddata ansoddol a meintiol. Yn aml bydd hefyd yn cynnwys casgliad o ddata cynradd gan ddefnyddio dulliau samplu, a chynrychioliad a dadansoddiad data ac ystadegau mewn amrywiaeth o ffurfiau. Cynigir cyfleoedd i ddysgwyr drefnu a dosbarthu data ac adnabod tueddiadau, patrymau ac anomaleddau. Mae cefnogi entrepreneuriaeth, cymhareb a graddfa, cyllid, talgrynnu ac archebu hefyd yn berthnasol.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gan y ddau Faes yma ddulliau ac egwyddorion ymchwilio tebyg ac eto'n benodol i'r Maes. Serch hynny mae gwaith maes, er enghraifft lle mae dysgwyr yn sylwi ar bethau byw yn eu cynefinoedd naturiol gan arwain at gasglu data i fesur a chymharu **bioamrywiaeth**, yn cefnogi dysgu yn y ddau Faes. Gall gwybodaeth am ymchwiliadau gwyddonol a datblygiadau technolegol cyfredol ac yn y gorffennol, a'u heffaith ar gymdeithas, hefyd gefnogi dysgwyr yn eu gallu i chwilio a hidlo tystiolaeth. Mae gan ddatblygiadau gwyddonol a thechnolegol effaith sylweddol ar gymdeithasau dynol ac ar ein perthynas â'r byd naturiol. Gall gwyddoniaeth a thechnoleg gynnig datrysiadau ac ymatebion i'r heriau mae dynoliaeth yn eu hwynebu yn y byd modern. Mae gan agweddau eraill ar wyddoniaeth a thechnoleg gysylltiadau cynhenid â'r dyniaethau yn nhermau perthynas ag elfennau megis daearyddiaeth ffisegol a gwybodaeth am ddefnyddiau naturiol a'r dull o'u prosesu, a dylai'r cysylltiadau hyn gael eu harchwilio. Mae'r economi digidol yn ddylanwad grymus wrth lywio cymdeithasau, economïau a bywydau pobl yn y byd modern.

Themâu trawsbynciol

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y Maes hwn

Mae cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn greiddiol i'r Maes hwn ac yn ffurfio rhan o'r egwyddorion allweddol sy'n ymwneud â dewis cynnwys.

Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn y Maes hwn

Mae gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn cynnig cyd-destun pwysig i ddysgwyr ymholi, archwilio ac ymchwilio i farchnad lafur y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Ar ddechrau'r continwrm, dylai'r sylw hwn ar wybodaeth am y farchnad lafur sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr archwilio ac adeiladu dealltwriaeth o waith yn lleol ac ymhellach i ffwrdd. Yn hwyrach yn y continwrm, dylid archwilio swyddi yn y gorffennol a pham nad ydyn nhw'n bodoli mwyach, yna ymchwilio i'r ffactorau a allai ddylanwadu ar alwedigaethau yn y dyfodol, a'u gwerthuso. Mae'r dysgu hwn yn herio stereoteipio sy'n bodoli eisoes, canolbwyntio ar bwysigrwydd sgiliau a gwybodaeth yn myd gwaith, codi dyheadau a chred dysgwyr ym mhotensial eu dyfodol.

Dylai cynllun cwricwlwm ysgolion ystyried mabwysiadu dealltwriaeth o hawliau cyflogaeth, entrepreneuriaeth foesol, moesegau busnes, benthyca arian i/gan rywun, a phrosesau ac arferion diwydiannol cynladwy a gwyrdd. Gall dysgwyr hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau a enillwyd wrth gymryd rhan mewn profiadau byd gwaith er mwyn datblygu gweithgareddau menter llwyddiannus.

Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth yn y Maes hwn

Gall profiadau yn y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru, amrywiaeth yng Nghymru, ac ymwybyddiaeth o sut y dylanwadir ar eu hawliau eu hunain gan ddehongliadau o hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau, a safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Yn y Maes hwn dylid cael cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig at Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac i annog dysgwyr i gydnabod eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill.

Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cyflwyniad

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Maes) yn ymwneud ag agweddau hanfodol cyfathrebu rhwng pobl. Ei nod yw cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, Saesneg, ac [ieithoedd rhyngwladol](#) yn ogystal â [llenyddiaeth](#).

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae dysgu a phrofiad yn y Maes hwn yn anelu at alluogi dysgwyr i gyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Mae'n anelu at annog dysgwyr i drosglwyddo'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu am sut mae ieithoedd yn gweithio mewn un iaith er mwyn dysgu a defnyddio ieithoedd eraill. Bwriedir i'r dull [amlieithog](#) a [lluosieithog](#) hwn danio chwilfrydedd a brwdfrydedd y dysgwyr a chynnig sylfaen gadarn iddyn nhw ddatblygu diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd, a thrwy hyn eu gwneud yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Caiff y parodrwydd hwn i ddysgu ei gefnogi ymhellach gan fod medru trin iaith yn effeithiol o gymorth i ddysgwyr ddeall cysyniadau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft drwy eu galluogi i fynegi eu rhesymu wrth ddatrys problemau a dadansoddi gwybodaeth. Mae sgiliau amlieithog effeithiol yn dyfnhau'r gallu hwn gan eu bod yn galluogi dysgwyr i ymateb mewn llawer mwy o gyd-destunau.

O gofio mai un agwedd allweddol ar ddysgu iaith yn effeithiol yw'r parodrwydd i arbrofi ac i fentro wrth roi cynnig ar strwythurau, seiniau a phatrymau newydd, gall dysgu a phrofiad yn y Maes hwn rymuso'r dysgwyr i fod yn greadigol ac i ddal ati pan fyddan nhw'n wynebu heriau. Gyda'i gilydd, gall y sgiliau hyn feithrin hyder dysgwyr i fanteisio ar gyfleoedd newydd ac i addasu i wahanol rolau, sydd yn ei dro, yn gallu eu datblygu'n gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.

Yn y Maes hwn, gwelir ieithoedd fel allwedd i gydlyniant cymdeithasol, ac yn fodd i hyrwyddo gwell cyd-ddealltwriaeth yn lleol, cenedlaethol a byd-eang. Y nod yw annog dysgwyr i ymwneud yn feirniadol ag ieithoedd a llenyddiaeth er mwyn eu helpu i ddatblygu nid yn unig eu hunaniaeth ond hefyd eu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng eu diwylliannau a'u cymunedau nhw a diwylliannau a chymunedau eraill. Gellir dyfnhau'r ddealltwriaeth hon wrth i ddysgwyr gael y cyfle i ddysgu sawl iaith. Mae angen yr wybodaeth ieithyddol hon a'r sgiliau hyn er mwyn cyfrannu at gymdeithas a hynny'n hyderus a chydag empathi, ac mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

Bydd ymwneud â'r Maes hwn hefyd o gymorth i ddysgwyr ddod yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas gan fod y sgiliau a hyrwyddir trwy ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn allweddol i alluogi dysgwyr i fynegi eu hunain yn effeithiol, bod yn agored i safbwyntiau pobl eraill a datblygu perthynas gadarnhaol ag eraill.

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.

Mae ieithoedd yn ein cysylltu â phobl, lleoedd a chymunedau. Mae'r Maes hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod dysgwyr, fel dinasyddion Cymru [ddwyieithog](#) mewn byd [amlieithog](#), yn gallu defnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Mae profiadau dysgu ystyrlon mewn cyd-destun amlieithog yn mynd law yn llaw â dysgu am ein hunaniaeth ddiwylliannol ein hunain yn ogystal â hunaniaeth ddiwylliannol pobl eraill. Gall ymwneud â'r Maes hwn felly feithrin balchder dysgwyr yn eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Gymru yn ogystal â'r byd.

Drwy godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ieithoedd o oedran cynnar, y nod yw galluogi dysgwyr i adnabod tebygrwydd rhwng ieithoedd a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhyngddyn nhw. Gall dysgu a phrofiad yn y Maes hwn gefnogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o darddiad, esblygiad a nodweddion y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol, gan roi cyfres o sgiliau iddyn nhw sy'n cynnwys sgiliau creu, [cyfryngu](#), hyblygrwydd ac empathi.

Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.

Mae ieithoedd a [llythrennedd](#) yn hanfodol i alluogi pobl i gyfathrebu â'i gilydd. Maen nhw'n ein galluogi i ddehongli'r hyn a glywn, a ddarllenwn ac a welwn, a thrwy hyn ddatblygu ein dealltwriaeth, ein hempoethi a'n gallu i ymateb a [chyfryngu'n](#) effeithiol.

Nod y Maes hwn yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr brofi iaith lafar ac ysgrifenedig, yn ogystal â delweddau, mewn ystod o ffurfiau a [genres](#). Gall natur cyfoethog ac amrywiol y profiadau hyn ddatblygu gallu dysgwyr i ddod yn greadigol ac yn fentrus wrth ddefnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Gallan nhw hefyd fod o gymorth i ddysgwyr feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ddehongli'n feirniadol a diduedd yr hyn y byddan nhw'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld er mwyn rhyngweithio'n effeithiol fel dinasyddion galluog, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

Mae cyfathrebu clir ac effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn un o sgiliau pwysig bywyd. Mae'n gofyn am allu defnyddio ac addasu iaith mewn amrywiaeth o rolau, genres, ffurfiau, cyfryngau ac arddulliau, a hynny mewn [cywair](#) addas. Mewn cyd-destun dwyieithog ac amlieithog, mae hyn hefyd yn gofyn am allu dewis iaith briodol, a [chyfryngu](#).

Yn y Maes hwn, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr siarad ac ysgrifennu er mwyn iddyn nhw fod yn effeithiol wrth rhyngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthynas ag eraill. Bydd y dysgu a phrofiad yn eu cefnogi i ddod yn ymwybodol o sut maen nhw'n defnyddio iaith wrth iddyn nhw brofi cyfleoedd i fynegi eu hunain at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ogystal ag mewn ieithoedd rhyngwladol.

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Mae **llenyddiaeth** yn ehangu gorwelion. Yn ei holl ffurfiau, gall ein hysbrydoli a'n cymell, gan ein helpu hefyd i ddysgu mwy am iaith a chyfathrebu.

Bydd y Maes hwn yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr fydd yn ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, storiwyr a llenorion. Bydd y profiadau hyn yn eu cefnogi i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain. Byddan nhw'n cael eu hannog i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n cynnig mewnwledd i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Trwy hyn, wrth i'w dealltwriaeth o'u credoau, diwylliannau a'u profiadau eu hunain a phobl eraill gynyddu, gall dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, gall hyn gyfrannu at eu lles emosiynol a meddyliol. Gyda'i gilydd, nod y profiadau llenyddol hyn yw tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr a bod o gymorth i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

Egwyddorion cynnydd

Bwriedir i ddisgrifiadau dysgu ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Maes) adlewyrchu cyflymder a dyfnder dysgu mewn gwahanol gyd-destunau ac maen nhw wedi cael eu datblygu ar sail continwmm neu fframwaith cynnydd mewn ieithoedd, gan ddechrau heb fawr ddim iaith a gweithio tuag at hyfedredd. Bydd dysgwyr yn meddu ar alluoedd amrywiol yn eu hieithoedd ac, er mwyn rhoi sail gadarn i ail iaith ac ieithoedd dilynol, caiff camau cynnar (megis cyfatebiaeth graffem-ffonem) eu hailystyried ym mhob iaith.

Mae'r disgrifiadau dysgu yn y Maes hwn yn cynnwys lefel uwch o fanylder yn ystod camau cynnar dysgu na'r hyn a geir mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y sgiliau llythrennedd cynnar hyn yn cynnig sylfaen ar gyfer dysgu effeithiol ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Yr un yw'r disgrifiadau dysgu ar gyfer y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd' i bob dysgwr ym mhob ysgol. Ar gyfer y datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn, mae disgrifiadau dysgu ar gyfer Cymraeg/Saesneg, Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol.

Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Caiff cynnydd yn y Maes hwn ei gynrychioli fel continwmm cydlynol. Mae'r dysgwr yn datblygu'n holistaidd o ran ei ddealltwriaeth a'i ddefnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu wrth wrando a darllen, siarad ac ysgrifennu, a rhyngweithio a [chyfryngu](#) mewn ystod eang o gyd-destunau.

Mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gynyddol soffistigedig o gysyniadau ieithyddol sy'n cefnogi'r broses o feithrin sgiliau mewn modd mwy ymwybodol a hunanymwybodol i gyfathrebu'n effeithiol drwy siarad, ysgrifennu, ystumiau, delweddau neu gyfryngau eraill. Maen nhw hefyd yn gwneud cynnydd o ran ehangder a dyfnder gwybodaeth gysyniadol drwy profi syniadau mewn ieithoedd a llenyddiaeth, i ddechrau mewn cyd-destun mwy personol a lleol gan symud ymlaen i gysylltu â chyfathrebu mwy cymhleth mewn byd amlieithog. Felly, yn raddol, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth fwy cynnil o wahanol safbwyntiau a meistrolaeth gynyddol o'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli, gwerthuso a mynegi safbwyntiau gwahanol ac ymateb iddyn nhw.

Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd

Mae cynnydd yn y Maes hwn yn gontinwmm o ymgysylltiad cynyddol gymhleth â syniadau a dibenion cyfathrebu ac o feithrin ymwybyddiaeth ieithyddol. Caiff y rhain eu dangos fel a ganlyn:

- ymateb i ddulliau cyfathrebu wrth wrando, darllen neu dderbyn iaith mewn ffyrdd eraill
- eu cynhyrchu wrth siarad ac ysgrifennu neu drwy ddulliau cyfathrebu eraill.

Mae defnyddio holl allu ieithyddol dysgwr – ni waeth pa mor anwastad y gall fod – yn ei alluogi i wneud cynnydd ym mhob iaith. Gellir cymhwyso dealltwriaeth o gysyniadau ieithyddol yn iaith y dosbarth, er enghraifft, at ddysgu iaith newydd, sy'n hwyluso cynnydd yn yr iaith honno yn ogystal â gwella dealltwriaeth o'r ffordd y mae holl ieithoedd y dysgwr yn gweithio. Er y gall cynnydd dysgwyr fod ar wahanol bwyntiau mewn gwahanol ieithoedd, mae canolbwyntio ar **luosieithrwydd** yn eu galluogi i ddefnyddio eu dealltwriaeth o nifer o ieithoedd i ddeall testun llafar neu ysgrifenedig, ni waeth beth fo'u meistrolaeth o'r iaith honno, a deall yn gynyddol y cydberthnasau rhwng gwahanol ieithoedd a dysgu o'r cydberthnasau hyn.

Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau

Mae cynnydd o ran mireinio sgiliau a'u soffistigeiddrwydd yn symud o ddiben cyfathrebu llythrennol a syml i lefelau mwy haniaethol, ymhlyg a chynnil o ystyr â dibenion mwy cymhleth. Mae dysgwyr yn raddol yn meithrin ymwybyddiaeth well o iaith a mwy o soffistigeiddrwydd wrth ddefnyddio'r ymwybyddiaeth hon i gyflawni'r dibenion arfaethedig o ran dehongli a chyfathrebu drwy siarad neu ysgrifennu neu drwy ddulliau eraill.

Wrth i ddysgwyr brofi, ymgylfarwyddo, deall a chymhwyso syniadau ac ymwybyddiaeth ieithyddol gynyddol gymhleth, mae cywirdeb a rhuglder wrth ddefnyddio sgiliau cyfathrebu yn gwella.

Gwelir cynnydd yn y Maes hwn hefyd drwy ddefnyddio iaith. Wrth i ddysgwyr ddod yn fwy medrus, gallan nhw addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag ystod o wahanol gynulleidfaoedd. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin cydberthnasau cryf a'r hyder i ddefnyddio eu llais mewn cymdeithas.

Gall dysgwyr ail iaith ddefnyddio iaith fformiwlâig gydag ychydig iawn o gamgymeriadau i ddechrau ac, wrth iddyn nhw wneud cynnydd a defnyddio iaith mewn ffordd fwy uchelgeisiol a digymell, gall ymddangos fel eu bod yn gwneud mwy o gamgymeriadau. Mae'r rhan annatod hon o'r broses o ddysgu iaith yn llwyddiannus yn arwain at ddod yn ddefnyddwyr mwy rhugl a chywir.

Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd

Mae cydberthynas sylweddol rhwng y Maes hwn a'r dysgu ym mhob maes arall. Mae'r dysgwr yn symud ar hyd y continwwm cynnydd yn rhannol drwy wynebu heriau cyfoethog ac adnoddau yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill. Mae cysylltiad agos rhwng y meddwl sydd ei angen i ddeall a chyfathrebu'r holl ddysgu a'r hyn sy'n galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau derbyn, dehongli a mynegi iaith. Maen nhw'n gwneud cynnydd ar y cyd mewn ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn y Maes hwn ac mewn llythrennedd disgyblaethol yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill.

Mae'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau i gyd-destunau newydd yn rhan annatod o gynnydd yn y Maes hwn. Wrth i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o ieithoedd ychwanegol, caiff patrymau o ran defnydd iaith eu hadnabod, eu haddasu a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd. Caiff dulliau cyfathrebu eu haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, a gwahanol gyd-destunau disgyblaethol. Mae sgiliau mewn iaith gyntaf ac ail iaith dysgwyr yn eu helpu i ddysgu mewn ieithoedd dilynol. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddan nhw'n gallu adnabod cysylltiadau rhwng ffyrdd o gyfathrebu, gan wneud dewisiadau da ynghylch dulliau cyfathrebu effeithiol.

Effeithiolrwydd cynyddol

Wrth iddyn nhw symud ar hyd y continwrm dysgu, bydd dysgwyr yn adeiladu ar sgiliau ieithyddol sylfaenol i feithrin medr sy'n eu galluogi i oresgyn ystod o heriau cyfathrebu yn llwyddiannus.

Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- gofyn cwestiynau cynyddol soffistigedig
- dod o hyd i wybodaeth yn annibynnol
- gwneud penderfyniadau trwy werthuso a beirniadu'r syniadau a'r safbwyntiau a'r dulliau cyfathrebu yn yr hyn y maen nhw'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld
- defnyddio iaith yn effeithiol i gyfleu eu syniadau a'u safbwyntiau eu hunain ar bynciau amrywiol.

Byddan nhw'n meithrin y sgiliau ieithyddol angenrheidiol i drafod a gwerthuso eu dysgu mewn ieithoedd.

Disgrifiadau dysgu

Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n dechrau bod yn ymwybodol o gysylltiad rhwng iaith(ieithoedd) a diwylliant, ac rwy'n datblygu ymdeimlad o berthyn.	Rwy'n gallu adnabod bod cysylltiad rhwng ieithoedd, diwylliant a'r ymdeimlad sydd gen i o'm hunaniaeth Gymreig.	Rwy'n gallu deall bod cysylltiadau rhwng iaith, diwylliant a hunaniaeth a bod rhain yn amrywio o fewn Cymru ac o amgylch y byd.	Rwy'n gallu deall sut y gall ieithoedd feithrin ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol a byd-eang. Rwy'n gallu archwilio a dadansoddi sut mae ieithoedd yn effeithio ar hunaniaeth a diwylliant, a deall bod eu dysgu yn cynnig cyfleodd ehangach yng Nghymru ac mewn cyd-destunau rhyngwladol.	Rwy'n gallu dangos agwedd agored tuag at ddysgu am wahanol ieithoedd a gwahanol ddiwylliannau Cymru a'r byd. Trwy ddysgu am ieithoedd, rwy'n gallu mynegi sut mae'r cysylltiad rhwng ieithoedd a diwylliant yn fy mharatoi i fod yn ddinesydd i Gymru a'r byd.
Rwy'n dechrau deall bod gwahanol ieithoedd yn fy amgylchedd. Rwy'n dechrau siarad â'm cyfoedion yn iaith y lleoliad/ysgol.	Rwy'n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd.	Rwy'n gallu cyfathrebu mewn ystod cynyddol o ieithoedd.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o sut mae ieithoedd yn gweithio i gefnogi fy nysgu pellach mewn ieithoedd.	Rwy'n gallu cyfathrebu, rhyngweithio a chyfryngu mewn sawl iaith, ac yn ystyried fy hun yn amlieithog .

	Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein ieithoedd.	Rwy'n gallu adnabod a thrafod cysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng yr ieithoedd rwy'n eu siarad a'r rhai rwy'n eu dysgu. Rwy'n gallu deall sut a pham mae ieithoedd wedi esblygu, ac yn parhau i esblygu.	Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am gysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng ieithoedd i gefnogi fy sgiliau dysgu ieithoedd. Trwy archwilio proses esblygiad iaith ac etymoleg, rwy'n gallu gwella fy nealltwriaeth o adeiladwaith iaith.	Rwy'n gallu cymhwyso'r hyn rwy'n ei wybod am gysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng ieithoedd i wella fy nghyfathrebu. Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am esblygiad iaith ac etymoleg i ddyfnhau fy nealltwriaeth o adeiladwaith iaith.
		Rwy'n gallu adnabod a deall gwahanol acenion a thafodieithoedd .	Rwy'n gallu addasu a bod yn sensitif i amrywiaeth o fewn ieithoedd a deall bod amrywiaeth yn digwydd o fewn gwahanol grwpiau cymdeithasol, rhanbarthol ac ieithyddol.	Mae gen i agwedd gadarnhaol tuag at wahanol acenion a thafodieithoedd ac rwy'n gwerthfawrogi amrywiaeth iaith.
	Rwy'n dechrau defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn un iaith a'i mynegi yn fy ngeiriau fy hun mewn iaith arall.	Rwy'n gallu derbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i haddasu at wahanol ddibenion mewn iaith arall.	Rwy'n gallu cymhwyso fy sgiliau trawsieithu er mwyn cefnogi dysgu ieithoedd cyfarwydd ac ieithoedd newydd.	Rwy'n gallu adnabod, yn annibynnol, gyfleoedd i roi fy sgiliau trawsieithu ar waith er mwyn cyfoethogi'r modd rwy'n dysgu a chyfathrebu.

Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.

Cymraeg/Saesneg

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau. Rwy'n dechrau gwahaniaethu ffonemau yn glywedol mewn gwahanol safleoedd. Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth ddarluniadol a/neu gwybodaeth lafar, a chyfarwyddiadau aml-gam am bynciau cyfarwydd ac arferion.	Rwy'n gallu gwrando ar, deall a chyfathrebu ystyr cyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed. Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed. Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan adnabod y prif bwyntiau. Rwy'n gallu deall ac ymateb i ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau aml-gam mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd.	Rwy'n gallu gwrando ar, deall, ac adalw yn ddiweddarach mewn mwy o fanylder, ystyr cyffredinol yr hyn rwyf wedi'i glywed. Rwy'n gallu gwrando ar a deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan grynhoi'r prif bwyntiau. Rwy'n gallu gwrando ar, adnabod a defnyddio ciwiau i ddeall ystyr cyffredinol a syniadau sydd ymhlyg.	Rwy'n gallu deall a dadansoddi ystyr cyffredinol a syniadau sydd ymhlyg.	Rwy'n gallu deall a gwerthuso'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen mewn gwahanol gyd-destunau ar draws amrywiaeth eang o iaith.

	Rwy'n gallu defnyddio ciwiau amrywiol i ragfynegi'r ystyr cyffredinol mewn amrywiaeth o gyd-destunau llafar cyfarwydd ac anghyfarwydd.			
Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol.	Rwy'n gallu gwrando ar eraill a deall y gallan nhw fod â safbwynt gwahanol i mi.	Rwy'n gallu gwrando gydag empathi ar safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol.	Rwy'n gallu gwrando gydag empathi ar safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol gan ddefnyddio'r safbwyntiau i gyrraedd fy nghasgliadau fy hun.	Rwy'n gallu gwrando gydag empathi, gan barchu safbwyntiau gwahanol bobl, ac rwy'n gallu gwerthuso'r safbwyntiau hyn yn feirniadol er mwyn cyrraedd fy nghasgliadau ystyriol fy hun.
Rwy'n gallu mwynhau rhannu llyfrau a deunyddiau darllen a'u trin fel darllenydd. Rwy'n gallu defnyddio unedau sain o amrywiol feintiau er mwyn dysgu darllen. Rwy'n gallu segmentu a chyfuno.	Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffemffonem wrth ddarllen. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Rwy'n gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr.	Rwy'n gallu darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi'r mwyaf o gymorth i mi eu deall. Gallai'r strategaethau hyn gynnwys gweithio ar draws fy ieithoedd. Rwy'n gallu cymharu gwahanol bethau rwy'n eu darllen.	Rwy'n gallu darllen ystod o destunau gan ddewis strategaethau i'w deall nhw ac i wella fy mynegiant a chyfathrebu. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i grynhoi, syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth er mwyn deall testunau'n fanwl.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi ystyr ar draws ystod eang o destunau, a thrwy hyn gyfoethogi fy mynegiant a chyfathrebu.

Rwy'n gallu deall fod perthynas un-i-un rhwng y gair ysgrifenedig a'r gair llafar. Rwy'n dechrau datblygu fy ngwybodaeth o gyfatebiaeth graffemffonem. Rwy'n dechrau adnabod a darllen geiriau aml eu defnydd. Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall yr hyn rwyf yn ei ddarllen. Rwy'n dechrau darllen yn ôl yr hyn yr rwyf yn ei ysgrifennu.	Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o destunau a defnyddio iaith briodol i siarad amdany'n nhw. Rwy'n gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth o wahanol ddeunyddiau rwyf yn eu darllen.			
	Rwy'n gallu dehongli ystyr o destun a delweddau.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall testunau, a gallu ystyried dibynadwyedd yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i ddeall testunau mwy cymhleth, a gallu ystyried dibynadwyedd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i fagu dealltwriaeth fanwl o destunau cymhleth ac rwy'n gallu gwerthuso dibynadwyedd, dilysrwydd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.

Rwy'n gallu deall a defnyddio cysyniadau sylfaenol mewn iaith. Rwy'n ymwybodol o sut mae geiriau'n cael eu gwahanu gan fylchau. Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau.	Rwy'n gallu darllen ar goedd gyda mynegiant, gan roi sylw i atalnodi.	Rwy'n gallu gwrando a darllen i fagu dealltwriaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n effeithio ar ystyr.	Rwy'n gallu gwrando a darllen i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd mae gramadeg ac atalnodi'n siapio brawddegau a thestunau cyflawn.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o adeiladwaith geiriau, gramadeg gan gynnwys cystrawen, a threfn testunau i gefnogi fy nealltwriaeth o'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen.
Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well. Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld. Rwy'n gallu siarad am yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen neu'i weld, a mynegi barn syml.	Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau a dangos fy nealltwriaeth.	Rwy'n gallu darllen gydag empathi i adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol.	Rwy'n gallu darllen gydag empathi i adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol, gan eu defnyddio i ffurfio fy nghasgliadau fy hun.	Rwy'n gallu darllen gydag empathi i barchu a gwerthfawrogi'n feirniadol bersectif gwahanol bobl, gan ddefnyddio hyn i ffurfio fy nghasgliadau ystyriol fy hun.

Rwy'n gallu arbrofi gyda geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa trwy wrando a darllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau.	Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn datblygu fy ngeirfa, ynganiad a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth i mi gyfathrebu.	Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn cadarnhau a datblygu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau gan ddefnyddio'n gywir yr hyn rwy'n ei ddysgu wrth i mi gyfathrebu.	Rwy'n gallu gwrando a darllen i ddatblygu ystod eang o eirfa gyffredinol a phenodol, ac rwy'n gallu eu defnyddio'n fanwl gywir mewn gwahanol gyd-destunau.
---	---	--	--	--

Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth a chyfarwyddiadau syml am bynciau cyfarwydd ac arferion.	Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac yna adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed. Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau. Rwy'n gallu defnyddio ciwiau amrywiol i ragfynegi'r ystyr gyffredinol mewn amrywiaeth o gyd-destunau llafar.	Rwy'n gallu deall ystyr gyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed, ac rwy'n gallu cyfathrebu hyn yn fy newis iaith. Rwy'n gallu gwrando ar a deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, ei hadalw a chrynhof'r prif bwyntiau yn fy newis iaith.	Rwy'n gallu gwrando a defnyddio ciwiau i ddeall ystyr gyffredinol yr hyn rwyf wedi'i glywed gan grynhoi yn fy newis iaith.	Rwy'n gallu deall a gwerthuso'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen mewn gwahanol gyd-destunau ar draws amrywiaeth eang o iaith.

	Rwy'n gallu gwrandu, deall ac ymateb i ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau aml-gam mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd.	Rwy'n gallu defnyddio ciwiau amrywiol i ragfynegi'r ystyr gyffredinol mewn amrywiaeth o gyd-destunau llafar cyfarwydd ac anghyfarwydd.		
Rwy'n gallu gwrandu ar eraill gyda sylw cynyddol.	Rwy'n gallu gwrandu ar eraill, a deall y gallan nhw fod â safbwynt wahanol i mi.	Rwy'n gallu gwrandu a darllen gydag empathi, gan gydnabod safbwyntiau amrywiol pobl eraill.	Rwy'n gallu gwrandu a darllen gydag empathi, a myfyrio ar bersbectif pobl eraill er mwyn llywio fy ffordd i o feddwl.	Rwy'n gallu gwrandu a darllen gydag empathi, gan barchu safbwyntiau gwahanol bobl ac rwy'n gallu gwerthuso'r safbwyntiau hyn yn feirniadol er mwyn cyrraedd fy nghasgliadau ystyriol fy hun.
Rwy'n dechrau adnabod a darllen geiriau aml eu defnydd rwy'n dod ar eu traws. Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall geiriau.	Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffemffonem wrth ddarllen. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Rwy'n gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr.	Rwy'n gallu darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi'r mwyaf o gymorth i mi eu deall. Rwy'n gallu cymharu gwahanol bethau rwy'n eu ddarllen.	Rwy'n gallu darllen ystod o destunau gan ddewis strategaethau i'w deall nhw ac i wella fy mynegiant a chyfathrebu. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi'r ystyr cyffredinol ar draws ystod eang o destunau.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i grynhoi, syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth i fagu dealltwriaeth ehangach o destunau a chyfoethogi fy mynegiant a chyfathrebu.

	Rwy'n gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth o wahanol ddeunyddiau rwyf yn eu darllen.			
	Rwy'n gallu dehongli ystyr o destun a delweddau.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall testun.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall testunau mwy cymhleth, a gallu ystyried dibynadwyedd yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i fagu dealltwriaeth o destunau cymhleth ac rwy'n gallu gwerthuso dibynadwyedd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.
	Rwy'n gallu ddarllen ar goedd gyda mynegiant, gan roi sylw i atalnodi.	Rwy'n gallu gwrando a darllen gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n effeithio ar ystyr.	Rwy'n gallu gwrando a darllen i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n siapio brawddegau a thestunau cyflawn.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o adeiladwaith geiriau, gramadeg gan gynnwys cystrawen , a threfn testunau i gefnogi fy nealltwriaeth o'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen.
Rwy'n gallu arbrofi gyda geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa ac ynganiad trwy wrando a darllen, ac rwy'n gallu defnyddio'r geiriau newydd hyn.	Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa ac ynganiad trwy wrando a darllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau.	Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn datblygu fy ngeirfa, ynganiad a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth i mi gyfathrebu ar draws ystod o gyd-destunau.	Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn cadarnhau a datblygu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain yn gywir wrth i mi gyfathrebu mewn ystod eang o gyd-destunau.

leithoedd rhyngwladol

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
	Rwyf wedi clywed leithoedd rhyngwladol yn cael eu defnyddio.	Rwy'n gallu adnabod ymadroddion a geiriau aml eu defnydd a deall yr ystyr gyffredinol yn yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi'r ystyr cyffredinol ar draws ystod eang o destunau.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi'r ystyr cyffredinol ar draws ystod eang o destunau ac rwy'n gallu deall syniadau sydd ymhlyg.
		Rwy'n gallu gwrando a darllen gydag empathi, gan adnabod amrywiol farn pobl eraill.	Rwy'n gallu gwrando a darllen gydag empathi er mwyn gweld safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol.	Rwy'n gallu gwrando a darllen gydag empathi er mwyn gweld safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol, gan ddefnyddio hyn i lywio fy ffordd i o feddwl.
		Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn datblygu cronfa o eiriau a brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain i wella fy nghyfathrebu fy hun.	Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn cynyddu fy ngeirfa, ac rwy'n gallu amrywio strwythurau fy mrawddegau i wella fy nghyfathrebu fy hun.	Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn ymestyn ystod fy iaith, a gwella fy mynegiant a'm cyfathrebu fy hun.
		Rwy'n gallu gwrando a darllen i fagu dealltwriaeth o sut mae gramadeg ac atalnodi yn effeithio ar ystyr.	Rwy'n gallu gwrando a darllen i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd mae gramadeg ac atalnodi yn siapio brawddegau a thestunau cyflawn.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o adeiladwaith geiriau, gramadeg gan gynnwys cystrawen , a threfn testunau i gefnogi fy nealltwriaeth o'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen.

Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

Cymraeg/Saesneg

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir.	Rwy'n gallu siarad yn glir, gan amrywio mynegiant ac ystumiau er mwyn cyfathrebu fy syniadau. Rwy'n gallu defnyddio brawddegau syml ac aml-gymalog gan wneud dewisiadau er mwyn cyrraedd cynulleidfa benodol a chyflawni'r pwrpas a fwriadwyd.	Rwy'n gallu adnabod yr iaith briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion gan amrywio fy mynegiant, geirfa a naws i ennyn diddordeb y gynulleidfa.	Rwy'n gallu dewis ac addasu'r iaith briodol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion, gan gyfleu ystyr yn effeithiol i'r gynulleidfa.	Rwy'n gallu argyhoeddi wrth gyfleu ystyr mewn ystod o gyd-destunau gan ennyn diddordeb llawn y gynulleidfa.
Rwy'n gallu cyfathrebu ystyr gan ddefnyddio iaith lafar estynedig a/neu ystum. Rwy'n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol.	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol ac yn gynyddol fanwl gywir. Rwy'n gallu defnyddio brawddegau syml ac aml-gymalog. Rwy'n gallu amrywio'r math o frawddegau rwy'n eu defnyddio yn fy iaith lafar.	Rwy'n gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl ac eglur.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl, yn eglur ac yn gywir.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch geirfa a gramadeg i cyfoethogi fy sgiliau cyfathrebu.

	Rwy'n gallu edrych ar fy ngwaith ac rwy'n dechrau defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau cyfarwydd i wella fy ngwaith llafar ac ysgrifennu. Rwy'n gallu egluro ble a pham rwyf wedi gwneud unrhyw newidiadau neu gywiriadau.	Rwy'n gallu myfyrio ar ansawdd fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.	Rwy'n gallu myfyrio ar fy nefnydd o strategaethau i wella ansawdd, cywirdeb ac effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.	Rwy'n gallu myfyrio'n feirniadol ar fy nefnydd o iaith ac yn gallu ystyried yn wrthrychol effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.
Rwy'n dechrau cymryd fy nhro mewn sgysiau, gan ddilyn y pwnc dan sylw. Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well.	Rwy'n gallu ymgymryd ag ystod o rolau a rheoli fy nghyfraniad yn briodol. Rwy'n gallu newid y modd rwy'n cyfathrebu, yn ôl lle'r wyf i a chyda phwy. Rwy'n gallu defnyddio iaith lafar at wahanol ddibenion. Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau a chyfnwid syniadau a gwybodaeth.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan ymofyn eglurhad, strwythuro dadleuon, crynhoi ac esbonio'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan grynhoi a gwerthuso'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld, strwythuro dadleuon a herio gyda hyder a sensitifrwydd yr hyn y mae eraill yn ei ddweud.	Rwy'n gallu gwerthuso ac ymateb yn feirniadol i'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu ei weld.

Rwy'n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Rwy'n dechrau ffurfio llythrennau'n gywir gan afael yn briodol yn yr offer ysgrifennu.	Rwy'n gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy.	Rwy'n gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy a rhugl.		
Rwy'n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd. Rwy'n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio gwybodaeth am lythrennau a'r seiniau maen nhw'n eu cynrychioli.	Rwy'n gallu sillafu geiriau afreolaidd cyffredin yn gywir. Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am sain a phatrwm llythrennau yn gywir yn fy sillafu. Rwy'n gallu rhoi ymgais ar sillafu geiriau anoddach mewn ffordd resymol gan ddefnyddio ystod o strategaethau.			
Rwy'n ymwybodol o sut mae geiriau'n cael eu gwahanu gan fylchau.	Rwy'n gallu defnyddio atalnodi cyfarwydd.			

Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau.				
Rwy'n gallu rhannu syniadau a theimladau a mynegi'r hyn yr wyf yn ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi. Rwy'n gallu disgrifio gwrthrychau a digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa.	Rwy'n gallu esbonio gwybodaeth a rhannu syniadau, barn a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol.	Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, teimladau a barn, gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, teimladau a barn gydag eraill, gan ddefnyddio ystod o dechnegau at wahanol ddibenion gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu cyfathrebu fy meddyliau, teimladau a barn mewn cyd-destunau heriol a dadleuol gan ddangos empathi a pharch.
Rwy'n dechrau deall y gellir ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.	Rwy'n gallu siarad er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol. Rwy'n gallu ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus, amrywiol a manwl gywir.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu.	Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig soffistigedig a chywair priodol mewn ystod o gyd-destunau.

Rwy'n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo. Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.				
---	--	--	--	--

Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/f frydiau cyfrwng Saesneg

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir. Rwy'n gallu dewis siarad gyda fy nghyfoedion yn Gymraeg.	Rwy'n gallu siarad gyda mynegiant ac ystumiau er mwyn cyfathrebu fy syniadau.	Rwy'n gallu defnyddio ac addasu iaith gyfarwydd, gan amrywio geirfa a naws yn ôl y gynulleidfa.	Rwy'n gallu dewis ac addasu'r iaith briodol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion, gan gyfleu ystyr yn effeithiol i'r gynulleidfa.	Rwy'n gallu argyhoeddi wrth gyfleu ystyr mewn ystod o gyd-destunau gan ennyn diddordeb llawn y gynulleidfa.
Rwy'n gallu cyfathrebu ystyr trwy iaith lafar ac ystum.	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol. Rwy'n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol.	Rwy'n gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch geirfa a gramadeg i ddyfnhau fy sgiliau cyfathrebu.

	Rwy'n gallu edrych dros fy ngwaith ac rwy'n dechrau defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau cyfarwydd i wella fy ngwaith llafar ac ysgrifennu.	Rwy'n gallu myfyrio ar safon fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig. Rwy'n gallu egluro yn fy newis iaith ble a pham rwyf wedi gwneud unrhyw newidiadau neu gywiriadau.	Rwy'n gallu myfyrio ar fy nefnydd o strategaethau i wella ansawdd, cywirdeb ac effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.	Rwy'n gallu myfyrio'n feirniadol ar fy nefnydd o iaith ac yn gallu ystyried yn wrthrychol effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.
Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau.	Rwy'n gallu ymgymryd ag ystod o rolau a rheoli fy nghyfraniad yn briodol. Rwy'n gallu newid y modd rwy'n cyfathrebu, yn ôl lle'r wyf i a chyda phwy. Rwy'n gallu defnyddio iaith lafar at wahanol ddibenion. Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau a chyfnewid syniadau a gwybodaeth.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan ymofyn eglurhad, strwythuro dadleuon, crynhoi ac esbonio'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan grynhoi a gwerthuso'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld, strwythuro dadleuon a herio gyda hyder a sensitifrwydd yr hyn y mae eraill yn ei ddweud.

	Rwy'n gallu sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir. Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am sain a phatrwm llythrennau i gefnogi fy sillafu.	Rwy'n gallu rhoi ymgais ar sillafu geiriau anoddach mewn ffordd resymol gan ddefnyddio ystod o strategaethau.		
Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. Rwy'n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo.	Rwy'n gallu siarad yn fy newis iaith er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.	Rwy'n gallu cynllunio ac ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol.		
Rwy'n dechrau mynegi fy nheimpladau.	Rwy'n gallu rhannu syniadau a mynegi barn a theimpladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol. Rwy'n gallu disgrifio digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa.	Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, teimpladau a barn, gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, teimpladau a barn gydag eraill, gan ddefnyddio ystod o dechnegau i wahanol ddibenion gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu cyfathrebu fy meddyliau, teimpladau a barn mewn cyd-destunau heriol a dadleuol gan ddangos empathi a pharch.

Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu defnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus ac amrywiol.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu.	Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig a chywair priodol i gyfoethogi fy mynegiant mewn ystod o gyd-destunau.
--	--	--	--	--

leithoedd rhyngwladol

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
	Rwyf wedi profi cyfleoedd i ddefnyddio ieithoedd rhyngwladol.	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ymadroddion a brawddegau cyfarwydd.	Rwy'n gallu cyfleu ystyr gan ddefnyddio geirfa a phatrymau iaith rydw i wedi'u dysgu, ac rwy'n gallu eu cymhwyso i sefyllfaoedd newydd.	Rwy'n gallu dewis yr ystod a'r cywair priodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion, gan amrywio fy iaith i ennyn diddordeb y gynulleidfa.
		Rwy'n dechrau myfyrio ar fy nefnydd o iaith er mwyn gwella ansawdd fy nghyfathrebu.	Rwy'n gallu myfyrio ar fy nefnydd o iaith, ac yn gallu cymhwyso strategaethau cyfarwydd er mwyn gwella ansawdd fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.	Rwy'n gallu myfyrio'n feirniadol ar fy nefnydd o iaith, ac yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch geirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn eglur.

		Rwy'n dechrau rhyngweithio gydag eraill, gan rannu gwybodaeth, teimladau a barn.	Rwy'n gallu mynegi a chyfiawnhau fy meddyliau a'm syniadau. Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill gan rannu fy safbwyntiau gydag empathi a pharch.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, a'u herio, gan ymofyn eglurhad a strwythuro dadleuon. Rwy'n gallu cyfathrebu fy meddyliau, teimladau a barn mewn cyd-destunau dadleuol gan ddangos empathi a pharch.
		Rwy'n gallu llunio fy mrawddegau fy hun gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau rwyf wedi eu dysgu.	Rwy'n gallu addasu a thrin iaith i adeiladu brawddegau gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol.	Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am ramadeg , gan gynnwys cystrawen , ac ystod eang o eirfa er mwyn cyfoethogi fy nghyfathrebu annibynnol.

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Cymraeg/Saesneg

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd. Rwy'n gallu ailadrodd straeon. Rwy'n gallu ymateb yn greadigol i'r ystod o lenyddiaeth rwy'n ei chlywed, ei ddarllen neu'n ei weld.	Rwy'n gallu gwrandao ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, a'u cofio. Rwy'n gallu ailadrodd straeon mewn ffordd greadigol. Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i ymateb i lenyddiaeth a'i haddasu i greu fy ngwaith fy hun.	Rwy'n gallu cynnig sylwadau ar lenyddiaeth a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld. Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am arddulliau ysgrifennu a nodweddion gwahanol genres llenyddol er mwyn creu fy ngwaith fy hun.	Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth eang o genres, gan arbrofi gyda dewisiadau iaith a thechnegau ar gyfer fy nibenion creadigol fy hun.	Rwy'n gallu mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o genres llenyddol er mwyn archwilio a saernïo fy ngwaith fy hun.
Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i greu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gydag iaith i greu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu arbrofi gyda a chreu fy llenyddiaeth fy hun.

Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, ac rwy'n gallu mynegi barn syml ar hyn. Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau i wella fy nealltwriaeth.	Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau a dangos fy nealltwriaeth. Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o lenyddiaeth a defnyddio iaith briodol i siarad amdany'n nhw.	Rwy'n gallu ystyried plot, cymeriad, thema a chyddestun y lenyddiaeth rwy'n ei phrofi, gan gefnogi fy syniadau a'm barn gyda thystiolaeth o'r lenyddiaeth. Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld.	Rwy'n gallu archwilio, dadansoddi a chymharu syniadau allweddol gan ddefnyddio terminoleg briodol, a chefnogi fy marn gyda manylion priodol o'r testun.	Rwy'n gallu gwerthuso cysyniadau allweddol yn feirniadol ynghyd ag effaith dewisiadau iaith a thechnegau ar y darllenwyr/gwylwyr gan ddefnyddio detholiad cadarn o fanylion perthnasol o'r testun.
	Rwy'n dechrau dangos empathi gyda chymeriadau mewn lenyddiaeth.	Rwy'n gallu dangos empathi wrth ymateb i lenyddiaeth ac rwy'n deall y gall fod gan bobl eraill farn wahanol i mi.	Rwy'n gallu gwerthfawrogi lenyddiaeth, gan ddangos empathi ynghyd â dealltwriaeth y gall lenyddiaeth gael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd.	Rwy'n gallu gwerthfawrogi lenyddiaeth, gan ddangos empathi wrth werthuso gwahanol ddehongliadau ohoni, gan gynnwys fy nehongliad fy hun.

Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwyf wedi profi lenyddiaeth.	Rwyf wedi profi ystod o lenyddiaeth. Rwy'n gallu gwrandao ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, a'u cofio.	Rwy'n gallu gwrandao ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, gan eu cofio a'u haddasu mewn ffordd greadigol.	Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am arddulliau ysgrifennu a nodweddion gwahanol lenyddiaeth er mwyn creu fy ngwaith fy hun.	Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth eang o lenyddiaeth, gan arbrofi gyda dewisiadau iaith a thechnegau ar gyfer fy mhwrpas creadigol fy hun.

Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd. Rwy'n dechrau ymateb i lenyddiaeth rwy'n ei chlywed a'i gweld.	Rwy'n gallu ailadrodd straeon. Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i ymateb i lenyddiaeth a'i haddasu.	Rwy'n gallu ailadrodd straeon mewn ffordd greadigol. Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i ymateb i lenyddiaeth. Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan fynegi barn a dangos fy nealltwriaeth yn fy newis iaith.		
Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gydag iaith i greu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu arbrofi gyda a chreu fy llenyddiaeth fy hun.
Rwy'n dechrau ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed a'i weld.	Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld gan fynegi barn syml yn fy newis iaith. Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn i mi ddeall yn well.	Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau er mwyn dangos fy nealltwriaeth. Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o lenyddiaeth a defnyddio iaith briodol i siarad amdany'n nhw.	Rwy'n gallu ystyried plot, cymeriad, thema a chyddestun y llenyddiaeth rwy'n ei phrofi, gan gefnogi fy syniadau a'm barn gyda thystiolaeth o'r testun. Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld.	Rwy'n gallu archwilio, dadansoddi a chymharu syniadau allweddol gan ddefnyddio terminoleg briodol, a chefnogi fy marn gyda manylion priodol o'r testun.

		Rwy'n dechrau dangos empathi gyda chymeriadau mewn llenyddiaeth.	Rwy'n gallu dangos empathi wrth ymateb i lenyddiaeth a chydabod y gall fod gan bobl eraill farn wahanol i mi.	Rwy'n gallu gwerthfawrogi llenyddiaeth gan ddangos empathi ynghyd â dealltwriaeth y gall llenyddiaeth gael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd.
--	--	--	---	--

leithoedd rhyngwladol

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
	Rwyf wedi profi lenyddiaeth o ddiwylliannau eraill ac mewn ieithoedd rhyngwladol .	Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd. Rwy'n gallu ymateb yn greadigol yn fy newis iaith, i lenyddiaeth yn yr iaith rhyngwladol.	Rwy'n gallu gwrandao ar a chofio darnau byrion o lenyddiaeth yn yr iaith rhyngwladol, ac rwy'n gallu ailadrodd yn fy newis iaith yr hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld gan ddefnyddio fy nychymyg.	Rwy'n gallu ymateb, yn fy newis iaith, yn greadigol ac yn feirniadol i brif nodweddion yr hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld yn yr iaith rhyngwladol.
		Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu yn yr iaith rhyngwladol.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gydag iaith i greu fy llenyddiaeth fy hun yn yr iaith rhyngwladol.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun yn yr iaith rhyngwladol.

		Rwy'n gallu mynegi fy marn yn fy newis iaith, gan gefnogi'r safbwyntiau gydag enghreifftiau o'r llenyddiaeth rwyf wedi'i chlywed, ei darllen neu'i gweld yn yr iaith ryngwladol.	Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol genres gan ymateb yn fy newis iaith i'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu ei weld yn yr iaith ryngwladol, gan holi ac ateb cwestiynau er mwyn ennill dealltwriaeth.	Rwy'n gallu archwilio a dadansoddi r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu ei weld yn yr iaith ryngwladol, a chymharu hyn gyda fy niwylliant a'm profiadau fy hun, a mynegi hyn yn fy newis iaith.
		Rwy'n gallu dangos empathi wrth ymateb i lenyddiaeth a deall y gall fod gan bobl eraill farn wahanol i mi.	Rwy'n gallu mynegi, yn fy newis iaith, fy marn ar yr hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu ei weld yn yr iaith ryngwladol, gan ddangos empathi ac ystyriaeth o farn pobl eraill.	Rwy'n gallu mynegi a chyfiawnhau, yn fy newis iaith, fy marn ar yr hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu ei weld yn yr iaith ryngwladol, gan ddangos empathi ac egluro safbwyntiau pobl eraill.

Cynllunio eich cwricwlwm

Mae'r hyn yn rhoi arweiniad penodol i'w ddefnyddio wrth ymgorffori dysgu o fewn ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn eich cwricwlwm. Dylai gael ei ddarllen ynghyd ag adran gyffredinol 'Cynllunio eich cwricwlwm' sy'n berthnasol i ddysgu ac addysgu trwy bob maes dysgu a phrofiad.

Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol

Rhaid i gwricwlwm ymwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm. Isod, mae rhai egwyddorion allweddol y dylai lleoliadau/ysgolion eu hystyried wrth gynllunio dysgu ac addysgu yn Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Maes).

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Llythrennedd

Dylai **llythrennedd** fod wrth wraidd y Maes hwn, ar draws pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Dylai sgiliau llythrennedd gael eu dysgu'n benodol yn y Maes hwn. Gall y rhain alluogi dysgwyr i fynegi'u hunain, deall a dehongli iaith lafar ac ysgrifenedig ynghyd â mynegi ystyr. Dylai lleoliadau ac ysgolion gynllunio ar gyfer cymhwyso a datblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr ar draws y cwricwlwm ar bob cam cynnydd.

Mae cwmpas eang i ddisgrifiadau dysgu y Maes hwn ac maen nhw'n cynnig cyfeirbwyntiau ar gyfer cynnydd. Ceir mwy o fanylion ar gyfer cynnydd mewn llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol.

Rhifedd

Yn y Maes hwn mae cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau llythrennedd a rhifedd gyda'i gilydd, er enghraifft wrth ddatrys problemau ar ffurf geiriau. Dylai fod cyfleoedd hefyd i archwilio rhifedd mewn gwahanol ieithoedd, a gallai hyn atgyfnerthu dealltwriaeth gysyniadol.

Cymhwysedd digidol

Dylai dysgu yn y Maes hwn gynnig cyfleoedd i ddefnyddio gwahanol ddulliau o gyfathrebu digidol. Dylai dysgwyr ddysgu sut i gyfansoddi negeseuon clir a phriodol ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, gan rannu, cydweithio, golygu ac addasu yn ôl y gofyn. Dylai cyfleoedd hefyd gael eu cynnig iddyn nhw gydweithio'n lleol a byd-eang drwy lwyfannau digidol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wahanol ieithoedd a diwylliannau. Gall defnyddio technoleg wrth ddysgu am **lenyddiaeth** fod o gymorth i ddysgwyr ddyfnhau eu dealltwriaeth y tu hwnt i'r testun o'u blaenau.

Sgiliau cyfannol

Creadigrwydd ac arloesedd

Dylai dysgu yn y Maes hwn gynnig cyfleoedd i arbrofi gyda, a defnyddio ieithoedd yn greadigol er mwyn rhoi'r hyder i ddysgwyr fentro, i fynegi barn ac i gynhyrchu syniadau ar draws ieithoedd. Gall hyn arwain at ganlyniadau arloesol. Gall dysgwyr ddatblygu eu creadigrwydd trwy gyfleoedd i greu a pherfformio [llenyddiaeth](#). Gall mynegiant creadigol ddyfnhau dealltwriaeth dysgwyr o'r cysyniadau allweddol yn ogystal â dull y mynegiant ei hun.

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Yn y Maes hwn dylai gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu fod yn sail i ddatblygu meddwl beirniadol a datrys problemau. Gellir mireinio'r sgiliau hyn drwy gyfathrebu gydag eraill er mwyn deall sefyllfaoedd a mynegi syniadau ac er mwyn datblygu ymatebion i broblemau.

Effeithiolrwydd personol

Dylai dysgwyr ddatblygu eu heffeithiolrwydd a'u hunanymwybyddiaeth personol wrth ddysgu a defnyddio eu hieithoedd, a bydd hyn yn ei dro yn cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm. Dylai cynnig awyrgylch sy'n ieithyddol gyfoethog gefnogi'r holl ddysgwyr i fyfyrion ar eu cryfderau eu hunain yn eu defnydd o iaith, ac adnabod eu meysydd datblygu eu hunain er mwyn datblygu eu sgiliau iaith a chyfathrebu yn gyson.

Cynllunio a threfnu

Dylai dysgu yn y Maes hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau i ddethol a defnyddio ffynonellau a gwybodaeth briodol. Dylai hyn eu galluogi i drefnu syniadau, creu cynlluniau effeithiol a datblygu gweithiau creadigol. Drwy dderbyn y cyfle i ddefnyddio sgiliau llythrennedd er mwyn cyflwyno cynlluniau a gweithredu datrysiadau'n eglur, gall dysgwyr fyfyrion ar eu gwaith a chynllunio a gweithredu gwelliannau pellach.

Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn

Mae'r pedwar datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn yn cyfeirio at Gymraeg, Saesneg ac [ieithoedd rhyngwladol](#). Dylid ystyried y pedwar datganiad yn holistaidd wrth gynllunio cwricwlwm y lleoliad neu'r ysgol. Maen nhw'n dibynnu ar ei gilydd, gyda phob un yn cefnogi datblygiad y tri arall. Gellir datblygu pob dull o gyfathrebu, gan gynnwys gwrandio, darllen, siarad ac ysgrifennu, trwy [lenyddiaeth](#) a thrwy archwilio'r cysylltiadau rhwng ieithoedd, diwylliant a hunaniaeth. Mae pob datganiad yn cydnabod bod dysgu sgiliau a gwybodaeth mewn un iaith yn gallu cryfhau'r wybodaeth a'r dysgu am y sgiliau hynny ymhob iaith arall.

Egwyddorion allweddol wrth gynllunio eich cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn

Bydd angen i leoliadau ac ysgolion gynllunio er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn [ieithoedd rhyngwladol](#). Mae'r cysyniad continwwm dysgu iaith yn sail i gynnydd yn y Maes hwn. Bydd dysgwyr yn datblygu o fod ag ychydig neu ddim sgiliau na gwybodaeth iaith i fod yn fedrus yn yr ieithoedd maen nhw'n eu dysgu yn yr ysgol. Bydd dysgwyr yn amrywio o ran gallu yn eu hieithoedd, ac wrth i'r lleoliad neu'r ysgol gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer yr ail iaith ac ieithoedd dilynol bydd angen ystyriaeth fanwl i'r camau cynnar, megis [cyfatebiaeth graffem-ffonem](#).

Mae'r disgrifiadau dysgu ar gyfer 'Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd' yn gyffredin i bob dysgwr ymhob ysgol yng Nghymru.

Mae'r disgrifiadau dysgu ar gyfer y tri datganiad arall o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn yn cael eu cyflwyno i adlewyrchu'r cyflymder a'r dyfnder mewn gwahanol gyd-destunau dysgu iaith. Ar gyfer y Gymraeg bydd angen i leoliadau ac ysgolion ystyried y disgrifiadau dysgu sydd fwyaf addas ar gyfer eu dysgwyr. Yn ogystal â dysgwyr mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, bydd cyflymder a dyfnder y dysgu yn y Gymraeg a ddangosir yn y disgrifiadau dysgu Cymraeg/Saesneg yn fwy addas i rai dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, rhai sydd er enghraifft wedi mynychu cylch meithrin neu wedi symud o ysgol cyfrwng Cymraeg i ysgol cyfrwng Saesneg.

Dangosir cynnydd mewn iaith neu ieithoedd rhyngwladol yn y disgrifiadau dysgu o Gamau cynnydd 3, 4 a 5. Yn ogystal â'r Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r holl ddysgwyr gael y cyfle i ddysgu o leiaf un iaith ryngwladol yn yr ysgol ac i ddefnyddio [ieithoedd cartref](#) ac [ieithoedd cymunedol](#) eraill y maen nhw'n eu siarad. Dylai lleoliadau ac ysgolion annog dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau [amlieithog](#) a dylai dysgwyr ddeall gwerth gallu defnyddio gwahanol ieithoedd.

Dewis yr ysgol neu glwstwr yw pa ieithoedd rhyngwladol i'w cynnig. Efallai y bydd ysgolion yn dewis cynnig gwahanol ieithoedd rhyngwladol – mae sgiliau dysgu iaith yn drosglwyddadwy, a gall dysgwyr gyfoethogi eu hymwybyddiaeth ieithyddol a rhyng-ddiwylliannol trwy gael mynediad at sawl iaith. Gall lleoliadau ac ysgolion ddymuno cydweithio ag eraill, er enghraifft er mwyn cynnig dilyniant yn yr iaith a gynigir o un cam cynnydd i'r nesaf neu fel bod gan ddysgwyr fwy o ddewis o ieithoedd rhyngwladol. Gallan nhw ddewis ieithoedd a siaredir gan staff yn yr ysgol neu yn y gymuned ehangach. Dylen nhw fanteisio ar gyfleoedd byd-eang, digidol ac yn y gymuned er mwyn atgyfnerthu dysgu ac addysgu ieithoedd.

Dylid cyfeirio at y Model Pum Cam ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) neu Cymraeg fel iaith ychwanegol (CIY) a deunyddiau cymorth wrth ystyried cynnydd dysgwyr SIY mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dysgwyr CIY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r *Pecyn cymorth caffael iaith: arolwg asesu anghenion i athrawon cynradd ac uwchradd* ar gael ar-lein ar Hwb.

[Pecyn cymorth caffael iaith: Arolwg asesu anghenion ar gyfer Cymraeg fel iaith ychwanegol – Cynradd](#)

[Pecyn cymorth caffael iaith: Arolwg asesu anghenion ar gyfer Cymraeg fel iaith ychwanegol – Uwchradd](#)

Ystyriaethau allweddol wrth gynllunio eich cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn

Wrth gynllunio eich cwricwlwm yn eich ysgol, dylid rhoi ystyriaeth i'r math o ddarpariaeth iaith yn ogystal â'r ystod o brofiadau ieithyddol a diwylliannol sy'n cael eu cynnig i'r dysgwyr. Dylai ysgolion hefyd gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau ymhob iaith a gynigir a sicrhau ehangder a dyfnder wrth ddewis llenyddiaeth.

Ystyriaethau ar gyfer darpariaeth a phrofiadau

- Beth yw tirwedd ieithyddol presennol eich ysgol a'ch clwstwr? Beth yw'r ffordd orau i chi ddefnyddio hyn i fod o gymorth i'ch dysgwyr wneud cynnydd yn eu holl ieithoedd?
- Sut y byddwch chi'n dewis pa **iaith neu ieithoedd rhyngwladol** i'w dysgu? Sut y byddwch chi'n darparu ehangder a dyfnder mewn ieithoedd rhyngwladol?
- Sut y byddwch chi'n darparu cyfleoedd addas a digonol i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg, Saesneg ac iaith neu ieithoedd rhyngwladol mewn cyd-destunau pwrpasol?
- Sut y byddwch chi'n creu awyrgylch sy'n annog dysgwyr i dynnu ar eu gwybodaeth o nifer o ieithoedd, gan gynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o fewn ieithoedd (acen, **tafodiaith**, **cywair**, jargon, a **phrïodiaith**) i hybu dealltwriaeth a gwella cyfathrebu wrth ymwneud ag eraill?
- Sut y byddwch chi'n datblygu strategaethau i gynnwys ac adeiladu ar **ieithoedd cartref** a diwylliannau'r dysgwyr o fewn y dosbarth?
- Sut y byddwch chi'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr siarad yn ddigymell yn ogystal â siarad mewn sefyllfaoedd wedi'u cynllunio mewn amrywiaeth o gyd-destunau gydag ystod o gyfoedion ac oedolion?
- Sut y byddwch chi'n cynnig ystod eang o **lenyddiaeth** i ddysgwyr, gan gynnwys testunau **amlfodd** a heriol ar ffurf papur, digidol, electronig a byw, gan feithrin mwynhad yn eu darllen a gwylio pwrpasol, a'u hannog i archwilio llyfrau a thechnolegau newydd?

Ystyriaethau ar gyfer datblygiad iaith

- Sut y byddwch chi'n sicrhau fod yr holl ddysgwyr yn parhau i wneud cynnydd yn eu holl ieithoedd beth bynnag yw eu manau cychwyn?
- Sut y byddwch chi'n darparu cyfleoedd i gysylltu ag eraill mewn gwahanol rannau o'r byd i gynnig **cyd-destunau dilys** ar gyfer datblygiad ieithyddol a diwylliannol?
- Sut y byddwch chi'n sicrhau awyrgylch ieithyddol gyfoethog ar gyfer yr holl ddysgwyr gan gynnwys awyrgylch **amlieithog**, wyneb yn wyneb, trwy iaith/ieithoedd digidol neu ysgrifenedig, a hyn fel model ar gyfer gwella eu sgiliau iaith eu hunain?

- Sut y byddwch chi'n darparu datblygiad systematig o [ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig](#)?
- Sut y byddwch chi'n cefnogi datblygiad darllen ar gyfer yr holl ddysgwyr?
- Pa ysgogiadau perthnasol, cyffrous, dilys a heriol allwch chi eu darparu er mwyn ysbrydoli a chynorthwyo i baratoi ar gyfer siarad ac ysgrifennu pwrpasol (dan do, tu allan trwy ymweliadau/teithiau, ac ati)?
- Sut y byddwch chi'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr wneud cynnydd wrth iddyn nhw ddysgu siarad yn ogystal â dysgu trwy siarad?
- Sut y byddwch chi'n sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau mewn un iaith yn cael eu trosglwyddo i ieithoedd eraill, ac yna'n cael eu datblygu?

Ystyriaethau wrth ddethol llenyddiaeth

- Dylai dysgwyr brofi cyfoeth o [lenyddiaeth](#) sy'n darparu cyfleoedd i wireddu pedwar diben y cwricwlwm.
- Dylai ysgolion greu diwylliant darllen cadarnhaol sy'n trochi dysgwyr mewn llenyddiaeth, ac sy'n yn adlewyrchu eu diddordebau a thanio eu brwdfrydedd.
- Dylai dysgwyr gael mynediad at ystod amrywiol o brofiadau llenyddol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.
- Dylai dysgwyr cael eu cyflwyno i lenyddiaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth a diwylliannau yn lleol, yng Nghymru yn ogystal ag yn y byd ehangach.
- Dylai ysgolion ddewis llenyddiaeth sy'n ddigon cyfoethog a sylweddol i ddenu diddordeb dysgwyr yn ddeallusol ac emosiynol, ac sy'n gallu eu hannog i gael eu hysbrydoli, eu cyffroi a'u newid.
- Dylai ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn profi ystod o lenyddiaeth gyfoes a llenyddiaeth o wahanol gyfnodau yn y gorffennol.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i brofi a dysgu am lenyddiaeth a llenorion/creuwyr sydd wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol, boed yng Nghymru (Cymraeg/Saesneg), cenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig ac/neu yn rhyngwladol (gan gynnwys llenyddiaeth Saesneg a llenyddiaeth mewn ieithoedd cartref ac ieithoedd rhyngwladol y dysgwyr). Gallai'r cyfraniad hwn fod yn nhermau maes o fewn llenyddiaeth, yn nhermau iaith neu yn nhermau diwylliant a threftadaeth.

Ystyriaethau addysgeg ar gyfer y Maes hwn

Wrth gynllunio eich cwricwlwm, dylid ystyried gwahanol addysgeg sy'n benodol ar gyfer y Maes hwn. Mae dysgu ac addysgu sgiliau megis gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn effeithiol yn gofyn am ddull gweithredu systematig ysgol-gyfan, felly hefyd sgiliau trawsieithyddol megis [cyfryngu](#) a [thrawsieithu](#). Dylai ysgolion hefyd fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng caffael a dysgu iaith gyntaf, ail iaith ac ieithoedd eraill yn eu cyd-destunau, ac ystyried sut orau i sicrhau cynnydd ar gyfer yr holl ddysgwyr yn eu holl ieithoedd, er enghraifft trwy drochi, Dysgu Cynnwys ac Iaith yn Integredig (CLIL) neu weithgareddau [lluosieithog](#).

Gellir cael mwy o wybodaeth yn:

[Dulliau addysgu dwyieithog](#)

[Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Ymagweddau a Dulliau Addysgu Ail Iaith Effeithiol](#)

Darllen

Yn y cyfnodau cynnar, mae dysgu darllen yn ddibynol ar yr iaith lafar sydd gan ddysgwyr. Felly mae datblygu sgiliau gwranddo a siarad da yn angenrheidiol i lwyddo wrth ddysgu darllen.

Gall dysgwyr ifanc fod yn gyfarwydd â llyfrau stori, hwiangerddi a phrint wrth iddyn nhw ddechrau addysg ffurfiol. Bydd rhai wedi dechrau adnabod llythrennau unigol a geiriau. Bydd gan eraill, fodd bynnag, brofiad mwy cyfyng o ddefnyddio iaith, rhannu straeon, caneuon a rhigymau gydag oedolion. Mewn rhai achosion, gallai dysgwyr fod ag anghenion dysgu cyffredinol neu benodol. Byddan nhw hefyd efallai yn dysgu darllen mewn iaith sy'n wahanol i'w hiaith lafar. Mae'r pwyntiau cychwynnol a phrofiadau gwahanol hyn yn golygu y dylai lleoliadau ac ysgolion wneud penderfyniadau gwybodus am sut y byddan nhw'n rhoi cymorth i ddysgwyr ddod yn ddarllenwyr llwyddiannus.

Dylai dysgwyr feithrin sgiliau darllen cynnar o fewn awyrgylch sy'n gyfoethog o ran iaith, lle mae gweithgareddau'n ystyrlon, dychmygus ac amrywiol. Dylai'r gweithgareddau hyn hybu diddordeb dysgwyr mewn mwynhau darllen, darllen i ddibenion dychmygus a darllen ar gyfer dysgu.

Mae ymchwil yn cydnabod [ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig](#) fel sgiliau gwybyddol pwysig wrth ddysgu darllen. Dylai ysgolion osod gweithdrefnau clir ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig y dysgwyr yn systematig, gan roi pwyslais ar hyn. Pan mae'n addas ar gyfer y dysgwr, dylai dysgu [ffoneg](#) fod yn systematig a chyson, gan ddigwydd gyda gweithgareddau ieithyddol eraill, sy'n hybu datblygiad geirfa a dealltwriaeth.

Nid yw gallu [dadgodio](#) geiriau yn unig yn ddigon. Dylai dysgwyr fod yn gallu gwneud synnwyr o'r hyn y maen nhw'n ei ddarllen. Dylai addysgu alluogi dysgwyr i feithrin ystod o sgiliau a chymhwyso gwahanol strategaethau i ddod yn [ddarllenwyr rhugl](#). Dylai hyn ddarparu sylfaen gadarn iddyn nhw ddatblygu ac ymestyn eu sgiliau iaith a llythrennedd.

Enghreifftio ehangder

Darperir y canlynol fel enghreifftiau o sut y gallech archwilio dysgu testunol gwahanol yn y Maes hwn. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

Gall meithrin gwybodaeth am ieithoedd ddatgloi straeon a hanesion enwau lleoedd megis Cymru (ac Wales) ei hun, neu Glasgow yn yr Alban neu Trelew yn yr Ariannin. Cynigia amrediad o lenyddiaeth gan lenorion mor amrywiol â T.H. Parry Williams, Shakespeare, Manon Steffan Ros, Eric Ngalle Charles a Russell T. Davies wahanol bersbectifau a dehongliadau o Gymru a phrofiadau Cymreig, a allai ysbrydoli dysgwyr i fynegi eu hunaniaeth a deall newidiadau dros amser mewn cymdeithas. Mae gallu cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol arall yn cynorthwyo dysgwyr i fod yn ddinasyddion gweithredol a llwyddiannus yng Nghymru a'r byd.

Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill

Dylai datblygu sgiliau cyfathrebu a llythrennedd effeithiol, yn ogystal â dysgu am **etymoleg** o fewn y Maes hwn, hwyluso cynnydd ym mhob maes dysgu a phrofiad trwy roi gwell mynediad i wybodaeth, cysyniadau a therminoleg ar gyfer dysgwyr.

Celfyddydau Mynegiannol

Gall disgyblaethau o fewn y Celfyddydau Mynegiannol gael eu defnyddio fel ffordd i ddysgwyr ddatblygu ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu gan gynnwys trwy lythrennedd gweledol, meddwl creadigol ac ysgrifennu creadigol, deall cynulleidfa a diben ac addasu iaith ar gyfer cynulleidfa, cyflwyno barddoniaeth, drama, ffilm, amlgyfryngau, chwarae rôl a chanu. Mae profiadau o **lenyddiaeth** yn ei holl ffurfiau ar draws y ddau Faes hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sensitifrwydd ac empathi diwylliannol.

Iechyd a Lles

Mae'r ddau Faes yma yn cyfuno i ddarparu sgiliau fydd yn galluogi dysgwyr i gyfathrebu'n effeithiol. Bydd hyn yn ei dro yn darparu sail ar gyfer datblygu cydberthnasau iach. Bydd datblygiad corfforol a gwybyddol yn effeithio ar gaffael lleferydd ac iaith a datblygu **symudiadau echddygol manwl** fel llawysgrifen. Mae sgiliau llythrennedd yn galluogi dysgwyr i archwilio testunau sy'n ymwneud ag iechyd a lles. Mae darllen ac ysgrifennu er mwyn pleser hefyd yn darparu cyfleoedd i wella ymdeimlad o les yn y dysgwr.

Dyniaethau

Mae ieithoedd a llenyddiaeth yn chwarae rhan allweddol mewn hunaniaeth ac yn gallu bod o gymorth i lywio a dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau a chymdeithasau. Mae llenyddiaeth yn darparu tystiolaeth werthfawr ar gyfer ymchwiliadau mewn dyniaethau, ac yn gallu bod yn destun yr ymchwiliadau hyn. Gall dysgwyr archwilio llenyddiaeth o ystod o ddiwylliannau a chymdeithasau, o'r gorffennol a'r presennol, o'r ardal leol, o Gymru ac o weddill y byd.

Mathemateg a Rhifedd

Gellir defnyddio caneuon a rhigymau i ddysgu rhifedd cynnar ym mhob iaith. Mae dod o hyd i batrymau a'u cymhwyso ar gyfer datrys problemau yn sgil sydd ei hangen ar gyfer cynnydd yn y ddau Faes yma.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae cyfathrebu digidol ac ieithoedd cyfrifiadurol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyswllt i atgyfnerthu dysgu ar draws y ddau Faes yma. Mae dysgwyr yn cymhwyso sgiliau llythrennedd megis iaith gyfarwyddiadol ac arsylwadol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, yn ogystal â chael mynediad at destunau, a'u cynhyrchu, a defnyddio geirfa dechnegol a gwyddonol yn gywir. Mae sgiliau cyfathrebu dylunio yn cyfuno'r ddau Faes yma wrth ddatblygu meddylfryd dylunio dysgwyr ynghyd â chyfathrebu eu syniadau i eraill.

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y Maes hwn

Dylai dysgu yn y Maes hwn ysbrydoli a galluogi dysgwyr i:

- ddod yn **amlieithog**, gallu defnyddio Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un **iaith ryngwladol** a datblygu meddwl agored a chwilfrydedd tuag at holl ieithoedd a diwylliannau y byd.
- mwynhau dysgu ieithoedd a datblygu delwedd gadarnhaol o'u hunain fel defnyddwyr yr ieithoedd hynny
- defnyddio iaith/ieithoedd a diwylliant/diwylliannau eu cartrefi a'u cymunedau a defnyddio'r rhain fel sail i ddysgu ieithoedd ymhellach
- cael sail gadarn yn Gymraeg a Saesneg i adeiladu arno wrth ddysgu ieithoedd eraill ac wrth ddyfnhau eu dealltwriaeth o gyd-destunau cenedlaethol a byd-eang
- myfyrio ar eu treftadaeth ieithyddol personol a lleol
- dod yn wybodus am amrywiaeth treftadaeth ieithyddol a diwylliannol lleol, yng Nghymru ac yn fyd-eang
- datblygu eu hymdeimlad o hunaniaeth ieithyddol yn lleol, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Ble bynnag y ganwyd y dysgwyr a'u teuluoedd, mae'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn ysgol yng Nghymru. Byddan nhw felly, dros gyfnod o amser, yn datblygu perthynas â Chymru a'u hymdeimlad o hunaniaeth Gymreig yn ogystal â chyda'r byd ehangach
- ymdrochi eu hunain mewn diwylliannau ac ieithoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol trwy ymweliadau, gan ymwneud â phobl yn lleol a byd-eang a chysylltu'n ddigidol
- meithrin dealltwriaeth o ddiwylliant a hunaniaeth y rhai o'u hamgylch, gan greu ymagwedd o gyd-barch sy'n arwain at gydlyniant cymdeithasol
- datblygu gwerthfawrogiad o lenyddiaeth, wedi cael ei hysbrydoli gan lenorion a chreuwr o Gymru a'r byd ehangach.

Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith yn y Maes hwn

Wrth gynllunio cwricwlwm, dylai lleoliadau ac ysgolion ymgorffori cyfleoedd i ddysgwyr gael profiadau sy'n eu galluogi i:

- ddatblygu dealltwriaeth o gyfleoedd ehangach ar gyfer eu gyrfa sydd ar gael trwy ieithoedd
- deall y gall bod yn **ddwyieithog** neu'n **amlieithog** agor drysau ym myd gwaith
- deall y galw cynyddol am y Gymraeg yn y gweithle wrth i Gymru weithio tuag at darged y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- gwerthfawrogi eu sgiliau yn y Gymraeg a datblygu'r sgiliau hyn ymhellach
- deall bod sgiliau mewn **ieithoedd rhyngwladol** yn hanfodol i Gymru ffynnu fel cenedl fasnachol ryngwladol
- datblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol yn eu holl ieithoedd a datblygu hyder i ymwneud ag eraill a meithrin perthynas ag eraill ymhob gweithle
- datblygu iaith sy'n ymwneud â gwaith wrth ddysgu pob iaith
- archwilio sut gall eu sgiliau iaith fod o fudd iddyn nhw wrth iddyn nhw baratoi tuag at weithio'n ystwyth a hyblyg yng Nghymru a thu hwnt.

Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth yn y Maes hwn

Dylai ymarferwyr ddefnyddio'r cyfleoedd yn y Maes hwn i feithrin a datblygu parch ac empathi dysgwyr tuag at ieithoedd a hunaniaeth pobl eraill, tra'n dathlu a pharchu tebygrwydd a gwahaniaethau. Dylid ystyried **amlieithrwydd** o fewn yr ystafell ddosbarth fel cyfle i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o amrywiaeth, a hybu cyfoeth diwylliannol yr ysgol a'r gymuned.

Dylai ysgolion anelu at feithrin perthynas gyda'r cartref a lleoliadau eraill a hybu partneriaethau. Gall cefnogi datblygiad **ieithoedd cartref** fod o gymorth i hyrwyddo a datblygu ymddiriedaeth, gwerthfawrogiad a pharch ar draws ieithoedd a diwylliannau.

Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd

Cyflwyniad

Mae datblygiad mathemateg wedi mynd law yn llaw â datblygiad gwareiddiad ers y cychwyn cyntaf. Mae'n ddisgyblaeth wirioneddol ryngwladol, ac mae o'n cwrpas ni i gyd ac yn sail i gynifer o agweddau ar ein bywydau bob dydd, megis pensaernïaeth, celfyddyd, cerddoriaeth, arian a pheirianeg. Er bod mathemateg ynddi hi ei hun, ac wrth gael ei chymhwyso, yn greadigol ac yn hardd, mae hefyd yn hanfodol ar gyfer cynnydd mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill.

Yn ychwanegol at hyn, mae rhifedd, sef defnyddio mathemateg i ddatrys problemau yn y byd go iawn, yn chwarae rhan allweddol yn ein bywydau bob-dydd, ac yng nghyflwr economaidd y genedl. Mae'n hanfodol felly fod profiadau mathemateg a rhifedd mor gyffrous, diddorol a hygyrch â phosibl i ddysgwyr, a bod y profiadau hyn yn fodd i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu gwydnwch mathemategol.

Yn ystod y blynyddoedd cynnar, mae chwarae yn rhan bwysig yn y broses o ddatblygu mathemateg a rhifedd, gan alluogi dysgwyr i ddatrys problemau, archwilio syniadau, creu cysylltiadau a chydweithio ag eraill. Yn ystod y blynyddoedd diweddarach, mae angen cynnig cyfleoedd i ddysgwyr weithio'n annibynnol ac ar y cyd er mwyn adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Mae cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd (Maes) yn cynnwys datblygu pum hyfedredd cysylltiedig a rhyngddibynnol. Dydyn nhw ddim yn nhrefn pwysigrwydd, ac mae ystyried yr hyfedreddau hyn yn hollbwysig wrth i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr.

- Dealltwriaeth gysyniadol
- Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau
- Cymhwysedd strategol
- Rhesymu rhesymegol
- Rhuglder

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi'i fynegi mewn pedwar datganiad sy'n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae mathemateg ffurfiol wedi datblygu drwy resymu rhesymegol trylwyr. Mae'n cynnwys dyfeisio neu ddarganfod gwrthrychau [haniaethol](#), ynghyd â sefydlu'r berthynas rhyngddyn nhw. Mae hefyd yn dysgu'r gwahaniaeth rhwng [dyfaliad](#), tebygrwydd a [phrawf](#).

Mae meddwl mathemategol yn cynnwys rhoi ar waith yr un math o resymu rhesymegol, y tro hwn wrth archwilio'r berthynas sydd o fewn cysyniadau a rhyngddyn nhw, ynghyd â chyfiawnhau a phrofi canfyddiadau. Yn wir, mae deall cysyniadau mathemategol a gallu cymhwyso cynrychioliadau haniaethol y cysyniadau hynny, a gallu rhesymu â nhw, yn greiddiol i ddysgu mathemateg. A hanfodol i hyn yw deall y symbolau a'r systemau symbolau a ddefnyddir mewn mathemateg, a'r gallu i'w defnyddio.

Er mwyn cymhwyso mathemateg mae angen gallu strategol o ran defnyddio syniadau haniaethol a modelu. Mae dysgwyr yn datblygu gwydnwch, yn ogystal â phrofi ymdeimlad o lwyddiant a mwynhad, wrth iddyn nhw oresgyn yr heriau sy'n codi. O ganlyniad, mae gweithgareddau mathemategol yn dysgu'r dysgwyr i beidio â bod ag ofn problemau anghyfarwydd neu gymhleth. Mae hyn oherwydd y gellir eu crynhoi i gyfres o broblemau symlach ac, yn y pen draw, i [gyfrifiannau](#) sylfaenol. Wrth iddyn nhw fyfyrio ar y dulliau a ddefnyddiwyd, ac ar yr hyn a ddysgwyd ganddyn nhw am fathemateg a rhifedd, gall dysgwyr ddatblygu'r sgiliau metawybyddol sydd o gymorth iddyn nhw wybod pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn gwella eu perfformiad. Trwy hyn gallan nhw ddod yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes**.

Mae dysgu a phrofiad yn y Maes hwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygu **cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**. Gall hyn annog dysgwyr i fod yn greadigol, gan fod gofyn iddyn nhw chwarae, arbrofi, cymryd risg a bod yn hyblyg wrth fynd i'r afael â phroblemau mathemategol.

Gan fod mathemateg yn [haniaethol](#) yn ei hanfod, mae'n galluogi dysgwyr i ymwneud â gwrthrychau nad ydyn nhw'n bodoli'n ffisegol, ac i ddefnyddio a datblygu eu creadigrwydd er mwyn dychmygu a darganfod realiti newydd. Mae hefyd yn ategu gwaith modelu a rhagfynegi rhifyddol sy'n gallu, yn ei dro, annog ffordd o feddwl entrepreneuriaidd.

Mae mathemateg a rhifedd hefyd yn gallu helpu dysgwyr i ddod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd** drwy eu harfogi i ddadansoddi data yn feirniadol, gan eu galluogi i ddatblygu safbwyntiau gwybodus ar faterion cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'n annog meddwl clir, gan alluogi dysgwyr i ddeall a gwneud penderfyniadau sy'n dangos rhesymeg.

Yn y Maes hwn, gall dysgwyr ddod ar draws sefyllfaoedd sy'n ymwneud ag iechyd a chyllid personol, lle gallan nhw ddatblygu'r sgiliau i reoli eu cyllid eu hunain, gwneud penderfyniadau gwybodus a dod yn ddefnyddwyr beirniadol. Bydd profiadau yn y Maes hwn o gymorth iddyn nhw ddysgu dehongli gwybodaeth a data er mwyn asesu risg, a defnyddio eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm er mwyn gwneud dewisiadau effeithiol. Gall hyn oll fod o gymorth iddyn nhw ddod yn **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

Rhifau yw'r system symbolau ar gyfer disgrifio a chymharu meintiau. Dyma'r cysyniad [haniaethol](#) cyntaf y bydd dysgwyr yn dod ar ei draws ym mathemateg, ac mae'n gymorth i sefydlu egwyddorion rhesymu sy'n rhesymegol. Ym mathemateg, mae'r system rifo'n sail i resymu o ran [algebra](#), ystadegau, tebygolrwydd a geometreg, yn ogystal ag o ran cyfrifo ariannol a gwneud penderfyniadau.

Mae gwybodaeth a gallu ym maes rhifau a meintiau yn hanfodol ar gyfer cyfrannu'n hyderus mewn bywyd, ac yn cynnig sylfaen ar gyfer astudio pellach a chyflogaeth. Mae rhuglder o ran [cyfrifiannu](#) yn allweddol i ddatrys problemau a gwneud cynnydd ym mhob maes dysgu a phrofiad. Datblygir rhuglder drwy ddefnyddio'r pedair gweithred rhifydddeg sylfaenol a datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhyngddyn nhw. Mae hyn yn arwain at baratoi'r ffordd ar gyfer defnyddio symbolau algebra yn llwyddiannus.

Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.

Mae algebra yn astudio'r strwythurau sydd ymhlyg mewn cyfrifiannau a chydberthnasau, ac yn cynnig ffordd o gyffredinoli. Mae meddwl algebraidd yn symud o'r cyd-destun i'r strwythur a'r perthnasoedd. Mae'r dull gweithredu pwerus hwn yn cynnig ffordd o gyrraedd at nodweddion haniaethol pwysig, a ffordd o ganfod a mynegi strwythurau mathemategol gwahanol sefyllfaoedd, gyda'r nod o ddatrys problemau. Mae algebra yn rhedeg fel llinyn cyswllt drwy frethyn mathemateg i gyd.

Mae meddwl algebraidd yn hanfodol er mwyn rhesymu, modelu a datrys problemau ym mathemateg ac mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau go iawn, gan gynnwys technoleg a chyllid. Mae gwneud cysylltiadau rhwng rhifydddeg ac algebra yn meithrin sgiliau ar gyfer rhesymu haniaethol o oedran cynnar.

Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

Mae geometreg yn ymwneud â chwarae gyda siapiau a strwythurau, eu trin, eu cymharu, eu henwi a'u dosbarthu. Mae astudio geometreg yn annog dysgwyr i ddatblygu a defnyddio dulliau [dyfalu](#), rhesymu diddwythol a [phrawf](#). Mae mesur yn golygu y gellir meintoli nodweddion gofodol a haniaethol, gan ddefnyddio amrywiaeth o unedau safonol ac [ansafonol](#), a gall mesur hefyd ategu'r broses o ddatblygu dulliau rhesymu rhifyddol.

Mae rhesymu ynghylch meintiau a phriodweddau siapiau a'r gofod o'u hamgylch yn cynnig modd i ddysgwyr wneud synnwyr o'r byd ffisegol a byd siapiau mathemategol. Gellir cymhwysu geometreg a mesur mewn sawl maes, gan gynnwys celf, adeiladu, gwyddoniaeth a thechnoleg, peirianeg, a seryddiaeth.

Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Ystadegaeth yw'r arfer o gasglu, trin a dadansoddi data er mwyn gallu cynrychioli a chyffredinoli gwybodaeth. Tebygolrwydd yw'r broses fathemategol o astudio siawns, er mwyn gallu rhagfynegi'r tebygrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd. Mae ystadegaeth a thebygolrwydd yn dibynnu ar gymhwyso a thrin rhifau ac algebra.

Mae rheoli data a chynrychioli gwybodaeth yn effeithiol yn cynnig ffordd o brofi rhagdybiaethau, dod i gasgliadau a gwneud rhagfynegiadau. Mae rhesymu gan ddefnyddio ystadegau a thebygolrwydd, a gwerthuso pa mor ddibynadwy ydyn nhw, yn meithrin y sgiliau dadansoddi a meddwl beirniadol sy'n hollbwysig wrth wneud penderfyniadau egwyddorol a gwybodus.

Egwyddorion cynnydd

Ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd (Maes), mae'r model cynnydd yn seiliedig ar ddatblygu'r pum hyfedredd rhyngddibynnol, a amlinellir isod. Gellir ystyried bod y model cynnydd hwn yn hydredol ac yn drawstoriadol. Er mwyn sicrhau cynnydd unrhyw ddysgu mewn mathemateg, dylid datblygu a chysylltu hyfedreddau ar yr un adeg, a dylid eu datblygu dros amser hefyd.

Gall pob hyfedredd ymwneud â nifer o egwyddorion, ac mae'r egwyddorion wedi'u nodi isod.

Hyfedreddau

Defnyddiwyd y hyfedreddau rhyngddibynnol canlynol wrth ddatblygu'r disgrifiadau dysgu ac maen nhw'n ganolog i gynnydd ar bob cam o ddysgu mathemateg. Mae rhifedd yn ymwneud â chymhwyso a chysylltu'r hyfedreddau hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn, ar draws y cwricwlwm.

Dealltwriaeth gysyniadol

Dylid adeiladu ar gysyniadau a syniadau mathemategol, a'u dyfnhau a'u cysylltu wrth i ddysgwyr gael profiad o syniadau mathemategol cynyddol gymhleth. Mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth gysyniadol drwy allu esbonio a mynegi cysyniadau, dod o hyd i enghreifftiau (neu [anenghreifftiau](#)) a thrwy allu cynrychioli cysyniad mewn gwahanol ffyrdd, gan lifo rhwng gwahanol gynrychioliadau, gan gynnwys rhai [diriaethol](#), gweledol, digidol a [haniaethol](#).

Mae ehangder gwybodaeth yn cynyddu drwy gyflwyno'r dysgwyr i gysyniadau mathemategol newydd, a cheir dyfnder gwybodaeth drwy sicrhau bod dysgwyr yn gallu cynrychioli a chymhwyso cysyniad, a chysylltu ag ef, mewn ffyrdd gwahanol ac mewn sefyllfaoedd gwahanol. Caiff dysgwyr eu cyflwyno i gysyniadau cynyddol gymhleth, a bydd deall y ffordd y mae cysyniadau yn cysylltu yn cyfrannu at ddealltwriaeth gynyddol o'r syniadau yn y Maes hwn. Mae deall sut y mae cysyniadau mathemategol yn ategu'r dysgu yn helpu dysgwyr i greu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd.

Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau

Dylai dysgwyr ddeall bod y symbolau y maen nhw'n eu defnyddio yn gynrychioliadau haniaethol a dylen nhw ddatblygu mwy o hyblygrwydd wrth gymhwyso a thrin amrywiaeth gynyddol o symbolau, gan ddeall confensiynau'r symbolau y maen nhw'n eu defnyddio.

Bydd cyflwyno a chymhwyso cysyniad newydd yn ymwneud â meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae symbolau neu fynegiannau yn gynrychioliadau haniaethol sy'n disgrifio amrywiaeth o sefyllfaoedd yn gynnil, a thrwy hynny'n cyfrannu at ddealltwriaeth gynyddol o natur mathemateg. Bydd cyflwyno symbolau newydd yn ychwanegu at ehanger gwybodaeth a bydd cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau yn cyfrannu at fireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso.

Cymhwysedd strategol

Dylai dysgwyr ddod yn gynyddol annibynnol wrth gydnabod a chymhwyso'r strwythurau a'r syniadau mathemategol sylfaenol mewn problem, er mwyn datblygu strategaethau i allu eu datrys.

Mae adnabod strwythur mathemategol mewn problem a ffurfio problemau yn fathemategol er mwyn gallu eu datrys yn dibynnu ar ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y meysydd dysgu a phrofiad, ochr yn ochr â dyfnder gwybodaeth. Mae hefyd yn cefnogi'r broses o greu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd a datblygu effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr. Dylai cydnabod pŵer mathemateg wrth alluogi sefyllfaoedd i gael eu cynrychioli arwain at werthfawrogiad cynyddol o ddefnyddioldeb mathemateg.

Rhesymu rhesymegol

Wrth i ddysgwyr gael profiad o gysyniadau cynyddol gymhleth, dylen nhw hefyd feithrin dealltwriaeth o'r perthnasoedd rhwng y cysyniadau hyn ac oddi mewn iddyn nhw. Dylen nhw gymhwyso rhesymu rhesymegol ynghylch y perthnasoedd hyn a gallu eu cyfiawnhau a'u profi. Dylai'r cyfiawnhad a'r [prawf](#) ddod yn gynyddol [haniaethol](#), gan symud o esboniadau llafar a chynrychioliadau gweledol neu ddiriaethol i gynrychioliadau haniaethol sy'n ymwneud â symbolau a chonfensiynau.

Caiff y broses o fireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso eu dangos drwy gymhwyso rhesymu rhesymegol cynyddol soffistigedig. Mae meithrin dealltwriaeth o'r perthnasoedd rhwng cysyniadau mathemategol a'r broses o ddatblygu cyfiawnhad a phrawf yn arwain at ddealltwriaeth gynyddol o natur mathemateg ac yn helpu dysgwyr i greu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd. Mae'r broses o ddatblygu cyfiawnhad a phrawf yn helpu i gefnogi dysgwyr i fod yn gynyddol effeithiol.

Rhuglder

Wrth i ddysgwyr gael profiad o gysyniadau a pherthnasoedd cynyddol cymhelth, eu deall a'u cymhwyso'n effeithiol, dylai rhuglder wrth gofio ffeithiau, perthnasoedd a thechnegau dyfu, gan olygu y dylai ffeithiau, perthnasoedd a thechnegau a ddysgwyd o'r blaen gael eu sefydlu'n gadarn, a bod yn gofiadwy ac yn ddefnyddiadwy.

Mae datblygu rhuglder a chywirdeb yn adlewyrchu'r broses o fireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso.

Disgrifiadau dysgu

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwyf wedi cael profiad o rifau a'u harchwilio mewn amgylcheddau sy'n llawn rhifau, dan do ac yn yr awyr agored, gan gael profiad o rai prifol, trefnol ac enwol. Rwy'n gallu sylwi ar rifau, eu hadnabod a'u hysgrifennu mewn amrywiaeth o gyfryngau, trwy ddull aml-synhwyrol, o 0 i 10 a heibio i hynny. Rwy'n gallu defnyddio iaith fathemategol i ddisgrifio meintiau, i wneud amcangyfrifon a chymariaethau megis 'yn fwy na', 'yn llai na', 'yn hafal i'.	Rwy'n gallu darllen, ysgrifennu a dehongli rhifau sy'n fwy, hyd at 1000 o leiaf, gan ddefnyddio digidau a geiriau. Rwy'n gallu deall y gellir penderfynu ar werth rhif ar sail safle'r digidau a ddefnyddir. Rwyf wedi ymgymryd â thasgau ymarferol i amcangyfrif a thalgrynno rhifau i'r 10 neu'r 100 agosaf. Rwy'n dechrau amcangyfrif a gwirio cywirdeb fy atebion gan ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro lle bo'n addas.	Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o gynrychioliadau i ddatblygu a chadarnhau fy nealltwriaeth fod gwerth digid yn ymwneud â'i safle. Rwy'n gallu darllen, ysgrifennu a dehongli rhifau, gan ddefnyddio ffigurau a geiriau hyd at filiwn, o leiaf. Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o gynrychioliadau i ymestyn fy nealltwriaeth o'r system rifau, gan gynnwys gwerthoedd negatif, degolion a ffracsiynau. Rwy'n gallu gosod cyfanrifau, degolion a meintiau ffracsiynol yn gywir ar linell rhif. Rwy'n gallu cymhwyso'r hyn rwy'n ei wybod am werth rhif er mwyn	Rwy'n gallu defnyddio ffurf indecs safonol i gynrychioli rhifau mawr a bach ac i wneud cyfrifiadau mewn cyd-destun. Rwy'n gallu defnyddio dulliau talgrynno addas, gan gynnwys ffigural ystyrlon, i amcangyfrif gwerthoedd.	Er mwyn datrys problemau yn ymwneud â ffiniau uchaf ac isaf, rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth nad yw mesuriadau bob amser yn gywir, a bod rhaid ystyried goddefiant a lled gwall.

Rwyf wedi cael profiad o gyfrif dilyniant o rifau, a hynny mewn gwahanol ffyrdd, gan gyfrif ymlaen ac yn ôl, a chan ddechrau ar wahanol rifau. Rwy'n gallu defnyddio fy mhrofiad o gyfrif dilyniant o rifau a chyfatebiaeth un-i-un er mwyn cyfrif cyfresi'n ddibynadwy. Rwy'n gallu cyfrif gwrthrychau y gallaf eu cyffwrdd, a'r rhai na allaf.	Rwy'n gallu trefnu a dilyniannu rhifau, gan gynnwys odrifau ac eilrifau, ac rwy'n gallu cyfrif ymlaen ac yn ôl mewn camau unffurf unrhyw rif cyfan a ffracsiynau unedol syml.	talgrynnu ac amcangyfrif lle bo'n addas.		
	Rwy'n dechrau deall bod ffracsiynau unedol yn cynrychioli rhannau cyfartal o'r cyfan a'u bod yn ffordd o gyfleu meintiau a pherthnasoedd. Rwyf wedi cael profiad o ffracsiynau mewn sefyllfaoedd ymarferol gan ddefnyddio amrywiaeth o gynrychioliadau.	Rwy'n gallu dangos fy nealltwriaeth y gellir cynrychioli meintiau nad ydyn nhw'n gyfanrifau gan ddefnyddio ffracsiynau (gan gynnwys ffracsiynau sy'n fwy nag 1) degolion a chanrannau. Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o gywerthedd i gymharu maint ffracsiynau syml, degolion a chanrannau ac rwy'n gallu newid rhwng cynrychioliadau.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o gywerthedd ffracsiynau, degolion a chanrannau i ddeall y gellir cynrychioli rhifau neu gyfrannau mewn gwahanol ffyrdd. Rwyf wedi deillio a chymhwyso rheolau indecsau gan ddefnyddio esbonyddion cyfanrif.	Rwy'n gallu adnabod y gwahaniaeth rhwng rhifau cymarebol a rhai anghymarebol, ac wedi deillio rheolau a'u cymhwyso i symleiddio a dadelfennu syrdiau. Rwy'n gallu ymestyn fy ngwybodaeth o gywerthedd ffracsiynau, degolion a chanrannau er mwyn deall y gellir cynrychioli degolion cylchol mewn gwahanol ffyrdd.

	Rwyf wedi archwilio ffracsiynau cywerth ac rwy'n deall perthnasoedd ffracsiynau cywerth.	Rwy'n gallu arddangos fy nealltwriaeth y gellir defnyddio ffracsiwn fel gweithredydd , neu i gynrychioli rhannu. Rwy'n gallu deall y berthynas wrthdro rhwng enwadur ffracsiwn a'i werth.		Rwyf wedi archwilio'r berthynas rhwng pwerau, israddau ac indecsau ffracsiynol, ac yn gallu defnyddio hyn i ddatrys problemau.
Rwyf wedi archwilio ffurfio maint mewn gwahanol ffyrdd, gan ddefnyddio cyfuniadau o wrthrychau neu feintiau. Rwy'n gallu mynegi sut mae setiau yn newid pan gaiff gwrthrychau eu hychwanegu atynt a'u tynnu oddi wrthynt. Rwyf wedi cael profiad o grwpio a rhannu gyda gwrthrychau a meintiau, ac rwy'n gallu grwpio neu rannu meintiau bychain i grwpiau hafal eu maint.	Rwyf wedi archwilio perthnasoedd adiol gan ddefnyddio amrywiaeth o gynrychioliadau. Rwy'n gallu adio a thynnu rhifau cyfan gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ysgrifenedig ac ymenyddol. Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o luosi i gofio rhai ffeithiau ynghylch lluosï a thablau gan ddechrau gyda thablau 2, 3, 4, 5 a 10, ac rwy'n gallu defnyddio'r term 'lluosrifau'.	Rwy'n gallu gwirio cyfrifiadau a datganiadau am rifau, drwy resymu gwrthdro a dulliau amcangyfrif. Rwy'n gallu defnyddio'r pedwar gweithrediad rhifydddeg gyda chyfanrifau a degolion yn hyderus, effeithlon a chywir, ac rwy'n gallu cyfuno'r rhain gan ddefnyddio deddfau dosbarthol, cysylltiadol a chymudol lle bo hynny'n briodol. Rwyf wedi datblygu fy nealltwriaeth o resymu lluosol i gynnwys y cysyniad o gymhareb, cyfrannedd a graddfa, ynghyd â'u cymhwyso.	Rwy'n gallu cymhwyso'r pedwar gweithrediad rhifydddeg yn rhugl a chywir, a hynny yn y drefn gywir, o ran cyfanrifau, degolion a ffracsiynau, gan gadarnhau fy nealltwriaeth o gilyddion wrth rannu ffracsiynau.	Rwyf wedi defnyddio rhesymu cyfrannol i gymharu dau faint gan ddefnyddio cyfrannedd union neu wrthdro, ac rwy'n gallu datrys problemau gan ddefnyddio rhesymu cyfrannol ailadroddus a rhesymu cyfrannol gwrthdro.

	Rwyf wedi archwilio ac yn gallu defnyddio fy nealltwriaeth o berthnasoedd lluosol i luosi a rhannu rhifau cyfan, gan ddefnyddio amrywiaeth o gynrychioliadau, yn cynnwys dosbarthu'n gyfartal, grwpio, a llunio a dadansoddi araeau.	Rwy'n gallu cyfleu ffeithiau am luosi yn rhugl, hyd at o leiaf 10 x 10, a defnyddio'r rhain i feddwl am ffeithiau cysylltiedig. Rwyf wedi cael profiad o berthnasoedd lluosol syml a'u harchwilio sy'n fy ngalluogi i drafod priodweddau rhif, gan gynnwys ffactorau, lluosrifau, rhifau cysefin a rhifau sgwâr.		
Rwyf wedi defnyddio arian, ac iaith arian, mewn sefyllfaoedd chwarae a bywyd go iawn, ac rwy'n gallu deall bod angen i mi gyfnewid arian am eitemau.	Rwy'n gallu deall cywerthedd a gwerth darnau arian ac arian papur i wneud trafodion priodol wrth chwarae rôl.	Rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o incwm a gwariant, ac rwy'n gallu cymhwyso fy sgiliau cyfrifo i archwilio elw a cholled.	Rwy'n gallu cymhwyso canrannau a chymhareb i ddatrys problemau gan gynnwys llog syml, adlog, arbrisant, dibrisiant, cyfrifo cyllidebau, arian tramor a threth sylfaenol ar wasanaethau a nwyddau. Rwyf wedi datblygu fy nealltwriaeth o gyllid mewn cyd-destun personol, lleol a byd-eang.	Rwyf wedi dyfnhau fy nealltwriaeth ariannol gan gynnwys y gyfradd gywerth flynyddol (AER) a'r gyfradd ganrannol flynyddol (APR), er mwyn gwerthuso a chymharu cynnyrch ariannol. Rwy'n gallu cyfrifo treth incwm a deall goblygiadau trethiant gan gynnwys defnyddio cyfraddau treth incwm Cymru a threthi eraill sydd wedi eu datganoli i Gymru.

Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n dechrau adnabod, copïo, ymestyn a chyffredinoli patrymau a dilyniannau o'm cwrpas.	Rwy'n gallu archwilio patrymau rhifau a siapiau. Rwy'n gallu adnabod, copïo a chynhyrchu dilyniannau rhifau a phatrymau gweledol.	Rwy'n gallu archwilio a chreu patrymau rhifau a siapiau. Rwy'n gallu esbonio dilyniannau rhifyddol a phatrymau gofodol mewn geiriau ac wrth eu cyffredinoli.	Rwy'n gallu archwilio, creu, adnabod a chynrychioli dilyniannau llinol rhifyddol a gofodol, gan gynnwys darganfod a defnyddio term cyffredinol.	Rwy'n gallu archwilio, creu, adnabod a chynrychioli dilyniannau rhifyddol a gofodol, gan ddefnyddio dilyniannau llinol ac aflinol .
Rwy'n dechrau dangos dealltwriaeth o gysyniadau 'hafal' a 'ddim yn hafal' gan ddefnyddio gwrthrychau.	Rwy'n gallu defnyddio'r arwydd hafal i ddangos bod gan ddwy ochr brawddeg rhif yr un gwerth â'i gilydd, ac rwy'n gallu defnyddio arwyddion anhafaledd wrth gymharu meintiau er mwyn nodi 'mwy na' a 'llai na'. Rwyf wedi archwilio cymudedd mewn perthynas ag adio a lluosu, ac rwy'n gallu adnabod pan fydd dau fynegiad rhifyddol gwahanol yn disgrifio'r un sefyllfa ond eu bod wedi'u hysgrifennu mewn gwahanol ffyrdd.	Rwy'n gallu defnyddio cymudedd , dosbarthedd a chysylltiadedd er mwyn archwilio hafaidd ac anhafaledd mynegiadau.	Rwy'n gallu dangos fy nealltwriaeth o gysyniad newidyn , a defnyddio nodiant algebra i ffurfio mynegiadau, hafaliadau ac anhafaleddau llinol. Rwy'n gallu dehongli mynegiadau algebraidd gan fy mod yn deall y ffordd y defnyddir symbolau i gynrychioli gweithrediadau, lluosrifau a phwerau.	Rwy'n gallu archwilio cysyniadau hafaidd ac unfathiant , gan gysylltu cynrychioliadau algebraidd a graffigol.

			Rwy'n gallu trin mynegiadau algebraidd yn rhugl drwy symleiddio, ehangu, tynnu a ffactorio drwy echdynnu ffactor cyffredin.	Rwy'n gallu trin mynegiadau algebraidd yn rhugl drwy ymestyn cromfachau dwbl, ffactorio mynegiadau cwadratig a symleiddio ffracsiynau algebraidd.
	Rwy'n gallu dod o hyd i rifau coll pan mae bondiau rhif a ffeithiau llusgi yn anghyflawn.	Rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o'r syniad o fewnbwn, cymhwyso rheol (gan gynnwys gweithrediadau gwrthdro) ac allbwn, defnyddio peiriant ffwythiant neu ddulliau priodol eraill, ac rwyf wedi cymhwyso'r syniad hwn i ddatrys problemau. Rwy'n gallu modelu problemau gan greu mynegiadau a hafaliadau sy'n defnyddio symbolau neu eiriau i gynrychioli gwerthoedd anhysbys, gan fabwysiadu dulliau algebra. Rwy'n gallu defnyddio gweithrediadau gwrthdro er mwyn dod o hyd i werthoedd anhysbys mewn hafaliadau syml.	Rwy'n gallu archwilio a defnyddio dulliau effeithlon o ddatrys problemau ac anhafaleddau unradd, gan hefyd gymhwyso'r wybodaeth hon i ad-drefnu hafaliadau ble mae'r testun yn ymddangos mewn un term. Rwy'n gallu defnyddio hafaliadau ac anhafaleddau unradd i gynrychioli a modelu sefyllfaoedd go iawn a datrys problemau gan ddefnyddio amrywiaeth o gynrychioliadau.	Rwy'n gallu archwilio a defnyddio dulliau effeithlon o ddatrys hafaliadau cydamserol, cwadratig a thrigonometrig gan hefyd gymhwyso'r wybodaeth hon i ad-drefnu hafaliadau ble mae'r testun yn ymddangos mewn un term. Rwy'n gallu defnyddio hafaliadau ac anhafaleddau a graffiau perthnasol i gynrychioli a modelu sefyllfaoedd go iawn a datrys problemau, gan gynnwys rhai sy'n disgrifio cyfrannedd ac esbonyddiaeth.

			Rwy'n gallu archwilio hafaliadau llinol ar ffurf graff ac rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o'r effaith ar y llinell ble mae cysonyn neu gyfernod x yn cael ei newid.	Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth o graffiau aflinol, gan gynnwys rhai cwadratig, ciwbig a chilyddol er mwyn dod i ddeall effaith cyfernodau a chysonion ar siâp y graff. Rwy'n gallu darganfod neu amcangyfrif cyfradd newid ar bwynt mewn graff, ac rwy'n gallu archwilio'r arwynebedd o dan graff, gan ddeall beth maen nhw'n ei gynrychioli yng nghyd-destun bywyd go iawn.
--	--	--	--	--

Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â phriodweddau siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu deall a chymhwyso iaith amser mewn perthynas â'm bywyd bob-dydd. Rwyf wedi defnyddio amrywiaeth o wrthrychau i fesur. Wrth fesur, rwy'n dechrau deall yr angen i ailadrodd yr un uned ffisegol heb unrhyw fylchau. Rwy'n gallu amcangyfrif a chymharu gyda mesurau megis 'byrrach na...', 'trymach na...'.	Rwy'n dechrau dweud yr amser gan ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau. Rwyf wedi archwilio ac wedi defnyddio gwahanol ffyrdd o ddangos treigl amser, gan gynnwys calendrau, llinellau amser, amserlenni syml a rhestrau digwyddiadau. Rwyf wedi archwilio mesur, gan ddefnyddio cyfrif, offer mesur a chyfrifo, ac rwy'n gallu dewis y dull mwyaf addas i fesur. Rwy'n gallu amcangyfrif a mesur gan ddefnyddio unedau ansafonol priodol, cyn symud ymlaen i unedau safonol. Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau mesur o fannau cychwyn gwahanol.	Rwy'n gallu darllen clociau analog a digidol yn gywir ac rwy'n gallu gwneud cynrychioliadau a chyfrifo sy'n gysylltiedig ag amser. Rwy'n gallu amcangyfrif a mesur hyd, cynhwysedd, màs, tymheredd ac amser, gan ddefnyddio unedau safonol priodol. Rwy'n gallu cyfnewid rhwng unedau safonol, gan gynnwys cymhwyso fy nealltwriaeth o werth lle i gyfnewid rhwng unedau metrig.	Rwy'n gallu cynrychioli a defnyddio mesurau cyfansawdd, gan ddefnyddio unedau safonol, ac rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o'r berthynas rhwng fformiwla sy'n cynrychioli mesuriad a'r unedau a ddefnyddiwyd.	

Rwyf wedi archwilio, cymharu, a defnyddio iaith gyffredinol siapiau trwy chwarae ymchwiliol.	Rwyf wedi archwilio siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn, ynghyd â'u priodweddau, mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Rwyf wedi archwilio cymesuredd adlewyrchol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac rwy'n gallu'i drafod fel un o briodweddau siapiau dau ddimensiwn.	Rwy'n gallu archwilio a chadarnhau fy nealltwriaeth o briodweddau siapiau dau ddimensiwn gan gynnwys nifer yr ochrau a chymesuredd. Rwy'n gallu archwilio fertigau, ymylon a wynebau siapiau tri dimensiwn ac rwy'n gallu defnyddio'r nodweddion hyn i ddisgrifio siâp tri dimensiwn. Rwy'n gallu perthnasu siâp tri dimensiwn i'w rwydau dau ddimensiwn. Rwy'n gallu defnyddio dulliau effeithlon i ddarganfod perimedr ac arwynebedd siapiau dau ddimensiwn, gan ddeall sut mae hafaliadau sylfaenol yn deillio ohonynt.	Rwy'n gallu defnyddio dulliau amrywiol i ymchwilio, rhagfynegi a dangos effaith trawsffurfiadau ar siapiau dau ddimensiwn. Rwy'n gallu archwilio a chyfrifo arwynebedd a pherimedr siapiau dau ddimensiwn syml a chyfansawdd, gan gynnwys cylchoedd, ac rwyf wedi dangos dealltwriaeth o π fel cymhareb cylchedd cylch i'w ddiamedr. Rwy'n gallu cymhwyso fy nealltwriaeth o arwynebedd i gyfrifo arwynebedd arwyneb prismau syml. Rwy'n gallu deillio a chymhwyso'r hafaliadau ar gyfer cyfaint prismau syml. Rwy'n gallu cymhwyso fy nealltwriaeth o arwynebedd i ddangos a defnyddio'r berthynas rhwng trionglau ongl sgwâr a sgwariau yng nghyd-destun theorem Pythagoras.	Rwy'n gallu cymhwyso fy nealltwriaeth o effaith trawsffurfiadau ar briodweddau siapiau er mwyn esbonio pam maen nhw'n gyflun, yn gyfath neu ddim un o'r ddau. Rwy'n gallu archwilio a dangos dealltwriaeth o effaith graddfa wrth gymharu mesuriadau siapiau cyflun ym mhob un o'r tri dimensiwn. Rwy'n gallu dangos fy nealltwriaeth o raddfa a chymhareb wrth gyfrifo hyd ac arwynebedd ffracsiynau siapiau, gan gynnwys arcau a segmentau cylchoedd. Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o fesur i gyfrifo perimedr, arwynebedd (neu arwynebedd arwyneb) a chyfaint siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn cyfansawdd.
---	---	--	---	---

				Rwy'n gallu archwilio cymarebau trigonometrig mewn trionglaau ongl sgwâr ac rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth ohonyn nhw i ddatrys problemau sy'n cynnwys hydoedd, onglau ac arwynebedd unrhyw driongl.
Rwyf wedi archwilio symudiadau a chyfeiriadau ac rwy'n dechrau defnyddio iaith fathemategol i ddisgrifio safle.	Rwy'n gallu disgrifio a meintoli safle gwrthrychau mewn perthynas â gwrthrychau eraill.	Rwyf wedi datblygu dealltwriaeth o'r ffyrdd y defnyddir cyfesurynnau i ddatrys problemau sy'n ymwneud â safle, hyd a siâp.		Rwy'n gallu lleoli a disgrifio locws pwyntiau a ddiffiniwyd gan amrywiaeth o wahanol feini prawf.
	Rwyf wedi archwilio'r cysyniad o gylchdroi, ac rwy'n dechrau defnyddio ffracsiynau syml mewn perthynas â chylchdro cyflawn i ddisgrifio troeon.	Rwy'n gallu dangos fy nealltwriaeth o onglau fel ffordd o fesur cylchdro, ac rwy'n gallu adnabod, enwi a disgrifio mathau o onglau.	Rwy'n gallu defnyddio ffeithiau am onglau a siapiau i ddiddwytho nodweddion a pherthnasoedd pellach yn ymwneud â thrionglaau a phedrochrau. Rwy'n gallu archwilio a chyfrifo onglau a ffurfiwyd gan linellau paralel ac ardrawslin. Rwyf wedi cymhwyso fy nealltwriaeth o onglau i fodelu a datrys problemau yn ymwneud â chyfeiriannau.	Rwy'n gallu defnyddio dadleuon rhesymegol, ynghyd â'r hyn rwy'n ei wybod am bolygonau, llinellau sy'n croesdorri, onglau a'r theoremau cylch, i ddiddwytho a chyfrifo maint onglau a hyd llinellau.

Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu ymchwilio, casglu a chofnodi data sydd yn fy amgylchedd.	Rwy'n gallu casglu a threfnu data er mwyn gofyn ac ateb cwestiynau mewn sefyllfaoedd perthnasol.	Rwy'n gallu casglu gwahanol fathau o ddata er mwyn ateb amrywiaeth o gwestiynau a ofynnwyd, gan ddangos fy mod yn deall pwysigrwydd casglu data perthnasol.	Rwy'n gallu dewis rhagdybiaeth synhwyrol er mwyn ei harchwilio. Rwyf wedi archwilio'r berthynas rhwng y math o ddata rwyf wedi eu casglu (gan gynnwys data ansoddol a meintiol) a sut y gellir trin a chynrychioli'r data hyn.	Rwy'n gallu archwilio gwahanol ddulliau samplu, yn cynnwys samplu systematig a haenedig, gan ddeall yr angen i ddewis dull casglu sampl priodol wrth gasglu data.
Rwy'n gallu grwpio setiau mewn i gategoriâu ac rwy'n dechrau cyfleu'r rheol neu'r rheolau rwyf wedi'u defnyddio.	Rwy'n gallu didoli a dosbarthu gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf, gan ddefnyddio diagramau Venn a diagramau Carroll. Rwy'n dechrau cofnodi a chyflwyno data mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys defnyddio siartiau rhifo, tablau amllder, a graffiau bloc lle y darperir echelinau a graddfeydd priodol.	Rwy'n gallu cynrychioli gwybodaeth drwy greu amrywiaeth o siartiau priodol sy'n cymhlethu'n gynyddol, gan gynnwys siartiau cyfrif, tablau amllder, graffiau bar a graffiau llinell.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus am sut i drefnu a chynrychioli data, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o graffiau a siartiau, gan gynnwys siart cylch, diagram amllder a pholygon amllder.	Rwy'n gallu ymestyn fy nulliau cynrychioli data, gan gynnwys dulliau amllder cronnos, blwch a blewyn, a histogramau, er mwyn dehongli mesurau canolduedd a mesurau gwasgariad .

Rwy'n dechrau cyflwyno a dehongli data, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau.	Rwy'n dechrau dehongli a dadansoddi graffiau, siartiau a data syml. Rwy'n gallu esbonio fy nghanfyddiadau, a dechrau gwerthuso llwyddiant fy null gweithredu.	Rwy'n gallu defnyddio gwahanol raddfeydd i echdynnu a dehongli gwybodaeth allan o amrywiaeth o ddiagramau, tablau a graffiau, gan gynnwys siartiau cylch gyda ffracsiynau a chyfraneddau syml. Rwy'n gallu adnabod unrhyw dueddiadau a welir. Rwy'n gallu dod o hyd i gymedr set syml o ddata a'i ddefnyddio i esbonio sut mae'r ystadegau yn cefnogi neu yn gwrthddweud dadl. Rwy'n gallu adnabod sut mae anomaleddau yn effeithio ar y cymedr.	Rwy'n gallu deall y gellir defnyddio gwahanol gyfartaleddau i gymharu data, gan gynnwys data wedi'u grwpio, gan adnabod manteision ac anfanteision pob cyfartaledd. Rwy'n gallu archwilio tueddiadau ac anomaleddau mewn setiau data, gan ymchwilio i'r cydberthyniad rhwng dau newidyn. Rwy'n gallu defnyddio data er mwyn dod i gasgliadau am ragdybiaethau, ac rwyf wedi mynegi fy nghanfyddiadau yn glir. Rwy'n gallu trafod fy nulliau a'm canfyddiadau yn feirniadol.	Rwy'n gallu dadansoddi ystadegau'n feirniadol, gan ystyried sut y caiff data eu cyflwyno, eu dibynadwyedd, a'r modd, os o gwbl, y mae'r data wedi cael eu trin i adrodd stori benodol. Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar dystiolaeth ystadegol, gan adnabod bias ac anomaleddau.
		Rwy'n gallu archwilio canlyniad a siawns, gan ddefnyddio iaith briodol, ac rwy'n dechrau defnyddio gwerth rhifol i gynrychioli tebygolrwydd.	Yn systematig, rwy'n gallu archwilio'r holl ganlyniadau cyd-anghynhwysol posibl sy'n gysylltiedig â digwyddiadau dilynol a chyfunol.	Rwy'n gallu defnyddio modelu i ddatrys problemau sy'n ymwneud â thebygolrwydd digwyddiadau, cyd-anghynhwysol , annibynnol a dibynnol.

				Rwyf wedi archwilio'r berthynas rhwng amllder cymharol a thebygolrwydd damcaniaethol, ac rwy'n gallu llunio barn ar ganlyniadau data arbrol. Rwy'n gallu defnyddio dadleuon tebygoliaethol sy'n seiliedig ar ddamcaniaethau, gwybodaeth, gwaith ymchwil ac arbrolion er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus.
--	--	--	--	--

Cynllunio eich cwricwlwm

Mae hyn yn rhoi arweiniad penodol i'w ddefnyddio wrth ymgorffori dysgu o fewn mathemateg a rhifedd yn eich cwricwlwm. Dylai gael ei ddarllen ynghyd ag adran gyffredinol [Cynllunio eich cwricwlwm](#) sy'n berthnasol i ddysgu ac addysgu trwy bob maes dysgu a phrofiad.

Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol

Rhaid i gwricwlwm ymwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm. Mae'r canlynol yn rhai egwyddorion allweddol y dylai lleoliadau ac ysgolion eu hystyried wrth gynllunio dysgu ac addysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd (Maes).

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Llythrennedd

Dylai ymarferwyr ddatblygu profiadau diddorol a hygyrch i ddysgwyr dderbyn cyfleoedd rheolaidd i ddisgrifio, esbonio a chyfiawnhau eu dealltwriaeth o amrywiol gysyniadau mathemategol, gan ddefnyddio geirfa fathemategol briodol. Gellir datblygu sgiliau llythrennedd hefyd er mwyn disgrifio prosesau mathemategol, megis rhesymu, deall amrywiaeth o strategaethau cyfrifo, disgrifio delweddu siapiau, astudio a dehongli gwybodaeth mewn ystadegau a chymharu dulliau amgen cyn cyrraedd datrysiaid i broblem fathemategol. Gellir defnyddio'r sgiliau llythrennedd hyn wrth i ddysgwyr ddod ar draws problemau yn y byd go iawn.

Rhifedd

Fel mae'r enw'n ei nodi, mae rhifedd wrth galon y Maes hwn. Gellir cymhwyso a chysylltu'r pum hyfedredd mathemategol – Dealltwriaeth gysyniadol, Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau, Cymhwysedd strategol, Rhesymu rhesymegol a Rhuglder – gan ddefnyddio amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn i gyflwyno ac archwilio cysyniadau mathemategol, yn ogystal â'u cadarnhau. Er enghraifft, gellir cymhwyso'r defnydd o ganrannau i gyfraddau canrannol blyneddol (APR) er mwyn arddangos eu defnydd o safbwynt llythrennedd ariannol.

Cymhwysedd digidol

Mae dulliau digidol yn gwella sgiliau mathemategol a rhifedd dysgwyr ar draws amrywiaeth o sefyllfaoedd a fydd yn digwydd yn naturiol o fewn y maes dysgu a phrofiad. Mae hyn yn fwy na dim ond rhyngweithio â thechnoleg. Er enghraifft, gellir datblygu sgiliau digidol y dysgwyr trwy gydweithredu i ddatrys problem a datblygu [algorithmau](#) i gefnogi deall patrymau. Enghraifft arall fyddai creu graff gan ddefnyddio taenlen er mwyn gwella dealltwriaeth ddigidol yn ogystal â chryfhau sgiliau mathemategol a rhifedd y dysgwyr. Wrth iddyn nhw ddatblygu a dangos cynnydd, byddan nhw'n defnyddio sgiliau, prosesau, technegau a systemau digidol mwy cymhleth yn amlach, a hyn er mwyn creu datrysiadau i ymateb i broblemau, cyfleoedd neu anghenion penodol. Wrth i ddysgwyr ddangos cynnydd bydd agweddau ar gasglu, cynrychioli a dadansoddi, er enghraifft, yn dod yn fwyfwy soffistigedig.

Sgiliau cyfannol

Creadigrwydd ac arloesedd

Mae gweithio mathemategol yn datblygu ac yn gofyn am greadigrwydd a chywreinrwydd sydd hefyd yn trosglwyddo i agweddau eraill o fywyd. Yn aml wrth ddatrys problemau mathemategol nid yw'r dysgwr yn gwybod yn syth sut i fynd i'r afael â'r broblem; mae'n gofyn am greadigrwydd a dewrder i archwilio gwahanol ddulliau cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen. Mae cynllunio a modelu tasgau o fewn mathemateg yn datblygu gallu dysgwyr i droi syniadau yn weithredoedd.

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Mae datblygu meddwl rhesymegol a beirniadol yn sail i ddysgu ym mathemateg. Mae mathemateg yn dysgu sgiliau datrys problemau i ni, sgiliau sy'n trosglwyddo i bob maes yn y cwricwlwm, i fywyd yn gyffredinol ac i fyd gwaith. Mae mathemateg yn ymwneud â datrys problemau ac mae'n dechrau gyda dadansoddi'r anghenion cyn troi wedyn i ofyn cwestiynau a gwerthuso gwybodaeth. Wrth ddatblygu datrysiadau mae dysgwyr yn nodi dulliau posib ac yn datblygu dadleuon gan gyfiawnau eu penderfyniadau.

Effeithiolrwydd personol

Mae astudio mathemateg yn datblygu effeithiolrwydd personol. Wrth astudio mathemateg mae pawb yn wynebu heriau ar ryw adeg, ac mae goresgyn yr heriau hyn yn datblygu ac yn gofyn am ddyfeisgarwch a gwydnwch. Mae cyfathrebu am feddylfryd fathemategol a datrys problemau yn agwedd greiddiol o fathemateg. Mae cyfathrebu mathemategol yn fanwl gywir a rhesymegol, a bydd yn ddefnyddiol mewn bywyd yn gyffredinol.

Cynllunio a threfnu

Mae meddylfryd fathemategol yn gofyn i ddysgwyr fod yn drefnus, ac wrth iddyn nhw fynd trwy'r ysgol bydd eu sgiliau trefniadol yn datblygu, yn arbennig wrth iddyn nhw gynllunio a gweithredu'r [cylch trin data dilyniannol](#). Wrth ddatrys problemau mathemategol, dylai dysgwyr gael eu hannog i ragfynegi ac amcangyfrif datrysiadau, ac yna wirio eu hatebion, myfyrio ar eu canlyniadau a gwerthuso eu dulliau. Mae hyder cynyddol mewn datrys problemau mathemategol yn cefnogi dysgwyr i fod yn fwy uchelgeisiol wrth osod targedau a heriau i'w hunain gan gynnwys cynllunio sut i gyflawni'r rhain.

Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn

Mae gwahanol feysydd mathemateg yn hynod o ryng-gysylltiedig a dibynnol ar ei gilydd, ac mae cysyniadau yn cael eu ffurfio dros gyfnod o amser, gan dynnu ar wybodaeth a dysgu cynharach, yn aml o fwy nag un maes mathemategol. Wrth gynllunio ar gyfer dysgu unrhyw bwnc penodol mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r wybodaeth flaenorol y mae dysgwyr eu hangen er mwyn cael mynediad i'r pwnc newydd a'i ddeall.

Nid oes modd deall algebra, geometreg nac ystadegaeth heb ddealltwriaeth flaenorol o rif a chyfeiriadau cyson at rifau, cyfrifiadau a'r system rifau. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, maen nhw'n dysgu gweld mynegiannau rhifiadol yn berthynol yn hytrach nag yn [gyfrifiannol](#), e.e. cyfrifiant megis $2 + 8 = 10$, a bod hyn yn sail i ddeillio ffeithiau eraill e.e. $8 + 2 = 10$, $8 = 10 - 2$, ac yn y blaen. Mae hyn yn gosod sail ar gyfer defnyddio [symboleiddio algebraidd](#) yn llwyddiannus.

Mae gwneud cysylltiadau rhwng rhifydddeg ac algebra o gymorth i ddatblygu offer a sgiliau ar gyfer rhesymu [haniaethol](#) o oedran cynnar. Mae mesur yn agwedd ar feddylfryd geometraidd sy'n cysylltu'n agos â rhif, ac mae llawer o ddatblygiad dealltwriaeth o rif yn gallu ymddangos trwy fesur sy'n gynyddol soffistigedig. Mae meddylfryd geometraidd yn cynnwys [rhesymu cyfrannol](#), sy'n cysylltu gyda datblygu mewn gwaith rhif; mae hefyd yn cynnwys trawsffurfio siapiau sy'n perthyn i'r defnydd o [ffwythiannau](#) a mapio mewn algebra. Mae tebygolrwydd yn cael ei fynegi trwy rif mewn amrywiol ffyrdd, gan ddefnyddio canrannau, ffractsiynau a degolion ynghyd â dealltwriaeth o'r gwahanol gynrychioliadau; mae'r cysylltiadau rhyngddyn nhw yn angenrheidiol ar gyfer mynegi tebygolrwydd yn effeithiol. Mae ystadegau yn ymwneud â thrin, cynrychioli a dehongli data, sydd yn ei dro yn gofyn am feddylfryd rhifiadol a geometraidd.

Y nod yw cyflwyno'r Maes fel bod newid mewn diwylliant gyda dysgwyr yn meithrin agwedd gadarnhaol a gwydn tuag ato.

Ystyriaethau ar gyfer datblygu cwricwlwm

- Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i archwilio amgylcheddau mathemategol cyfoethog dan do a thu allan. Bydd yr amgylchedd yn briodol ar gyfer datblygiad a bydd yn hwyluso profiadau uniongyrchol gyda chysyniadau mathemategol ac amrywiaeth o adnoddau.
- Dylid llywio strwythur a dilyniant pynciau o fewn mathemateg a rhifedd gan natur hierarchaethol a chysylltiadol cysyniadau mathemategol, er mwyn sicrhau adeiladu ar seiliau a chysylltu profiadau.
- Mae angen i ddysgwyr ddod yn gynyddol rugl yn eu defnydd o rif, trwy amrywiaeth eang o brofiadau er mwyn disgrifio, dehongli a chyfathrebu maint, graddfa a chymariaethau, o fewn yn ogystal â thu hwnt i fathemateg. Dylen nhw ddod yn gynyddol rugl yn eu cyfrifo, gyda yn ogystal â heb gyfrifiannell.
- Trwy gyflwyno dull rhesymu a datrys problemau ar gyfer holl brofiadau mathemateg a rhifedd, cefnogir datblygu'r pedwar diben ac ymagweddau cadarnhaol.
- Trwy ddefnyddio enghreifftiau o fywyd go iawn i gyflwyno, archwilio a chadarnhau cysyniadau mathemategol, mae dysgwyr o bob oed yn gwneud cysylltiadau rhwng y [diriaethol](#), y delweddol a'r [haniaethol](#). Trwy amrywiaeth o brofiadau, mae dysgwyr yn gwerthfawrogi grym mathemateg i fynegi perthnasoedd yn gryno, mewn ffurfiau sy'n gyffredinol ddealladwy.
- Dylai dysgwyr ymwneud â thasgau ystyrlon a sylweddol megis: modelu problemau rhifiadol bywyd go iawn, cyfrifo ariannol megis creu a gwerthuso cyllidebau ar gyfer digwyddiadau a dadansoddi risgiau, datblygu dilyniannau mathemategol trwy

batrymau ym myd natur a defnyddio'r **cylch trin data dilyniannol** i osod ac ymchwilio eu cwestiynau ymchwil eu hunain.

- Dylai ymarferwyr ystyried y defnydd priodol o amrywiaeth o dechnolegau digidol, **trinolion**, gwrthrychau pob-dydd, a chynrychioliadau diriaethol a haniaethol o wrthrychau mathemategol i fod o gymorth i ddysgwyr ymwneud â chysyniadau mathemategol o fwy nag un persbectif.
- Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu dehongli atebion a gwirio eu bod yn gwneud synnwyr mewn cyd-destun, gan gynnwys trwy amcangyfrif, a'u bod yn gallu defnyddio dulliau priodol i ateb cwestiynau drwy gasglu, dadansoddi a chrynhoi data a dehongli canlyniadau. Maen nhw'n gallu gwerthuso eu dulliau ac awgrymu ffyrdd gwahanol neu well o ymchwilio yn y dyfodol.
- Dylid datblygu dealltwriaeth ddofn mewn mathemateg a rhifedd trwy gynllunio ar gyfer y pum hyfedredd mathemategol, a sut mae'r rhain yn cysylltu a chymhwyso mewn amrywiaeth o gyd-destunau.
- Mae'r hyfedreddau yn rhyng-gysylltiedig a rhyngddibynnol; ni ddylen nhw gael eu gweld yn hierarchaidd a gallan nhw ddatblygu ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd dysgwyr yn datblygu eu hyfedreddau mathemategol ar amserau gwahanol ac efallai'n datblygu nifer ohonyn nhw ar yr un pryd. Er enghraifft, wrth i blentyn ddod yn fwy rhugl yn adio rhifau dau ddigid, byddan nhw'n datblygu eu dealltwriaeth gysyniadol o werth lle.
- Nid oes disgwyl i'r pum hyfedredd i gyd ddatblygu o fewn sesiwn unigol, ond mae angen i'r pump gael eu datblygu yn ystod cysyniad mathemategol penodol. Mae rhai prosesau a chymhwysiaid, er enghraifft y cylch trin data dilyniannol, a ddylai gael eu cyflwyno o'r cychwyn gan eu bod yn hanfodol i ddealltwriaeth gysyniadol.

Defnyddio'r hyfedreddau, enghraifft gyd-destunol: Dysgu am ffracsiynau – achos $\frac{1}{2}$

Dealltwriaeth gysyniadol

Deall bod hanner yn deillio o rannu rhywbeth yn ddwy ran hafal. Gallai hyn fod trwy gysylltu profiadau diriaethol a/neu brofiadau bywyd go iawn o ddosrannu gwrthrychau a rhifau yn rhannau hafal gyda delweddau (e.e. lluniau a delweddau ar y llinell rif) a'r cynrychioliad haniaethol o $\frac{1}{2}$ gan ddefnyddio'r nodiant symbolaidd. Efallai y gallai dysgwr sy'n deall beth yw hanner roi enghreifftiau o fywyd go iawn neu enghreifftiau delweddol, yn ogystal â gallu esbonio pam y gallai rhywbeth beidio â bod yn hanner (e.e. pitsa wedi'i dorri'n ddwy ran nad ydyn nhw'n hafal).

Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau

Deall yr arferiad o sut mae hanner yn cael ei ysgrifennu, a beth mae'r symbolau yn ei olygu. Gallai hyn hefyd gynnwys cysylltu rhannu a ffracsiynau (mewn geiriau eraill $\frac{1}{2} = 1 \div 2$) a defnyddio termau megis rhifiadur ac enwadur.

Cymhwysedd strategol

Gallu adnabod sefyllfaoedd bywyd go iawn sy'n ymwneud â hanner, a gallu cynrychioli'r rhain yn fathemategol; gallu modelu sefyllfaoedd yn ymwneud â haneru yn fathemategol; defnyddio lluniau/delweddau ac iaith a symbolau i ddangos hanner.

Rhesymu rhesymegol

Gallu deall y gwahaniaeth rhwng hanner a chyfan; gallu cyfiawnhau pam mae $\frac{2}{4}$ hefyd yn hanner. Gallu rhesymu bod $\frac{1}{2} + \frac{1}{2} = 1$, $\frac{1}{2} \times 2 = 1$ a $1 \div 2 = \frac{1}{2}$. Gallu cyfiawnhau pam mae llawer ffordd o hollti siâp yn ei hanner.

Rhuglder

Gallu cyfrif mewn camau o hanner a gallu dechrau adalw hanerau rhifau.

Trwy gysylltu'r hyfedreddau hyn o fewn profiad dysgwr o $\frac{1}{2}$, dylai dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth ddofn o hanner fel enghraifft o ffracsiwn. Gellir amrywio dulliau o gyflwyno'r elfennau hyn, ond yn y pen draw, dylai cael cyfleoedd i archwilio a chysylltu'r hyfedreddau hyn sicrhau cynnydd y dysgwr o fewn y cysyniad hwn.

Ystyriaethau o ran addysgeg

- Nid oes ymchwil sy'n dangos bod un ffordd o addysgu mathemateg yn well nag unrhyw ffordd arall. Er hyn, dylai addysgeg sicrhau datblygiad cyffredinol yr hyfedreddau hyn a hefyd fod yn berthnasol i'r fathemateg sy'n cael ei haddysgu.
- Mae angen i addysgu mathemateg fod yn gysyniadol gysylltiedig a chydlynol. Mae hyn yn gofyn am feistrolaeth a chofio cysyniadau blaenorol; mannau cychwyn dealladwy; defnydd cyson o iaith, symbolau, delweddu a chynrychioliadau eraill; dewis goleuedig o enghreifftiau; defnydd perthnasol o offer digidol. Dylai'r rhain gael eu cyfuno o fewn dilyniannau gwersi a allai gynnwys datrys problemau, archwilio, cyfarwyddyd uniongyrchol, cymhwysiad, ymarferion a thasgau estynedig fel sy'n briodol ar gyfer y fathemateg benodol a ddysgir a datblygiad cyffredinol y pum hyfedredd. Ar unrhyw bwynt yn y dilyniant gallai'r ffocws mathemategol fod yn gysyniad newydd, ymestyniad o gysyniad blaenorol, perthynas, techneg, ffaith, theorem, strategaeth fathemategol neu ffordd o feddwl.
- Bydd cwestiynau sy'n arwain, ynghyd â gwybodaeth am ddewis a dilyniannu dulliau addysgeg er mwyn rheoli'r amrywiaeth hon, yn cael eu cynnwys yn yr adnodd ar [addysgeg](#).

Enghreifftio ehangder

Darperir y canlynol fel enghreifftiau o sut y gallech archwilio dysgu testunol gwahanol yn y Maes hwn. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

Gallai rhifedd a gwybodaeth am gyd-destunau byd go iawn gynnwys deall cyfraddau cyfnewid, cyfrifiadau morgeisi a threthiant, gan gynnwys y system treth sy'n datblygu yng Nghymru. Drwy feddwl algebraidd a gwybodaeth am algebra, gallai dysgwyr ddatblygu galluedd y gellir eu cymhwyso i destunau gan gynnwys cyllid personol a chynhyrchu ynni yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Gallai geometreg dynnu ar enghreifftiau, a helpu i ddatblygu gwybodaeth, o ddatblygu trefol, sy'n wahanol ledled Cymru, technoleg feddygol a delweddu cyfrifiadurol. O sylfaen gadarn o ddatrys problemau, rhesymu rhesymegol a deall data, mae Mathemateg a Rhifedd yn hanfodol i ddinasyddion gwybodus sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill

Wrth gynllunio eich cwricwlwm, dylech ystyried sut mae dysgu yn cysylltu ar draws Meysydd er mwyn sicrhau dull holistaidd o ddysgu. Gellir defnyddio mathemateg a rhifedd ar draws pob Maes arall i gyfoethogi ysgogi a chefnogi dysgu. Yn ogystal, gellir datblygu mathemateg a rhifedd trwy Feysydd eraill. Mae rhai o'r cysylltiadau allweddol i ddysgu yn y Maes hwn yn cael eu hamlinellu isod.

Celfyddydau Mynegiannol

Mae'r defnydd o rifedd a chysyniadau o'r Maes hwn wedi ymwreiddio ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, gan gefnogi pob disgyblaeth. Dylid rhoi ystyriaeth i gyfrif, dilyniannu ac amser, ac archwilio sut y gellir defnyddio gofod, patrymau, cymesuredd, siâp a safle ar draws y celfyddydau. Gellir hefyd archwilio cymarebau, graddfa, cyfraneddau a ffracsiynau yn y Celfyddydau Mynegiannol, er enghraifft mewn cerddoriaeth. Gall defnyddio caneuon a rhigymau gynorthwyo gydag ymwreiddio rhifedd yn ystod y camau cynnydd cynnar.

Iechyd a Lles

Un o'r cysylltiadau pwysicaf yw'r cysylltiad â Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ac mae'r enghreifftiau yn cynnwys ymdrin â llythrennedd ariannol a risg. Ymdrinnir â llythrennedd ariannol yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig sy'n ymdrin â'r system rif. Mae hyn yn cael ei gadarnhau yn iechyd a lles lle y gallai dysgu archwilio llythrennedd ariannol trwy risg a dyled bersonol, a'u canlyniadau. Oherwydd cysylltiadau mor agos anogir yn gryf ddysgu'r ddwy elfen arbennig yma yn gyfochrog.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles hefyd yn darparu i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys goblygiadau penderfyniadau ac ystyriaethau risg. Mae rhifedd yn cynnig cyd-destun pwysig ar gyfer archwilio a chefnogi gwneud penderfyniadau'n gadarnhaol, yn arbennig mewn perthynas â phenderfyniadau ariannol.

Ar ben hynny, mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynnig cyfle i archwilio rôl rhifedd wrth brynu a pharatoi bwyd i gefnogi maeth, a'i rôl wrth fesur pellter, pwysau ac amser.

Dyniaethau

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnig cyd-destunau dilys ar gyfer cymhwyso mathemateg a sgiliau rhifedd. Mae ymholiadau yn y dyniaethau yn defnyddio ystod o ddata ansoddol a meintiol. Yn aml byddant hefyd yn cynnwys casgliad o ddata craidd gan ddefnyddio dulliau samplu, a chynrychioliad a dadansoddiad data ac ystadegau mewn amrywiaeth o ffurfiau. Cynigir cyfleoedd i ddysgwyr drefnu a dosbarthu data ac adnabod tueddiadau, patrymau ac anomaleddu. Mae cefnogi entrepreneuriaeth, cymhareb a graddfa, cyllid, talgynnu a threfnu hefyd yn berthnasol.

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Gellir defnyddio caneuon a rhigymau i ddysgu rhifedd cynnar ym mhob iaith. Mae dod o hyd i batrymau a'u cymhwyso ar gyfer datrys problemau yn sgil sydd ei hangen ar gyfer cynnydd yn y ddau Faes yma.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

O'r defnydd o ddata ac ystadegau mewn ymholiad a thystiolaeth, geometreg a mesur mewn dylunio a datblygu, hyd at drin data mewn technoleg, mae dysgu mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn aml yn seiliedig ar gynnydd mewn dealltwriaeth fathemategol, fel y'u mynegir trwy'r pum hyfedredd mathemategol. Felly mae sawl cysylltiad cwricwlaidd rhwng y ddau Faes yma ac, yn aml, maen nhw'n eithaf manwl. Gall ysgolion ddymuno ystyried dilyniannu cwricwlwm yn arbennig wrth ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm er mwyn sicrhau bod cyfleoedd mewn gwyddoniaeth a thechnoleg i gyd-destunoli dysgu mathemategol cysyniadol yn cael eu gweithredu'n llawn.

Themâu trawsbynciol

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y Maes hwn

Mae mathemateg yn iaith fyd-eang. Er mwyn gwneud synnwyr o'r iaith hon a deall cysyniadau mathemategol, mae dysgwyr angen enghreifftiau wedi'u gwreiddio mewn bywyd pob-dydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr ifanc nad ydyn nhw'n aml yn gallu meddwl yn haniaethol. Bydd dysgu o fewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn galluogi dysgwyr i ddeall y cysylltiad rhwng mathemateg a rhifedd a chyd-destunau dilys bywyd go iawn sy'n cwmpasu Cymru yn ogystal â'r byd.

Mae gan Gymru hanes balch o gynhyrchu mathemategwyr nodedig, a dylai ysgolion ystyried pob cyfle i dynnu sylw i'w llwyddiannau, gan ysbrydoli dysgwyr i ddod yn fathemategwyr eu hunain.

Mae defnyddio enghreifftiau rhyngwladol o amrywiaeth o ddiwylliannau yn galluogi dysgwyr i ddeall hanes mathemateg a'i datblygiad i fod yn iaith ryngwladol, ac un y gellir ei chymhwyso'n fyd-eang. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo a chefnogi dysgu trawsgwricwlaidd.

Dylai ymarferwyr archwilio ffynonellau ac adnoddau lleol, gan ddefnyddio amgylchedd unigryw ysgol i wella dysgu ym mathemateg a rhifedd. Mae defnyddio enghreifftiau Cymreig wrth addysgu materion ariannol, er enghraifft cyfraddau treth incwm sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru a'u cytuno gan y Senedd, yn pwysleisio'r cyswllt rhwng mathemateg a rhifedd a'r byd go iawn.

Y Gymraeg: ystyriwch addysgu dysgwyr y ffordd draddodiadol, [ugeiniol](#), o gyfrif yn Gymraeg, yn ogystal â'r ffordd ddegol, er mwyn pwysleisio natur arbennig mathemateg yng nghyd-destun y Gymraeg.

Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith yn y Maes hwn

Mae cwricwlwm Mathemateg a Rhifedd sy'n ddiddorol a chyffrous yn ysbrydoli dysgwyr ac yn rhoi sail iddyn nhw ddod yn ddysgwyr gydol oes. Byddan nhw'n derbyn cyfleoedd gyrfa cyfoethog ac amrywiol.

Mae astudio mathemateg a rhifedd yn gymorth i ddatblygu sgiliau mewn meddwl yn rhesymegol, datrys problemau a gwneud penderfyniadau, ac mae'r rhain yn rhinweddau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr ar draws nifer o sectorau swyddi.

Dylai athrawon wneud dysgwyr yn ymwybodol o'r amrywiaeth eang o yrfaoedd sydd ar gael trwy ymwneud â chyflogwyr megis sgysiaid â chyflogwyr, ymweliadau â safleoedd gwaith, digwyddiadau neu weithgareddau ymarferol i ddangos sut mae mathemateg a rhifedd yn angenrheidiol i'r byd gwaith, wrth fod yn weithiwr neu'n entrepreneur. Mae ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau yn ymwneud â byd gwaith o fewn mathemateg a rhifedd yn galluogi mwy o ymwneud, yn codi dyheadau ac yn llywio gwneud penderfyniadau'n effeithiol. Mae'n galluogi dysgwyr i ddeall a gwerthuso byd gwaith.

Trwy gyd-destunau dilys, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i brofi mathemateg o fewn byd gwaith. Dylai ysgolion roi pwrpas i ddysgu mathemategol trwy greu prosiectau menter o fewn yr ysgol ac yn y gymuned leol gan ddatblygu, meithrin a gwerthuso sgiliau entrepreneuriaidd.

Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Cyflwyniad

Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn ein byd modern. Mae datblygiadau yn y meysydd hyn wedi bod yn gyfrifol am arwain newid yn ein cymdeithas erioed. Mae'r rhain yn sail i arloesi ac yn effeithio ar fywyd pob un, yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol. Felly bydd Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Maes) yn gynyddol berthnasol yn y cyfleoedd y bydd ein hieuenctid ni yn eu profi, a'r dewisiadau y byddan nhw'n eu gwneud mewn bywyd.

Mae mynediad parod i gasgliad enfawr o ddata yn gofyn bod dysgwyr yn gallu asesu mewnbynau'n feirniadol, deall sail gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno fel ffaith, a gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n effeithio ar eu hymddygiad a'u gwerthoedd eu hunain. Mae angen iddyn nhw feithrin y gallu i ofyn, yn ystyrlon, y cwestiwn: 'Ydy'r ffaith ein bod ni'n gallu yn golygu y dylen ni?'

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi'i fynegi mewn chwe datganiad sy'n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu **pedwar diben** y cwricwlwm.

Drwy werthuso tystiolaeth wyddonol a thechnolegol mewn ffordd gadarn a chyson, gall dysgwyr ddod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**, a fydd yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gweithredoedd yn y dyfodol. Daw **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas** yn wybodus drwy wybod am eu cyrff a'r ecosystemau o'u hamgylch, a thrwy wybod sut y gall datblygiadau technolegol arloesol gefnogi gwelliannau mewn perthynas ag iechyd a ffordd o fyw.

Dylai **dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes** ymwneud â newidiadau gwyddonol a thechnolegol. Gall yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddofn a geir wrth brofi'r hyn sy'n bwysig mewn gwyddoniaeth a thechnoleg fod o gymorth i ddysgwyr fyw bywydau annibynnol a chyflawn, a'u hannog i gyfrannu tuag at gymdeithas a diwylliant mewn amryfal ffyrdd. Mae dysgwyr sy'n **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith** yn croesawu heriau o'r fath, oherwydd byddan nhw'n cael eu hannog i gymryd risg, i arloesi a gwerthuso, a dysgu sut i ddarganfod atebion. Felly, gallan nhw ddod yn ddysgwyr mwy gwydn a phwrrpasol ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r Maes hwn yn tynnu ar ddisgyblaethau bioleg, cemeg, gwyddoniaeth gyfrifiadurol, dylunio a thechnoleg, a ffiseg er mwyn dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r byd.

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.

Mae chwilfrydedd am wyddoniaeth a thechnoleg yn ein hannog i ofyn cwestiynau am y byd o'n cwmpas. Wrth gael eu hannog i ddefnyddio rhesymeg, tystiolaeth a chreadigrwydd, caiff dysgwyr eu cefnogi i ymchwilio i wybodaeth wyddonol, a'i chymhwyso, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio. Bydd datblygu a phrofi **modelau** defnyddiol hefyd o gymorth iddyn nhw wneud synnwyr o gymhlethdod y byd. Gyda thystiolaeth sy'n deillio o arsylwadau, gellir datblygu damcaniaethau newydd a gellir mireinio neu herio syniadau sy'n bodoli eisoes.

Bydd angen i ddysgwyr allu gwerthuso honiadau gwyddonol i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n effeithio ar ein hamgylchedd ac ar ein lles. Mae'r dewisiadau a wnawn yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys safbwyntiau moesol a chredoau personol. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil trylwyr a chadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer penderfyniadau. Fel dinasyddion egwyddorol wybodus, bydd angen i ddysgwyr ystyried effaith eu gweithredoedd a datblygiadau gwyddonol a thechnolegol yn lleol, yng Nghymru a'r byd ehangach, gan ofyn 'Ydy'r ffaith ein bod ni'n gallu yn golygu y dylen ni?'

Mae meddylfryd dylunio a pheirianeg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

Trwy gymhwyso eu profiadau, eu sgiliau a'u gwybodaeth, gall dysgwyr ddylunio a siapio datrysiadau peirianyddol arloesol. Bydd bod yn rhan o broses ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn annog dysgwyr i fod yn greadigol er mwyn datblygu syniadau, rheoli a lliniaru risg, a lleihau cymhlethdodau. Wrth greu cynnyrch, gwasanaethau a systemau, bydd angen i ddysgwyr ddeall a rheoli'r rhyngweithio rhwng defnyddiau, strwythurau, cydrannau a defnyddwyr. Trwy gymhwyso prosesau peirianyddol, galluogir dysgwyr i ddatblygu cywirdeb, manylder, dehurwydd a chreffftwaith. Trwy ddylunio a dyfeisio canlyniadau mewn ymateb i anghenion a dymuniadau, gall dysgwyr ddod yn ddatrysyr problem blaengar.

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Trwy sylwi ar amrywiaeth pethau byw, a sut maen nhw'n ymwneud â'u hamgylchedd, gall dysgwyr ddod i ddeall sut mae'r rhain wedi esblygu dros gyfnodau sylweddol o amser. Mae angen amodau ac adnoddau penodol ar bob peth byw er mwyn goroesi, a gall fod yn rhaid iddyn nhw gystadlu ag organebau eraill er mwyn gwneud hynny. Mae pobl yn rhan o'r byd hwn o bethau byw, a gall ein penderfyniadau a'n gweithredoedd, ynghyd â'r broses ddetholiad naturiol, gael effaith sylweddol ar amrywiaeth bywyd. Mae gwybod am strwythurau a swyddogaethau pethau byw yn galluogi dysgwyr i ddeall sut mae'r rhain yn tyfu, datblygu ac atgenhedlu'n llwyddiannus. Mae datblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llwyddiant organebau yn caniatáu i ni wneud penderfyniadau gwybodus, gan gynnwys chwilio am ffyrdd o atal a thrin clefydau.

Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.

Mae'r bydysawd a phob peth byw wedi cael eu gwneud o fater. Mae sut mae **mater** yn ymddwyn yn pennu priodweddau defnyddiau ac yn ein galluogi i ddefnyddio adnoddau naturiol, yn ogystal â chreu sylweddau newydd. Gall deall natur mater fod o gymorth i ddysgwyr werthfawrogi'r dylanwad y mae cemeg yn ei gael ar y byd o'u hamgylch, yn ogystal â'r ffordd y mae'n cyfrannu at ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae adweithiau cemegol yn digwydd yn gyson yn ein hamgylchedd yn ogystal ag oddi mewn i bethau byw. Mae dysgu sut i reoli a chymhwyso'r adweithiau hyn o fudd i unigolion a diwydiant.

Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.

Gellir defnyddio **grymoedd** ac egni er mwyn disgrifio ymddygiad popeth, o flociau adeiladu lleiaf mater i symudiad y sêr a'r planedau. Gall deall grymoedd ac egni ein helpu i ragfynegi a rheoli ymddygiad ein hamgylchedd. Gellir modelu'r syniadau hyn a'u mynegi'n ffurfiol, gan ddarparu fframwaith mathemategol cyson ar gyfer disgrifio systemau ffisegol. Mae hyn wedi arwain at rai o ddarganfyddiadau gwyddonol a chyflawniadau peirianyddol mwyaf cymdeithas. Gall deall grymoedd ac egni fod o gymorth i ddysgwyr ddod i ben â heriau yn y dyfodol ac i ddefnyddio adnoddau ein planed yn effeithlon a chynaliadwy, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion cyfrifol.

Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.

Mae cyfrifiaduraeth yn ymwneud ag **algorithmau** yn prosesu data er mwyn datrys amrywiaeth eang o broblemau bywyd go iawn. Mae prosesau cyfrifiadurol wedi newid y ffordd rydyn ni'n byw, gweithio, astudio a rhyngweithio â'n gilydd a'n hamgylchedd. Dyma fan cychwyn pob system caledwedd a meddalwedd, ond mae angen i ddysgwyr hefyd fod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r hyn y gall cyfrifiaduron eu cyflawni. Er mwyn creu a defnyddio'r technolegau hyn i'w llawn botensial, bydd angen i ddysgwyr wybod sut maen nhw'n gweithio. Bydd angen iddyn nhw hefyd ddeall fod yna ganlyniadau eang, yn gyfreithiol, cymdeithasol a moesol, i'r defnydd o dechnoleg. Gall hyn fod o gymorth i ddysgwyr wneud penderfyniadau gwybodus am ddatblygiad a'r defnydd o dechnoleg yn y dyfodol.

Egwyddorion cynnydd

Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Caiff cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Maes) ei ddangos wrth i ddysgwyr archwilio a phrofi syniadau a chysyniadau cynyddol gymhleth sy'n rhan o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae gwybodaeth yn symud, drwy archwilio, o ddealltwriaeth bersonol o'r byd i safbwynt haniaethol sy'n galluogi'r dysgwr i gysyniadu a chyfiawnhau ei ddealltwriaeth. Yn hytrach na bod yn llinol, mae cynnydd dysgu yn gylchol, gyda dysgwyr yn ailystyried eu gwybodaeth bresennol, yn ei chysylltu â'r hyn y maen nhw newydd ei ddysgu, ac yn addasu sgemâu yn sgil darganfyddiadau newydd.

Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd

cynnwys meithrin dealltwriaeth ddofn o'r dysgu sy'n cael ei fynegi ym mhob datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes a'r cydberthnasau a'r cysylltiadau cymhleth sy'n bodoli rhyngddyn nhw. Gellir cymhwyso sgiliau ymchwilio sy'n cael eu meithrin yng nghyd-destun un datganiad o'r hyn sy'n bwysig mewn rhai eraill. Gall dulliau iteradd o ddatrys problemau mewn cyfrifiadureg a dylunio a thechnoleg hefyd fod o fudd i bob gwyddoniaeth. Caiff dysgu yn y cyfnod cynnar ei nodweddu gan ddull holistaidd o ofyn cwestiynau ac archwilio'r byd o gwmpas y dysgwr, gan arbenigo'n gynyddol yn ystod cyfnodau diweddarach.

Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau

Mae ymchwilio, archwilio, dadansoddi, datrys problemau, a dylunio yn sgiliau allweddol sydd eu hangen wrth i ddysgwyr weithio ar hyd continwwm dysgu y Maes hwn. Wrth i ddysgwr wneud cynnydd, mae'n archwilio ac yn ymchwilio i broblemau ac yn ffurfio atebion creadigol canlyniadol mewn ffordd gynyddol soffistigedig. Mae coethder a chywirdeb cynyddol yn yr hyn y mae dysgwyr yn gallu ei wneud a'i gynhyrchu yn yr amgylcheddau ffisegol a digidol.

Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd ar hyd y continwwm, byddan nhw'n gallu nodi cysylltiadau cynyddol rhwng dysgu presennol a phrofiadau eraill a gwybodaeth arall a gafwyd yn y Maes hwn a'r tu hwnt. Bydd hyn yn cynnwys creu cysylltiadau â gwybodaeth a phrofiadau o'r tu hwnt i amgylchedd yr ysgol. Mae problemau ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg yn ymwneud â phenblethau moesegol neu foesol a bydd dealltwriaeth gynyddol o'r ffordd yr ymdrinnir neu y dylid ymdrin â'r penblethau hyn yn dangos cynnydd. Bydd dysgwyr yn datblygu'r gallu i gymhwyso eu dysgu ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg er mwyn llywio'r ffordd y maen nhw'n meddwl ac yn gweithredu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Effeithiolrwydd cynyddol

Mae datrys problemau a dylunio yn tueddu i fod yn iteradd; daw meithrin hunaneffeithiolrwydd a gwydnwch sy'n gysylltiedig â sgiliau yn bwysig er mwyn galluogi dull 'treialu a gwella'. Dros amser, ceir annibyniaeth gynyddol wrth ddysgu, gan gynnwys rhyngddibyniaeth mewn dysgu drwy grŵp cyfoedion. Dylai dysgwyr feithrin ymwybyddiaeth o'u dealltwriaeth gynyddol soffistigedig a'r gallu i reoleiddio eu meddwl eu hunain.

Disgrifiadau dysgu

Mae archwilio'r byd o'n cwmpas yng Nghamau cynnydd 1 a 2 yn darparu sylfaen ar gyfer dysgu ar draws datganiadau am yr hyn sy'n bwysig mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Felly, mae rhai disgrifiadau dysgu yn y camau cynnydd sylfaenol hyn yn cael eu dyblygu ar draws rhai datganiadau yr hyn sy'n bwysig, lle bo hynny'n uniongyrchol berthnasol, er mwyn cefnogi cynllunio ar gyfer cynnydd dysgu yn well.

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu dangos chwilfrydedd a chwestiynu sut mae pethau'n gweithio.	Rwy'n gallu gofyn cwestiynau a defnyddio fy mhrofiad i awgrymu dulliau ymholi syml.	Rwy'n gallu nodi cwestiynau y mae modd eu hymchwilio'n wyddonol, a gallu awgrymu dulliau ymholi addas.	Rwy'n gallu ymchwilio, dyfeisio a defnyddio dulliau ymholi addas er mwyn ymchwilio i'm cwestiynau gwyddonol.	Rwy'n gallu dyfeisio, cyfiawnhau a defnyddio dulliau ymholi systematig er mwyn ymchwilio'n drylwyr i gwestiynau gwyddonol, a gallu adnabod cyfyngiadau.
Rwy'n gallu archwilio'r amgylchedd, gwneud arsylwadau a mynegi fy syniadau.	Rwy'n gallu adnabod patrymau ar sail fy arsylwadau a'm hymchwiliadau, ac rwy'n gallu mynegi fy nghanfyddiadau.	Rwy'n gallu awgrymu canlyniadau ar sail fy ngwaith ymchwil.	Rwy'n gallu ddefnyddio fy nghanfyddiadau er mwyn dod i gasgliadau dilys.	Rwy'n gallu cysylltu canfyddiadau arbrofol a gwybodaeth ddamcaniaethol er mwyn dod i gasgliadau dilys.
	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth i ragfynegi effeithiau fel rhan o'm hymchwiliadau gwyddonol.	Rwy'n gallu gwerthuso dulliau er mwyn awgrymu gwelliannau.	Rwy'n gallu gwerthuso a nodi ffyrdd o wella dibynadwyedd data, gan ystyried anomaleddau.	Rwy'n gallu gwerthuso ansawdd data yn feirniadol, a chyfiawnhau gwelliannau.
			Rwy'n gallu defnyddio ystod o fodelau i esbonio a rhagfynegi.	Rwy'n gallu cymhwyso a gwneud cysylltiadau rhwng amrywiaeth o fodelau a'u defnyddio i gefnogi neu wrthbrofi damcaniaethau.

	Rwy'n gallu adnabod y gall yr hyn a wnaif, a'r pethau a ddefnyddiaf, gael effaith ar fy amgylchedd ac ar bethau byw.			Rwy'n gallu gwerthuso effeithiolrwydd modelau a'u mireinio er mwyn sicrhau eu bod yn gweddu'n well i'r dystiolaeth sydd ar gael.
	Rwy'n gallu archwilio'r berthynas rhwng pethau byw, eu cynefinoedd a'u cylchoedd bywyd. Rwy'n gallu arsylwi ar a disgrifio'r ffyrdd y mae defnyddiau yn newid wrth eu cymysgu gyda'i gilydd. Rwy'n gallu archwilio gwahanol ffurfiau o egni, a sut y mae'n gallu cael ei drosglwyddo. Rwy'n gallu archwilio a mynegi priodweddau sylfaenol golau, sain, trydan a magnetau. Rwy'n gallu nodi pethau yn yr amgylchedd a all fod yn niweidiol, a gallu gweithredu er mwyn lleihau risg i mi fy hun ac i eraill.	Rwy'n gallu mynd i'r afael â materion gwyddonol a thechnolegol i lywio fy marn fy hun.	Rwy'n gallu dewis gwybodaeth wyddonol berthnasol o ystod o ffynonellau dystiolaeth er mwyn gwerthuso honiadau a gyflwynir fel ffeithiau gwyddonol. Rwy'n gallu adolygu fy safbwyntiau fy hun yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol newydd.	Rwy'n gallu ymchwilio i honiadau a gyflwynir fel ffeithiau gwyddonol, a'u gwerthuso, drwy ystyried dilysrwydd y dystiolaeth ategol. Rwy'n gallu gwerthuso damcaniaethau amgen, lle nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn cefnogi un canlyniad yn bendant, a hyn er mwyn llunio barn ystyriol.
		Rwy'n gallu deall sut y gall yr hyn a wnaif fi a phobl eraill gael effaith ar yr amgylchedd ac ar bethau byw. Rwy'n gallu disgrifio effeithiau gwyddoniaeth a thechnoleg, y gorffennol a'r presennol, yn fy mywyd pob-dydd.	Rwy'n gallu esbonio sut mae effaith yr hyn a wnawn ni yn cyfrannu at newidiadau yn yr amgylchedd a bioamrywiaeth. Rwy'n gallu disgrifio effeithiau gwyddoniaeth a thechnoleg, y gorffennol a'r presennol, ar gymdeithas.	Rwy'n gallu gwerthuso materion cyfoes sy'n effeithio ar y blaned a'i bioamrywiaeth. Rwy'n gallu gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith datrysiadau gwyddonol a thechnolegol ar lefel bersonol, gymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae meddylfryd dylunio a pheirianeg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu dylunio wrth wneud, a chyfathrebu am yr hyn rwyf yn ei wneud. Rwy'n gallu defnyddio offer syml, defnyddiau a chyfarpar yn ddiogel er mwyn adeiladu a dadadeiladu. Rwy'n gallu archwilio priodweddau defnyddiau, a dewis gwahanol ddefnyddiau at ddefnydd penodol. Rwy'n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd.	Rwy'n gallu cynhyrchu dyluniadau i fynegi fy syniadau mewn ymateb i gyd-destunau penodol. Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau dylunio, gan ddefnyddio fy ngwybodaeth am ddefnyddiau a chynnyrch sy'n bodoli eisoes, ac awgrymu gwelliannau dylunio. Rwy'n gallu archwilio sut mae gwahanol gydrannau yn cydweithio. Rwy'n gallu ddefnyddio ystod o offer, defnyddiau a chyfarpar yn ddiogel er mwyn adeiladu at amrywiaeth o ddibenion. Rwyf wedi cael profiad o ddefnyddio dulliau prototeipio sylfaenol i wella fy nghanlyniadau.	Rwy'n gallu dwyn ysbrydoliaeth o ffynonellau hanesyddol a diwylliannol ymhlith eraill er mwyn dylunio. Rwy'n gallu ymateb yn greadigol i anghenion a dymuniadau'r defnyddiwr, yn seiliedig ar gyd-destun ac ar yr wybodaeth a gasglwyd. Rwy'n gallu nodi ac ystyried ffactorau wrth ddatblygu cynigion dylunio. Rwy'n gallu defnyddio meddylfryd dylunio i brofi a mireinio fy mhenderfyniadau dylunio, heb ofni methu.	Rwy'n gallu ymchwilio a dwyn ysbrydoliaeth o ffynonellau hanesyddol a diwylliannol ymhlith eraill er mwyn dylunio datrysiadau creadigol. Rwy'n gallu adnabod anghenion a dymuniadau defnyddwyr a gweithredu arny'n nhw mewn cyd-destunau cynyddol heriol. Rwy'n gallu nodi a blaenoriaethu ffactorau sy'n llywio fy nghynigion dylunio. Rwy'n gallu datblygu fy meddylfryd dylunio er mwyn profi a mireinio fy mhenderfyniadau dylunio mewn ymateb i lwyddiant a methiant.	Rwy'n gallu ymchwilio, dadansoddi a dwyn ysbrydoliaeth o ffynonellau hanesyddol a diwylliannol ymhlith eraill er mwyn dylunio cynigion newydd sy'n ychwanegu gwerth. Rwy'n gallu mynd i'r afael â phroblemau anodd, ar fy mhen fy hun ac ar y cyd, er mwyn ymdrin â gofynion dylunio ehangach mewn cyd-destunau cynyddol anghyfarwydd. Rwy'n gallu baenoriaethu a chyfiawnhau nifer o ffactorau dylunio i wella effeithiolrwydd fy mhenderfyniadau dylunio. Rwy'n gallu defnyddio meddylfryd dylunio yn rhugl, gan gynnwys fy llwyddiannau a'm methiannau, er mwyn profi a mireinio fy mhenderfyniadau dylunio.

	Rwy'n gallu nodi pethau yn yr amgylchedd a all fod yn niweidiol, a gallu gweithredu er mwyn lleihau risg i mi fy hun ac i eraill. Rwy'n gallu archwilio a disgrifio priodweddau defnyddiau, a chyfiawnhau'r defnydd a wneir ohonyn nhw.	Rwy'n gallu cymhwyso fy ngwybodaeth a'm sgiliau wrth wneud fy mhenderfyniadau dylunio er mwyn cynhyrchu canlyniadau penodol. Rwy'n gallu ystyried sut y bydd fy nghynigion dylunio yn datrys problemau a sut y gall hyn effeithio ar yr amgylchedd.	Rwy'n gallu datblygu fy ngwybodaeth a'm sgiliau i gefnogi a mireinio fy mhenderfyniadau dylunio er mwyn cynhyrchu canlyniadau pwrpasol. Rwy'n gallu dilyn proses iterus i wella fy nghynigion dylunio gan leihau eu heffaith negyddol ar yr amgylchedd a'r gymdeithas.	Rwy'n gallu nodi pan mae angen i mi chwilio gwybodaeth a sgiliau newydd i gefnogi a mireinio fy mhenderfyniadau dylunio. er mwyn cynhyrchu canlyniadau pwrpasol. Rwy'n gallu dilyn proses iterus yn naturiol, sy'n ystyried canlyniadau bwriadol ac anfwriadol fy nyluniadau, a hyn er mwyn addasu a chyfiawnhau cynigion.
		Rwy'n gallu defnyddio dulliau cyfathrebu dylunio i ddatblygu a chyflwyno syniadau, ac ymateb i adborth.	Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau cyfathrebu dylunio er mwyn datblygu a chyflwyno syniadau'n glir, ac rwy'n gallu ymateb yn adeiladol i adborth.	Rwy'n gallu dewis a chymhwyso dulliau cyfathrebu addas yn annibynnol er mwyn datblygu a chyflwyno fy syniadau yn rhugl. Rwy'n gallu mynd i'r afael ag adborth gan wahanol gynulleidfaoedd ac ymateb yn adeiladol iddo.

		Rwy'n gallu cyfuno cydrannau, defnyddiau a phrosesau er mwyn sicrhau bod y cyfan yn weithredol ac i wella effeithiolrwydd fy nghynnyrch terfynol.	Rwy'n gallu ymchwilio, gwerthuso, dewis a chyfuno cydrannau, defnyddiau neu brosesau er mwyn bod fy nghynnyrch terfynol yn gwella o ran swyddogaeth ac effeithiolrwydd.	Rwy'n gallu dewis, cyfiawnhau a chyfuno cydrannau, defnyddiau a phrosesau yn annibynnol er mwyn gwella cynnyrch o ran swyddogaeth. Rwyf hefyd yn gallu gwerthuso effaith y rhain ar effeithiolrwydd fy nghynnyrch terfynol.
		Rwy'n gallu dewis a defnyddio offer, defnyddiau a chyfarpar addas yn ddiogel i sicrhau cynnyrch terfynol pwrpasol. Rwy'n gallu ddefnyddio dull prototeipio fel cyswllt rhwng fy nylunio a'm gwneud. Rwy'n gallu cymryd i ystyriaeth yr effaith y bydd fy ngwaith llunio yn ei gael ar yr amgylchedd.	Rwy'n gallu dewis a defnyddio offer a thechnegau arbenigol yn ddiogel er mwyn datblygu a llunio fy nghynnyrch terfynol. Rwy'n gallu ddefnyddio technegau prototeipio i brofi syniadau a helpu gyda'r broses o wneud. Rwy'n gallu ddefnyddio fy sgiliau gwneud a gwybodaeth am ddefnyddiau i sicrhau cynnyrch terfynol pwrpasol o safon uchel.	Rwy'n gallu dewis offer arbenigol yn annibynol, a'i ddefnyddio gyda chywirdeb manwl, er mwyn cyflawni tasgau cymhleth yn ddiogel ac effeithiol. Rwy'n gallu dewis a chymhwyso prototeipiau manwl a bras yn annibynnol er mwyn profi syniadau, defnyddiau a strwythurau. Rwy'n gallu ddefnyddio fy sgiliau gwneud a'm gwybodaeth am ddefnyddiau i gynhyrchu cynnyrch terfynol effeithiol o ansawdd uchel.

			Rwy'n gallu gwerthuso a chymhwyso arferion gweithio cyfrifol sy'n ystyried effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.	Rwy'n gallu cymhwyso a chyfiawnhau arferion gweithio cyfrifol sy'n ystyried effeithiau ar yr amgylchedd a chymdeithas.
--	--	--	---	--

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu adnabod bod planhigion ac anifeiliaid yn bethau byw sy'n tyfu. Rwy'n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd.	Rwy'n gallu adnabod patrymau ar sail fy arsylwadau a'm hymchwiliadau, ac rwy'n gallu mynegi fy nghanfyddiadau. Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth i ragfynegi effeithiau fel rhan o'm hymchwiliadau gwyddonol.	Rwy'n gallu disgrifio sut mae pethau byw yn cystadlu am adnoddau penodol ac yn dibynnu ar ei gilydd er mwyn goroesi. Rwy'n gallu disgrifio nodweddion organebau ac adnabod sut mae'r nodweddion hyn yn galluogi'r organebau i fyw, tyfu ac atgennhedlu er mwyn gallu goroesi yn eu hamgylchedd.	Rwy'n gallu disgrifio cyd-ddibyniaeth organebau mewn ecosystemau ac esbonio sut mae hyn yn effeithio ar eu siawns o oroesi. Rwy'n gallu esbonio sut y gall atgennhedlu, mwtaniadau a'r amgylchedd arwain at amrywiad ac addasiadau o fewn organebau a all effeithio ar eu siawns o oroesi.	Rwy'n gallu esbonio sut mae amrywiad organebau o fewn amgylchedd cyfnewidiol yn arwain at ddethol naturiol, sy'n ei dro yn llywio esblygiad.

	Rwy'n gallu adnabod y gall yr hyn a wnaif, a'r pethau a ddefnyddiaf, gael effaith ar fy amgylchedd ac ar bethau byw. Rwy'n gallu archwilio'r berthynas rhwng pethau byw, eu cynefinoedd a'u cylchoedd bywyd.	Rwy'n gallu esbonio'r rôl gwahanol organau a systemau sy'n galluogi i blanhigion ac anifeiliaid fyw a thyfu. Rwy'n gallu disgrifio rhai newidiadau mewn tyfiant a datblygiad sy'n cael eu hachosi gan hormonau.	Rwy'n gallu disgrifio lefelau trefniadaeth celloedd, a sut mae celloedd yn cyflawni prosesau biolegol sy'n sicrhau bod organebau'n datblygu a goroesi.	Rwy'n gallu esbonio sut mae prosesau biolegol a mecanweithiau rheoli yn galluogi i organebau weithio, datblygu, atgennedlu a goroesi.
		Rwy'n gallu nodi'r bygythiadau i ddatblygiad ac iechyd organebau ac yn adnabod rhai amddiffynfeydd naturiol, ataliad haint a thriniaethau.	Rwy'n gallu esbonio'r bygythiadau i ddatblygiad ac iechyd organebau, a gallu disgrifio sut mae effeithiau'r rhain yn cael eu lleihau drwy amddiffynfeydd naturiol, ataliad haint a thriniaethau.	Rwy'n gallu gwerthuso'r ffactorau ay'n effeithio ar ddatblygiad ac iechyd organebau. Rwy'n gallu esbonio sut y gall ataliad haint a thriniaeth gefnogi systemau amddiffyn naturiol, a gwella iechyd organebau.

Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu archwilio priodweddau defnyddiau, a dewis gwahanol ddefnyddiau at ddefnydd penodol. Rwy'n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd.	Rwy'n gallu adnabod patrymau ar sail fy arsylwadau a'm hymchwiliadau, ac rwy'n gallu mynegi fy nghanfyddiadau. Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth i ragfynegi effeithiau fel rhan o'm hymchwiliadau gwyddonol. Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau dylunio, gan ddefnyddio fy ngwybodaeth am ddefnyddiau a chynnyrch sy'n bodoli eisoes, ac awgrymu gwelliannau dylunio. Rwy'n gallu archwilio a disgrifio priodweddau defnyddiau, a chyfiawnhau'r defnydd a wneir ohonyn nhw.	Rwy'n gallu adnabod bod newidiadau mewn defnyddiau, o dan wahanol amodau, yn effeithio ar eu priodweddau a'r defnydd a wneir ohonyn nhw.	Rwy'n gallu disgrifio ac esbonio priodweddau gwahanol fathau o fater a nodi sut mae hyn yn berthnasol i sut maen nhw'n cael eu defnyddio.	Rwy'n gallu ddefnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am natur atomig mater er mwyn esbonio strwythur a phriodweddau defnyddiau, a chymhwyso hyn i ba ddefnydd a wneir ohonyn nhw.
			Rwy'n gallu disgrifio gwahanol fathau o adweithiau cemegol, egluro'r defnydd a wneir ohonyn nhw a nodi unrhyw effeithiau'r cynnyrch sy'n cael ei ffurfio. Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am adweithiau cemegol i esbonio beth sy'n digwydd pan mae amodau yn cael eu newid.	Rwy'n gallu esbonio sut a pham mae gwahanol fathau o adweithiau cemegol yn digwydd, a gallu disgrifio'r rhain mewn termau atomig neu foleciwlaidd, yn ogystal â mewn termau meintiol. Rwy'n deall sut y gellir rheoli a chadw trefn ar gynnyrch ac effeithiau adweithiau.

	Rwy'n gallu arsylwi ar a disgrifio'r ffyrdd y mae defnyddiau yn newid wrth eu cymysgu gyda'i gilydd.	Rwy'n gallu adnabod bod ein planed yn darparu defnyddiau naturiol, a gallu esbonio pam y gellir eu bod wedi cael eu prosesu i'w gwneud yn ddefnyddiol.	Rwy'n gallu defnyddio gwahanol ddulliau i ddadansoddi defnyddiau er mwyn deall eu cyfansoddiad. Rwy'n gallu disgrifio sut mae angen gwahanol dechnegau i wahanu a phuro defnyddiau amrywiol.	Rwy'n gallu ddefnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o fater i esbonio sut y gellir defnyddio gwahanol dechnegau i echdynnu puro a dadansoddi defnyddiau at amrywiaeth o ddibenion.
--	--	--	---	---

Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd.	Rwy'n gallu adnabod patrymau ar sail fy arsylwadau a'm hymchwiliadau, ac rwy'n gallu mynegi fy nghanfyddiadau. Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth i ragfynegi effeithiau fel rhan o'm hymchwiliadau gwyddonol.	Rwy'n gallu archwilio sut mae gweithredu grymoedd penodol yn gallu effeithio ar fudiant gwrthrych. Rwy'n gallu ddefnyddio modelau syml mewn amrywiaeth o ffurfiau i ddisgrifio'r grymoedd sy'n gweithredu ar wrthrych.	Rwy'n gallu esbonio a chyfrifo sut mae nifer o rymoedd sy'n gweithredu ar wrthrych yn effeithio ar ei fudiant.	Rwy'n gallu dadansoddi symudiad gwrthrychau'n feintiol, a deall sut y gall gweithredu grymoedd arnyn nhw newid eu mudiant.

	Rwy'n gallu archwilio gwahanol ffurfiau o egni, a sut y mae'n gallu cael ei drosglwyddo. Rwy'n gallu mynegi'r effaith y mae grymoedd yn ei gael arnaf fi ac ar wrthrychau. Rwy'n gallu archwilio a mynegi priodweddau sylfaenol golau, sain, trydan a magnetau.	Rwy'n gallu esbonio y gellir trosglwyddo egni o un lle i'r llall, a sut y gellir defnyddio hyn i ddarparu'r egni sydd ei angen arnom yn ein bywydau modern.	Rwy'n gallu deall cadwraeth egni a gallu esbonio bod egni'n cael ei ddefnyddio ar wahanol gyfraddau, a bod hyn yn effeithio ar bŵer ac effeithlonrwydd system. Rwy'n gallu cymhwyso'r hyn rwy'n ei wybod am egni a grymoedd i ddyluniadau newydd, a gallu gwella effeithlonrwydd systemau.	Rwy'n gallu meintoli'r egni mewn systemau a chymhwyso hyn i ddyluniadau system er mwyn gwella effeithlonrwydd.
		Rwy'n gallu disgrifio'r ffactorau sy'n effeithio ar gylchedau trydanol, a bydd hyn yn galluogi i mi addasu newidynnau a rhagfynegi beth fydd yn digwydd.	Rwy'n gallu esbonio'r ffactorau sy'n effeithio ar gerrynt a disgrifio'r ffordd y mae'n ymddwyn mewn amrywiol gylchedau. Rwy'n gallu dylunio a chreu cylchedau fydd yn cyflawni gwaith penodol.	Rwy'n gallu esbonio a modelu'n feintiol sut mae cylchedau'n ymddwyn. Rwy'n gallu dylunio ac adeiladu cylchedau aml-gydran yn annibynnol er mwyn datrys problemau.

		Rwy'n gallu esbonio sut mae priodweddau sain a golau yn effeithio ar sut maen nhw'n cael eu profi. Wrth drin priodweddau sain a golau, rwy'n gallu cynhyrchu effaith pendodol.	Rwy'n gallu rhagfynegi ymddygiad tonnau mewn gwahanol sefyllfaoedd. Trwy gymhwyso rheolau syml, rwy'n gallu defnyddio tonnau i ddysgu mwy am y byd o'm cwmpas.	Rwy'n gallu esbonio sut a pham mae amrywiol categorïau o donnau yn cael eu defnyddio at wahanol ddibenion. Rwy'n gallu cymhwyso dealltwriaeth o donnau i ofyn cwestiynau a datrys problemau.
		Rwy'n gallu disgrifio sut mae meysydd magnetig yn ymddwyn, ac archwilio gwahanol ffyrdd ymarferol o'u defnyddio.	Rwy'n gallu archwilio meysydd magnetig trwy arbrofi er mwyn ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar eu cryfder. Rwy'n gallu cymhwyso fy nealltwriaeth o sut mae meysydd yn rhyngweithio er mwyn archwilio'r gwahanol ffyrdd o ddefnyddio magnetedd.	Rwy'n gallu defnyddio modelau i sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o'r cysylltiadau rhwng grym, cerrynt a meysydd magnetig.

Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu nodi, dilyn a dechrau creu dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob-dydd.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o offer, defnyddiau a chyfarpar yn ddiogel er mwyn adeiladu at amrywiaeth o ddibenion.	Rwy'n gallu defnyddio datganiadau amodol i ychwanegu rheoli a phenderfyniadau at algorithmau .	Rwy'n gallu dadelfennu problemau penodedig a dewis lluniadau addas i fynegi datrysiadau mewn amrywiaeth o amgylcheddau.	Rwy'n gallu nodi, diffinio a dadelfennu problemau, dewis lluniadau addas a mynegi datrysiadau mewn amrywiaeth o amgylcheddau.
Rwy'n dechrau dilyn cyfres o gyfarwyddiadau .	Rwy'n gallu defnyddio technegau meddylfryd cyfrifiadurol gan ddefnyddio gweithgareddau di-blwg neu all-lein.	Rwy'n gallu nodi patrymau ailadroddol a defnyddio dolennau i wneud fy alorithmau yn fwy cryno.	Rwy'n gallu dewis a defnyddio strwythurau data sy'n rheoli data yn effeithlon mewn algorithmau .	Rwy'n gallu defnyddio technegau trafod ffeiliau i drin data mewn algorithmau .
Rwy'n gallu arbrofi ag ystod o dechnolegau cyfrifiadurol yn y byd o'm cwmpas, a nodi pa ddefnydd a wneir ohonyn nhw.	Rwy'n gallu creu algorithmau syml ac yn dechrau esbonio camgymeriadau.	Rwy'n gallu esbonio a dadfygio algorithmau .	Rwy'n gallu cynllunio a gweithredu strategaethau profi er mwyn adnabod gwallau mewn rhaglenni.	Rwy'n gallu profi, gwerthuso a gwella datrysiadau mewn meddalwedd.
	Rwy'n gallu dilyn algorithmau i ddarganfod eu pwrpas a rhagfynegi canlyniadau.	Rwy'n gallu defnyddio synwryddion ac ysgogyddion mewn systemau sy'n casglu a phrosesu data am amgylchedd y systemau.	Rwy'n gallu dethol a defnyddio nifer o synwryddion ac ysgogyddion sy'n galluogi i systemau cyfrifiadurol ryngweithio gyda'r byd o'u cwmpas.	Rwy'n gallu cynllunio a chreu systemau ffisegol sy'n defnyddio cydrannau addas a rhesymeg i gyflawni tasgu neu i gyrraedd at nod.

	Rwy'n dechrau esbonio pwysigrwydd data cywir a dibynadwy er mwyn sicrhau canlyniad boddhaol.	Rwy'n gallu nodi elfennau dylunio cadarnhaol a negyddol sy'n effeithio ar sut mae defnyddwyr yn rhyngweithio.	Rwy'n gallu cymhwyso egwyddorion dylunio er mwyn dylunio ystod o ryngweithiau effeithlon ar gyfer defnyddwyr.	Rwy'n gallu cymhwyso egwyddorion dylunio er mwyn dylunio ystod o ryngweithiau effeithlon ar gyfer defnyddwyr, a gwerthuso effeithiolrwydd trwy astudiaethau'r defnyddwyr.
	Rwy'n gallu ddilyn cyfarwyddiadau er mwyn adeiladu a rheoli dyfais ffisegol.	Rwy'n gallu esbonio sut y gellir rhyng-gysylltu dyfeisiau digidol yn lleol a byd-eang. Rwy'n gallu esbonio pwysigrwydd diogelu'r dechnoleg rwy'n ei defnyddio a phwysigrwydd gwarchod safon fy nata. Rwy'n gallu esbonio sut mae fy nata yn cael eu defnyddio gan wasanaethau er mwyn fy helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus wrth ddefnyddio technoleg.	Rwy'n gallu esbonio sut mae systemau'n cyfathrebu, er mwyn dylunio rhwydwaith. Rwy'n gallu esbonio'r technegau a ddefnyddir i gadw a throsglwyddo data, a deall sut maen nhw'n agored i niwed.	Rwy'n gallu adeiladu a phrofi systemau cyfathrebu gyda'r nod o warchod fy systemau a'm data fy hun.

		Rwy'n gallu esbonio sut mae data yn cael ei storio a'i brosesu. Rwy'n gallu storio a thrin data yn effeithiol er mwyn cynhyrchu a dangos gwybodaeth ddefnyddiol yn weledol.	Rwy'n gallu dewis y ffurf fwyaf addas o gadw data a'u harchwilio. Rwy'n gallu defnyddio gweithredyddion mathemategol a rhesymegol o fewn gwahanol feddalwedd er mwyn archwilio trywydd ymholi yn annibynnol.	Rwy'n gallu cymhwyso technegau cyfrifiadurol i archwilio setiau data er mwyn cael gwybodaeth ddefnyddiol ohonyn nhw.
--	--	---	--	---

Cynllunio eich cwricwlwm

Mae hyn yn rhoi arweiniad penodol i'w ddefnyddio wrth ymgorffori dysgu o fewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn eich cwricwlwm. Dylai gael ei ddarllen ynghyd ag adran gyffredinol [Cynllunio eich cwricwlwm](#) sy'n berthnasol i ddysgu ac addysgu trwy bob maes dysgu a phrofiad.

Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol

Rhaid i gwricwlwm ymwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i **bedwar diben** y cwricwlwm. Mae'r canlynol yn rhai egwyddorion allweddol y dylai lleoliadau ac ysgolion eu hystyried wrth gynllunio dysgu ac addysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Maes).

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Llythrennedd

Mae gwybodaeth a defnydd dysgwyr o eirfa wyddonol a thechnegol yn hanfodol i ddatblygu deallusrwydd o syniadau a chysyniadau pwysig o fewn y Maes hwn. Gall lleoliadau ac ysgolion fod o gymorth i ddysgwyr ddatblygu defnydd o ystod o eirfa arbenigol, deall tarddiad y termau hyn a'u defnyddio'n naturiol o oedran cynnar.

Rhifedd

Mae sgiliau rhifedd yn bwysig wrth ddyfnhau dealltwriaeth ymarferol dysgwyr o gysyniadau gwyddonol a thechnolegol, gan gynnwys cydnabyddiaeth o sail fathemategol y disgyblaethau sylfaenol. Gall lleoliadau ac ysgolion fod o gymorth i ddysgwyr ddatblygu sgiliau rhifedd effeithiol, gan gynnwys rhai ar gyfer dylunio a mesur, **modelu** a chyfathrebu syniadau, dadansoddi a rhagfynegi, ac yna ddod i ganlyniad.

Cymhwysedd digidol

Mae'r Maes hwn yn cynnig ystod o gyfleoedd i ddatblygu casgliad amrywiol o gymwyseddau digidol gan gydnabod eu natur a'u cymhwysiad trawsgwricwlaidd. Gall cyfraniadau yn y Maes hwn gynnwys cipio ac archwilio data, adnabod a gwerthuso prosesau cyfrifiadurol, dylunio a mynegi meddwl dysgwyr gan ddefnyddio dyfeisiau a systemau digidol. Mae defnydd dysgwyr o ystod o dechnolegau digidol a rhaglenni meddalwedd hefyd ymhlyg mewn nifer o'r disgrifiadau dysgu yn y Maes hwn, sy'n ategu cyfleoedd tebyg i ddatblygu'r sgiliau hyn mewn meysydd eraill. Felly, wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried sut a phryd y dylid dysgu'r gallu i ddefnyddio'r rhain, gan adeiladu ar ddysgu blaenorol.

Sgiliau cyfannol

Creadigrwydd ac arloesedd

O fewn y Maes hwn gall ysgolion ddatblygu'r sgiliau hyn trwy annog y dysgwyr i fod yn chwilfrydig ac ymholgar am y byd ffisegol a digidol, gan fod o gymorth i ddysgwyr gwestiynu neu herio gwybodaeth wedi'i sefydlu eisoes er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth eu hunain. Bydd hyn yn cynnig sail i ddatblygu cynnyrch a gweithredoedd yn dangos menter.

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Mae hyn yn galluogi dysgwyr i fynd i'r afael â chamdybiaethau o fewn y Maes hwn, ac yn galluogi dealltwriaeth gysyniadol ddyfnach, mwy o annibyniaeth a hunanreoleiddio, a sgiliau ymchwilio cryfach. Mae datrys problemau yn sbardun allweddol wrth ddylunio a pheiriannu datrysiadau arloesol.

Effeithiolrwydd personol

Gellir dyfnhau'r sgiliau hyn trwy fyfyrwyr ar brosesau a datblygiadau gwyddonol a thechnolegol. Gall dealltwriaeth y dysgwyr am y byd o'u hamgylch fod o gymorth iddyn nhw weithio tuag at ganlyniadau pwrpasol tra'n datblygu gwydnwch a dyfalbarhad, lle mae methu'n cael ei gyfri fel cam tuag at lwyddo.

Cynllunio a threfnu

Mewn prosesau gwyddonol a thechnolegol gall y sgiliau hyn alluogi dysgwyr i ddod yn gynyddol annibynnol wrth ddatblygu eu syniadau, gweithredu datrysiadau, a monitro a myfyrwyr ar ganlyniadau.

Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn

Nid yw'r chwe datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn yn cyfateb yn union i'r meysydd pynciau traddodiadol. Er hyn, gellir adnabod agweddau o'r pynciau traddodiadol gwyddoniaeth a thechnoleg trwy'r holl Faes. Dylid cyd-destunoli'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig ynghylch bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion trwy'r holl Faes. Yn ychwanegol at hyn, wrth ystyried ymchwiliad gwyddonol mae'r [Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol](#) yn rhoi manylion pellach er mwyn cefnogi cynllunio cwricwlwm yn seiliedig ar yr agweddau hyn o addysgu. Hefyd mae'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig ynghylch dylunio a pheirianneg yn cynnig cyfleoedd i gymhwyso dysgu sy'n cael ei fynegi yn y pum datganiad arall o'r hyn sy'n bwysig er mwyn dod o hyd i atebion gwyddonol a thechnolegol.

Egwyddorion allweddol wrth gynllunio eich cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn

- Mae ehangder dysgu mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn sylfaenol gysylltiedig â datblygu dyfnder deallusrwydd, ac mae'r naill yn cefnogi'r llall. "Nid yw ehanger ac arbenigo yn golygu colli ehanger wrth arbenigo ... mae deall llawer am goed yn hanfodol i ddeall coedwigoedd." (Wineburg, S., 1997). Mae dyfnder gwybodaeth yn galluogi dysgwyr i drosglwyddo'r hyn a ddysgir i gyd-destunau newydd, a hynny'n annibynnol. Trwy hyn bydd ehanger eu dealltwriaeth yn dyfnhau ymhellach. Dyna pam mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi cael eu dylunio gyda rhyngddibyniaethau cadarn, ac ni ddylid eu hystyried ar wahân wrth gynllunio cwricwlwm yr ysgol.
- Gall datblygu ystod o bartneriaethau, ac ymwneud â phobl broffesiynol ac arbenigwyr ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg, gan gynnwys ond heb gyfyngu i ddylunwyr, gwyddonwyr, peirianwyr, gwyddonwyr cyfrifiadurol a chrefftwyr, ehangu profiadau i ddyfnhau dealltwriaeth dysgwyr. Felly gall chwilio cyfleoedd i gydweithio gydag ystod o arbenigwyr a rhanddeiliaid gwyddoniaeth a thechnoleg wrth ymwneud â dylunio a chynllunio'r cwricwlwm (gan gynnwys diwydiant lleol a sefydliadau trydydd sector) fod o gymorth i ysgolion. Gellir hefyd archwilio defnyddio arbenigedd pynciol ar draws ysgolion er mwyn llywio cynllunio a datblygu cwricwlwm.
- Mae'r Maes hwn yn tynnu ar waith ymchwilwyr blaenllaw ym maes ac yng ngwaith sefydliadau eraill. Wrth gynllunio eich cwricwlwm, gallai ysgolion ystyried yn benodol waith ar *The Big Ideas of Science* a *The Big Ideas in Design and Technology*, yn ogystal â gwaith y canlynol ar ddatblygu cwricwlwm: Sefydliad Ffiseg, Cymdeithas Frenhinol Bioleg, Cymdeithas Frenhinol Cemeg, Cymdeithas Gyfrifiaduron Prydain ac Addysg a'r cyfnodolyn Addysg Dylunio a Thechnoleg.
- Wrth gynllunio agweddau gwyddoniaeth a thechnoleg eich cwricwlwm, lle bo'n briodol, dylai ysgolion hwyluso dysgu trwy [brofiadau](#) gweithredol ac ymarferol. Dylai profiadau dysgu ymarferol o natur benodol, thematig neu [aml-ddisgyblaethol](#) gryfhau dysgu a dealltwriaeth gysyniadol, ac nid sicrhau bod dysgwyr yn ymwneud â thasgau cofiadwy a dymunol yn unig. Wrth gynllunio dilyniant o fewn dysgu ac addysgu gwyddoniaeth a thechnoleg dylid ystyried yr [wybodaeth](#) neu'r [sgiliau](#) sydd eu hangen ar ddysgwyr, cyn cynnwau eu diddordeb mewn ymholiadau neu weithgareddau mwy ymarferol.

- Mae archwilio a phrofi'r byd trwy ymholi gan gynnwys gwaith maes, ymchwilio amgylcheddau dan do a thu allan mewn ffordd ddiogel a threfnus, yn allweddol i'r holl ddysgwyr ar draws y continwmm 3 i 16. Gall hyn helpu adeiladu dealltwriaeth dysgwyr o wahanol faterion amgylcheddol a bod o gymorth iddyn nhw ddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch tuag at bopeth byw a'r amgylchedd rydyn ni'n byw ynddo.

Ystyriaethau allweddol wrth gynllunio eich cwricwlwm ar gyfer y Maes hwn

- Sut y gall ymholiad sy'n atgyfnerthu dealltwriaeth gysyniadol, hefyd datblygu gwybodaeth weithredol?
- Sut y gallwch ddatblygu dysgu cyd-destunol am **fodelau** ffisegol, mathemategol a chysyniadol?
- Pa ddull fyddwch chi'n ei ddefnyddio i ystyried natur tystiolaeth wyddonol, ochr yn ochr â goblygiadau ac effaith gwyddoniaeth a thechnoleg ar gynladwyedd a'r amgylchedd?
- Sut y gallwch danio creadigrwydd ac arloesedd dysgwyr, tra'n datblygu cymhlethdodau dylunio a chreu?
- Sut y gallwch sicrhau bod gallu dysgwyr i gynhyrchu canlyniadau yn cael ei ddatblygu fel elfen gynhenid o'r cwricwlwm?
- Sut y gallwch gefnogi dealltwriaeth o **fioamrywiaeth**, prosesau biolegol, iechyd a haint ac esblygiad?
- Sut y gallwch gefnogi dealltwriaeth dysgwyr o strwythur a phriodweddau defnyddiau, yn ogystal ag ymchwiliad o **adweithiau** cemegol?
- Sut y gellir rhoi datblygiad dealltwriaeth sut mae echdynnu, puro a dadansoddi defnyddiau mewn cyd-destun?
- Sut y gall dysgu am drydan, **grymoedd** a magnetedd gael ei integreiddio'n ehangach yn eich cwricwlwm ysgol?
- Sut y gall dysgu am y gofod a'r bydysawd gael ei ddefnyddio i gefnogi dealltwriaeth wyddonol gysyniadol?
- Sut y gallwch roi dysgu am gymhwyso tonnau mewn cyd-destun?
- Sut y gall dysgu am ddylunio, datblygu a chymhwyso technoleg, meddalwedd a systemau gael ei archwilio ar draws eich ysgol?
- Sut y byddwch chi'n manteisio ar y dysgu yn y Maes hwn er mwyn cynllunio datblygiad sgiliau digidol y dysgwyr gan ddefnyddio ystod o dechnoleg a meddalwedd?

Cyd-destunau a phrofiadau allweddol yn y Maes hwn

Gellir ystyried rhain drwy dair agwedd o wybodaeth; trefniadol, **epistemig** a chynnwys, a allai fod o gymorth wrth ystyried natur y dysgu mewn gwyddoniaeth a thechnoleg wrth ddatblygu cwricwlwm ysgol. Gall datblygu gwybodaeth sut i ymgymryd â gweithgaredd gwyddoniaeth a thechnoleg (trefniadol) berthyn yn agos i wybod am eu gwerth a'u safle mewn cymdeithas (epistemig) a chyda'i gilydd gallan nhw gael eu hystyried fel agweddau ar ddysgu 'am' wyddoniaeth a thechnoleg. Yn benodol, gellir gweld y dysgu hwn yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig fel rhywbeth sy'n ymwneud â bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion, a dylunio a pheirianeg. Tra bod yna ryngberthnasau lluosog, mae gwybodaeth am gynnwys (neu ddysgu 'ynghylch' gwyddoniaeth a thechnoleg) yn cael ei fynegi yn fwy uniongyrchol yn y datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig.

Gall agweddau trefniadol y Maes hwn gynnwys:

- **gwahanol fathau o ymchwiliad**, gan gynnwys dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, adnabod a lliniaru risg a pheryglon, a defnydd priodol o ystod o offer, yn ogystal ag ymchwiliad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr fel rhan o'r broses meddylfryd dylunio
- **defnyddio modelau** (o Gam cynnydd 3) gyda dysgwyr yn adeiladu, mireinio, defnyddio a gwerthuso ystod o fodelau (gan gynnwys **modelau mathemategol** a chysyniadol), gall hyn gynnwys dysgu am sut maen nhw wedi cael eu datblygu a'u mireinio trwy ddarganfyddiadau gwyddonol a thechnolegol. Defnyddir ystod eang o fodelau yn y Maes hwn gan gynnwys: cynrychioli rhyngddibyniaeth, deall cylchred maeth, modelau haniaethol o gerrynt trydanol, a phrosesau cyfrifiadurol
- **gwylio pethau byw** yn eu cynefin naturiol trwy'r continwwm 3 i 16, gan arwain at ddosbarthiad mwy soffistigedig o ddosbarthu a chasglu data i fesur a chymharu **bioamrywiaeth**
- dysgu **sut y gellir trin defnyddiau**:
 - trwy chwarae yn y camau cynharach, cymysgu defnyddiau a gwybod y gall defnyddiau newid, ac o dan rai amodau byddan nhw'n adweithio a ffurfio rhywbeth newydd, yn ogystal â chael eu cyfuno i greu cynhyrchion newydd
 - yn y camau diweddarach, gellir archwilio gwahanol fathau o **adweithiau** cemegol gan gynnwys: niwtraliad, ocsideiddio, adweithiau ecothermig ac endothermig, yn ogystal â dadleoliad a rhydwythiad
- ystod o **dechnegau ymarferol**, sy'n dod yn gynyddol gymhleth wrth i ddysgu ddatblygu (gan gynnwys cymryd mesuriadau a gwneud arsylwadau), yn ogystal ag ystyried sut mae technegau gwahanu a dadansoddi penodol yn briodol ar gyfer gwahanol ddibenion, a dulliau echdynnu
- datblygu **gwybodaeth gysyniadol a threfniadol o ystod o ddefnyddiau a thechnegau** trwy brofiadau ymarferol i oleuo **meddylfryd dylunio** dysgwyr a chefnogi eu gallu i wneud pethau a pheirianeg
- prosesau **dylunio iteradd**, gan gynnwys profi a gwerthuso cyson. Mae methiant ac ymateb beirniadol yn brofiadau pwysig ac mae dysgu ymateb i'r rhain yn gymorth i adeiladu gwydnwch. Mae defnyddio **prototeipio bras a manwl** a chynhyrchu o safon uchel hefyd yn cefnogi prosesau dylunio iteradd
- datblygu **sgiliau motor manwl** a **sgiliau motor bras** yn arwain at **gywirdeb, manylder a chreffftwaith** trwy ystod o weithgareddau dysgu sy'n cynyddu mewn amrywiaeth wrth i ddysgwyr ddangos cynnydd
- archwilio'r **defnydd o donnau** fel modd o wneud arsylwadau a chynnal profion. Gall arbrofi gyda phlygiant syml golau yn y camau cynharaf, er enghraifft, adeiladau dealltwriaeth sut mae microscopau a chwyddwydrau yn gweithio

- **defnyddio gweithgareddau ‘di-blwg’ trwy’r continwwm 3 i 16** i fod o gymorth i droi cysyniadau cyfrifiadurol yn weledol. Mae gweithgareddau ymarferol gydag ystod o offer a dyfeisiau yn arbennig o berthnasol ar gyfer dysgu egwyddorion rhaglennu a datblygu dealltwriaeth gysyniadol ddyfnach o gystrawen a lluniadau allweddol cyn gweithredu a chymhwyso
- profiadau sy’n **pontio’r byd ffisegol a’r byd digidol**, trwy ddefnyddio synwryddion, ysgogyddion a dyfeisiau sy’n rhyngweithio gyda’u hamgylchedd, ac yn ei drin, gan fonitro a chasglu data. Wrth ddylunio arteffactau digidol gellir archwilio dysgu sy’n canolbwyntio ar ryngweithio dynol-gyfrifiadurol a dylunio sy’n ddefnyddiwr-ganolog (fel sy’n cael eu mynegi yn y datganiad o’r hyn sy’n bwysig sy’n ymwneud a dylunio a pheirianeg).

Mae agweddau epistemig yn y Maes hwn yn cynnwys:

- **gwerthuso tystiolaeth**, gyda dysgwyr yn dod o hyd i ac ymwneud ag ystod o dystiolaeth o ddilysrwydd, dibynadwyedd a hygredd amrywiol. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau yn y presennol a’r gorffennol, datblygiadau technolegol ac, wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, rôl data mewn tystiolaeth, a sut mae tystiolaeth empirig yn llywio syniadau mewn gwyddoniaeth
- **effaith gwyddoniaeth a thechnoleg** ar gymdeithas a sut mae hyn yn cael ei werthuso, gan gynnwys yng nghyd-destun argyfwng yr hinsawdd. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i drafod manteision a pheryglon datblygiadau technolegol a gwyddonol, adeiladu eu dealltwriaeth o effaith gweithgarwch dynol ar wahanol amgylcheddau, a datblygu a gwerthuso strategaethau (gan gynnwys **dylunio cylchol**) i leihau effeithiau negyddol gweithgarwch dynol
- **archwilio modelau** o Gam cynnydd 3. Dylai dysgwyr ddysgu am wahanol fodelau a sut y gallan nhw gael eu defnyddio i ddatrys problemau, gwyllo tueddiadau, esbonio a rhagfynegi ymddygiad
- sut y gellir cyfuno ac integreiddio cydrannau i gynhyrchu canlyniadau a gwella swyddogaethedd, gan gynnwys **meddylfryd systemau**
- **technoleg dylunio**, gyda dealltwriaeth ddofn o ddymuniadau ac anghenion dysgwyr, gan ddefnyddio empathi ac archwiliad. Gall cyd-destunau gynnwys rhai entrepreneuraidd, damcaniaethol a dychmygu dyfodol posib, a dylen nhw ystyried ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol. Wrth anelu at ddatrysiadau dylunio effeithiol a gwybodus, gall dysgwyr gaffael a chymhwyso corff cynyddol o wybodaeth am y byd y maen nhw’n ei ddylunio ar ei gyfer
- cyfleoedd i greu ac arloesi trwy ffynonellau ystod eang ac annisgwyl o ysbrydoliaeth er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau. O Gam cynnydd 4 ymlaen, gellir archwilio cysyniadau megis **dylunio cylchol**, **darfodiad bwriadus** a **thechnolegau aflonyddgar**
- sut mae gwybodaeth am **sut y gellir cymhwyso gwahanol ddefnyddiau** yn cefnogi eu dewis ar gyfer dylunio a chynhyrchu cynnyrch defnyddiol

- sut mae defnyddio ystod o **dechnolegau digidol, offer a systemau** ar draws y cwrïcwlm yn adeiladu dealltwriaeth o sut y gall technolegau effeithio ar fywydau a gyrfaedd dysgwyr yn y dyfodol.

Gall agweddau yn y Maes hwn gynnwys:

- dosbarthiad **pethau byw** a'r amodau maen nhw eu hangen i oroesi, ochr yn ochr â ffactorau sy'n effeithio ar brosesau biolegol ac iechyd organebau. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd dylai prosesau gynnwys resbiradu, ffotosynthesis, treuliad, cellraniad ac atgenhedlu. Mae hyn hefyd yn cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o esblygiad
- **deall eu hiechyd eu hunain**: sut y gall ymddygiad effeithio ar iechyd corfforol y dysgwyr (gan gynnwys maeth, defnydd o sylweddau a gweithgaredd) yn ogystal ag atgenhedlu rhywiol, datblygiad dynol a rôl hormonau
- **natur defnyddiau** a'r gwahanol ffyrdd y gellir dosbarthu sylweddau. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd gall hyn adeiladu gwybodaeth ddofn o theori gronynnau gan gynnwys cyfansoddiad gronynnau a sut maen nhw'n rhyngweithio â'i gilydd:
 - gall adeiladu ar ddysgu archwiliadol trwy chwarae, dysgu am briodweddau ffisegol defnyddiau a chyflyrau (megis solidau, hylifau a nwyon) arwain mewn dysgu diweddarach at ddatblygu gwybodaeth am strwythurau molecylau
 - dros gyfnod o amser, dealltwriaeth o briodweddau metalaau ac anfetelaau, sut mae priodweddau yn cael eu heffeithio gan eu strwythurau (e.e. dargludedd, pwynt toddi a hydrinedd), natur sylweddau organig ac anorganig, a gwahanol fathau o ymbelydredd
- sut y gellir cefnogi deall **tueddiadau mewn adweithedd** gyda dysgu trwy'r tabl cyfnodol mewn camau cynnydd diweddarach:
 - gwybodaeth am y berthynas rhwng elfennau; adnabod tueddiadau a phatrymau a rhagfynegi ynghylch gwahanol fathau o fondio
 - sut effeithir ar gyfraddau **adweithiau** gan ffactorau (megis tymheredd, crynodiad ac arwynebedd arwyneb) sy'n arwain at ffactorau eraill (megis defnyddio catalydd neu newid gwasgedd)
 - gweithredu cyfrifiadau ar y priodweddau ffisegol sy'n ymwneud ag adweithiau; masau, crynodiadau, cyfeintiau ac egni gan ddefnyddio hafaliadau â geiriau a symbolau, a dehongliad o fformiwlaâu cemegol
- **defnyddiau naturiol** (e.e. olew a mwynau) a'u prosesu, ynghyd â gwahanol brofion cemegol. Mae dealltwriaeth o'r defnydd o gyfres adweithedd wrth echdynnu metal, a bod rhaid i fwyafrif o ddefnyddiau gael eu prosesu cyn y gellir eu defnyddio, er enghraifft, o gymorth wrth ddysgu am effaith gwyddoniaeth a thechnoleg ar yr amgylchedd

- gwybodaeth o sut mae **priodweddau deunyddiau yn gweithio** (gan gynnwys gorffeniadau), yn ogystal â thechnegau gwneud, gweithgynhyrchu ac adeiladu (gan gynnwys y rhai na fydd dysgwyr yn gallu eu profi yn yr ysgol, ond bydd angen iddyn nhw ddeall)
- **meysydd magnetig** a natur magnetau parhaol, gyda chysylltiadau sy'n galluogi dysgu ehangach am foduron a generaduron. Mae'r cyfuniad o feysydd a grymoedd magnetig yn galluogi trydan i gael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio i greu mudiant sy'n datblygu tuag at ddealltwriaeth o Ddeddfau Fleming mewn camau cynnydd diweddarach
- **trawsnewidiad egni** i amrywiol ffurfiau defnyddiol neu wastraff trwy gynhyrchu neu ddefnydd o drydan. Gall hyn arwain at werthfawrogiad o Ddeddf Cadwraeth Egni
- gall **trydan** a gynhyrchir gan eneraduron arwain at naill ai gerrynt union neu gerrynt eiledol. Yn achos cerrynt eiledol, mae angen dealltwriaeth o donnau. Am y rhesymau hyn, gall ysgolion ystyried trydan, grymoedd, mudiant, egni a magedau yn holistaidd wrth gynllunio eu cwricwlwm
- gall rôl **gwahanol fathau o donnau** alluogi dysgwyr i ddeall sut rydyn ni'n diddwytho cyfansoddiad y Ddaear, darparu tystiolaeth ar gyfer damcaniaethau o esblygiad a strwythur y Bydysawd, o gyfathrebu digidol cyfrifiadurol a chysyniadau archwilio diagnostig gan ddefnyddio tonnau a chasglu data. Gall gwybodaeth am donnau hefyd gefnogi dealltwriaeth gysyniadol dysgwyr o sain, acwsteg a [seingylchedd](#)
- sut mae'r **gofod** yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i gyffroi dysgwyr, gan gynnwys cyd-destun ar gyfer ystyried **trosglwyddiad egni**, yn ogystal â thonau a'r sbectrwm electromagnetig i alluogi arsylwadau a chasglu tystiolaeth. Gan adeiladu ar wybodaeth am y system solar, gall dysgwyr ystyried mudiant cyrff wybrennol a achoswyd gan y [grymoedd](#) maen nhw'n eu profi ac yn ei weithredu ar wrthrychau eraill er mwyn adeiladu dealltwriaeth o Ddeddfau Mudiant Newton
- **creu atebion meddalwedd** sy'n addas i'r diben. Mae gwybod sut i ddylunio, creu, profi a defnyddio meddalwedd sy'n ymarferol, yn gadarn ac yn ystyriol o gynulleidfaoedd amrywiol yn darparu dysgwyr gyda'r [wybodaeth](#), [sgiliau](#) a [phrofiad](#) sylfaenol o sut mae technolegau modern yn gweithio a'r modd y gellir eu cymhwyso
- mae **cyfrifiadura ffisegol** yn canolbwyntio ar y rhyngweithiadau rhwng pobl a'n hamgylchedd, gan ddefnyddio technolegau a all ein galluogi i ymestyn, gwella ac awtomeiddio. Mae cyfrifiadura ffisegol yn fframwaith creadigol ar gyfer deall cysylltiadau dynol yn well i'r byd digidol
- **systemau cyfathrebu**. Mae cael dealltwriaeth ddyfnach o sut mae technolegau sy'n cysylltu ein byd yn gweithredu, eu nodweddion a'u budd-daliadau - a'r potensial ar gyfer camddefnydd – yn medru ein galluogi i fyw'n fwy diogel a chyfrifol yn ein byd rhyng-gysylltiedig
- **cadw a phrosesu data**. Trwy lythrennedd data a rheoli data, gall dysgwyr ddeall yn well sut mae data yn ysgogi ein byd cyfrifiadurol. Gallant ddefnyddio ystod o offer meddalwedd i greu, rheoli ac archwilio setiau data er mwyn ymchwilio elfennau ymholi. Mae defnyddio gweithredyddion rhesymegol a mathemategol hefyd yn cefnogi dysgu a fynegir ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd.

Enghreifftio ehangder

Darperir y canlynol fel enghreifftiau o sut y gallech archwilio dysgu testunol gwahanol yn y Maes hwn. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

Gall annog dysgwyr i werthuso datblygiadau gwyddonol a thechnolegol mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd arwain at ddeall y berthynas rhwng gwyddoniaeth, pŵer personol, gweithredu llywodraeth a ffactorau economaidd yma yng Nghymru ac ar lefel ryngwladol. Gallai gwerthuso tystiolaeth wyddonol a thechnolegol, yn ogystal â hanes gwyddoniaeth a thechnoleg, arwain dysgwyr i ddarganfod cyfraniadau ffigurau megis Frances Elizabeth Hoggan, Dorothy Hodgkin, Alan Turing ac Alfred Russel Wallace. Wrth ddatblygu sgiliau codio, gall dysgwyr hefyd ddeall a gwerthuso sut mae prosesau cyfrifiadurol wedi newid, ac yn parhau i newid y ffordd rydyn ni'n byw, yn gweithio ac yn astudio. Gall hyn gynnwys ystyriaethau cyfreithiol a moesegol sy'n ymwneud â rhwydweithio cymdeithasol, camwybodaeth a data mawr.

Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill

Dylai cynllunio a datblygu cwricwlwm ysgol gynnwys ystyriaeth o gysylltiadau dilys rhwng maes dysgu a phrofiad gwyddoniaeth a thechnoleg a meysydd dysgu a phrofiad eraill, er enghraifft:

Celfyddydau Mynegiannol

Mae gan y Meysydd hyn gysylltiadau agos, gyda'r ddau yn dibynnu ar ddulliau tebyg sy'n cynnwys proses o ddarganfod a meddwl dargyfeiriol a chynhyrchu syniadau a all arwain at ganlyniadau creadigol ac arloesedd. Mae [meddylfryd dylunio](#) a phrosesau dylunio mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn mynd law yn llaw â dull dylunio ac archwiliad yn y Celfyddydau Mynegiannol, ac hefyd yn cynnwys archwilio gwahanol gyfryngau y gellir eu defnyddio i gyfathrebu dylunio a chreadigrwydd i eraill. Yn y ddau Faes defnyddir dulliau creadigol i archwilio cysyniadau a defnyddiau, yn ogystal â datblygu medrusrwydd â dwylo, cywirdeb, manylrwydd, a chreffftwaith sy'n cefnogi cynhyrchu. Mae gwybodaeth am natur a datblygiad defnyddiau yn bwysig wrth eu dewis ar gyfer dylunio a chynhyrchu a gall hyd yn oed ddealltwriaeth o wyddoniaeth tonnau gefnogi datblygiad a gwerthfawrogiad o gerddoriaeth.

Iechyd a Lles

Mae cysylltiad cynhenid rhwng y ddau Faes yma. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o fioleg, datblygiad corfforol, cydberthnasau biolegol a rhywiol a'r cyswllt rhwng iechyd corfforol ac emosiynol yn hanfodol i ddysgu o fewn Iechyd a Lles. Gall dysgu sut mae'r ymennydd yn gweithio fod o gymorth i ddysgwyr ddeall eu meddyliau, teimladau ac emosiynau. Gellir ystyried sut y gall dewisiadau ffordd o fyw effeithio ar y corff dynol (gan gynnwys deiet, defnyddio cyffuriau ac ymarfer), yn ogystal â'r wyddoniaeth y tu ôl i hormonau, atgenhedlu rhywiol a datblygiad dynol er mwyn cefnogi ACR. Mae technoleg yn bwysig i iechyd a lles dysgwyr, gan gynnwys cefnogi paratoi deiet iach. Mae'r canlynol i gyd yn cyfrannu at wneud gwell penderfyniadau mewn perthynas â diogelwch ar-lein, bwlio ar-lein a hybu ymddygiad cadarnhaol ar-lein: dealltwriaeth sut mae'r cyfryngau digidol yn gweithio a sut i ddefnyddio'r byd ar-lein yn ddiogel a chyfrifol, archwilio perthynas ag eraill mewn cyd-destun ar-lein, a deall normau a dylanwadau cymdeithasol mewn perthynas â thechnoleg.

Dyniaethau

Mae gan y ddau Faes yma ddulliau ac egwyddorion ymchwilio tebyg ac eto'n benodol i'r Maes. Serch hynny mae gwaith maes, er enghraifft lle mae dysgwyr yn sylwi ar bethau byw yn eu cynefinoedd naturiol gan arwain at gasglu data i fesur a chymharu [bioamrywiaeth](#), yn cefnogi dysgu yn y ddau Faes. Gall gwybodaeth am ymchwiliadau gwyddonol a datblygiadau technolegol cyfredol ac yn y gorffennol, a'u heffaith ar gymdeithas, hefyd gefnogi dysgwyr yn eu gallu i chwilio a hidlo tystiolaeth. Mae gan ddatblygiadau gwyddonol a thechnolegol effaith sylweddol ar gymdeithasau dynol ac ar ein perthynas â'r byd naturiol. Gall gwyddoniaeth a thechnoleg gynnig datrysiadau ac ymatebion i'r heriau mae dynoliaeth yn eu hwynebu yn y byd modern. Mae gan agweddau eraill ar wyddoniaeth a thechnoleg gysylltiadau cynhenid â'r Dyniaethau yn nhermau perthynas ag elfennau megis daearyddiaeth ffisegol a gwybodaeth am ddefnyddiau naturiol a'r dull o'u prosesu, a dylai'r cysylltiadau hyn gael eu harchwilio. Mae'r economi digidol yn ddylanwad grymus wrth lywio cymdeithasau, economïau a bywydau pobl yn y byd modern.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae cyfathrebu digidol ac ieithoedd cyfrifiadurol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyswllt i atgyfnerthu dysgu ar draws y ddau Faes yma. Mae sgiliau [llythrennedd](#) megis iaith gyfarwyddiadol ac arsylwadol yn gyffredin i'r ddau faes, yn ogystal â datblygiad mewn perthynas â chael mynediad at, a chynhyrchu, testunau ffeithiol a defnydd cywir o eirfa technegol a gwyddonol mor gynnar â phosib. Mae Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnig cyfleoedd i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu dylunio, er mwyn datblygu meddyfryd dylunio dysgwyr yn ogystal â chyfathrebu eu syniadau i eraill.

Mathemateg a Rhifedd

O'r defnydd o ddata ac ystadegau mewn ymholiad a thystiolaeth, geometreg a mesur mewn dylunio a datblygu, hyd at drin data mewn technoleg, mae dysgu mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn aml yn seiliedig ar gynnydd mewn dealltwriaeth fathemategol, fel y'u mynegir trwy'r pum [medr mathemategol](#). Felly mae cysylltiadau cwricwlaidd rhwng y ddau Faes yma yn lluosog ac, yn aml, yn eithaf manwl. Gall ysgolion ddymuno ystyried dilyniannu cwricwlwm yn arbennig wrth ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm er mwyn sicrhau bod cyfleoedd mewn gwyddoniaeth a thechnoleg i gyd-destunoli dysgu mathemategol cysyniadol yn cael ei weithredu'n llawn.

Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn y Maes hwn

Mae dysgu oddi wrth yr wybodaeth am y farchnad yrfaeodd a llafur yn faes allweddol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg gan ei fod yn hanfodol i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o gyd-destunau ar gyfer cyflogaeth bosib yn ogystal â sgiliau bywyd. Mae'r angen gan gyflogwyr am wybodaeth a sgiliau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a thechnoleg yn parhau'n gryf, ochr yn ochr â chyfleoedd am ddewisiadau gwerthfawr mewn gyrfa a bywyd. Mae'r sgiliau a ddatblygir trwy wyddoniaeth a thechnoleg yn drosglwyddadwy, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac mae galw mawr amdany'n nhw gan gyflogwyr. Mae'r rhain yn cynnwys datrys problemau, creadigrwydd ac arloesedd, dadansoddi data a gwybodaeth, a'r gallu i resymu a meddwl yn rhesymegol.

Tra nad oes swydd 'nodweddiadol' gwyddoniaeth a thechnoleg, mae stereoteipiau'n parhau, ac mae angen eu herio. Mae menywod, pobl anabl a rhai o grwpiau lleiafrifol neu o dan anfantais gymdeithasol yn cael eu tangynrychioli'n gyson. Wrth gyflwyno addysg byd gwaith mewn ysgolion cynradd, gellir mynd i'r afael â'r math hwn o stereoteipio o oedran cynnar, oedran lle mae'r stereoteipio'n aml yn cael ei ffurfio. Mae gweithlu mwy amrywiol gyda dealltwriaeth gyflawn wyddonol a thechnolegol yn ddymunol yn nhermau amrywiaeth, ond hefyd yn hanfodol i amlhau cyfleoedd ar gyfer pob dysgwr ac i gwrdd ag anghenion economaidd Cymru.

Mae cydweithio, a mynediad at unigolion a chyflogwyr yn cynnig profiadau i ddysgwyr ddod i wybod am waith, cyflogaeth a'r sgiliau sy'n cael eu gwerthfawrogi yn y gweithle. Gall dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a sgiliau a enillwyd trwy gymryd rhan mewn profiadau cysylltiedig â gwaith er mwyn datblygu gweithgareddau menter llwyddiannus i gefnogi dysgu o fewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae'r rhain yn cynnig profiadau dysgu dilys a all fod o gymorth iddyn nhw ddatblygu fel cyfranwyr creadigol, mentrus ac yn rhai sy'n ffurfio cysylltiadau â byd gwaith.

Cefnogi cynnydd dysgwyr: Canllawiau asesu

Cyflwyniad

Mae cynnydd dysgwyr ar hyd continwrm dysgu o 3 i 16 oed yn ganolog i Gwricwlwm i Gymru. Mae asesu yn chwarae rhan sylfaenol o ran galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd, a hynny ar gyflymder priodol, gan sicrhau ei fod yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu prif egwyddorion a diben asesu. Mae'n rhoi cyfeiriad clir i ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu trefniadau asesu. Er mwyn cefnogi cynnydd dysgwyr, mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys y prosesau allweddol sydd eu hangen i sicrhau cynnydd effeithiol i ddysgwyr, sef:

- sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd
- symud ar hyd y continwrm 3 i 16
- cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr.

Diben y canllawiau hyn, a chanllawiau ehangach Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd yr un pryd, yw helpu ysgolion i ddechrau meddwl am gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu. Maent hefyd yn anelu at gynorthwyo lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a phersonau sy'n comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) i ddeall mwy am Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r canllawiau hyn yn manylu ar yr agweddau hynny ar y trefniadau asesu yr ydym yn bwriadu iddynt fod yn statudol i ysgolion, yn ogystal â'r agweddau hynny y bydd angen i ysgolion roi sylw dyledus iddynt wrth gynllunio eu cwricwlwm ysgol. Ni ddylid cymysgu'r rhain â gweithgareddau sy'n cyfrannu at atebolrwydd allanol a monitro cenedlaethol. Mae gwybodaeth a gesglir drwy asesiadau dysgwyr unigol i'w defnyddio o fewn yr ysgol yn unig, ac ni ddylai unrhyw gorff/parti allanol ei chasglu na'i chyhoeddi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu system addysg gynhwysol i helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn cael mynediad at addysg o safon uchel ac yn cyrraedd eu potensial llawn. I gefnogi'r ymrwymiad hwn, datblygwyd y canllawiau hyn i ystyried anghenion pob dysgwr ac i gydnabod bod eu hunaniaeth, eu hiaith, eu gallu, eu cefndir a'r cymorth sydd eu hangen arnynt o bosibl yn wahanol yn unol â'u hamgylchiadau penodol.

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

Mae asesu yn rhan sylfaenol o Gwricwlwm i Gymru ac yn greiddiol i'r broses ddysgu. Pan cyfeirir yn y canllawiau hyn at 'cwricwlwm', 'dysgu ac addysgu' neu 'cynllunio ar gyfer dysgu', ystyrir bod hyn yn cynnwys asesu.

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â gweddill canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm sydd ar gael ar-lein yn

hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru.


Yn ogystal â'r canllawiau ar ystod o [ddysgu craidd](#), mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys gwybodaeth am egwyddorion cynnydd sy'n rhychwantu'r cwricwlwm cyfan, yn ogystal ag egwyddorion cynnydd ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad (Maes). Ategir yr egwyddorion cynnydd gan ddisgrifiadau dysgu sy'n rhoi arweiniad manylach ar gynnydd ym mhob Maes. Mae'r disgrifiadau'n cyfleu'r hyn y mae'n ei olygu i ddysgwr symud ar hyd y continwmm dysgu ac maent yn bwyntiau cyfeirio ar gyfer cyflymdra'r cynnydd hwnnw.

Dylai penaethiaid ddefnyddio'r canllawiau asesu fel sail ar gyfer trafodaethau a dysgu proffesiynol o fewn eu [hysgolion](#). Byddant hefyd yn cefnogi trafodaethau o fewn clystyrau, a rhwydweithiau ehangach lle bo'n briodol, er mwyn datblygu dulliau cydweithredol ar gyfer cynnydd dysgwyr o fewn trefniadau'r cwricwlwm ac asesu. Bydd y canllawiau hyn hefyd yn helpu'r bobl sy'n gweithio'n agos gydag ysgolion i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o 2022 ymlaen.

Bydd y cyfrifoldeb am roi'r canllawiau asesu ar waith yn cael ei roi ar brifathrawon a chyrrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir. Fodd bynnag, bydd yn bwysig i bob ymarferydd ymgyfarwyddo â'r dull a amlinellir yn y canllawiau hyn, er mwyn iddynt allu ei roi ar waith yn effeithiol o fis Medi 2022 ymlaen.

Ni fydd disgwyl i ddarparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Yn hytrach, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cwricwlwm, gan gynnwys trefniadau asesu priodol, ar gyfer y darparwyr hyn yn 2021 i'w roi ar waith o 2022 ymlaen. Caiff canllawiau statudol ar wahân eu cyhoeddi yn 2021 i gefnogi unedau cyfeirio disgyblion a phobl sy'n gyfrifol am ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol. Felly, er bod y canllawiau asesu hyn wedi'u hanelu'n bennaf at ysgolion, efallai y bydd darparwyr eraill yn dymuno ymgyfarwyddo â nhw i ddeall y dull sy'n cael ei weithredu o ran asesu fel sail i Gwricwlwm i Gymru.

Ein hegwyddorion allweddol



Diben asesu

Mae asesu yn hanfodol i ddyluniad y cwricwlwm a phwrpas cyffredinol asesu o fewn y cwricwlwm yw cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Mae'n rhan annatod o ddysgu ac addysgu ac mae'n gofyn am bartneriaethau effeithiol rhwng pawb sy'n gysylltiedig, gan gynnwys y dysgwr.

Mae asesu yn chwarae rhan sylfaenol o ran sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol. Dylai gyfrannu at ddatblygu darlun holistaidd o'r dysgwr – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'i feysydd i'w datblygu – er mwyn llywio'r camau nesaf yn y dysgu a'r addysgu. Ni ddylid defnyddio asesu i wneud dyfarniad untro ar gyflawniad cyffredinol dysgwr ar adeg neu oedran penodol er mwyn llunio barn sy'n cyd-fynd orau â disgrifyddion neu feini prawf.

I gefnogi cynnydd dysgwyr unigol, mae gan asesu dair prif swyddogaeth – cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd; pennu cynnydd dysgwyr unigol dros amser, llunio darlun ohono, a myfyrio arno; a deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion. Wrth gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu, dylai ysgolion ac ymarferwyr fod yn glir ynghylch rôl benodol pob asesiad sy'n cael ei gynnal, a sut y bydd y ddealltwriaeth sy'n deillio o'r asesu yn cael ei ddefnyddio, a pham.

- **Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd**

Dylai asesu ganolbwyntio ar nodi cryfderau, cyflawniadau a meysydd i'w gwella ar gyfer pob dysgwr unigol ac, os yw'n berthnasol, unrhyw bethau sy'n eu rhwystro rhag dysgu. Dylai'r ymarferydd ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon, mewn trafodaeth â'r dysgwr, i bennu'r camau nesaf sydd eu hangen i symud y dysgu yn ei flaen, gan gynnwys unrhyw her a chefnogaeth ychwanegol sydd eu hangen. Dylid cyflawni hyn drwy ymwreiddio a sefydlu asesu mewn arferion o ddydd i ddydd mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb y dysgwr ac sy'n golygu na ellir gweld y gwahaniaeth rhwng asesu a dysgu. Mae hyn yn caniatáu i'r ymarferydd ymateb i anghenion unigol yr ystod lawn o ddysgwyr yn ei ddosbarth, a hynny'n barhaus.

- **Pennu cynnydd dysgwyr unigol dros amser, llunio darlun ohono, a myfyrio arno**

Dylai asesu gynorthwyo ymarferwyr i bennu'r cynnydd a wneir gan ddysgwr unigol, a chofnodi hyn, lle y bo'n briodol, er mwyn deall taith y dysgwr hwnnw dros wahanol gyfnodau o amser ac mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o'r modd y mae dysgwr wedi dysgu, yn ogystal â'r hyn y mae wedi'i ddysgu ac y gall ddangos ei fod wedi ei ddysgu. Bydd myfyrio ar gynnydd dysgwr dros amser yn galluogi ymarferwyr i roi adborth a helpu i gynllunio ei ddysgu at y dyfodol, gan gynnwys unrhyw ymyriadau, cymorth neu heriau ychwanegol a all fod yn ofynnol. Dylai hyn gynnwys y camau nesaf ac amcanion a nodau tymor hwy y dylai'r dysgwr weithio tuag atynt i helpu i barhau i symud ymlaen yn eu dysgu. Gellir hefyd ddefnyddio hyn fel sail ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr.

- **Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion**

Dylai asesu hefyd alluogi ymarferwyr ac arweinwyr o fewn ysgolion i ddeall a yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylidig. Dylid defnyddio hyn i bennu cryfderau a meysydd i'w gwella yn y cwricwlwm ysgol ac mewn arferion dyddiol, gan gynnwys ystyried sut y mae anghenion dysgwyr fel unigolion wedi'u bodloni. Mae'r ffocws pwysig hwn yn fodd i ysgolion sicrhau bod eu cwricwlwm, a'r dysgu a'r addysgu, yn helpu i godi safonau yn ogystal â helpu i wella cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Nid adrodd allanol yw nod hyn, ond sicrhau bod ysgol yn deall yr hyn y mae angen iddi ei wybod am ei dysgwyr er mwyn iddynt i gyd wneud y mwyaf o'u potensial, a nodi heriau penodol a'r cymorth y gallai fod ei angen ar grwpiau penodol. Bydd y ddealltwriaeth hon hefyd yn cyfrannu at broses hunanwerthuso a gwelliant parhaus yr ysgol.

Dyfarnu cymwysterau allanol

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar gynnydd dysgwyr o 3 i 16 oed ar lefel ysgol ac ystafell ddosbarth, ond mae asesu at ddibenion dyfarnu cymwysterau allanol yn wahanol o ran natur, gan fod gan gymwysterau allanol fwy o reolaeth allanol a'u bod yn fwy rhagnodedig. Mae asesu at y diben hwn y tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn.

Bydd cymwysterau allanol yn cael eu datblygu i adlewyrchu Cwricwlwm i Gymru ac i helpu i wireddu ei uchelgais. Mae Cymwysterau Cymru ar hyn o bryd yn ystyried cymwysterau at y dyfodol. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar-lein yn

qualificationswales.org/cymraeg/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol.

Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses asesu?

Mae ymgysylltu gweithredol a rheolaidd rhwng y dysgwr a'r ymarferydd wrth wraidd cefnogi cynnydd dysgwyr. Er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, mae angen i bawb sy'n ymwneud â thaith dysgwr weithio gyda'i gilydd. Mae'r sylfaen ar gyfer yr ymgysylltu a'r bartneriaeth hon yn sefydlu:

- lle mae dysgwyr arni o ran eu dysgu
- i ble mae angen iddynt fynd o ran eu dysgu
- beth sydd angen ei wneud er mwyn iddynt gyrraedd yno, gan ystyried unrhyw rwystrau i'w dysgu.

Rhaid i ysgolion gynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben, gan ddarparu ar gyfer cynnydd priodol i bob dysgwr. Felly, mae cefnogi cynnydd dysgwyr yn fater i'w ystyried gan ysgolion unigol. Er mwyn cefnogi'n llawn y cynnydd ar hyd y continwwm 3 i 16, dylai ysgolion hefyd weithio ar y cyd yn eu clystyrau a, lle bo'n briodol, ar draws rhwydweithiau ehangach.

Y prif gyfranogwyr yn y broses ddysgu, y mae asesu yn rhan sylfaenol ohoni, yw arweinwyr, ymarferwyr, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a phartneriaid allanol. Mae rhagor o wybodaeth am bob un o'r prif gyfranogwyr hyn isod.

Arweinwyr

Rôl arweinwyr yw sefydlu diwylliant dysgu cadarn sy'n cefnogi ac yn herio ymarferwyr i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd priodol.

Dylid cyflawni hyn drwy:

- greu amgylchedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr, yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth ac adrodd
- galluogi ymarferwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl asesu yn effeithiol
- datblygu ac ymwreiddio prosesau a strwythurau sy'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd
- sicrhau y datblygir ac yr adolygir cwricwlwm sy'n cynnig cyfleoedd i ymarferwyr gynllunio dysgu pwrpasol sy'n mynd i'r afael ag anghenion pob dysgwr
- sicrhau darlun clir o gynnydd dysgwyr o fewn yr ysgol, a hwnnw'n ddarlun y mae pob ymarferydd yn ei ddeall – proses na ddylai arwain at roi baich ychwanegol ar ymarferwyr na dysgwyr
- ystyried sut orau i ddarparu her a chefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid eraill
- annog ymgysylltu rhwng yr holl gyfranogwyr yn y broses dysgu ac addysgu er mwyn datblygu partneriaethau effeithiol
- sicrhau bod sylw dyledus wedi'i roi i'r gofynion statudol a'r canllawiau ar gyfer asesu, a bod ymarferwyr yn ystyried hyn wrth gynllunio dysgu ac addysgu ac yn eu harferion dyddiol.

Ymarferwyr

Rôl yr ymarferydd yw cynllunio ar gyfer, a darparu, profiadau dysgu effeithiol sy'n briodol i oedran a datblygiad pob dysgwr unigol. Dylent alluogi'r dysgwyr i werthfawrogi ble maent arni yn eu dysgu, i ble mae angen iddynt fynd nesaf, a sut y byddant yn cyrraedd yno. Dylai ymarferwyr gefnogi a herio dysgwyr yn effeithiol i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd.

Dylid cyflawni hyn drwy:

- fod yn glir ynghylch y dysgu a fwriedir a chynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb yn unol â hynny
- rhannu dysgu a fwriedir â dysgwyr yn briodol
- gwerthuso dysgu, gan gynnwys drwy arsylwi, holi a thrafod
- rhoi adborth perthnasol a phenodol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr, yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, ac yn symud eu dysgu yn ei flaen
- annog dysgwyr i fyfrio ar eu cynnydd a, lle bo'n briodol, eu hannog i ystyried sut y maent wedi datblygu, pa brosesau dysgu y maent wedi manteisio arnynt, a'r hyn y maent wedi'i gyflawni
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, a'u cefnogi i ddatblygu'r sgiliau perthnasol i wneud hyn yn effeithiol
- datblygu sgiliau dysgwyr o ran gwneud defnydd effeithiol o adborth i symud eu dysgu yn ei flaen
- cynnwys rhieni/gofalwyr yn natblygiad a chynnydd dysgwr, gan gynnwys y dysgwr yn y ddeialog hon fwyfwy dros amser
- cymryd rhan mewn deialog gydag arweinwyr a chyd-ymarferwyr i sicrhau bod ganddynt ddarlun clir o'r cynnydd sy'n cael ei wneud o fewn eu hysgol
- nodi unrhyw her ychwanegol neu gymorth y gall dysgwyr fod eu hangen, gan ymgysylltu â phartneriaid allanol lle bo angen.

Dysgwyr

Rôl dysgwyr yw cyfrannu at y broses ddysgu a chymryd rhan ynddi, mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth, a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau.

Wrth iddynt wneud cynnydd ar hyd y continwmm a chydag annibyniaeth gynyddol, dylai'r dysgwyr gael eu cefnogi a'u hannog i:

- ddeall ble maent yn eu dysgu a ble mae angen iddynt fynd nesaf
- datblygu dealltwriaeth o sut y byddant yn cyrraedd yno
- ymateb yn weithredol i adborth ar eu dysgu
- adolygu eu cynnydd dysgu, a chyfleu hyn yn unigol a chydag eraill
- myfrio ar eu taith ddysgu a datblygu cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain dros amser.

Rhieni/gofalwyr a phartneriaid allanol

Mae gan rieni/gofalwyr a phartneriaid allanol rôl bwysig i'w chwarae a dylai ysgolion ymgysylltu â hwy er mwyn iddynt allu cefnogi cynnydd dysgwyr mewn ffordd briodol.

Dylai ysgolion annog a galluogi rhieni/gofalwyr i:

- ymgysylltu'n rheolaidd â'r ysgol a'i hymarferwyr er mwyn deall a chefnogi cynnydd eu plentyn yn ei ddysgu
- rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol gyda'r ysgol a'i hymarferwyr, a fydd yn cefnogi dysgu a chynnydd eu plentyn
- ymateb yn weithredol i wybodaeth a ddarperir am ddysgu eu plentyn ac, mewn cydweithrediad â'r ysgol, gynllunio ffyrdd o gefnogi'r dysgu hwnnw o fewn a'r tu allan i'r ysgol.

Dylai ysgolion ymgysylltu â phartneriaid allanol i:

- helpu ymarferwyr i asesu a phennu anghenion dysgwyr y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt, ac yna eu helpu drwy ddarparu cyngor a chymorth – gall hyn gynnwys cymorth addysgol arbenigol a/neu gymorth gan asiantaethau eraill (e.e. gwasanaethau iechyd)
- darparu gwybodaeth am gynnydd dysgu sydd wedi digwydd, ac sydd wedi cael eu hasesu, mewn cyd-destunau eraill (e.e. ar gyfer dysgwyr mewn cynlluniau ar y cyd rhwng ysgol a lleoliad arall).

Trefniadau gwerthuso a gwella ac asesu

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag asesu, sy'n canolbwyntio ar gynnydd dysgwyr. Mae trefniadau gwerthuso a gwella o fewn y system addysg ar wahân, ond gallant ddylanwadu ar y canfyddiad a geir o asesu, a sut y caiff ei gyflawni. Felly, rydym yn newid ein trefniadau gwerthuso a gwella fel eu bod yn cefnogi'r broses o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru.

Nod y trefniadau gwerthuso a gwella newydd yw ysgogi ymddygiad sy'n ategu ac yn galluogi ein gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac asesu fel rhan o system sy'n gwella ei hun. Dylai ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion fod â'r hyder i ddysgu a gwella eu harferion yn barhaus. Bydd hyn yn eu galluogi i ffynnu mewn amgylchedd cefnogol a chydweithredol a fydd yn codi safonau ac yn sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cyflawni ei botensial.

Wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella mae hunanwerthuso effeithiol. Mae hyn yn gwneud cyfraniad hollbwysig at wella ansawdd addysg a safonau cyflawniad. Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a mireinio ymhellach yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol sy'n anelu at sicrhau cysondeb cenedlaethol o ran hunanwerthuso ledled Cymru. Bydd yn tynnu'r arferion gorau o bob rhan o'r sector addysg a bydd o werth, ac yn ddefnyddiol yn ymarferol, i ysgolion i gefnogi eu dulliau hunanwerthuso. Bydd yn hyrwyddo diwylliant o fyfrio, deialog a dysgu proffesiynol, a bydd rôl iddo o ran meithrin gallu ar draws y system i gefnogi'r daith ddiwygio.

Bydd hunanwerthuso yn annog ysgolion i fyfrio ar eu dulliau o gynllunio, datblygu a gweithredu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu. Bydd yn galluogi ysgolion i ddatblygu'r dysgu a'r addysgu ymhellach i sicrhau eu bod yn effeithiol o ran cefnogi cynnydd dysgwyr. Bydd y datblygiadau hyn, yn eu tro, yn cael eu hadlewyrchu mewn arferion dyddiol.

Ceir rhagor o wybodaeth am gynigion ar gyfer sut y dylid dal ysgolion i gyfrif ar-lein yn llyw.cymru/trefniadau-gwerthuso-gwella-ysgolion-atebolrwydd.

Gosod targedau ysgol

Dylai targedau ysgol ddeillio o werthusiad parhaus o ystod eang o wybodaeth a gwaith yr ysgol gyfan, gan adlewyrchu cryfderau a meysydd i'w gwella, a chan ganolbwyntio adnoddau ar godi deilliannau i ddysgwyr, a chefnogi cynnydd pob dysgwr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei disgwyliad mai dim ond i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar lefel ysgol y dylid defnyddio targedau ysgol. Ni ddylid eu hystyried yn fesur perfformiad, ar lefel awdurdod lleol na rhanbarthol, i'w ddefnyddio wedyn i ddwyn ysgolion i gyfrif. Ni ddylent ychwaith gael eu defnyddio i dynnu cymariaethau rhwng ysgolion; mewn gwirionedd, byddai gwneud hynny'n wrthreddfol i system sy'n gwella ei hun.

Er y gellir ystyried gwybodaeth a gesglir drwy asesiadau dysgwyr unigol wrth hunanwerthuso a gosod targedau o fewn ysgol, ni ddylai'r gweithgareddau hyn gael eu cyfuno ag atebolrwydd allanol ar lefel awdurdod lleol, rhanbarthol na chenedlaethol.

Ceir rhagor o wybodaeth am gynigion ar gyfer sut y dylid dal ysgolion i gyfrif ar-lein yn llyw.cymru/rheoliadau-syn-ymdrin-perfformiad-thargedau-absenoldeb-ar-lefel-ysgol.

Cynllunio ar gyfer asesu o fewn cwricwlwm ysgol

Bwriedir i'r egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau dysgu, a fynegir yng nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru, arwain y broses o gynllunio'r cwricwlwm a dysgu ac addysgu, gydag asesu'n rhan annatod o'r ddau.

Mae trefniadau asesu ar lefel ysgol yn fater i bob ysgol ei benderfynu fel rhan o'r cynllunio ar gyfer ei gwricwlwm ei hun. Dylai hyn fod yn briodol ar gyfer anghenion holl ddysgwyr yr ysgol. O fewn cwricwlwm pob ysgol, bydd angen cynllunio a darparu trefniadau asesu yn unol â'r canlynol.

- **Gofynion statudol** – Dyma'r dyletswyddau cyfreithiol mae'n rhaid eu cyflawni yn ôl y gyfraith. Mae'r dyletswyddau arfaethedig ar gyfer ysgolion wedi'u nodi yn adran 'Y gyfraith' yng nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru (hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-ddeddwriaeth).
- **Canllawiau statudol, gan gynnwys egwyddorion allweddol asesu (fel y'u hamlinellir yn y canllawiau hyn)** – Dyma'r elfennau y mae'n rhaid i brifathrawon a chyrff llywodraethu eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer dysgu ar lefel ysgol ac yn yr ystafell ddosbarth.
- **Cynlluniau'r ysgol** – Dyma'r elfennau y gall pob ysgol ddewis eu datblygu a'u gweithredu i gefnogi asesu, yn ogystal â'r uchod. Fel rhan o hyn, dylai ysgolion ystyried datblygu dulliau cydweithredol drwy gymryd rhan mewn clystyrau a rhwydweithiau ehangach.
- **Anghenion dysgwyr unigol** – Dyma'r elfennau y gall ysgol ddewis eu gweithredu i gefnogi anghenion dysgwyr unigol er mwyn darparu her neu gefnogaeth ychwanegol.

Mae nifer o faterion sylfaenol y dylai ysgolion eu hystyried wrth gynllunio eu cwricwlwm a darparu profiadau dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r rhain fel a ganlyn.

Ehangder a dyfnder

- Dylai asesu fod yn broses barhaus sy'n rhan annatod o arferion dyddiol ac sy'n hanfodol i'r broses ddysgu.
- Mae cynnydd mewn dysgu yn broses o ddatblygu'n fwyfwy soffistigedig, yn hytrach na'n gorff o gynnwys i'w astudio. Nid yw cynnydd yn llinol ac mae dysgwyr gwahanol yn debygol o symud ymlaen a gwneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol iawn. Dylai asesu, sy'n rhan o gwricwlwm yr ysgol, gydnabod hyn a chaniatáu gwyro, stopio a chyflymu yn nhaith y dysgwr.
- Dylai dysgwyr gael eu hasesu mewn perthynas â chwricwlwm yr ysgol, a fydd wedi'i gynllunio i adlewyrchu egwyddorion cenedlaethol cynnydd, gan ddefnyddio'r disgrifiadau dysgu. Dylai ymarferwyr asesu pob dysgwr ar draws y continwm 3 i 16 yn seiliedig ar y cynnydd a fynegir yn eu cwricwlwm ysgol. Wrth wneud hynny, dylent ystyried anghenion amrywiol dysgwyr unigol.
- Ni ddylai ysgolion ymgymryd â gweithgareddau asesu penodol ym mhob cam cynnydd i lunio barn am gynnydd dysgwr ar adeg neu oedran penodol.

- Diben y disgrifiadau dysgu yw darparu arweiniad ar gyflymder cynnydd er mwyn cefnogi ymarferwyr a llywio'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm a dysgu ac addysgu. Nid cyfres o feini prawf ydynt i'w hasesu'n uniongyrchol yn eu herbyn, ac ni ellir ychwaith eu bodloni gyda thasgau asesu unigol.
- Fel rhan o'r broses ddysgu, dylai ymarferwyr a dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut mae pob dysgwr yn dysgu a beth yw ei agwedd a'i ddull o ddysgu, er mwyn cefnogi ei gynnydd parhaus a meithrin ymrwymiad i'w ddysgu.

Dull

- Pan fydd dysgwr yn dechrau mewn ysgol ar unrhyw adeg, dylai'r ysgol sicrhau ei bod yn deall ble mae'r dysgwr arni yn ei ddysgu a'r cynnydd y mae wedi'i wneud hyd yma. Dylid defnyddio'r ddealltwriaeth hon i nodi man cychwyn y dysgwr a'r ffordd orau i'r ysgol symud y dysgu yn ei flaen. Dylai ymarferwyr roi ystyriaeth i'r wybodaeth a ddarperir gan ymarferwyr sydd wedi cefnogi addysg y dysgwr yn y gorffennol.
- Mae asesu yn allweddol i gefnogi dysgu dwfn a dylid ei ddefnyddio i nodi a oes angen i ddysgwr atgyfnerthu dysgu, a oes angen cymorth pellach a/neu a all y dysgwr symud ymlaen i'r camau dysgu nesaf.
- Dylid defnyddio asesu arsylwadol a dylai ymarferwyr chwilio am dystiolaeth o 'ddysgu wedi'i wreiddio' i asesu'r hyn y gall dysgwr ei wneud yn gyson ac yn annibynnol mewn ystod o brofiadau dysgu. Dylid seilio hyn ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant.
- Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd ar hyd y continwwm 3 i 16, dylent ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r broses asesu. Dylai ymarferwyr ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr asesu cyfoedion a hunanasesu, gan eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau hyn mewn ffordd sy'n briodol i gam datblygiadol pob dysgwr.
- Dylai ysgolion gynllunio ystod o ddulliau a thechnegau asesu sy'n addas i'r diben ac sy'n cefnogi cynnydd ar draws y cwricwlwm cyfan. Gall rhai o'r rhain fod yn benodol i feysydd dysgu a phrofiad unigol, gall rhai fod yn berthnasol i fwy nag un Maes, a gall eraill fod yn benodol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Dylid dewis dulliau a thechnegau asesu, a'u haddasu lle bo'n briodol, yn unol ag anghenion y dysgwr. Dylai hyn ystyried y cam datblygiadol ac unrhyw rwystrau i ddysgu, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dangos cynnydd yn unol â'i allu unigol.
- Mae asesiadau personol ar-lein statudol wedi'u cynllunio i helpu'r ymarferydd a'r dysgwr i ddeall sut mae sgiliau darllen a rhifedd dysgwr yn datblygu, a beth ddylai'r camau nesaf fod. Cynllunnir asesiadau personol ar-lein i gefnogi dysgu ac addysgu ac ni ddylent gael eu defnyddio at ddibenion atebolrwydd allanol.

Cofnodi cynnydd dysgwyr

Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion ystyried pa wybodaeth asesu y mae angen ei chasglu a'i chofnodi er mwyn mesur cynnydd mewn dysgu, ynghyd â phryd y dylid gwneud hyn ac ym mha lefel o fanylder.

Dylai penaethiaid sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir am gynnydd dysgwyr yn gyfrannol a dylai'r wybodaeth ond gael ei defnyddio yn yr ysgol i gefnogi cynnydd y dysgwyr a llywio'r addysgu yn uniongyrchol. Ni ddylid ei defnyddio at ddibenion atebolrwydd allanol. Gellir ei ddefnyddio i:

- llywio gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr
- cefnogi'r broses o gefnogi taith dysgwyr ar hyd y continwwm 3 i 16
- helpu ymarferwyr ac arweinwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o gynnydd
- llywio datblygiad y cwricwlwm a llywio dysgu ac addysgu at y dyfodol
- nodi ble mae angen gwella a ble mae angen cymorth fel rhan o broses hunanwerthuso'r ysgol.

Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn ac ar draws ysgolion

Mae cynnydd yn agwedd sylfaenol ar gynllunio cwricwlwm ysgol, ac felly'r trefniadau asesu. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb a thegwch i ddysgwyr ledled Cymru, mae'n hanfodol sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, gan gynnwys y disgwyliadau o ran y math o gynnydd, a pha mor gyflym y gall dysgwyr symud ymlaen. Dylid datblygu'r gyd-ddealltwriaeth hon trwy ddysgu proffesiynol ac fel proses barhaus o fewn ac ar draws ysgolion – ac mae deialog broffesiynol yn agwedd sylfaenol ar hyn.

Mae deialog broffesiynol i'r diben hwn yn rhoi cyfleoedd i arweinwyr ac ymarferwyr rannu a myfyrio ar effaith eu cwricwlwm ysgol, eu profiadau o'r broses ddysgu ac o gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Mae hyn yn eu galluogi i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac i gefnogi proses o welliant parhaus. Mae hyn yn rhan o'r rhyngweithio sy'n digwydd bob dydd fel rhan o'r dysgu a'r addysgu, ac mae'n adeiladu ar y rhyngweithiadau hynny, e.e. dysgwr i ddysgwr, dysgwr i ymarferydd ac ymarferydd i arweinydd. Bydd yn helpu arweinwyr ac ymarferwyr i ddeall yr effaith y mae dysgu ac addysgu yn ei chael ar bawb sy'n gysylltiedig.

Yn ystod y broses o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, dylai arweinwyr ac ymarferwyr ystyried:

- sut mae eu hysgol wedi cynllunio ei chwricwlwm a'i threfniadau asesu i adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd, gydag arweiniad gan y disgrifiadau dysgu
- yr effaith a gafodd hyn ar addysgu
- yr effaith a gafodd hyn ar ddysgwyr unigol a sut y dangosir hyn yn eu cynnydd a'u deilliannau dysgu
- y broses ddysgu, h.y. sut mae eu dysgwyr yn dysgu.

Dylai'r mewnwelediad a'r ddealltwriaeth a geir o ganlyniad i'r ddeialog broffesiynol hon lywio proses hunanwerthuso pob ysgol, gan helpu i ddiffinio blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer arweinyddiaeth, cynllunio'r cwricwlwm a dysgu ac addysgu.

Deialog broffesiynol o fewn ysgol

Rhaid i ysgolion ddatblygu a sefydlu proses a strwythurau sy'n galluogi'r staff yn eu hysgol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd fel y'i mynegir yn yr egwyddorion cynnydd, gan ddefnyddio'r disgrifiadau dysgu a chanllawiau eraill Cwricwlwm i Gymru. Fel rhan o hyn, dylai ysgolion sicrhau bod pob ymarferydd yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol o fewn eu hysgol i'r diben hwn. Dylai'r broses hon hefyd sicrhau bod y ddealltwriaeth hon yn cael ei hadlewyrchu wrth ddatblygu a mireinio cwricwlwm yr ysgol ac arferion dyddiol.

Dylai hon fod yn broses barhaus sydd yn rhoi ystyriaeth i'r cwricwlwm ysgol yn ei gyfanrwydd.

Deialog broffesiynol rhwng ysgolion

Dylai deialog broffesiynol rhwng ysgolion er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd hefyd fod yn broses barhaus sy'n rhoi ystyriaeth i'r cwricwlwm cyfan. Dylai adeiladu ar y ddeialog broffesiynol sydd wedi digwydd mewn ysgolion, a dylai alluogi ysgolion i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Rhaid i ysgolion weithio gyda'u clwstwr i roi trefniadau a phrosesau priodol ar waith i gefnogi hyn, gyda phob ysgol yn cymryd rhan yn gyfartal. Dylai ysgolion y clwstwr weithio gyda'i gilydd i sefydlu'r ffyrdd mwyaf effeithiol o weithio.

Dylai ysgolion berthyn i o leiaf un grŵp arall yn ogystal â'u clwstwr, at ddibenion datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Disgwylir i ysgolion uwchradd sicrhau eu bod yn aelod o grŵp sydd ag o leiaf un ysgol uwchradd arall ynddo. Mae hyn er mwyn cael mwy o gysondeb yn y ddealltwriaeth o gynnydd ar draws rhan olaf y continwmm dysgu a sicrhau bod ysgolion yn cymryd rhan mewn trafodaethau ystyrlon sy'n cwmpasu holl ystod y continwmm 3 i 16.

Deialog broffesiynol yn cynnwys lleoliadau a ariennir nas cynhelir

Dylai ysgolion annog darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir i ddod yn aelodau o grŵp sydd â chylch gwaith i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ac i gymryd rhan yn y ddeialog broffesiynol sy'n digwydd fel rhan o'r broses hon. Bydd hyn yn helpu lleoliadau ac ysgolion i ddeall cynnydd dysgwyr ar draws y continwmm 3 i 16 cyfan mewn ffordd sy'n briodol i ddysgwyr ar bob cam o'u datblygiad.

Mewnbynnau i gefnogi deialog broffesiynol

Gall deialog broffesiynol at ddibenion datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ystyried y mewnbynnau canlynol.

- Enghreifftiau o gwricwlwm yr ysgol.
- Enghreifftiau o gynllunio dosbarth.
- Enghreifftiau o weithgareddau dysgu ac addysgu.
- Enghreifftiau o ddysgu – y prosesau a'r deilliannau.
- Enghreifftiau o gymorth ychwanegol a ddarperir.

Ni ddylid cynhyrchu enghreifftiau yn benodol ar gyfer y broses hon.

Cynnwys y dysgwr

Dylai dysgwyr gael mewnbwn i'r broses ddeialog broffesiynol, lle bo'n bosibl, drwy ddarparu tystiolaeth o'u cynnydd a'u hunanfyfrio. Dylid ceisio mewnbwn gan ystod o ddysgwyr a'u cynnydd dysgu unigol.

Deilliannau

Dylai ysgolion sicrhau bod deilliannau'r broses hon yn cael eu hystyried fel rhan o'u proses hunanwerthuso barhaus a'u bod yn cael eu defnyddio i fyfyrion ar eu proses o gynllunio'r cwricwlwm.

Rôl yr awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol

Mae gan yr awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol rôl bwysig o ran sicrhau bod pob ymarferydd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol ystyrlon at ddibenion datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Dylai'r rôl hon fod yn gefnogol, gan adeiladu ar yr arferion sydd eisoes wedi'u sefydlu ar lefel ysgol a chlwstwr, ac ni ddylai ymwneud ag atebolrwydd allanol. Bydd ganddynt hefyd rôl bwysig wrth helpu i nodi a rhannu arferion da.

Cefnogi taith dysgwyr ar hyd y continwrm 3 i 16

Dylai'r dysgwr fod yn ganolog i'r broses pontio. Mae pontio effeithiol yn golygu cefnogi pob dysgwr ar hyd y continwrm dysgu, wrth iddynt symud rhwng gwahanol grwpiau, dosbarthiadau gwahanol, blynyddoedd gwahanol a lleoliadau gwahanol. Dylai sicrhau lles pob dysgwr fod yn rhan bwysig ac annatod o'r broses, gan gydnabod anghenion unigolion, a chefnogi parhad a chynnydd yn eu dysgu. Mae'r ddealltwriaeth a geir o bob dysgwr unigol drwy asesu yn hanfodol i gefnogi'r broses hon.

Cynllunio pontio

Dylai penaethiaid a chyrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau pontio'n cael eu hystyried pan fydd cwricwla ysgol yn cael eu cynllunio. Mae hyn yn cynnwys datblygu a sefydlu proses gadarn ac effeithiol ar gyfer cefnogi dysgwyr ar hyd y continwrm 3 i 16. Dylai hon fod yn broses barhaus, sy'n cydnabod anghenion amrywiol pob dysgwr ac sy'n cefnogi pob unigolyn yn ei daith ddysgu.

Er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr o fewn eu clwstwr, rhaid i ysgolion gynllunio ar y cyd i gefnogi cynnydd dysgwyr, gan ganolbwyntio ar gyfathrebu effeithiol rhwng ymarferwyr, dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Dylai hyn adeiladu ar unrhyw gynllunio ar gyfer cwricwlwm ac asesu sy'n digwydd ar draws y clwstwr.

I gefnogi'r broses hon a sicrhau lles dysgwyr:

- dylai ysgolion cynradd ymgysylltu ag arweinwyr lleoliadau a ariennir nas cynhelir
- dylai ysgolion cynradd ac uwchradd ymgysylltu â'i gilydd
- dylai ysgolion cynradd ac uwchradd ymgysylltu ag arweinwyr unedau cyfeirio disgyblion.

Anogir ysgolion uwchradd hefyd i ymgysylltu ag arweinwyr lleoliadau ôl-16, e.e. sefydliadau addysg bellach.

Dylai gwybodaeth a rennir fel rhan o'r broses bontio ganolbwyntio ar anghenion a lles cyffredinol y dysgwr. Yn ogystal, dylid darparu darlun clir, holistaidd o gynnydd y dysgwr ar draws y cwricwlwm ysgol i gefnogi eu taith barhaus ar hyd y continwrm dysgu. Dylid darparu hyn ar y cyd â hanes unrhyw her neu gymorth ychwanegol a ddarperir.

Cynnwys y dysgwr

Dylai dysgwyr gael eu cynnwys yn y broses bontio er mwyn rhoi cipolwg ar yr hyn sy'n eu cymell, beth sy'n well ganyddynt, sut maent yn dysgu, pa rwystrau a all fod i'w dysgu, beth yw eu cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, yn ogystal ag awgrymu camau nesaf posibl.

Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr

Mae cyfathrebu'n effeithiol a pharhaus â rhieni/gofalwyr yn ffordd bwysig o feithrin perthnasoedd cadarnhaol er mwyn ymgysylltu a chynnal deialog bwrpasol ac ystyrlon. O'u gwneud yn dda, gall yr ymgysylltiadau hyn helpu i gynorthwyo cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni/gofalwyr i ddeall sut y gallant gefnogi dysgu o fewn amgylchedd yr ysgol a'r tu allan iddo. Dylid hefyd ystyried pobl eraill sy'n bwysig i ddysgwr, fel eu heiriolwr neu weithiwr cymdeithasol.

Dylai ysgolion ddatblygu a gweithredu prosesau i gefnogi cyfathrebu effeithiol dwyffordd ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr. Wrth ddatblygu'r prosesau hyn, dylid ystyried defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu gwahanol, e.e. wyneb yn wyneb, digidol, ysgrifenedig, ac ati.

O ran gwybodaeth am ddysgwyr unigol, penderfyniad i ysgolion yw beth i'w rannu â rhieni/gofalwyr, a sut a phryd yn ystod y flwyddyn ysgol i wneud hynny. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal i sicrhau bod unrhyw wybodaeth a ddarperir yn cael ei darparu mewn modd amserol, agored a theg. Dylid hefyd rannu gwybodaeth am unrhyw gymorth, ymyriadau neu anghenion ychwanegol.

Cynnwys y dysgwyr

Dylai penaethiaid sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i gyfrannu at y broses gyfathrebu. Lle bo'n bosibl, dylid galluogi dysgwyr i gasglu enghreifftiau o'u dysgu, mynegi eu cynnydd a'u cyflawniadau eu hunain, a chyfleu eu dyheadau a'u safbwyntiau ar y camau nesaf yn eu dysgu. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod yn broses gyfathrebu tair ffordd rhwng y dysgwyr, eu rhiant(rhieni)/ gofalwr(gofalwyr) ac ymarferwyr.

Cynlluniau ychwanegol dysgwyr

Os oes gan ddysgwr gynllun dysgu unigol, gan gynnwys cynllun datblygu unigol (CDU) ffurfiol, dylai'r broses gyfathrebu ac ymgysylltu ystyried hyn a sicrhau bod y rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r cynllun, ei gynnwys ac unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod angen iddynt ei ddarparu. Dylid creu CDU ffurfiol ar y cyd â'r dysgwr a/neu'r rhiant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr).

Adrodd ar gynnydd dysgwyr

Fel rhan o'r broses gyfathrebu ac ymgysylltu hon, rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn adrodd yn ffurfiol i rieni/gofalwyr o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Dylid amseru hyn er mwyn gallu cynnal trafodaethau pellach rhwng ymarferwyr, y dysgwr a'u rhieni/gofalwyr ac er mwyn i'r camau nesaf gael eu rhoi ar waith.

Rhaid i'r adroddiad ffurfiol gynnwys yr wybodaeth ganlynol am bob dysgwr:

- eu lles cyffredinol
- eu cynnydd o ran dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan
- y camau nesaf sydd eu hangen i gefnogi eu cynnydd
- eu presenoldeb.

Gall ysgolion ddewis cyfathrebu'r wybodaeth uchod drwy fwy nag un adroddiad neu ar fwy nag un achlysur yn ystod y flwyddyn os dymunant.

Dylai'r wybodaeth a ddarperir gael ei theilwra'n unigol i'r dysgwr a dylai ganolbwyntio ar gefnogi ei ddatblygiad a'i gynnydd. Ni ddylai gynnwys disgrifiadau o'r pynciau a'r gweithgareddau dysgu y mae'r dysgwr wedi'u cyflawni, oni bai bod hyn i ddarparu cyd-destun. Er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa darged yn gallu deall yr wybodaeth yn hawdd, dylai fod yn gryno ac yn rhydd o jargon.

Er bod darparu adroddiadau ar asesiadau personol i rieni/gofalwyr yn ofyniad statudol, elfen fach yn unig ydyw o'r hyn y gellir ei ddarparu, a dylid ei ystyried yng nghyd-destun y broses gyfathrebu ac ymgysylltu ehangach â rhieni/gofalwyr.

Geirfa

Adweithiau	(Reactions) Proseau cemegol lle y bydd sylweddau yn gweithredu o ganlyniad i'w gilydd ac yn cael eu newid i wahanol sylweddau, neu lle y bydd un sylwedd yn newid i sylweddau eraill.
Aflinol	(Non-linear) Mae'n cyfeirio at fynegiant algebraidd nad yw'n fynegiant llinol.
Agweddau	(Attitudes) Ffordd sefydledig o feddwl neu deimlo am rywbeth.
Algebraidd	(Algebraic) Mae algebra yn defnyddio gwrthrychau sydd heb fod yn rhifau, yn lle gwerthoedd anhysbys, er mwyn gwneud cyfrifiadau rhifiadol.
Algorithm	(Algorithm) Proses neu gyfres o gyfarwyddiadau i'w dilyn wrth wneud cyfrifiadau neu ymgymryd â gweithrediadau datrys problemau eraill, yn enwedig gan gyfrifiadur.
Amlieithog	(Multilingual) Yn cyfeirio at wybodaeth am sawl iaith neu bresenoldeb sawl iaith o fewn cymdeithas benodol ynghyd a'u defnyddio. Bydd gallu dysgwyr yn amrywio yn yr ieithoedd hyn a gallant eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol gyda phobl wahanol.
Anarferiant bwriadus	(Planned obsolescence) Cynllunio neu ddylunio cynnyrch ag oes wedi'i gyfyngu mewn modd artiffisial fel y bydd yn dod yn anffasiynol neu'n anweithredol ar ôl cyfnod penodol o amser.
Anenghreiffiau	(Non-examples) Nid yw'r rhain yn dilyn rheol neu ddiffiniad. Maen nhw'n cynnig mwy o wybodaeth am yr hyn sydd yn cael ei gynnwys, neu ddim yn cael ei gynnwys, mewn rheol neu ddiffiniad. Byddai anenghreiffiau triongl yn cynnwys sgwar a pholygon tair ochr agored.
Anhafaledd	(Inequality) Mae anhafaledd yn cynnwys dau fynegiad wedi eu gwahanu gan un o'r symbolau hyn: $<$, $>$, $\leq$ neu $\geq$. Mae'r symbol $<$ yn cynrychioli 'llai na'. Mae'r symbol $>$ yn cynrychioli 'mwy na'. Mae'r symbol $\leq$ yn cynrychioli 'llai na neu'n hafal i'. Mae'r symbol $\geq$ yn cynrychioli 'mwy na' neu'n hafal i'.
Ansoddol	(Qualitative) Mae data ansoddol yn mesur 'teipiau' a gallan nhw gael eu cynrychioli gan enw, symbol neu god rhif.
Araeau	(Arrays) Diagramau sy'n dangos swm llusoi fel arâe. Er enghraifft gall 5×4 gael ei ddangos trwy drefnu 20 o gownteri mewn 5 rhes a 4 colofn.
Arddull	(Style) Y ffordd y caiff rhywbeth ei wneud, ei gyfleu neu ei ddehongli.
Ardrawslin	(Transversal) Mae ardrawslin yn llinell sy'n croesi dwy linell arall.

Artist	(Artist) Person sy'n creu gwaith mewn unrhyw un o'r disgyblaethau, gan gynnwys y dysgwyr eu hunain.
Athronyddol	(Philosophical) Yn ymwneud ag astudio neu'n ymroi i astudio natur sylfaenol gwybodaeth, realiti a bodolaeth.
Bondiau rhif	(Number bonds) Llun yn y meddwl o'r berthynas rhwng rhif a'r rhannau sy'n cyfuno i'w greu.
Bydolygon	(Worldviews) Athroniaeth benodol bywyd neu gysyniad y byd. Yn y dyniaethau, gall bydolygon gynnwys athroniaethau hanesyddol, gwleidyddol a chymdeithasol, yn ogystal â bydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Gall bydolygon fod yn sefydliadol neu'n bersonol. Gall ffordd unigolyn o ddeall a byw yn y byd ei hun dynnu oddi ar un neu fwy o fydolygon sefydliadol.
CAMAU	(Camau) Mae CAMAU yn brosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow. Cefnogodd ddatblygiad cynnydd yng Nghwricwlwm i Gymru.
Canfyddiadau	(Perceptions) Y gallu i ddod yn ymwybodol o rywbeth trwy'r synhwyrau.
Casglu ystyr	(Infer) Casglu ystyr neu weithio rhywbeth allan o dystiolaeth a gwybodaeth.
Celfyddydau mynegiannol	(Expressive arts) Celf, cerddoriaeth, dawn, drama, ffilm a'r cyfryngau digidol.
Cilydd	(Reciprocal) Cilydd yw gwrthdro lluosol unrhyw rif, ac eithrio sero. (Nid oes cilydd gan sero.) Er enghraifft, cilydd 3 yw $1/3$ a chilydd $2/3$ yw $3/2$
Ciwiau	(Cues) Ystyr a gyflëir drwy ystumiau, iaith y corff neu drwy ffurfiau di-eiriau eraill.
Confensiynau	(Conventions) Set o ddisgwyliadau diwylliannol sy'n llywio ystyr ar gyfer cynulleidfa.
Corff o wybodaeth	(Body of knowledge) Yr wybodaeth sy'n siapio a llywio'r broses greadigol a ffyrdd o'i dadansoddi.
Cwestiynau eithaf	(Ultimate questions) Cwestiynau sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd.
Cyd-anghynhwysol	(Mutually exclusive) Dyma'r term am ddisgrifio digwyddiadau nad ydyn nhw'n gallu digwydd ar yr un pryd. Er enghraifft, wrth daflu dis, mae taflu 6 a thaflu 1 yn gyd-anghynhwysol.
Cydberthnasau ysbrydol	(Spiritual relationships) Ymdeimlad o gysylltiad â rhywbeth mwy na ni'n hunain; fel arfer yn gysylltiedig ag ymgais i ddod o hyd i ystyr mewn bywyd.

Cyd-destunau dilys	(Authentic contexts) Cyd-destunau sy'n ystyrlon i ddysgwyr a sy'n adlewyrchu profiadau go iawn.
Cyfanrif	(Integer) Mae cyfanrif yn unrhyw rif heb ddarn ffracsiynol neu ddegol, er enghraifft 8 neu -4. Mae cyfanrifau yn cynnwys y rhifau cyfan, sero, a negatif y rhifau cyfan.
Cyfatebiaeth graffem ffonem	(Grapheme-phoneme correspondence) Y cysylltiadau rhwng llythrennau, neu gyfuniadau o lythrennau (graffemau), a'r seiniau llafar (ffonemau) a gynrychiolir ganddyn nhw. Ffonem yw'r uned sain leferydd leiaf.
Cyfatebiaethau Graffem ffonem	(Grapheme-phoneme correspondence) Y cysylltiadau rhwng llythrennau, neu gyfuniadau o lythrennau (graffemau), a'r seiniau llafar (ffonemau) a gynrychiolir ganddyn nhw. Ffonem yw'r uned sain leferydd leiaf.
Cyfatebiaeth un-i-un	(One-to-one correspondence) Mae pob aelod o un set yn gysylltiedig gyda aelod o set arall.
Cyfathrebu gweledol	(Visual communication) Cyfleu syniadau a gwybodaeth mewn ffurfiau a welir, er enghraifft: arwyddion, animeiddio, darlunio a dyluniad graffeg.
Cyfernod	(Coefficient) Mae cyfernod yn rhif sy'n ymddangos cyn y newidyn neu'r newidynnau mewn term algebraidd. Yn y term $5x^2$, y cyfernod yw 5 a'r newidyn yw x. Yn y term y^3 , y cyfernod (sydd heb ei ysgrifennu) yw 1 a'r newidyn yw y.
Cyfiawnder cymdeithasol	(Social justice) Cyfiawnder o ran dosbarthiad cyfoeth, cyfleoedd a breintiau mewn cymdeithas.
Cyfresi o gyfarwyddiadau	(Sequence of instructions) Algorithm.
Cyfrifiannau	(Computations) Y broses o wneud un neu fwy o gyfrifiadau.
Cyfryngu	(Mediate) Cyfathrebu ystyr o un berson i berson arall o fewn iaith (aralleirio, crynhoi) neu o un iaith i iaith arall (cyfieithu, dehongli). Mae'r dysgwr yn cynorthwyo eraill i gyfathrebu gyda'i gilydd trwy rannu, esbonio neu gyfieithu gwybodaeth neu syniadau.
Cylch trin data dilyniannol	(Sequential data-handling cycle) Y broses o (1) nodi'r broblem a chynllunio; (2) casglu data o amrywiaeth o ffynonellau; (3) prosesu a chynrychioli'r data; (4) dehongli a thrafod y data; (5) gwerthuso'r broses.
Cylchoedd bywyd	(Life cycles) Dilyniant parhaus y newidiadau sy'n digwydd i organeb o ddechrau ei oes tan diwedd ei oes.
Cymhwysedd digidol	(Digital competence) Y set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n galluogi dysgwyr i ddefnyddio technolegau a systemau'n hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol.

Cymraeg fel iaith ychwanegol (CIY)	(Welsh as an additional language (WAL)) Yn cyfeirio at ddysgu ac addysgu Cymraeg pan nad Cymraeg na Saesneg yw mamiaith y dysgwr.
Cymudol	(Commutative) Deddf yw hon sy'n ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy'n rhoi'r un ateb, hyd yn oed os yw trefn y rhifau sy'n cael eu mewnbynnu yn newid. Mae adio a lluosu rhifau yn gymudol. Hynny yw, $a + b = b + a$ ac $a \times b = b \times a$.
Cynefin	(Cynefin) Dyma'r man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwrdd yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod. Nid dim ond man yn yr ystyr ffisegol neu ddaearyddol ydyw, serch hynny. Dyma'r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfio'r gymuned sy'n trigo yno.
Cynrychioli	(Represent) Sefyll dros rywbeth arall neu ar ei ran. Gall cynrychioliad fod yn haniaethol neu yn 'realistig' o ran y ffordd mae'n cael ei weithredu.
Cynrychioliad	(Representation) Disgrifiad neu bortread o rywun neu rywbeth mewn ffordd benodol.
Cysonyn	(Constant) Gwerth nad yw'n amrywio, er enghraifft rhif sefydlog.
Cystrawen	(Syntax) Y gyfres o reolau, egwyddorion a phrosesau sy'n llywodraethu strwythur brawddegau, gan gynnwys trefn geiriau.
Cysylltiadol	(Associative) Deddf yw hon sy'n ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy'n rhoi'r un ateb wrth eu grwpio mewn gwahanol ffyrdd. Mae adio a lluosu rhifau yn gysylltiadol, er enghraifft $2 \times (4 \times 3) = (2 \times 4) \times 3$
Cysyniadau sylfaenol mewn iaith	(Basic concepts in language) Geiriau sy'n dynodi lleoliad (er enghraifft: i fyny neu i lawr), cyfanswm (er enghraifft: mwy neu lai), disgrifiadau (er enghraifft: mawr neu fach), a theimladau (er enghraifft: hapus neu drist).
Cywair	(Register) Arddull yr iaith, gramadeg a'r geiriau a ddefnyddir ar gyfer sefyllfaoedd penodol.
Dadansoddi	(Analyse) Chwilio am batrymau, tybiaethau sylfaenol, rhesymau pam mae'r pwnc yn cael ei drin yn y fath fodd ac effeithiau hynny.
Dadgodio	(Decode) Defnyddio perthynas llythyren-sain i ynganu geiriau ysgrifenedig.
Darllenwyr rhugl	(Fluent readers) Mae darllenwyr rhugl yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddarllen gyda chyflymder, cywirdeb, mynegiant a dealltwriaeth.
Degolion cylchol	(Recurring decimals) Degolyn cylchol yw degolyn sydd â nifer anfeidrol o ddigidau. Enghraifft yw 0.133333333...

Dehongli	(Inference) Deall gwybodaeth neu farn nas nodir yn benodol.
Dehongliad	(Interpretation) Esboniad neu ffordd o egluro rhywbeth. Barn unigolyn sy'n seiliedig ar y dystiolaeth maen nhw wedi ei gweld.
Dilysrwydd	(Validity) I ba raddau y mae rhywbeth yn gadarn, yn rhesymol ac y mae sail dda iddo.
Diriaethol	(Concrete) Yn bodoli mewn ffurf faterol neu ffisegol; ddim yn haniaethol.
Diwydiannau creadigol a diwylliannol	(Creative and cultural industries) Sectorau yn yr economi sy'n defnyddio talent creadigol at ddibenion masnachol.
Dod i gasgliad	(Deduction) Cysylltu gwahanol ddarnau o wybodaeth benodol i weithio rhywbeth allan.
Dosbarthol	(Distributive) Cyfeirio at ddeddf sy'n nodi bod lluosï rhif efo grŵp o rifau sydd wedi'u hadio at ei gilydd, yr un peth ag adio pob swm lluosï ar wahân: $a(b + c) = a \times b + a \times c$.
Dwyieithog	(Bilingual) Mae dwyieithrwydd yn cyfeirio at wybod a defnyddio dwy iaith neu bresenoldeb dwy iaith o fewn cymdeithas benodol. Bydd gallu dysgwyr yn amrywio yn yr ieithoedd hyn a gallant eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol gyda phobl wahanol.
Dyfais ffisegol	(Physical device) Datrysiadau digidol, e.e. gliniaduron, cyfrifiaduron llechen, ffonau.
Dyfaliad	(Conjecture) Ffurio barn neu gasgliad yn seiliedig ar wybodaeth anghyflawn.
Dylanwadau cymdeithasol	(Social influences) Unrhyw broses lle y caiff agweddau, barnau, credoau neu ymddygiad person eu newid neu eu rheoli.
Dylunio cylchol	(Circular design) Cysyniad lle y caiff cynhyrchion eu dylunio er mwyn arbed neu ailddefnyddio adnoddau; gellir eu hatgyweirio yn hawdd a'u defnyddio am gyfnodau hwy.
Dyniaethau digidol	(Digital humanities) Defnyddio a chymhwyso offer, adnoddau a dulliau cyfrifiadurol a digidol wrth astudio'r dyniaethau.
Dysgu craidd	(Core learning) Y datganiadau am yr hyn sy'n bwysig mewn dysgu, yr egwyddorion cynnydd, a'r disgrifiadau dysgu ar gfer pob maes dysgu a phrofiad.
Ecosystemau	(Ecosystems) Cymunedau biolegol o organebau sy'n rhyngweithio a'u hamgylchedd ffisegol.
Egwyddor datblygiad cynnaladwy	(Sustainable development principle) Ymddwyn mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cyflawni, a

hynny heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion nhw.

Egwyddorion cynnydd	(Principles of progression) Datganiadau cynnydd sy'n seiliedig ar ymchwil. Defnyddir rhain i ddatblygu cynnydd yng Nghwricwlwm i Gymru. Maen nhw'n cynnwys datganiadau cyffredinol, a gellir dod o hyd iddyn nhw yn yr adran ar gynllunio eich cwricwlwm, a datganiadau ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad. Gyda'i gilydd maen nhw'n ffurfio'r Cod Cynnydd.
Egwyddorion dylunio	(Design principles) Yn y cyd-destun hwn mae'n golygu diffiniad, dadansoddi, dylunio, gweithredu, profi a chynnal a chadw.
Eirioli	(Advocate) Cefnogi achos neu bolisi penodol yn gyhoeddus.
Empathi	(Empathy) Y gallu i ddeall a rhannu teimladau rhywun arall.
Enwol	(Nominal) Rhif a ddefnyddir i enwi neu nodi rhywbeth ac nid fel gwerth neu safle arbennig. Er enghraifft, rhif bws neu rif ar gefn rhywun mewn tîm chwaraeon.
Er lles y gymdeithas	(Pro-social) Ymddygiad sy'n gadarnhaol ac o gymorth, ac wedi'i fwriadu i hybu derbyniad cymdeithasol a chyfeillgarwch.
Esbonyddion	(Exponents) Y nifer o weithiau mae rhif yn cael ei luosi gyda'i hun. Er enghraifft, mae 2 i'r 3ydd (ysgrifenedig fel hyn: 2^3) yn golygu: $2 \times 2 \times 2 = 8$
Esbonyddu	(Exponentiation) Y weithred o godi un maint i bŵer maint arall.
Etymoleg	(Etymology) Tarddiad a hanes gair neu eiriau.
Ffactorau	(Factors) Rhywbeth sy'n effeithio ar ddigwyddiad, penderfyniad neu sefyllfa. Yn y dyniaethau, mae ffactorau'n cael eu categoreiddio yn wleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, amgylcheddol neu grefyddol.
Ffigurau ystyrlon	(Significant figures) Pob un o ddigidau rhif sy'n cael eu defnyddio i'w gynrychioli i fanwl gywirdeb priodol, gan gychwyn gyda'r digid cyntaf nad yw'n sero.
Ffoneg	(Phonics) Astudiaeth o'r ffordd y mae symbolau'n cynrychioli'r seiniau sy'n ffurfio geiriau. Cyfres o ddulliau yw addysgu ffoneg ar gyfer dysgu darllen ac ysgrifennu cychwynnol, sy'n canolbwyntio ar y berthynas rhwng llythrennau a seiniau.
Ffracsiynau unedol	(Unit fractions) Ffracsiynau ble mae'r rhifiadur yn 1
Ffurf	(Form) Cyfrwng a strwythur mynegiant creadigol neu artistig, megis paentio, cerfluniaeth, dramâu, creu'n fyrfyr, dawnsia, caneuon a pherfformiadau.
Ffwythiant	(Function) Perthynas rhwng dwy set sy'n cysylltu aelod unigryw o'r ail set gyda phob aelod o'r set gyntaf.

Ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod	(Sources of wisdom and authority) Ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod yw'r ffynonellau amrywiol y mae pobl yn eu defnyddio wrth geisio deall rhywbeth neu wneud penderfyniadau am beth i'w wneud mewn bywyd. Gallai'r rhain gynnwys testunau allweddol, dysgeidiaethau, arweinwyr, ysgolion meddwl, athronwyr, ysgolheigion a gwyddonwyr.
Ffyrdd o weithio	(Ways of working) Sef: tymor hir, integreiddio, ymwneud, cydweithio ac ataliad.
Geirfa benodol i'r ddisgyblaeth	(Discipline-specific vocabulary) Termau a chysyniadau arbenigol sy'n briodol i bob un o'r disgyblaethau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol. Gall fod ystyr wahanol i eiriau cyffredin ar draws y gwahanol ddisgyblaethau.
Geiriau aml eu defnydd	(High-frequency words) Dyma'r geiriau sy'n codi amlaf mewn iaith. Mae llawer ohonyn nhw'n gyffredin iawn, er enghraifft: 'y', 'a', 'mae', ac mae eu hadnabod yn gallu helpu dysgwr i ddatblygu rhuglder.
Genre	(Genre) Arddull neu gategori o fynegiant creadigol (gan gynnwys llenyddiaeth) sy'n rhannu nodweddion penodol.
Goddefiant	(Tolerance) Amrywiaeth derbyniol mewn maint penodol.
Gofod	(Space) Cysyniad haniaethol sy'n cael ei ddiffinio gan batrymau, dosraniadau a chysylltiadau ffenomena. Mae gweithgaredd dynol yn rhoi ystyr i'r rhain. O fewn y dyniaethau, mae gofodau corfforol a gofodau cymdeithasol sydd o gymorth i ni ddeall y cydberthnasau rhwng amgylcheddau, pobloedd, diwylliannau ac economïau sy'n bodoli gyda'i gilydd a thros amser ar y Ddaear.
Gramadeg	(Grammar) Gramadeg yw'r ffordd y mae iaith yn gweithio i greu ystyr. Mae gan bob amrywiad o fewn iaith rôl i'w chwarae mewn cymdeithas. Dylai dysgwyr geisio dod yn wybodus yn ieithyddol am bob un ohonyn nhw, tra'n cydnabod bod gan yr iaith safonol le arbennig, am resymau hanesyddol a chymdeithasol.
Grymoedd	(Forces) Gwthio neu dynnu ar wrthrych o ganlyniad i'w ryngweithiad â gwrthrych arall.
Gwahaniaethu ffonemau	(Discriminate phonemes) Mae gwahaniaethu ffonem yn cyfeirio at y gallu i wahaniaethu rhwng y llafariad a'r cytseiniaid, a elwir hefyd yn ffonemau, sy'n ffurfio geiriau iaith.
Gwahaniaethu seiniau	(Discriminate sounds) Y lefel fwyaf sylfaenol o wahaniaethu clywedol yw clywed y gwahaniaeth rhwng seiniau yn ein hamgylchedd, er enghraifft: gallu adnabod sŵn car yn pasio ac ati.
Gwaith creadigol	(Creative work) Allbwn y broses greadigol.

Gweithredu'n gymdeithasol	(Social action) Yn ymwneud ag unigolyn neu grŵp o bobl yn cymryd camau bwriadol sy'n arwain at newid, neu y bwriedir iddyn nhw arwain at newid.
Gweithredydd	(Operator) Symbol (fel +, −, ×, ÷) sydd yn dangos gweithrediad.
Gwerthoedd	(Values) Egwyddorion neu safonau ymddygiad; barn unigolyn am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd.
Gwrthdro	(Inverse) Gwrthdro mathemategol yw troi rhywbeth yn ôl i'r gwrthwyneb. Gallwn feddwl am hyn yng nghyd-destun gweithrediadau mathemategol. Gwrthdro adio yw tynnu, er enghraifft: $5 + 6 = 11$. Gallwn wrthdroi hyn trwy dynnu: $11 - 6 = 5$. Felly, $5 + 6 - 6 = 5$
Gwybodaeth	(Knowledge) Ffeithiau, gwybodaeth a sgiliau wedi eu caffael trwy brofiad neu addysg; dealltwriaeth ddamcaniaethol neu ymarferol o ddisgyblaeth.
Gwybodaeth epistemig	(Epistemic) Yn ymwneud â gwybodaeth neu'r weithred neu'r ffyrdd o wybod.
Gwydnwch	(Resilience) Y gallu i ymateb yn gadarnhaol i drafferthion.
Haniaethol	(Abstract) Yn bodoli yn y meddwl neu fel syniad ond heb fodolaeth ffisegol neu ddiriaethol.
Hunanreoleiddio	(Self-regulate) Y gallu i ganolbwyntio sylw, rheoli emosiynau, a rheoli'r meddwl, ymddygiad a theimladau.
Hunanymwybyddiaeth	(Self-awareness) Dealltwriaeth ymwybodol o'ch cymeriad, teimladau, cymhellion a dymuniadau.
Iaith idiomatig	(Idiomatic language) Defnyddio geiriau ac ymadroddion mewn ffordd sy'n swnio'n naturiol i siaradwyr brodorol yr iaith, er enghraifft yn Gymraeg: fel arfer, o dro i dro; yn Saesneg: on the contrary, get over something; ac yn Ffrangeg: J'ai 10 ans.
Ideoleg	(Ideology) System o syniadau a delfrydau, neu gyfres o gredoau a nodweddiadau o unigolyn neu grŵp gymdeithasol, sy'n gallu ffurfio sail i theori neu bolisi megis economaidd neu wleidyddol.
Ieithoedd cartref	(Home languages) Ieithoedd, heblaw am Gymraeg a Saesneg, a ddefnyddir gan ddysgwyr y tu allan i amgylchedd yr ysgol.
Ieithoedd cymunedol	(Community languages) Ieithoedd, heblaw am Gymraeg a Saesneg, a ddefnyddir gan grŵp neu gymuned lleiafrifol o fewn lleoliad mwyafrifol.
Ieithoedd rhyngwladol	(International languages) Yn cyfeirio at ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg a ddysgir yn yr ysgol sy'n gallu cynnwys ieithoedd cymunedol, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol ac iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Lle	(Place) Safle, pwynt neu ran o ofod; lleoliad sydd â hunaniaeth ac ystyr wedi'i greu gan bobl.
Llenyddiaeth	(Literature) testunau llafar, ysgrifenedig a gweledol sy'n deillio o'r dychymyg creadigol megis barddoniaeth, drama, gwaith ffuglen a ffeithiol o wahanol gyfnodau a diwylliannau. Dylai'r gwaith fod yn ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn diddordeb dysgwyr yn ddeallusol ac yn emosiynol, i'w hannog i gael eu hysbrydoli, eu hysgogi a'u newid, ac i ymestyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd am lenyddiaeth.
Lleoliadau	(Settings) Darparwyr meithrin yng Nghymru heb gael eu cynnal, ond yn cael eu hariannu.
Llinol	(Linear) Mae'n cyfeirio at derm neu dermau algebraidd i'r pŵer 1 (nid yw'r 1 yn cael ei ysgrifennu fel arfer). Mae x , $4y$ a $-9z$ yn enghreifftiau o dermau llinol. Y gwrthwyneb i 'llinol' yw aflinol.
Lluosieithog	(Plurilingual) Yr wybodaeth, y defnydd a'r cysylltiad a wneir rhwng nifer o ieithoedd. Bydd gallu dysgwyr yn amrywio yn yr ieithoedd hyn, o ddealltwriaeth oddefol ac o eiriau unigol i ruglder lefel uwch. Gall y dysgwr wneud cysylltiadau rhwng ieithoedd, gwerthfawrogi'r berthynas rhyngddynt ac ymarfer eu defnyddio yn unigol neu gyda'i gilydd.
Lluosogol	(Pluralistic) Cyflwr neu system lle mae dau neu fwy o fydololygon, grwpiau, egwyddorion, ffynonellau awdurdod, ac ati, yn cydfodoli.
Llythrennedd	(Literacy) Set o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwrandao, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwrpas. Mae sgiliau llythrennedd yn ein galluogi i ddeall iaith ysgrifenedig a llafar, dehongli'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu neu ei ddweud, a dod i gasgliadau yn siliedig ar y dystiolaeth. Mae hefyd yn ymwneud â'r gallu i gyfathrebu yn rhugl, yn rymus ac yn ddarbwyllol.
Llywodraethu/Llywodraethiant	(Governance) Y systemau a'r ffyrdd y mae gwledydd, cymunedau a sefydliadau yn cael eu harwain a'u rheoli.
Mater	(Matter) Sylwedd ffisegol sy'n ffurfio defnyddiau.
Meddylfryd dylunio	(Design thinking) Proses iteraidd sy'n ceisio deall y defnyddiwr, herio tybiaethau ac ail-ddiffinio problemau mewn ymgais i nodi strategaethau a datrysiadau amgen na fydd yn amlwg yn syth gyda lefelau sylfaenol o ddeallusrwydd.
Meddylfryd systemau	(Systems thinking) Dull gweithredu holistaidd sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae cydrannau system yn berthnasol i'w gilydd.
Meintiol	(Quantitative) Mae data meintiol yn mesur gwerthoedd neu gyfrif ac maen nhw'n cael eu mynegi ar ffurf rhifau. Mae data meintiol yn ymwneud â newidynnau rhifiadol (er enghraifft: faint neu ba mor aml).

Mesurau canolduedd	(Measures of central tendency) Dyma'r cymedr, canolrif a modd.
Mesurau cyfansawdd	(Compound measures) Mae mesur cyfansawdd yn cyfuno dwy uned fesur wahanol, neu fwy, i ffurfio uned fesur newydd. Er enghraifft, gall pellter gael ei fesur mewn milltiroedd ac amser mewn oriau. Gallwn gyfuno'r mesuriadau yma i ffurfio'r mesur cyfansawdd cyflymder sy'n cael ei fesur yma mewn miltiroedd yr awr.
Mesurau gwasgariad	(Measures of spread) Mae mesurau ystadegol yn cael eu defnyddio i ddisgrifio amrywiad yn y sampl neu'r boblogaeth, er enghraifft: yr amrediad.
Metawybyddiaeth	(Metacognition) Y prosesau mae dysgwyr yn eu defnyddio i gynllunio, monitro ac asesu eu dealltwriaeth a pherfformiad wrth ddysgu.
Metawybyddol	(Metacognitive) Disgrifiad o'r prosesau mae dysgwyr yn eu defnyddio i gynllunio, monitro ac asesu eu dealltwriaeth a pherfformiad wrth ddysgu.
Model	(Model) Cynrychioliad o system, yn cynnwys y cysyniadau a ddefnyddir i helpu pobl i wybod, deall neu efelychu'r hyn y mae'r model yn ei gynrychioli.
Modelau mathemategol	(Mathematical models) Disgrifiadau o ddefnyddio cysyniadau ac iaith fathemategol. Gallan nhw helpu i egluro system, i astudio effeithiau gwahanol gydrannau ac i wneud rhagfynegiadau am ymddygiad.
Newidyn	(Variable) Mae newidyn yn symbol neu lythyren sy'n cynrychioli gwerth anhysbys, neu'n cynrychioli gwerth sy'n newid.
Normau cymdeithasol	(Social norms) Safonau cyffredin o fewn grŵp cymdeithasol mewn perthynas ag ymddygiad sydd er lles y gymdeithas neu'n briodol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol penodol, ac y bydd mynd yn groes iddyn nhw'n arwain at ganlyniadau cymdeithasol.
Offer a thechnegau	(Tools and techniques) Er enghraifft: ystyried cynnyrch sy'n bodoli eisoes, dadadeiladu, eu gwella a'u profi.
Offer a thechnolegau	(Tools and technologies) Amrywiaeth o ddyfeisiau ac offer digidol, a dyfeisiau ac offer nad ydyn nhw'n rhai digidol, sy'n hwyluso creadigrwydd.
Perthnasoedd adioli	(Additive relationships) Meintiau perthnasol sy'n gallu cael eu cysylltu trwy ddefnyddio adio neu/a thynnu.
Perthnasoedd lluosol	(Multiplicative relationship) Meintiau perthnasol sy'n gallu cael eu mynegi trwy ddefnyddio llusosi a rhannu.

Prawf	(Proof) Mae prawf mathemategol yn ddadl sy'n ddiddwytho datganiad y dylid ei brofi, o ddatganiadau eraill a wyddir eu bod yn wir.
Prifol	(Cardinal) Rhif sy'n dynodi maint (un, dau, tri ac ati), yn hytrach na rhif trefnol sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres (cyntaf, ail, trydydd, ac ati).
Priodiaith	(Idiolect) Ffordd unigryw o siarad person neu grŵp o bobl.
Profiad dilys	(Authentic experience) Profiad dysgu a chyd-destun bywyd go iawn.
Profiadau	(Experiences) Cyfuniad o wybodaeth a sgiliau mewn awyrgylch ddysgu er mwyn rhoi cymorth i'r dysgwyr ddangos cynnydd tuag at ddibenion y cwricwlwm.
Proses greadigol	(Creative process) Y dull a ddefnyddir i lunio gwaith creadigol.
Prototeipio manwl a bras	(High-fidelity and low-fidelity prototyping) Mae prototeipio bras yn ffordd gyflym o droi cysyniadau dylunio lefel uchel yn arteffactau diriaethol y gellir eu profi er mwyn gweld a ydynt yn ymarferol. Mae prototeipio manwl yn ddull hynod ymarferol, yn agos at y cynnyrch terfynol.
Rhagfarnau	(Biases) Teimlad cryf o blaid neu yn erbyn un grŵp o bobl, neu un ochr o ddadl, yn aml heb fod yn seiliedig ar farn deg.
Rhesymu cyfrannol	(Proportional reasoning) Datrys problemau sy'n cynnwys newid cyfrannol lle mae gan feintiau berthynas lluosol yn hytrach nac adiol.
Rhif cyfan	(Whole number) Mae'r rhifau 0, 1, 2, 3, 4, ac yn y blaen yn rhifau cyfan. Maen nhw'n debyg i gyfanrifau, ond nid yw rhifau cyfan yn cynnwys rhifau negatif. Nid yw rhifau cyfan â darnau ffracsiynol neu ddegolion dros ben.
Rhifedd	(Numeracy) Y defnydd o fathemateg i ddatrys problemau yn ein bywyd bywyd bob dydd.
Rhyng-berthnasau	(Inter-relationships) Disgrifio'r cysylltiadau a'r rhyngweithio rhwng ffenomena. Yn y dyniaethau, mae hyn yn cynnwys cysylltiadau rhwng ac o fewn disgyblaethau, dros amser, gofod, diwylliannau a chrefyddau.
Rhyng-ddibyniaethau	(Interdependencies) Disgrifio'r cydberthnasau, dibyniaeth a rhyngweithio rhwng ac o fewn amgylcheddau, ffenomena cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd.
Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY)	(English as an additional language (EAL)) Yn cyfeirio at ddysgu ac addysgu Saesneg pan nad Cymraeg na Saesneg yw mamiaith y dysgwr.

Segmentu a chyfuno	(Segment and blend) Segmentu: Torri yn rhannau unigol, fel gwahanu geiriau mewn brawddeg, gwahanu geiriau cyfansawdd, gwahanu sillafau mewn gair neu glywed ffonemau unigol mewn gair; Blendio: Mae blendio'n golygu cyfuno gyda'i gilydd seiniau cyfansoddol neu sillafau o fewn gair.
Seinweddau	(Soundscapes) Cyfeirio at amgylchedd acwstig sy'n cynwys synau naturiol (er enghraifft anifeiliaid, tywydd) a synau a grewyd gan bobl (er enghraifft: cerddoriaeth, iaith a sain a grewyd yn fecanyddol).
Sgiliau	(Skills) Y gallu i ymgymryd â gweithgareddau sy'n gofyn am ddefnyddio gwybodaeth, gan gynyddu mewn medrusrwydd a chymhwysedd.
[Corff o] sgiliau	(Body of skills) Y sgiliau sy'n siapio a llywio'r broses greadigol a ffyrdd o'i dadansoddi.
Sonig	(Sonic) Natur sŵn a chynhyrchu sain.
Symudiadau echddygol bras	(Gross motor movements) Sgiliau sy'n cynnwys defnyddio llawer o'r gyhyrau mawr ac sy'n gofyn i'r corff cyfan symud, e.e. rhedeg.
Symudiadau echddygol manwl	(Fine motor movements) Sgiliau sy'n gofyn am reolaeth gyhyrol gain a lle y bydd rhai rhannau penodol o'r corff yn symud o fewn ardal gyfyngedig er mwyn creu ymatebion cywir.
Syntheseiddio	(Synthesise) Asesu a threfnu ffeithiau, barn a syniadau o amrywiaeth o ffynonellau a'u dwyn ynghyd i roi dehongliad cyson a chydlynol.
System gwybodaeth ddaearyddol	(Geographical information system) System a gynlluniwyd i ddal, storio, ymdrin, ddadansoddi, rheoli a chyflwyno data gofodol neu ddaearyddol.
Tafodiaith	(Dialect) Yr amrywiaeth rhanbarthol neu gymdeithasol a geir mewn iaith sy'n cael ei hamlygu mewn ynganiad, gramadeg, neu eirfa.
Technegau	(Techniques) Dulliau penodol o gyflawni canlyniad creadigol.
Testunau amlfodd	(Multimodal texts) Testunau sydd â mwy nag un modd, megis print a delwedd (llonydd neu symud) neu brint, delwedd, sain a symudiad, i greu ystyr. Mae'r rhan fwyaf o'r testunau a ddefnyddiwn mewn bywyd bob dydd yn amlfodd, er enghraifft papurau newydd, cylchgronau, gwefannau, a safleoedd cyfryngau cymdeithasol.
Testunau creadigol	(Creative texts) Gwrthrychau neu gynnyrch artistig sy'n darparu llwyfan ar gyfer ystyr a mynegiant (unrhyw beth a gynhyrchir gan ddefnyddio dull creadigol, nid testunau ysgrifenedig yn unig).

Thechnolegau aflonyddgar	(Disruptive Technologies) Arloesedd sy'n newid yn sylweddol y ffordd y mae defnyddwyr, diwydiannau neu fusnesau'n gweithio. Er enghraifft, e-fasnach, technolegau symudol.
Trawsieithu	(Translanguaging) Arfer addysgeg yw trawsieithu sy'n golygu symud rhwng dwy iaith ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn yr un gweithgaredd. Mae'r dysgwr yn derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall.
Trefnol	(Ordinal) Rhif sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres yw rhif trefnol. Er enghraifft: cyntaf (1af), ail (2il), trydydd (3ydd), pedwerydd (4ydd), degfed (10fed), ugeinfed (20fed).
Trinolion	(Manipulatives) Offer ffisegol ar gyfer addysgu, sy'n ysgogi dysgwyr yn weledol ac yn ffisegol gan ddefnyddio gwrthrychau fel darnau arian, blociau, rhodenni, posau, ac yn y blaen.
Ugeiniol	(Vigesimal) Yn draddodiadol roedd y system rhifau yn Gymraeg, fel gydag ieithoedd Celtaidd eraill a rhai ieithoedd Ewropeaidd, yn defnyddio sail o 20 yn hytrach na'r sail fwy cyffredin o 10. Er enghraifft, yn y system ugeiniol cyfeiriwyd at 14 fel pedwar ar ddeg (4+10), ond fel un deg pedwar (10+4) yn ddegol. Hefyd deugain (2x20) yw 40 yn ugeiniol ond pedwar deg (4x10) yn ddegol.
Unedau ansafonol	(Non-standard units) Mae unedau mesur ansafonol yn unedau mesur sydd ddim yn nodweddiadol, fel pensil, braich neu esgid.
Unfathiant	(Identity) Mae unfathiant yn dangos bod dau fynegiad wastad yn hafal i'w gilydd, dim ots beth yw gwerth unrhyw newidynnau sy'n cael eu defnyddio. Y symbol ar gyfer unfathiant yw $\equiv$. Sylwch ei fod yn defnyddio tair llinell lorweddol, nid dwy fel sydd gan hafalnod. Mae $2(x + 3) \equiv 2x + 6$ yn enghraifft o unfathiant.
Unradd	(First degree) Mae hafaliadau unradd yn hafaliadau ble mae'r ebsonydd uchaf yn 1. Mae hafaliadau llinol yn enghreifftiau o hafaliadau unradd.
Ymateb creadigol	(Creative response) Adwaith creadigol i sbardun.
Ymwybyddiaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemeg	(Phonological awareness and phonemic awareness) Fel arfer deellir ymwybyddiaeth ffonolegol fel y gallu i wahaniaethu rhwng nodweddion lleferydd, fel sillafau a ffonemau a gallu rhannu dechrau a diwedd gair. Is-set o ymwybyddiaeth ffonolegol yw ymwybyddiaeth ffonemig sy'n ymwneud â gallu'r gwrandawr i wahaniaethu a thrin yr elfennau lleiaf, ystyrlon o sain mewn geiriau.
Ysbrydolrwydd	(Spirituality) Mae ysbrydolrwydd yn ymwneud â'r ysbryd dynol a'r hyn sydd y tu hwnt i'r arferol. Gall greu ystyr a phwrpas mewn bywyd. Gall ysbrydolrwydd gynnwys crefydd, ond nid yw o reidrwydd yn gwneud hynny. Gall datblygiad ysbrydol yn arwain at dwf mewn ymwybyddiaeth o'r hunan mewn perthynas ag eraill, y byd ac, i rai pobl, mewn perthynas â grym uwch neu realiti Eithaf.

Ysgolion	(Schools) Ysgolion a gynhelir yng Nghymru sy'n cael eu hariannu.
Ystyriaethau moesegol	(Ethical considerations) Yn ymwneud ag egwyddorion moesegol a moesol.
Ystyriaethau moesegol a chyfreithiol	(Ethical and legal considerations) Ystyriaeth o ganlyniad moesegol, cyfreithiol a diwylliannol cynnyrch creadigol yn nhermau ei gynhyrchiad a'i effaith artistig bosibl.